




Gweithio mewn Clystyrau yng Nghymru

Awst 2025



Cliciwch ar BWRDD IECHYD i weld gwybodaeth unigol y Bwrdd



Cynnwys

Croeso	04
Gwaith Clwstwr yng Nghymru	16
Bwrdd Iechyd yng Nghymru	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)	08
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)	48
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)	104
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)	136
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD)	166
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)	190
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)	206
Y Defnydd o Gronfeydd y Cystyrau	240
Buddsoddiad Ychwanegol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	242



Cliciwch i ddychwelyd i dudalen **CARTREF Y BWRDD IECHYD**

Cliciwch ar GARTREF BWRDD IECHYD i ddychwelyd i'r dudalen **ARDAL**

Elfennau rhyngweithiol wedi'u hesbonio



Ciciwch i'r dudalen **GARTREF**



Cliciwch i'r dudalen **FLAENOROL**



Cliciwch i'r dudalen **NESAF**

Croeso



Mae diwylliant cydweithredol ac arweinyddiaeth amlbroffesiynol leol yn rhan greiddiol o gyflawni'r weledigaeth a nodir yn 'Cymru Iachach'.

Mae'r Blwyddlyfr 2025 hwn unwaith eto'n dathlu canlyniadau cydweithredu ac arweinyddiaeth ar lefel y Clystyrau, lle mae atebion lleol wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion iechyd a llesiant cymunedau lleol yn fwy effeithiol.

Mae'r hyn y gall gwaith Clwstwr ei gyflawni ym mhob cwr o Gymru trwy fanteisio ar sgiliau a phrofiadau ein gweithlu cyfan, ac ymgysylltu a chysylltu â chymunedau, wedi fy nghalonogi ac wedi creu argraff arnaf.

Rwy'n deall yr heriau y mae pawb sy'n gweithio yn y system iechyd a gofal yn eu hwynebu bob dydd wrth ddiwallu lefelau enfawr o alw ac, ar yr un pryd, ddod o hyd i ffyrdd o ailgydbwysu'r system fel bod y rhan fwyaf o'r gofal a gynigir ganddynt wedi'i gynllunio i atal ac oedi iechyd a llesiant gwael, ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i gefnogi ein poblogaeth sy'n heneiddio i gadw'n iach a byw'n annibynnol cyhyd â phosibl.

Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi'r ymrwymiad cyffredin yn y Clystyrau i ddysgu a datblygu'n barhaus trwy Adolygiadau gan Gymheiriaid a Hunanfyfyrion ac rwy'n sylweddoli'r gwerth y mae hyn yn ei ddarparu i'r system ehangach.

Gallwn oll gyflawni mwy trwy gydweithio. Er mwyn cynorthwyo gwasanaethau i gydweithio trwy'r Clystyrau, mae Llywodraeth Cymru yn darparu £20 miliwn yn rheolaidd i'r Clystyrau benderfynu sut i'w fuddsoddi, er enghraifft profi a gwerthuso dulliau newydd.

Rwyf am weld Gweithrediaeth y GIG a'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth ar lefel genedlaethol, a byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar lefel leol, yn gwneud mwy i ddilyn yr esiampl hon i fanteisio ar botensial y Clystyrau.

Mae hyn yn gofyn am ymrwymiad parhaus gan fyrdau iechyd ac awdurdodau lleol i reoli iechyd y boblogaeth, ac iddynt weithio gyda'i gilydd a chyda'r Clystyrau trwy'r Grwpiau Cynllunio Traws-Glwstwr i gymryd datblygiadau arloesol llwyddiannus a'u hymgorffori yn ein systemau, gan ryddhau arian y Clystyrau i archwilio syniadau newydd.




Rwyf am i Glystyrau gael eu cefnogi i archwilio a sefydlu modelau mentrau cymdeithasol, fel y gall y Grwpiau Cynllunio Traws-Glwstwr eu defnyddio i gomisiynu gofal rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r dull gweithredu hwn sy'n cael ei arwain gan anghenion y boblogaeth yn hanfodol i helpu i fynd i'r afael â'r bwlch annerbyniol mewn disgwyliad oes iach rhwng ein cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig.

Edrychaf ymlaen at weld y Clystyrau yn parhau i dyfu a ffynnu.

Jeremy Miles MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol



Mae gan Gymru ystod eang o wasanaethau iechyd a gofal, ond er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio mewn modd effeithiol mae'n bwysig ein bod yn ystyried sut y mae pob agwedd wedi'i chysylltu i ddarparu gofal a chymorth di-dor ac effeithlon i'n poblogaeth.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dwyn ynghyd byrddau iechyd, awdurdodau lleol, a'r trydydd sector i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal.

Mae'r dull Clwstwr yn rhoi ffocws i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar brofiad cymunedau go iawn. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u cynllunio i fod yn ddigon bach i ganiatáu dadansoddiad manwl iawn o anghenion ac i gofnodi profiadau defnyddwyr y gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol ym mhob cymuned.

Rydym bellach yn cynllunio ac yn darparu gofal trwy 60 o ardaloedd lleol, gan ddod â'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio i gymunedau ynghyd, i adolygu anghenion a phrofiadau lleol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol. Caiff Clystyrau eu llywio gan arbenigedd proffesiynol (a alluogir trwy Gydweithredfeydd Proffesiynol) ac maent yn dylanwadu ar benderfyniadau strategol ynghylch newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, trwy Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr.

¹ [Cymru Iachach](#)

² [Cyfraniad gofal sylfaenol at systemau iechyd ac iechyd](#)

Clystyrau

Clystyrau yw'r grwpiau amlbroffesiynol sy'n ystyried anghenion lleol, yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n fwy effeithiol, ac yn cynllunio dulliau gweithredu newydd. Mae Cydweithredfeydd Proffesiynol yn darparu cynrychiolaeth i grwpiau'r Clystyrau iddynt weithio gyda chyd-weithwyr yn y Byrddau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector i asesu holl anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth leol (sydd fel arfer rhwng 25,000 a 100,000 o bobl), sy'n cynnwys dadansoddiad o'r Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth.

Mae'r Clystyrau'n darparu'r profiad lleol a dealltwriaeth o'r cyd-destun a all fod yn hanfodol ar gyfer datblygu atebion lleol y gellir eu cyflawni.

Mae gan y Clystyrau gyllidebau bach i brofi dulliau newydd o fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol. Mae'r aelodaeth amlbroffesiynol, amlsector yn galluogi'r clystyrau i fynd i'r afael â'r materion mwy cymhleth a heriol sy'n gofyn am ymateb cydweithredol.

Cydweithredfeydd Proffesiynol

Dyma'r mecanweithiau y mae practisau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, practisau Deintyddol, Fferyllfeydd Cymunedol, practisau Optometreg, Nyrsys Cymunedol, y Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, ac eraill yn eu defnyddio i gwrdd yn eu grwpiau proffesiwn-benodol ar draws ôl troed y clwstwr, i ystyried ansawdd a diogelwch gwasanaethau lleol a rhannu arferion da.

Mae'r Cydweithredfeydd Proffesiynol hefyd yn ystyried yr ymateb lleol i strategaethau cenedlaethol ar gyfer eu priod broffesiwn, gan gynllunio atebion lleol yn seiliedig ar eu gwybodaeth fanwl a'u harbenigedd.

Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr

Mae'r Clystyrau'n casglu cyfoeth o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd. Daw cynrychiolwyr y clystyrau ynghyd mewn Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr, ar lefel ôl troed poblogaeth y sir, i gydweithio â chynrychiolwyr y bwrdd iechyd, yr awdurdod lleol, arbenigwyr iechyd y cyhoedd, a chynllunwyr lleol i ystyried gwasanaethau a gynllunnir ar lefelau sirol, rhanbarthol/y bwrdd iechyd, neu hyd yn oed yn genedlaethol.

Mae'r Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr hefyd yn darparu'r ôl troed lleol ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mewn modd tactegol. Mae'r Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr yn cytuno ar asesiad o anghenion poblogaeth y sir a chynllun o ran y gwasanaethau y mae eu hangen, gan wneud defnydd doeth o'r holl gyllid, y gweithlu, ac adnoddau eraill.

Gall hyn gynnwys comisiynu gwasanaethau sylfaenol a chymunedol ychwanegol, gan gynnwys prif-ffrydio prosiectau llwyddiannus y Clystyrau. Rhaid i asesiadau o anghenion a chynlluniau'r Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr lywio, a chael eu llywio, gan asesiadau o anghenion ar lefel ranbarthol (sy'n un o swyddogaethau statudol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol), a bydd y dadansoddiad manwl a'r profiadau lleol a geir yng nghynlluniau'r Clystyrau yn eu gwella'n fawr.

Y Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr sy'n darparu'r cysylltiad rhwng systemau iechyd gofal sylfaenol ac eilaidd a rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, i symud adnoddau tuag at atal, ymyrryd yn gynnar, ac ymateb yn fwy effeithiol i anghenion cymhleth unigolion eiddil ac agored i niwed, gan adeiladu capasiti'r gwasanaethau sylfaenol a chymunedol i gefnogi'r nodau strategol hynny.

Bydd llwyddiant y model hwn yn dibynnu ar gydnabyddiaeth gan y sefydliad bod systemau gofal sylfaenol a chymunedol cryfach yn ganolog i gyflawni Cymru Iachach ac i hyfywedd y system iechyd a gofal ehangach².

O'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, trwy'r Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr, i ôl troed y 60 o Glystyrau a'u Cydweithredfeydd Proffesiynol ategol, mae'r ffocws ar iechyd a llesiant y boblogaeth yn creu diben cyffredin sy'n cysylltu'r holl bartneriaid.

Mae ein dull gweithredu yn ymwneud â gwelliant parhaus, annog myfyrdod, a datrys problemau ar bob lefel. Mae'r ffeithlun yn dangos sut yr ydym yn annog dysgu a datblygu ar bob lefel, gan sicrhau bod y system gyfan wedi'i chysylltu i archwilio a phrofi dulliau newydd ac i roi atebion llwyddiannus ar waith.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)

Blaenau Gwent
(Dwyrain a Gorllewin)

Caerffili
(Dwyrain, Gogledd a De)

Trefynwy
(Gogledd a De)

Casnewydd
(Dwyrain a Gorllewin)

Torfaen
(Gogledd a De)



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Lloyd Hambridge
Cyfarwyddwr Rhanbarthol

Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau
Cymunedol, a Gofal Cymhleth a Hirdymor

Croeso i rifyn 2025 o adroddiad Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (RGCs) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sef ein terminoleg leol ar gyfer clystyrau. Ers y cyhoeddiad diwethaf yn 2019, rydym wedi parhau i esblygu ac addasu i ddiwallu'r newid cyson yn anghenion ein cymunedau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae ein Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn parhau i fod wrth wraidd ein strategaeth i ddarparu gofal integredig sy'n canolbwyntio ar y claf ac yn seiliedig ar leoedd ledled Gwent. Maent yn dwyn ynghyd ystod amrywiol o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol, gan gynnwys Meddygon Teulu, Deintyddion ac Ymarferwyr Optometrig, Fferyllwyr, Nyrsys Cymunedol, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol. Trwy gydweithio, mae'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu mewn modd gwell a mwy effeithlon, a'i deilwra i anghenion unigryw pob cymuned.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi wynebu heriau digynsail, yn enwedig mewn cyswllt ag effaith y pandemig COVID-19 byd-eang ac anghydraddoldebau iechyd sy'n ehangu. Mae ein Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wedi bod yn allweddol yn ein hymateb, gan ddarparu cymorth a gwasanaethau hanfodol i'n poblogaeth. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu cyflawniadau a chynnydd ein Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, ac yn arddangos ymroddiad a gwaith caled ein timau.



Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu cysondeb y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth â'n cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol wrth i ni ymdrechu i wella canlyniadau iechyd a hybu llesiant unigolion a chymunedau ar hyd a lled Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r nodau hyn ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

- **Darparu Gofal Seiliedig ar Leoedd:** datblygu dull gofal seiliedig ar leoedd, gan deilwra ein gwasanaethau i anghenion a nodweddion penodol ein cymunedau.
- **Gweithredu Iechyd a Gofal Seiliedig ar Werth:** blaenoriaethu'r canlyniadau sydd bwysicaf i gleifion ac ymdrechu i ddarparu gofal uchel ei safon sy'n darparu'r gwerth mwyaf, a hynny trwy wella canlyniadau iechyd a phrofiadau cleifion, a sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau ar yr un pryd.
- **Hybu Iechyd Ataliol:** canolbwyntio ar fesurau iechyd ataliol, gan gynnwys addysg iechyd, ymyriad cynnar, a mentrau cymunedol.
- **Cryfhau Prosesau Datblygu'r Gweithlu:** cefnogi datblygiad proffesiynol ein gweithlu, gan sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r adnoddau gofynnol i ddarparu gofal uchel ei safon.
- **Cynaliadwyedd a Chydnerthedd:** adeiladu system iechyd gynaliadwy a chadarn a all addasu i heriau'r dyfodol a pharhau i ddarparu gofal o ansawdd uchel.
- **Croesawu Iechyd Digidol:** buddsoddi mewn technolegau iechyd digidol i wella mynediad at ofal, hyrwyddo ymgysylltiad cleifion, a symleiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau.
- **Ehangu Gofal Integredig:** integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach, gan sicrhau gofal di-dor a chydgyssylltiedig i bob unigolyn, yn enwedig y rhai ag anghenion cymhleth.
- **Gwella Ymgysylltiad Cymunedol:** gweithio'n agos gyda'n cymunedau i ddeall eu hanghenion a'u dymuniadau, gan sicrhau bod ein gwasanaethau'n ymatebol ac yn ddiwylliannol briodol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



BPGI Blaenau Gwent (Dwyrain a Gorllewin)

Blaenau Gwent
Dwyrain a Gorllewin

Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Integredig Blaenau Gwent

Pwy ydym ni?

Mae Blaenau Gwent yn fwrdeistref sirol yn Ne-ddwyrain Cymru; mae'n ffinio â Sir Fynwy a Thorfaen i'r Dwyrain, Caerffili i'r Gorllewin a Phowys i'r Gogledd. Dyma'r fwrdeistref leiaf ledled Gwent; mae'n cwmpasu ardal ddaearyddol sy'n 109 km² (42.08 milltir sgwâr), yn gwasanaethu poblogaeth fras o 71.852, ac yn cynnwys pedair prif dref, sef Glynebwy a Thredegar yn y gorllewin, a Bryn-mawr ac Abertyleri yn y Dwyrain.

Cadeiryddion BPGI: Esther Phillpott (BIPAB) & Alyson Hoskins (BGBC) Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'r Trydydd Sector.

Mae'r preswylwyr yn cael gofal y tu allan i'r ysbyty/iechyd cyffredinol a gofal cymdeithasol gan gontractwyr annibynnol, yr awdurdod lleol a'r trydydd sector. Mae'r fwrdeistref yn cynnwys dwy ardal Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, yn y dwyrain a'r gorllewin, a'u diben yw gweithio ar draws sectorau, gan gynnwys y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, i ddatblygu a chefnogi gwasanaethau cynaliadwy seiliedig ar ôl troed lleol. Ar draws Blaenau Gwent, mae ei chontractwyr annibynnol yn cynnwys 10 o bractisau meddygon teulu, 28 o fferyllfeydd cymunedol, 10 o bractisau deintyddol a 9 practis optometrig.

Mae gwasanaethau'r awdurdod lleol yn cynnwys:

Gwasanaethau Plant – Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, tri thîm seiliedig ar ardal, Tîm 14+, y Tîm Lleoliadau, Tîm Cefnogi Newid, Fy Nhîm Cymorth, Tîm Amser Teulu a Thîm Anabledd. Gwasanaethau Oedolion – Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

Gwasanaethau cymunedol

- 6 Llyfrgell
- 14 o Swyddfeydd y Post
- 22 o Ysgolion Cynradd a 2 Ysgol Uwchradd
- 10 o Warchodfeydd Natur Leol
- 1 Llwybr Beicio Cenedlaethol
- 17 o Fannau Chwarae i Blant
- 1 Ganolfan Chwaraeon
- 14 o Gyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae Cymru iachach yn gosod targed o system iechyd a gofal cymdeithasol gwbl integredig, ac iddi ffocws allweddol ar ddull hunanofal sy'n seiliedig ar gryfderau, a'r gofal yn cael ei symud o'r ysbyty i'r gymuned. Rôl Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Blaenau Gwent yw gweithredu fel galluogwr ar gyfer gwreiddio dull system gyfan sy'n integreiddio gwasanaethau iechyd, a gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol, ac sy'n cael ei hwyluso gan gydweithrediad a phrosesau ymgynghori.

Mae yna fwrriad sylfaenol yn y Bwrdd Partneriaeth i wella'r gwasanaethau a'r gofal y mae preswylwyr yn eu cael, a hynny trwy i'r gwaith gael ei wneud mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Cefnogir hyn gan Fframwaith Gweithredu rhanbarthol Marmot, gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a'r model Trawsnewid Gofal Sylfaenol, a hynny trwy i waith seiliedig ar leoedd gael ei ddatblygu ar draws sefydliadau a strwythurau i alluogi ein hased mwyaf, sef ein gweithlu, i ganolbwyntio ar rymuso cymunedau i fod yn gydnerth a pherchnogi eu llesiant iechyd, gan dynnu'r pwysau oddi ar ein systemau o ganlyniad i ailgynllunio gwasanaethau. Gydol y 12-18 mis nesaf, bydd y ffocws yn benodol ar bobl hŷn, cefnogi ymyriad cynnar/prosesau atal cynnar, a gofal iechyd darbodus, a hynny er mwyn helpu i gryfhau ymateb y gymuned i'r gwasanaethau integredig a ddarperir.

Gydol y 12-18 mis nesaf, bydd y ffocws yn benodol ar bobl hŷn, cefnogi ymyriad cynnar/prosesau atal cynnar, a gofal iechyd darbodus, a hynny er mwyn helpu i gryfhau ymateb y gymuned i'r gwasanaethau integredig a ddarperir.

ASTUDIAETH ACHOS

Rhaglen brechu rhag y fflw i blant 2-3 oed – trwy gyfrwng ein grŵp gorchwyl a gorffen Gwella Canlyniadau Trwy Ymyriad Cynharach, bu modd i ni ehangu ein rhaglen fflw ar gyfer plant 2-3 oed ar draws ein holl leoliadau cyn ysgol a meithrin.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Adferwyd Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Blaenau Gwent a chaiff ei gynrychioli'n dda.
- Rydym wedi cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu ein gweledigaeth ar y cyd o greu Blaenau Gwent fwy llewyrchus, a hynny trwy ein strategaeth gofal seiliedig ar leoedd, "Blaenau Gwent Hapus, Iach".
- Rydym wedi datblygu Cynllun Integredig Blaenau Gwent, cynllun sydd wedi'i gysoni ac sy'n adeiladu ar gynlluniau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chlwtwr Dwyrain a Gorllewin Blaenau Gwent, a chynlluniau a blaenoriaethau Corfforaethol/Busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, gan gefnogi cysondeb ledled y sefydliadau.
- Mae datblygu grwpiau gorchwyl a gorffen i gefnogi blaenoriaethau allweddol unigol, er enghraifft Gwella Canlyniadau Trwy Ymyriad Cynharach (Deintyddol ac Imiwneiddio) wedi bod yn allweddol o ran cefnogi rhaglen fflw i blant 2-3 oed ym Mlaenau Gwent.

Beth nesaf?

Parhau i weithio gyda phartneriaid i weithredu ein gweledigaeth ar gyfer "Blaenau Gwent Hapus, Iach", fel yr amlinellwyd uchod.

Gan gynnwys dolenni i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

Bydd Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Blaenau Gwent yn canolbwyntio ar flaenoriaethau newydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac ar y r un pryd yn sicrhau cysondeb â Chynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a chynlluniau blynyddol y Clystyrau ar gyfer dull system gyfan.

Bydd y fframwaith yn nodi camau gweithredu dan ddau nod polisi: creu cymdeithas alluogol sy'n hyrwyddo potensial yr unigolyn a'r gymuned; a sicrhau bod cyfiawnder cymdeithasol, iechyd a chynaliadwyedd wrth wraidd pob polisi. Yn ganolog i'r adolygiad mae'r gydnabyddiaeth bod anfantais yn dechrau cyn geni ac yn cronni gydol oes.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

- Trwy ein Bwrdd Partneriaeth rydym wedi gallu darparu arweinyddiaeth systemau i alluogi cydweithrediad rhwng sefydliadau partner ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i nodi a diwallu anghenion y boblogaeth leol.
- Trwy ein gwaith rhianta rydym wedi gallu gwir ddeall anghenion y boblogaeth a chysoni ein blaenoriaethau allweddol ledled sefydliadau iechyd a chymdeithasol, a sefydliadau'r trydydd sector.
- Datblygu dull cydgysylltiedig seiliedig ar leoedd ar gyfer rheoli ystadau, dull sy'n cyd-fynd â modelau gwasanaethau lleol.
- Gwell cynnydd o ran y grwpiau gorchwyl a gorffen y cytunwyd arnynt pan osodwyd y blaenoriaethau. Nid yw pob un wedi'i sefydlu, e.e. ystadau a mapio .

Adlewyrchir hyn yn yr wyth amcan polisi isod:

1. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.
2. Galluogi pob plentyn, unigolyn ifanc ac oedolyn i wneud y gorau o'i alluoedd a bod â rheolaeth dros ei fywyd.
3. Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb.
4. Sicrhau safon byw iach i bawb.
5. Creu a datblygu lleoedd a chymunedau cynaliadwy.
6. Cryfhau rôl ac effaith prosesau atal afiechyd.
7. Mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu, a'u canlyniadau.
8. Mynd ar drywydd cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd ar y cyd.



Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin
Bevan (BIPAB)



RGC Blaenau Gwent
(Dwyrain a Gorllewin)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Dwyrain Blaenau Gwent
Dr. Isolde Shore-Nye Isolde.
Shore-Nye2@wales.nhs.uk

Gorllewin Blaenau Gwent
Dr. Simon Donovan
Simon.Donovan2@wales.nhs.uk

RGC Blaenau Gwent
(Dwyrain a Gorllewin)

Pwy ydym ni?

Bwrdeistref Blaenau Gwent yw'r Awdurdod Lleol lleiaf yng Ngwent; mae iddo arwynebedd daearyddol o 109 km2 (42.08 milltir sgwâr), ac mae'n gwasanaethu poblogaeth o tua 71,852 sy'n cwmpasu pedair prif dref, sef Glyn Ebwy, Tredegar, Bryn-mawr ac Abertyleri.

Esther Phillpott – Pennaeth y Gwasanaeth
Aimee Clement-Rees – Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaeth
Claire Evans – Rheolwr y Rhwydwaith a'r Gwasanaethau Cymunedol
Victoria Price – Rheolwr y Rhwydwaith a'r Gwasanaethau Cymunedol
Joanne Bradley – Swyddog Cynnal y Rhwydwaith

Ledled Blaenau Gwent, mae'r contractwyr annibynnol yn cynnwys:

- 10 o bractisau meddygon teulu, gyda thri ohonynt yn cael eu rheoli gan y Bwrdd Iechyd o 1 Mawrth 2025
- 10 o bractisau deintyddol
- 24 o fferyllfeydd cymunedol
- 9 practis optometreg

Gwasanaethau Cymunedol

- 6 llyfrgell
- 14 o Swyddfeydd Post
- 22 o ysgolion cynradd a 2 ysgol uwchradd
- 10 o warchodfeydd natur lleol
- 1 Llwybr Beicio Cenedlaethol
- 17 o ardaloedd chwarae i blant
- 1 canolfan chwaraeon
- 14 o gyfleusterau chwaraeon awyr agored

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Bydd y blaenoriaethau a'r camau gweithredu a bennwyd gennym yn parhau'r un fath, gydag elfen allweddol ychwanegol o gyflawni ein strategaeth seiliedig ar le sy'n cyfateb i'r meysydd ffocws allweddol ar gyfer Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

Yn rhan o'n cynllun blynyddol ar gyfer 2024-25 a 2025-26, ein bwriad yw cysoni ein blaenoriaethau strategol ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig BIPAB:

1. Pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
2. Cael pethau'n iawn ar gyfer plant a phobl ifanc.
3. Oedolion yng Ngwent yn byw'n iach ac yn heneiddio'n dda.
4. Oedolion hŷn yn cael eu cefnogi i fyw'n dda ac yn annibynnol.
5. Marw'n dda yn rhan o fywyd.

ASTUDIAETH ACHOS

Yn 2024 buddsoddodd clwstwr Dwyrain a Gorllewin Blaenau Gwent mewn Prosiect Uwch-ymarferwyr Parafeddygol – Osgoi Derbyniadau i'r Ysbyty.

Roedd y prosiect yn cynnwys naw Uwch-ymarferydd Parafeddygol sy'n cylchdroi i mewn ac allan o Ardal Blaenau Gwent gan ddarparu cymorth i bob un o'r 10 o bractisau ledled y fwrdeistref ar gyfer gwasanaeth ymweliadau cartref sy'n cynnwys achosion aciwt.

Bydd yr Uwch-ymarferydd Parafeddygol yn gweithio ledled Blaenau Gwent yn cynnig gwasanaeth yn y gymuned i helpu gydag ymweliadau â chartrefi'r cleifion hynny y gallai fod angen iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty neu y gallent fod yn addas ar gyfer mewnbwn gan y Tîm Adnoddau Cymunedol/Ymateb Cyflym. Trwy ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, galluogir asesiadau cynharach ac atgyfeiriadau at y Tîm Adnoddau Cymunedol/ Ymateb Cyflym.

Er ein bod yng nghamau cynnar y prosiect o hyd, mae'r adborth wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol.

Adborth gan y gwasanaethau meddygol cyffredinol

Ionawr 2025

'Mae pob Uwch-ymarferydd Parafeddygol yr ydw i wedi ymwneud ag ef hyd yma yn ymddangos yn gymwys, yn gymwynasgar, yn gyfeillgar ac yn agos-atoch'

Chwefror 2025

'DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI... Mae pob aelod o'r tîm wedi bod yn broffesiynol iawn ac ar y cyfan wedi ffitio'n dda i mewn i'n tîm ni. Rhagorol, mae eu dull o gymryd nodiadau yn gynhwysfawr ac rwy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth''

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Rhai o gyflawniadau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ym Mlaenau Gwent ar gyfer 2024-25:

- Cafodd ymgyrch brechu rhag y ffliw 2024-25 ar gyfer plant dwy a tair oed ei hestyn i bob darparwr gofal plant a lleoliad addysg ledled Blaenau Gwent. Bu'r Rhwydwaith yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaeth Imiwneiddio BIPAB i ddarparu'r rhaglen ledled cyfanswm o 45 o leoliadau yn ystod mis Medi.
- Mae'r Rhwydwaith wedi gweithredu a chyflawni'r Gwasanaeth Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf yn llwyddiannus ledled Clwstwr Gorllewin blaenau Gwent. Nod y gwasanaeth yw rhoi'r budd gorau posibl i gleifion â chyflyrau cyhyrsgerberbydol.
- Mae'r Rhwydwaith wedi rhoi'r Prosiect Uwch-ymarferwyr Meddygol – Osgoi Derbyniadau i'r Ysbyty ar waith ledled y ddau glwstwr. Mae Uwch-ymarferwyr Parafeddygol yn glinigwyr arbenigol ac annibynnol sy'n darparu sgiliau clinigol uwch o ran asesu, gwneud diagnosis, trin ac atgyfeirio cleifion, gan ddefnyddio model gofal meddygol/rheoli. Nod y fenter yw caniatáu asesiad cynnar a chludo'r claf i'r ysbyty mewn modd priodol, yn ôl y gofyn, ond gan optimeiddio'r defnydd o wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol eraill i liniaru'r pwysau ar y systemau gofal ehangach. Mae'r Uwch-ymarferwyr Parafeddygol yn ymweld â chartrefi (gan gynnwys cartrefi gofal) ac yn gweithio ar y cyd â meddygon teulu, y Tîm Adnoddau Cymunedol – Ymateb

Cyflym, a thimau Nyrsys Ardal i ddarparu gofal. Mae gan Uwch-ymarferwyr Parafeddygol fwy o fynediad at y llyfr fformiwla'u meddyginiaethau, gyda chymorth Cyfarwyddyd Grwpiau Cleifion, i drin ystod o ymgyflwyniadau aciwt.

- Cyflwynwyd gwasanaeth newydd yng Ngorllewin Blaenau Gwent i ddarparu gwasanaeth fferyllfa i gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi. Mae Fferyllfeydd y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth wedi bod yn cynnal adolygiadau yn y cartref. Y nod, trwy dargedu'r grŵp hwn o gleifion sy'n aml yn cael gofal adweithiol yn unig, yw y byddwn yn gallu adnabod y rheiny sy'n wynebu'r risg fwyaf, gan awgrymu newidiadau priodol i'w meddyginiaethau i'r practisau, a lleihau gwastraff a niwed/risgiau o ganlyniad i feddyginiaethau.
- Rydym wedi parhau i gefnogi anghenion y boblogaeth leol mewn perthynas â'r argyfwng costau byw. Darparodd y Rhwydwaith gyllid i gefnogi Rhaglen Hamdden Fit and Fed Aneurin Bevan, sef rhaglen sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgarwch corfforol, sesiynau cyfoethogi, a phrydau iach i blant yn ystod gwyliau haf yr ysgol.
- Mae'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Llesiant Integredig, wedi lansio map ar-lein a fydd yn cysylltu pobl Blaenau Gwent â phopeth sydd yn yr ardal leol i gefnogi llesiant corfforol a meddyliol. Gall cymunedau ddefnyddio'r map i ddod o hyd i grwpiau, gwasanaethau a sefydliadau yn yr ardal leol.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



RGC Blaenau Gwent (Dwyrain a Gorllewin)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Dwyrain Blaenau Gwent
Dr. Isolde Shore-Nye Isolde.
Shore-Nye2@wales.nhs.uk

Gorllewin Blaenau Gwent
Dr. Simon Donovan Simon.
Donovan2@wales.nhs.uk

- Mae Tîm Ardal Blaenau Gwent ac Arweinwyr y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wedi rhoi eu cefnogaeth lawn i agoriad Canolfan Iechyd a Llesiant Bevan yn Nhredegar.
- Yn rhan o sesiynau Amser Dysgu Gwarchodedig y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, cynhaliwyd digwyddiad cynllunio ar gyfer y gaeaf, a gafodd ei drefnu a'i gyflwyno gan Dîm Lleol Blaenau Gwent. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar gynorthwyo ein cwmnïau cydweithredol gyda'r pwysau sylweddol y gwyddom eu bod yn ei wynebu yn ystod cyfnod y gaeaf, ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith gwasanaethau ledled y sectorau iechyd a chymdeithasol a'r trydydd sector a all gynorthwyo gyda chynaliadwyedd, osgoi derbyniadau i'r ysbty a/neu ryddhau cleifion yn gynnar o'r ysbty.
- Cynhaliwyd sioe deithiol o ddigwyddiadau llesiant i staff. Fe'u cynlluniwyd ar y cyd â'r Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Roedd y digwyddiadau'n cynnig croeso cynnes a phersonol, ardal i ymlacio ynddi, byrddau creadigol, therapi cŵn, gwybodaeth am lesiant, a gwobrau raffl a roddwyd gan fusnesau lleol. Cafodd cyfanswm o 173 o aelodau staff yn yr ardal fudd o'r stondinau llesiant dros dro.
- Darperir calendr o ddigwyddiadau llesiant Cymunedol yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth. Cynhaliwyd pedwar digwyddiad yn y flwyddyn ariannol hon hyd yma. Ymhlith y pynciau yr oedd iechyd meddwl, y dechrau gorau mewn bywyd, ac imiwneiddiadau yn ystod plentyndod.
- Cysylltodd Cyngor Tref Tredegar â Thîm y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth i gynnal gweithdai iechyd a llesiant yn rhan o ddiwrnod Trochi Ysgolion Cyfun Tredegar. Cynhaliodd Tîm Ardal Blaenau Gwent bum gweithdy i dros 100 o ddisgyblion, a oedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc yn perchnogi ar eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.
- Treialwyd y system Cívica ar gyfer amserlennu galwadau yn y Tîm Adnoddau Cymunedol. Mae'r system wedi disodli dyddiadur papur ac wedi gwella diogelwch staff trwy ddefnyddio'r swyddogaeth cofnodi ac allgofnodi ar gyfer ymweliadau â chartrefi.
- Cyflwynwyd Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan yn llwyddiannus ledled y ddau glwstwr, system sy'n sicrhau bod cleifion yn y cam cyn-ddiabetig yn cael cynnig ymyriad byr sy'n cynnwys cyngor ar ffordd o fyw, a hynny gyda'r gobaith o ostwng eu HBA1c dros y tymor hwy er mwyn lleihau neu atal cynnydd diabetes.
- Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Plant a Phobl Ifanc ei sefydlu'n llawn i wella canlyniadau trwy ymyriad cynnar, gan ffocysu'n bennaf ar y gwasanaeth deintyddol ac imiwneiddio.
- Cymerodd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Gorllewin Blaenau Gwent ran yn yr Adolygiad gan Gymheiriaid yr SPPC gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf.
- Er mwyn cyflawni'r weledigaeth o greu Gwasanaeth Blaenau Gwent Hapus Iach, nid yn unig yr ydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu model gofal a fydd yn iawn ar gyfer pobl Blaenau Gwent, ond mae llwyddiant y rhaglen hefyd yn dibynnu ar ymgysylltiad pob un o'r partneriaid. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig wedi rhoi cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn i'r model arfaethedig hwn, gan gydnabod bod yna benderfyniad i gyflawni Cymru Iachach.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae yna fwlch sylweddol o ran disgwyliad oes iach ym Mlaenau Gwent rhwng y bobl gyfoethocaf a'r bobl dlotaf yn ein cymunedau, sy'n golygu ein bod yn gweld nifer mawr o gleifion ag anghenion iechyd amryfal yn cyrchu ein gwasanaethu.

Rydym ni, y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, yn gwbl ymrwymedig i helpu i gyflawni gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr ein gwasanaethau trwy adeiladu cymunedau cydnerth ac ymgorffori dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddarparu gwasanaethau a chefnogi dinasyddion a'u teuluoedd i berchnogi ar eu hanghenion iechyd a llesiant trwy atal, hunanofal ac ymyriad cynnar i gyflawni'r newid y mae ar gymunedau ei angen.

Mae ein cyflawniadau allweddol yn dangos ein bod ni, y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, yn ceisio diwallu anghenion y boblogaeth a wasanaethwn; trwy ein penderfyniad i weithio mewn partneriaeth rydym wedi gallu defnyddio dull arweinyddiaeth wasgaredig gan sicrhau bod pob partner yn cymryd rhan lawn yn ystod y broses o ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf ar gyfer poblogaeth Blaenau Gwent.

Myfyrdodau/ Heriau Allweddol yn 2024-25	
Cyllid	Mae effaith cyllidebau llai a dyfarniadau cyflog wedi achosi amrywiadau y tu hwnt i'n rheolaeth gan ei gwneud yn anodd ymrwymo i gynlluniau hirdymor neu brofi mentrau newydd.
Cadw, recriwtio a chydnerthedd y gweithlu	Diffyg staff i gefnogi'r broses o gyflawni ein blaenoriaethau. Ansicrwydd ynghylch gallu'r gweithlu, amrywiadau yn y lefelau staffio, ac anallu i recriwtio a chadw staff clinigol, gan gael effaith sylweddol ar ein gallu i flaengynllunio gweithgareddau.
Lefelau amddifadedd cynyddol	Nodweddir ein poblogaeth gan bocedi mawr o anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig ag amddifadedd economaidd gymdeithasol, a'r argyfwng ariannol presennol sy'n effeithio ymhellach ar y meysydd hyn. Mae'r galw am ofal iechyd a chymdeithasol yn cynyddu ac yn parhau i dyfu. Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn byw'n hirach ac mae ganddi anghenion mwy cymhleth, gan gynyddu'r pwysau ar sector gofal cymdeithasol ac iechyd a thrydydd sector sydd eisoes dan bwysau.
Pwysau costau byw	Effaith barhaus ar iechyd meddwl a llesiant pobl yn arwain at alw cynyddol am gymorth yn lleol.
Ystadau	Er y nodir bod ystadau ledled rhai ardaloedd lleol yn gwella, mae yna nifer sylweddol o hyd nad ydynt yn addas i'r diben ar gyfer darparu gofal seiliedig ar le. Mae diffyg capasiti ac adeiladau sy'n addas i'r diben yn golygu na allwn gefnogi cyfleoedd i leihau'r galw ar y gwasanaethau.
Biwrocratiaeth	Mae prosesau corfforaethol sy'n cymryd cryn amser yn llesteirio ein gallu i gyflawni blaenoriaethau allweddol mewn modd amserol.

Beth nesaf?

Ar gyfer 2025-26 byddwn yn anelu at gyd-fynd â'r prif feysydd ffocws a nodir ar gyfer Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth trwy ddatblygu model gofal sylfaenol sy'n canolbwyntio ar y gymuned, a hynny trwy ddealltwriaeth ddyfnach o'r asedau cymunedol a'r anghenion lleol yn y boblogaeth, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed neu wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei ddarparu trwy ein strategaeth gofal seiliedig ar le, "Blaenau Gwent Hapus, Iach".



Blaenau Gwent Hapus, Iach yw ein prosiect a lywir yn lleol; ein gweledigaeth yw i Flaenau Gwent fod yn ardal ystyriol a gofalgar, sy'n gweithio trwy ddull cydweithredol i gefnogi iechyd a llesiant pobl. Ein nod yw adeiladu cymunedau mwy cydnerth fel y gall ein dinasyddion gael eu grymuso i gyrchu asedau cymunedol yn uniongyrchol ledled Blaenau Gwent i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant.

Mae fframwaith Blaenau Gwent Hapus, Iach yn cyd-fynd â Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Presgripsiynau Cymdeithasol. Bydd yr amcanion craidd yn y fframwaith hwn yn cael eu dehongli ar lefel leol ym Mlaenau Gwent i ddarparu'r grym ysgogol ar gyfer y rhaglen.

Rydym am wneud y canlynol:

- Grymuso pobl sy'n gofalu amdanynt eu hunain ac am ei gilydd
- Adeiladu cymunedau cryfach a mwy cydnerth gyda'n gilydd
- Gweithio ar y cyd â'n holl bartneriaid i ddatblygu gwasanaethau teg ac o ansawdd uchel ar gyfer 'nawr a'r dyfodol.

Dilysir y weledigaeth hon gan y cyfeiriad strategol a nodir yn y Rhaglen Gofal Sylfaenol Genedlaethol, Cymru Iachach a Ffyniant i Bawb, sy'n nodi uchelgeisiau strategol ar gyfer cynyddu cynaliadwyedd y gweithlu a defnyddio'r trydydd sector i fodloni'r galw cynyddol am ein gwasanaethau craidd. Mae cyllid trawsnewidiol wedi darparu'r cyfle i symud y weledigaeth hon yn ei blaen trwy ymgorffori model gofal Blaenau Gwent Hapus, Iach i gefnogi ein strategaeth seiliedig ar le.

Trwy ymgorffori egwyddorion tîm amlddisgyblaethol, gallwn ddarparu gofal priodol i bobl â chyflyrau hirdymor a chefnogi'r broses o reoli'r galw am ein gwasanaethau ar y cyd ar draws gofal cymdeithasol ac iechyd. Bydd ein partneriaid yn y Rhwydwaith Llesiant Integredig yn allweddol wrth ddarparu'r model gofal hwn i sicrhau bod Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn deall yr asedau cymunedol, megis grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu pobl i gynnal neu ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymdeithasol a gwella canlyniadau ar gyfer ein preswylwyr.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



BPGI Caerffili (Dwyrain, Gogledd a De)

Caerffili (Dwyrain, Gogledd a De)

Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Integredig Caerffili

Pwy ydym ni?

Mae Bwrdeistref Caerffili wrth galon Cymoedd De Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac mae'n cwmpasu ardal ddaearyddol fawr sy'n 278 km² (107 milltir sgwâr). Mae ychydig dros 18.6 milltir o hyd a bron yn 11 milltir o led, ac mae ei ffin yn mynd o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd, i Gaerdydd a Chasnewydd yn y de. Mae'n ffinio â Merthyr Tudful yn y gogledd, Rhondda Cynon Taf yn y gorllewin, ac awdurdodau lleol Blaenau Gwent a Thorfaen yn y dwyrain. Yn ffinio â'i bwrdd iechyd y mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae ganddi boblogaeth breswyl o tua 181,731 (Ystadegau Canol Blwyddyn 2020 Stats Cymru).

Mae'r boblogaeth sy'n gofrestredig mewn practisau meddygon teulu yn y fwrdeistref yn 187,000, sy'n uwch na nifer y preswylwyr. Mae'r unigolion hyn yn cael gofal iechyd a chymdeithasol y tu allan i'r ysbyty/gofal iechyd a chymdeithasol cyffredinol, a hynny gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, contractwyr annibynnol, yr awdurdod lleol a'r trydydd sector.

Cadeiryddion BPGI: Eira Turner (BIPAB) & Jo Williams (CCBC)
Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, GAVO, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ledled Caerffili ceir contractwyr annibynnol allweddol sy'n rhan annatod o'n system iechyd a gofal cymdeithasol, fel a ganlyn: 20 o bractisau meddygon teulu, 43 o fferyllfeydd cymunedol, 25 o bractisau deintyddol ac 17 o bractisau optometrig. Mae 25 o gartrefi preswyl/nyrsio yn y fwrdeistref, 93 o ysgolion (cynradd ac uwchradd), 39 o ganolfannau cymunedol a 18 o lyfrgelloedd. Mae cipolwg yn amlygu bod gan Gaerffili ar hyn o bryd 14 o ddarparwyr gofal cartref yn y fwrdeistref.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Cytunodd Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Integredig Caerffili ar yr egwyddorion marmot fel fframwaith i sicrhau ein bod yn gweithio i'r cyfeiriad cywir i ddiwallu anghenion ein poblogaeth, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar draws y fwrdeistref. Ein blaenoriaethau yw:

- Y blynyddoedd cynnar a'r dechrau gorau mewn bywyd
- Iechyd Meddwl a Llesiant
- Cydnherthedd Cymunedol (gan gynnwys ffrydiau gwaith ataliol)
- Y gweithlu (cynaliadwyedd, llesiant, hyfforddiant, ac ati)
- Gweithredu Rhaglen Datblygu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth
- Technolegau digidol

ASTUDIAETH ACHOS

Profiad, ansawdd a diogelwch – gwell cynllunio cydweithredol/integredig wrth ddarparu gwasanaethau i sicrhau bod profiadau dinasyddion o ymyriadau yn effeithiol a chynaliadwy, a hynny 'nawr ac yn y dyfodol.

Ymchwil, arloesedd, gwelliant a gwerth – ymgysylltu a darparu cymorth yn achos pob agwedd ar draws y sefydliadau cyflogi priodol, gan ddwyn timau ynghyd i hwyluso a chefnogi'r prosesau o drawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Meithrin a gwella perthnasoedd gwaith ar draws partneriaid.
- Partneriaeth a chydweithio.
- Gweithredu Cyllidebu Cyfranogol

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

- Yn darparu arweinyddiaeth integredig ar draws y system, sy'n cynnwys Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, y Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Lleol, Tai a'r Trydydd Sector.
- Mae gweithio mewn partneriaeth yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau bod llwybrau'n eglur i'r cyhoedd.

- Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithio yn caniatáu trafodaeth gyfunol ynghylch rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau, gan wella'r modd y darperir gofal, y mynediad ato, a'r defnydd o gyfleusterau/o'r ystad ar draws y fwrdeistref.
- Cysoni/cytuno ar drefniadau comisiynu.
- Creu cyfleoedd ar gyfer cyllidebau cyfun, cynigion cyfunol a gwariant ar y cyd.
- Yn darparu asesiad manwl o angen ar sail partneriaethau.
- Dealltwriaeth o asesiadau proffesiynol o fylchau, rhwystrau a chyfleoedd i'r gwasanaethau.
- Gwell cwmpas i'r Rhwydwaith Llesiant Integredig (IWN) ar draws y fwrdeistref.

Beth nesaf?

Parhau i:

- Weithio gyda phartneriaid i sefydlu gwasanaethau iechyd a llesiant cofleidiol
- Gweithio mewn partneriaeth o ran blaenoriaethu a rhesymoli ystadau
- Defnyddio dulliau ataliol, cyfleoedd cynnar a hunanreolaeth
- Defnyddio timau amlddisgyblaethol i wneud gwaith cyfeirio gweithredol
- Defnyddio llwybrau darbodus i wella gofal a gynlluniwyd
- Recriwtio, hyfforddi ac addysgu ein gweithlu i ddiwallu anghenion y boblogaeth.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



RGC Caerffili (Dwyrain, Gogledd a De)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Dwyrain Caerffili:
Jackie Reynolds
Jackie.Reynolds@wales.nhs.uk

Gogledd Caerffili
Heather Griffiths
Heather.Griffiths4@wales.nhs.uk

De Caerffili
Alun Edwards
Alun.Edwards@wales.nhs.uk

RGC Caerffili (Dwyrain, Gogledd a De)

Pwy ydym ni?

Mae Bwrdeistref Caerffili yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr o 278 km² (107 milltir sgwâr), ac yn ffinio â dau ddarparwr bwrdd iechyd arall, sef Bwrdd Iechyd Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ogystal ag â thair ardal Awdurdod Lleol yng Ngwent (Blaenau Gwent, Casnewydd a Thorfaen).

Jackie Reynolds: Arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Dwyrain Caerffili
Heather Griffiths: Arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Gogledd Caerffili

Alun Edwards: Arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth De Caerffili
Eira Turner: Pennaeth y Gwasanaeth
Jonathan Lewis: Rheolwr y Rhwydwaith a Gwasanaethau Cymunedol
Clair Roper: Rheolwr y Rhwydwaith a Gwasanaethau Cymunedol
Neirin Rees: Rheolwr Gwella Gwasanaethau
Mari Burland: Swyddog Cynnal y Rhwydwaith
Stella Montgomery: Swyddog Cynnal y Rhwydwaith

Mae gan Gaerffili boblogaeth breswyl o tua 176,831 (Ystadegau Cymru, canol blwyddyn 2021) ac mae'r boblogaeth sydd ar gofrestr meddyg teulu, sef 187,000 o bobl, yn fwy na nifer y preswylwyr. Mae cleifion cofrestredig yn cael gofal iechyd a cymdeithasol y tu allan i'r ysbyty gan gontractwyr annibynnol, yr awdurdod lleol a sefydliadau trydydd sector.

Ledled Caerffili, mae'r contractwyr annibynnol yn cynnwys 20 o bractisau meddygon teulu, 43 o fferyllfeydd cymunedol, 25 o bractisau deintyddol, a 17 o bractisau optometreg.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Y prif flaenoriaethau strategol a amlygwyd yng Nghynllun Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Caerffili oedd:

1. Y Blynnyddoedd Cynnar a Dechrau Gorau mewn Bywyd.
2. Iechyd Meddwl a Llesiant.
3. Cydnerthedd Cymunedol.

ASTUDIAETH ACHOS

Yn 2024, y buddsoddiad newydd mwyaf o du cyllidebau'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth oedd buddsoddiad mewn rolau cysylltwyr llesiant cymunedol cysylltiedig â phractisau meddygon teulu. Gwnaed hyn mewn cydweithrediad â'n partneriaid yn yr Awdurdod Lleol.

Bydd y Cysylltwyr Llesiant Cymunedol yn gweithio gyda phreswylwyr i nodi datrysiadau priodol i'w hanghenion cymhleth, gan adeiladu ar y gwaddol a'r perthnasoedd a feithrinwyd hyd yma, a chan symud i ddull ffres o adeiladu cymunedau cydnerth ar yr un pryd.

Mae effaith y dull hwn eisoes wedi darparu gwell profiad i unigolion ym mwrdeistref Caerffili, fel y mae'r enghraifft isod yn ei ddangos.

Ar ôl cael ei atgyfeirio gan ei feddyg teulu, bu i ŵr gweddwr a oedd yn cael trafferth â materion iechyd newydd a oedd yn effeithio ar ei symudedd a'i anadlu fynegi dymuniad i ailymgysylltu â'i hoffter o chwaraeon a chymdeithasu, er ar gyflymder arafach.

Teimlai hefyd fod tasgau o ddydd i ddydd yn ei lethu. Gyda'i ganiatâd, darparodd y Cysylltydd Llesiant wybodaeth am grwpiau lleol (Hwb Cyn-filwyr, grŵp cinio), a darparwyd cymorth cartref preifat (garddio, glanhau, siopa), a'i atgyfeirio i gael asesiad Therapi Galwedigaethol/Gofal a Thrwsio ar gyfer addasiadau i'w gartref (sedd yn y gawod, rheiliau). Darparwyd gwybodaeth am Deleoal (sêff allwedd, larwm gwddf) hefyd. Roedd y claf yn ddiolchgar, gan deimlo'n diogel ac yn fwy annibynnol.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Rhai o gyflawniadau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yng Nghaerffili:

- Cynyddu nifer y Cysylltwyr Llesiant Cymunedol a'u hymgorffori mewn practisau meddygon teulu a chymunedau.
- Estyn Cyfnodau Presgripsiynu – gwasanaethau meddygol cyffredinol a chydweithredfeydd fferyllol yn gweithio mewn partneriaeth.
- Cydgysylltydd y tîm amlddisgyblaethol/Cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol – cefnogi Rhaglen Brentisiaeth BIPAB.
- Llesiant Staff – y Guddfan Zen.
- Rhoi cydweithredfeydd proffesiynol ar waith – Nyrsio, Optometreg, Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Deintyddol a Fferylliaeth.
- Rhaglenni lleol cydweithredol, e.e. mae Optometreg wedi treblu nifer yr atgyfeiriadau at Helpa Fi i Stopio ac wedi rhoi cyflwyniad yn un o ddigwyddiadau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, Ehangu Cyfnodau Presgripsiynu Fferyllfeydd.
- Rhaglen Atal Diabetes – cyflwyno'r rhaglen ledled Caerffili.
- Bu i gyllidebu cyfranogol gefnogi wyth prosiect iechyd a llesiant ym Mlaenau Cwm Rhymni – wedi'u dewis gan breswylwyr lleol.
- Mae'r Gydweithredfa Optometreg wedi ymgorffori gweithgarwch rhoi'r gorau i smygu yn ei harchwiliadau llygaid arferol. Mae hyn wedi arwain at gynydd o 300% yn nifer yr atgyfeiriadau at Helpa Fi i Stopio.

- Rhaglen beilot ddiweddar i gefnogi plant 2-3 oed mewn lleoliadau cyn ysgol a meithrinfeydd i gael brechiad rhag y fflw yng ngogledd Caerffili.
- Buddsoddiad y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth mewn cymorth cwnsela iechyd Meddwl y trydydd sector.
- Ymarferwyr Iechyd Seicolegol yn gweithio yn Lleoliad pob Practis Meddygon Teulu.
- Cysylltwyr Llesiant Cymunedol yn cael eu cyflogi a'u hymgorffori yn holl bractisau meddygon teulu Caerffili trwy weithio mewn partneriaeth dda ag Awdurdod Lleol Caerffili.
- Bu i Ofal Seiliedig ar Le/waith Datblygu Hybiau trwy wella'r defnydd o safleoedd/ystafelloedd gynyddu'r cynnig o amrywiaeth ehangach o wasanaethau ar y lefel leol (e.e. gwasanaethau anadlol, diabetig, cwympiadau, awdioleg, ac ati).
- Ffisiotherapi cyswllt cyntaf – i gyd-fynd â phob practis meddygon teulu gan wella mynediad at asesiadau cyhyrsgerberbydol yn y gymuned.
- Cynhaliodd y Rhwydwaith Llesiant Integredig, mewn partneriaeth â chysylltwyr llesiant, cydgysylltwyr llesiant natur, a Meddygfa Tŷ Bryn, ddigwyddiad llesiant dros dro a digwyddiad Rhedeg yn y Parc Coed Cefn-pwll-du.
- Dyrannodd Cyllidebu Cyfranogol gyllid i wyth prosiect llesiant yng Ngogledd Caerffili y cytunwyd arnynt trwy banel cyfranogiad dinasyddion.
- Digwyddiad Caerffili gyfan yn canolbwyntio ar y thema o atal, gan ddwyn ynghyd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i ddarparu cipolwg gwerthfawr ar strategaethau a mentrau iechyd a llesiant ataliol i ganolbwyntio ar ffyrdd o wella canlyniadau ar gyfer y boblogaeth leol.





**Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin
Bevan (BIPAB)**



**RGC Caerffili
(Dwyrain,
Gogledd a De)**

Arweinydd Clwstwr/RGC

Dwyrain Caerffili:
Jackie Reynolds
Jackie.Reynolds@wales.nhs.uk

Gogledd Caerffili
Heather Griffiths
Heather.Griffiths4@wales.nhs.uk

De Caerffili
Alun Edwards
Alun.Edwards@wales.nhs.uk

**A ydych wedi cael unrhyw wobrau
neu gydnabyddiaeth yr hoffech eu
rhannu?**

Tair Gwobr Cydnabod Staff yn 2024; cafwyd cymeradwyaeth uchel a chydabyddiaeth yng ngwobrau Staff BIPAB:

- Gwobr Iechyd a Llesiant y Boblogaeth – Rhwydwaith Llesiant Integredig Caerffili
- Gwobr Gofal Iechyd Gwyrdd – Mari Burland Highly
- Gwobr Iechyd a Llesiant Cyflogeion – Stella Montgomery

Sefydlwyd Cydwethredfeydd Proffesiynol ledled Caerffili, gan arwain gyda Chydweithredfa Optometreg Gwent Gyfan, y mae ei llwyddiannau'n cynnwys Helpa fi i Stopio. Mae Optometreg Cymru yn cydnabod yr effaith ac yn bwriadu cyflwyno hyn ledled Cymru.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Fel yr amlygwyd yn ein cyflawniadau allweddol, mae partneriaethau ac ymdrechion cydweithredol wedi ein galluogi i wella'r gwasanaethau a ddarperir gennym a diwallu anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth yn well.

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys:

- Perthnasoedd gwaith da ledled aelodaeth graidd y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth.
- Ffocws cadarn ar gynaliadwyedd y gwasanaethau clinigol craidd.
- Ffocws cadarn ar arloesi/ddatblygu gwasanaethau.
- Tîm Arwain a Chefnogi ymrwymedig y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth.
- Perthnasoedd ymrwymedig a da â'r Rhwydwaith Llesiant Integredig.
- Cyfeiriad clir trwy gynllun y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ar dudalen o ran beth yw'r blaenoriaethau a'r modd y gall y rhain gael eu cyflawni trwy waith integredig/cydweithredol.
- Mae'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yn darparu sianel ddwyffordd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.
- Datblygu modelau gofal a hybiau seiliedig ar le ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y boblogaeth leol.

**Beth y gellid bod wedi ei wneud
yn wahanol?**

Trwy fonitro ac adolygu'n barhaus, a thrwy ddefnyddio cylchoedd Cynllunio, Gwneud, Astudio, Gweithredu (PDSA) yn ôl yr angen, rydym wedi anelu at wneud y defnydd gorau posibl o'r holl adnoddau a buddsoddiadau sydd ar gael i'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'u partneriaid. Fodd bynnag, rydym wedi cydnabod nifer o wendidau a bygythiadau i ddarpariaeth y Rhwydweithiau, megis:

- Caiff cyllidebau Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth eu pennu'n rheolaidd, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer arloesedd newydd.

- Amrywioldeb blynyddol y cyllid (e.e. salwch, recriwtio a chadw).
- Mae gweithio sefydliadol a gweithio ar wahân yn creu rhwystrau i integreiddio.
- Heriau cynaliadwy yn y gweithlu gofal sylfaenol mewn rhai ardaloedd.
- Costau staffio cynyddol yn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir, ochr yn ochr â'r pwysau ariannol a wynebwr gan contractwyr annibynnol o ganlyniad i gyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Anallu i drosi modelau effeithiol y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth i sicrhau cyllidebau craidd yn cyfyngu ar fuddsoddiad yn y dyfodol.

Beth nesaf?

Adeiladu cymunedau cydnerth:

I gysoni gwaith y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'r Rhwydweithiau Llesiant Integredig er mwyn datblygu model gofal sylfaenol sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned trwy ddealltwriaeth ddyfnach o'r asedau cymunedol a'r anghenion lleol yn y boblogaeth, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed neu wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol.

**Annog gweithio cydweithredol â ffocws
ar wella gwasanaethau:**

I wella tegwch mynediad at wasanaethau ychwanegol/atodol ar draws contractwyr annibynnol a datblygu dull gweithredu amlbroffesiynol ar gyfer gwasanaethau iechyd Cynhwysiant.

Atal a rheoli cyflyrau hirdymor:

I leihau nifer y marwolaethau cyn amser a morbidrwydd trwy atal a rheoli diabetes a ffactorau risg ar gyfer clefyd cardiofasgwlaidd.



**Cynnwys dolenni i'r Cynllun
Tymor Canolig Integredig**

Ein meysydd blaenoriaeth ni, y Bwrdd Iechyd, ar gyfer yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol dros gyfnod 2025-26 fydd symud ymlaen â'r meysydd canlynol a'u cyflawni:

- Cyflyrau Hirdymor – Rheoli ac Atal
- Mynediad a Chynaliadwyedd
- Ailgynllunio'r Gwasanaethau Pobl Hŷn
- Datblygu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a Phartneriaethau.

I gyflawni'r camau ar gyfer y meysydd blaenoriaeth uchod bydd yn hanfodol sicrhau bod yr holl alluogwyr sylfaenol yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ansawdd, a Diogelwch Cleifion
- Y Gweithlu, Llesiant Staff a Diwylliant
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Rheolaeth Ariannol
- Ystad Addas i'r Diben
- Technolegau Digidol
- Rhoi Gwerth ar Arloesedd ac Ymchwil.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



Sir Fynwy (Gogledd a De)

Sir Fynwy (Gogledd a De)

Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Sir Fynwy

Pwy ydym ni?

Mae i Sir Fynwy safle strategol rhwng canolfannau allweddol yn Ne-ddwyrain Cymru, De-orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr; lleolir ei phrif aneddiadau yn y Fenni, Cas-gwent, Trefynwy, Cil-y-coed a Brynbuga. Mae patrwm anheddu nodedig Sir Fynwy yn deillio o'i threfi marchnad a phentrefi hanesyddol; mae oddeutu hanner y boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig a lled-wledig. Mae'r sir yn cynnwys tir amaethyddol a ffermio da ei safon, ac fe'i hystyrir yn gyffredinol yn sir ffyniannus sy'n cynnig bywyd o ansawdd da i'w phreswylwyr. Datgelodd data fod yna lecynnau o amddifadedd i'w cael ledled Sir Fynwy, yn enwedig yn y Fenni, Trefynwy a Chil-y-coed, lle cynnau sy'n fwyfwy amlwg o'u cymharu ag ardaloedd lleiaf difreintiedig yr un trefi.

Mae'r sir yn ymestyn o draethlin Gwastadeddau Gwent (yn y de), i ucheldiroedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yn y gogledd), ac i afon hardd Dyffryn Gwy, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (yn y dwyrain). Mae'n ffinio â Lloegr i'r dwyrain, Casnewydd a Thorfaen i'r gorllewin a Phowys i'r gogledd.

Mae rhwydweithiau ffyrdd da yn cysylltu Sir Fynwy â Chaerdydd a Chasnewydd a, thros y ddwy Bont Hafren, â Bryste, ac ers dileu Tollau Pontydd Hafren mae mwy o bobl yn manteisio ar y cysylltiadau hyn i gymudo allan o Sir Fynwy ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth.

- Gwasanaethau Clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/gwasanaethau cymunedol)

Cynrychiolir nifer o wasanaethau sy'n galluogi'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a'r ystod eang o flaenoriaethau i weithio. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, gan gynnwys: therapïau, gwaith cymdeithasol, nyrsio cymunedol, gofalwyr, comisiynu, iechyd meddwl, anableddau dysgu, seibiant, y trydydd sector, gwasanaethau plant a phobl ifanc, a gwasanaethau gofal sylfaenol.

Prif Swyddog, Cyngor Sir Fynwy (Cadeirydd)
Pennaeth Gwasanaeth – Sir Fynwy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Cyd-gadeirydd)
Pennaeth Gwasanaeth – Sir Fynwy, Cyngor Sir Fynwy

Cyfarwyddwr Adranol, Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Arweinydd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, GAVO

Rheolwr Grŵp ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Cyngor Sir Fynwy
Pennaeth Gwasanaeth Cynorthwyol, Sir Fynwy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Rheolwr Rhwydweithiau a Gwasanaethau Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Rheolwr Gwella Gwasanaethau Datblygu Clwstwr Carlam (DCC)/Swyddog Rhwydweithiau a Chymorth Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Rheolwyr Gwasanaethau Integredig
Arweinydd Rhwydweithiau Llesiant Integredig, Cyngor Sir Fynwy

Arweinydd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, GAVO

Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Uwch-nyrs, Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Arweinwyr Clystyrau Cydweithredol Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth Sir Fynwy (Gogledd a De)

Cynrychiolydd Cyllid, Cyngor Sir Fynwy
Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Fynwy

Pennaeth Podiatreg ac Orthoteg ac Arweinydd Cydweithredol Proffesiynol y Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cyfarwyddwr Adranol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Ad hoc)
Dadansoddwr Cymorth Penderfyniadau, Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cyfrifydd Partneriaid Busnes, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Y Gweithlu a Datblygiad, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cyfathrebu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

ASTUDIAETH ACHOS

Cynhelir 'Sgyrsiau Cymunedol' yn y Fenni, Brynbuga, Trefynwy a Chas-gwent. Mae Sgyrsiau Cymunedol yn rhoi cyfleoedd i grwpiau cymunedol a gwirfoddol lleol gydweithio a nodi'r modd i ddiwallu anghenion lleol. Mae Cyngor Cymuned Brynbuga yn dangos sut y gall gwaith partneriaeth â nyrsys ardal, GAVO a grwpiau cymunedol/gwirfoddol lenwi bylchau mewn gwasanaethau, e.e. mae Mind Sir Fynwy, y Ganolfan Cymorth Gwledig a'r Bwrdd Iechyd yn archwilio'r modd i gefnogi cymunedau gwledig, ac ati, gyda chyfleoedd i staff y Bwrdd Iechyd bartneru â GAVO a Chyngor Sir Fynwy yn y Fenni, Trefynwy a Chas-gwent.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Blaenoriaethau Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig:

- Datblygu strategaeth y gweithlu.
- Cefnogi ymyriad cynnar a phrosesau atal ar draws sefydliadau partner.
- Gweithio mewn partneriaeth i ddeall y pwysau ar y system gyfan (iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector) a nodi cyfleoedd i gefnogi timau gwasanaethau integredig yn Sir Fynwy, e.e. Ehangu Gwasanaeth Meddygol (Eiddilwch) Cyflym y De i'r gogledd.
- Nodi'r pwysau sy'n deillio o ddarparu cymorth i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd neu eu gofalwyr i ddod o hyd i atebion.
- Datblygu prosesau cyfathrebu/ymgysylltu traws-bartner i godi pontydd a goresgyn gwahaniaethau o ran yr iaith a'r gwaith gweithredol, ac ati.
- Hyrwyddo cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ar draws yr ystad iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynyddu llywodraethu ariannol a thryloywder – cydweithio i lywodraethu ar Gytundeb Adran 33 a'r ffrydiau ariannu sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a'r Grŵp Prosiect, a'u goruchwyllo.
- Bwrw ymlaen â'r mentrau cenedlaethol Datblygu Clwstwr Carlam (DCC)/y Grŵp Cynllunio Traws-Glwstwr (PCPG), a hynny'n gysylltiedig â gofal sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, gydag adroddiadau chwarterol yn y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig).

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig yn strategol gyson â'r polisïau/themâu/rhaglenni lleol/cenedlaethol a ganlyn:

- **Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (RhSaGS)**, e.e. Grymuso Pobl, Darparu Gofal yn Nes at y Cartref, Gofal Integredig Lleol.
- **Meysydd Ffocws Gofal Seiliedig ar Leoedd (PBCC):** 1. Meithrin cymunedau cydnerth; 2. Creu sylfeini cadarn ar draws gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol; 3. Adeiladu timau integredig ym mhob "lle"; 4. Gweithio ar y cyd ar raglenni atal a gwell gwasanaethau; 5. Gwella rhyngwyneb gofal canolraddol a gofal eilaidd.
- **Tri nod trosfwaol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPR):** Dechrau'n Dda, Byw'n Dda, Cadw'n Iach.
- **Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth/Datblygiad Clwstwr (Cydweithredol) Carlam:** Rhaglen genedlaethol i gyflymu cynnydd clwstwr yn unol â'r pecyn cymorth.
- **Model Gofal Sylfaenol i Gymru/Cymru Iachach**
- **Ailgynllunio Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn a/ neu Eiddil.**

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig hefyd yn:

- Darparu'r ôl troed lleol ar gyfer cyflawni Cynllun Ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mewn modd tactegol.
- Cydlynu'r defnydd o adnoddau sydd ar gael ar draws y bartneriaeth i ddiwallu anghenion lleol.
- Comisiynu gwasanaethau a datblygu cytundebau i gefnogi gweithio mewn partneriaeth.
- Defnyddio gwybodaeth gan glystyrau i sicrhau bod cynlluniau'n adlewyrchu anghenion y boblogaeth, yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael â materion a godwyd, ac yn darparu cyfeiriad strategol i lywio datblygiad cynlluniau'r priod glystyrau.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



Sir Fynwy (Gogledd a De)

Sir Fynwy (Gogledd a De)

Y prif gyflawniadau?

Mae Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Sir Fynwy wedi rhoi proses eithrio chwarterol ar waith, proses sy'n galluogi arweinyddwyr prosiectau i adrodd am lwyddiannau, ac i uwchgyfeirio risgiau posibl yn nhermau'r gallu i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn helpu partneriaid i ddeall y problemau sy'n ymwneud â phwysau ar wasanaethau, ac i gael cymorth lle bo angen.

Ym mis Rhagfyr 2024, cyflwynodd y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Is-grŵp Prosiectau dan arweiniad GAVO ac iddo'r cylch gorchwyl i fonitro cyllideb gylchol berthynol i ddementia gwerth £200,000, ac i edrych ar opsiynau ariannu a allai gefnogi cynlluniau newydd.

Cyflawniad allweddol oedd agor ystafelloedd Technoleg Gynorthwyol yn Ysbyty Cymunedol Cas-gwent ac, yn ddiweddar, yn Nyffryn Mynwy. Rydym yn archwilio opsiynau i ailadrodd hyn mewn mannau eraill yn Sir Fynwy.

Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig – Gwasanaeth (Eiddilwch) Meddygol Cyflym

Mae ein timau integredig yn darparu gofal a/neu driniaeth angenrheidiol i bobl, a hynny naill ai gartref, neu mor agos at gartref â phosibl, gan hyrwyddo annibyniaeth bersonol trwy waith cydweithredol. Mae'r gwasanaethau wedi amlygu eu gwerth trwy ostwng nifer y derbyniadau i ysbyty y gellir eu hosgoi, trwy ddarparu llwybrau gofal amgen diogel, a thrwy leihau arosiadau mewn ysbyty o ganlyniad i hwyluso rhyddhau cynnar a diogel.

Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth/Clystyrau – yn gysylltiedig â Datblygu Clwstwr Carlam

Daw cynrychiolwyr o Gydweithfeydd Proffesiynol unigol at ei gilydd i asesu anghenion iechyd a llesiant ehangach eu poblogaeth (sydd fel arfer rhwng 25,000 a 100,000 o bobl) ac maent yn dibynnu ar Asesiad o Anghenion y Boblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i fod yn sail i gynlluniau clwstwr (blynyddol) y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

Ceir dau Rwydwaith Gofal Cymdogaeth yn Sir Fynwy (yn y gogledd a'r de) ac iddynt rwydwaith proffesiynol cydweithredol sy'n cynnwys meddygon teulu, deintyddion, optometryddion, fferyllwyr, ymarferwyr iechyd meddwl, a staff gwasanaethau integredig, gan gynnwys: nyrsys ardal, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion, staff gofal uniongyrchol, bydrwagedd, dietegwyr, nyrsys arbenigol, cydlynwyr cysylltiadau iechyd a llesiant seicolegol, cynrychiolwyr tai a chyd-weithwyr y trydydd sector.

Datblygu Clwstwr Carlam – Mentrau Cydweithredol Proffesiynol (yn gysylltiedig â Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth)

Y mecanwaith trwy ba un y mae Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Practisau Deintyddol, Fferyllfeydd Cymunedol, Practisau Optometrïg, Nyrsys Cymunedol, Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, ac eraill, yn dod at ei gilydd yn eu proffesiwn/grwpiau penodol. Mae ôl troed y clwstwr yn cefnogi'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth ehangach wrth ystyried Asesiad o Anghenion y Boblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Lleol, ac yn nodi atebion lleol yn seiliedig ar wybodaeth ac arbenigedd lleol.

Y Trydydd Sector

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn gysylltiedig â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac yn aelod gweithgar o Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Mae cynllun strategol GAVO ar gyfer 2022-25 yn manylu ar y modd y mae'n aelod gweithgar o Fframwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent a'i strwythurau ategol, yn unol â deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae GAVO yn parhau i gefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a Chlystyrau'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, gan sicrhau bod llais cymunedau lleol yn cael ei gynrychioli. Ers nifer o flynyddoedd mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wedi bod mewn cyswllt agos â rhwydwaith helaeth o gymorth GAVO, ac adlewyrchir hyn yn ein cynlluniau.

Yr Hyn a Ddysgwyd?

Elfennau cadarnhaol

Mae adroddiadau eithrio/cynnydd chwarterol yn darparu ymwybyddiaeth o'r rhwystrau/risgiau o ran cyflawni cynlluniau, ac mae'r Is-grŵp Prosiectau wedi dileu'r elfen weithredol o'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig yn cynnal ffocws cyfatebol ar asesiadau o anghenion ac anghenion newidiol cymunedau. Gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gysoni'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Asesiadau Llesiant y Boblogaeth (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol): osgoi dyblygu, hyrwyddo cydweithio, a chydweithredu mewn ymateb i angen lleol.

Gellid bod wedi gwneud hyn yn wahanol

Byddai gweithredu Is-grŵp Prosiectau'n gynt wedi lleihau'r galw ar amser y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig, gan ganiatáu mwy o ffocws ar symud ffrydiau gwaith strategol yn eu blaenau.

Beth nesaf?

Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau blwyddyn 2 o gynllun y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig. Tua diwedd pob blwyddyn adrodd, rhoi ystyriaeth i'r themâu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y flwyddyn ganlynol, e.e. Wyth Egwyddor Marmot, i'w hasesu'n unol â fframwaith gwasanaethau cyfredol y bartneriaeth.

Parhau gyda'r agenda atal, gan edrych ar gysylltiadau rhwng cymorth sefydledig yn y gymuned, sy'n cynnwys Sgyrsiau Cymunedol seiliedig ar leoedd, a'r ganolfan lesiant newydd arfaethedig yn Osbaston, Trefynwy.

Datblygiad pellach mewn perthynas â'r llwybr ailalluogi 'derbyn' yn ein Gwasanaethau Integredig.

Cysylltiadau â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

Fel gyda Chynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd cyfredol y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig, mae'r bwrdd yn parhau i fod yn ymwybodol o flaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Lleol a GAVO wrth gytuno ar Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd newydd.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig yn cydnabod ei rôl o fod yn is-grŵp i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn nhermau'r Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam, ac mae wedi mabwysiadu blaenoriaethau Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd o fewn ei gynllun strategol ei hun, e.e. mae ailgynllunio gwaith y llwybr pobl hŷn yn cyd-fynd â blaenoriaeth 'system gyfan' y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig, elfen sy'n cydnabod y boblogaeth hŷn/fwyaf bregus ac yn sicrhau bod gennym weithlu addas ar gyfer y dyfodol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



RCG Sir Fynwy (Gogledd a De)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Gogledd Sir Fynwy:

Dr Brian Harries
Brian.Harries2@wales.nhs.uk

De Sir Fynwy:

Dr Annabelle Holtam
annabelle.holtam@wales.nhs.uk

RGC Sir Fynwy (Gogledd a De)

Pwy ydym ni?

Personél

Cefnogir Clystyrau Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Gogledd a De Sir Fynwy gan ddau Arweinydd Clinigol (meddyg teulu), Rheolwr Rhwydwaith, Rheolwr Gwella Gwasanaethau Datblygu Clwstwr Carlam, a Swyddog Cymorth. Mae gan y Rhwydweithiau gyllidebau cymharol fach, gyda chyfanswm cyfunol o tua £500,000, sy'n eu galluogi i brofi gwasanaethau newydd yn seiliedig ar angen a nodir a blaenoriaethau y cytunir arnynt. Dr Harries yw Arweinydd Rhwydwaith y Gogledd, ac mae ganddo sawl blwyddyn o brofiad yn rôl Arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth a meddyg teulu yn Nhrefynwy. Dr Holtam yw Arweinydd Rhwydwaith y De, ac mae'n allweddol wrth weithredu prosiectau a chynlluniau newydd mewn ymateb i anghenion lleol a nodwyd. Mae gan y ddau Rwydwaith gynrychiolaeth o blith amrywiaeth o wasanaethau, yn cynnwys: practisau meddygon teulu, nyrsio cymunedol, lechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, iechyd meddwl sylfaenol/oedolion ac oedolion hŷn, y trydydd sector, tai, rheoli pwysau, Cyngor Sir Fynwy, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, fferyllfeydd cymunedol, deintyddol, optometreg, lechyd Cyhoeddus Cymru, gwasanaethau gofalwyr a phlant/teuluoedd.

Daearyddiaeth

Mae Gogledd Sir Fynwy, yn ôl cynllun blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn ardal wledig yn bennaf, ac ystyrir y De yn lled-wledig.

Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/ gwasanaethau cymunedol).

Mae Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth Sir Fynwy yn cynnwys rhwydwaith o 12 o bractisau meddygon teulu, dau dîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, cyd-weithwyr yn y trydydd sector, ac eraill, i gyd yn gwasanaethu poblogaeth o tua 104,000 (tua 55,000 yn y Gogledd a 49,000 yn y De). Mae Rhwydwaith y Gogledd yn cynnwys saith practis meddygon teulu, ac mae yna bump yn y De.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Prif flaenoriaethau strategol

Adeiladu cymunedau cydnerth: Ein nod parhaus yw gweithio mewn partneriaeth i sicrhau y gall pobl yn Sir Fynwy a'r cyffiniau (mae tua 14,000 sy'n byw'r ochr arall i'r ffin wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu yn Sir Fynwy) fod yn rhan o'r rhwydwaith mawr o gymorth cymunedol ar sail lle.

Fodd bynnag, fel yn achos cynlluniau blaenorol, rydym yn parhau i gydnabod arwyddocâd cydweithio fel casgliad o gydweithredfeydd i ddeall anghenion pobl yn ein 'lleoedd' allweddol, ac i ddefnyddio hynny i lunio ein gwasanaethau mewn modd integredig i ddiwallu'r anghenion hyn ledled ardal ddaearyddol helaeth.

Mae'n hysbys bod Sir Fynwy yn wynebu heriau'n ymwneud â'i phoblogaeth hŷn sy'n cynyddu a lefelau uchel o alw ar draws y gwasanaethau sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol, a hynny am fod pobl yn byw'n hirach â chyflyrau hirdymor. Rydym yn cydnabod yr angen i osgoi derbyn pobl i'r ysbyty, lle bo hynny'n bosibl, am ein bod yn gwybod bod 'datgyflyru' ymhlith pobl hŷn yn cael effaith sylweddol. Rydym yn rhannu hyn fel blaenoriaeth â'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig ac yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn gyffredinol.

Rhwydwaith Llesiant: Mae Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn parhau i feithrin cydnerthedd cymunedol trwy gysylltiadau â GAVO a Rhwydweithiau Llesiant Integredig; trwy gynyddu gwybodaeth a deall anghenion pobl a chymunedau yn Sir Fynwy; trwy gefnogi ymyriad cynnar ac atal; a thrwy fentrau megis Sgyrsiau Cymunedol a datblygu Hybiau Gwybodaeth am Lesiant.

Y Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam: Gofal seiliedig ar le yn cael ei ddarparu gan Gydweithredfeydd a Chlystyrau Proffesiynol, ac yn cyd-fynd â GAVO, ac ati. Mae Cydweithredfeydd Proffesiynol yn feganweithiau ar gyfer dwyn ynghyd bractisau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, practisau Deintyddol, Fferyllfeydd Cymunedol, practisau Optometreg, Nyrsys Cymunedol, Proffesiynau Perthynol i Iechyd ac, yn Sir Fynwy, y Trydydd Sector (GAVO), ledled ôl troed clystyrau a threfi, i nodi datrysiadau lleol ar y cyd.

ASTUDIAETH ACHOS

Y prosiect S.M.A.R.T.: 'Mae gweithio mewn clwstwr yn sicrhau bod y gofal yn cael ei gydlynu'n well i hybu llesiant unigolion a chymunedau.' Mae hwn yn cyflwyno prosiect Tîm Cymorth Chwim De Sir Fynwy (South Trefynwyshire Agile Response Team (S.M.A.R.T.)), sef rhaglen o gyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol ac adolygiadau 'holistaidd' yn y gwasanaeth meddygol cyffredinol, sy'n helpu i amddiffyn ein pobl hŷn fwyaf agored i niwed trwy fynd ati cyn gynted â phosibl i nodi unrhyw niwed posibl, megis y risg o gwmpo

Dolen i gynlluniau perthnasol

Mae gwaith y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wedi'i gysylltu'n strategol ag amrywiaeth o bolisiau a chanllawiau cenedlaethol, fel y cyfeirir atynt isod.

RhSaGS: y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, e.e. Grymuso Pobl, Darparu Gofal yn Nes at y Cartref, Gofal Integredig Lleol.

BPR: tri nod trosfwaol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol: Dechrau'n Dda, Byw'n Dda, Cadw'n Iach.

BPGI: blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig.

MGSiG/CI: y Model Gofal Sylfaenol i Gymru/Cymru Iachach.

neu ffactorau risg eraill y gallai fod arnynt angen cymorth ar eu cyfer, gan felly osgoi eu derbyn i'r ysbyty.

Mae proses adolygu y tîm amlddisgyblaethol yn ystyried ffactorau seicolegol, meddyliol, corfforol a chymdeithasol, yn hytrach na symptomau'r salwch yn unig, ac yn nodi cymorth posibl ar sail angen unigol o safbwynt meddygol, cymdeithasol a'r trydydd sector. Y bwriad yn 2025-26 yw cyflwyno set ddata gadarn a fydd yn dangos effeithiolrwydd y model hwn a modelau timau amlddisgyblaethol eraill sydd ar waith ledled ôl troed y Bwrdd Iechyd.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

A ydych wedi cael unrhyw wobr neu gydnabyddiaeth yr hoffech eu rhannu?

- Dyfarnwyd MBE am wasanaethau i Ymarfer Cyffredinol i Dr Rowena Christmas, meddyg teulu ym Mhractis Dyffryn Gwy a chadeirydd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) yng Nghymru.
- Penodwyd Robert Denman, Llywodraethwr Carchardai Brynbuga a Phrescoed EF, yn Swyddog Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE) yn gydnabyddiaeth am ei wasanaeth cyhoeddus eithriadol.

- Penodwyd Dr Sarah Neville, meddyg teulu partner, Meddygfa Tudor Gate, i swydd Deon Cyswllt ar gyfer hyfforddi meddygon teulu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a De Powys.
- Cafodd Tîm Integredig Sir Fynwy ei ddewis ar gyfer Gwobr y Cadeirydd yng ngwobrau Cydnabod Staff blynyddol y Bwrdd Iechyd.
- Enillodd Dr Jaideep Kitson, Meddyg Ymgynghorol a Chyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol, Wobr am Arweinyddiaeth yng ngwobrau Cydnabod Staff blynyddol y Bwrdd Iechyd.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



RCG Sir Fynwy (Gogledd a De)

Arweinydd y Clwstwr

Gogledd Sir Fynwy:

Dr Brian Harries
Brian.Harries2@wales.nhs.uk

De Sir Fynwy:

Dr Annabelle Holtam
annabelle.holtam@wales.nhs.uk

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Beth a aeth yn dda?

- **Parhau i fuddsoddi mewn cynlluniau sy'n gysylltiedig â gwella ymateb Gofal Sylfaenol, gan feithrin galluedd a chydnerthedd:**
- **Fferyllwyr wedi'u Lleoli mewn Practisau (Gogledd)** – creu capasiti meddygon teulu ag arbenigedd lleol.
- **Rheolwr Practis arweiniol (Gogledd a De)** – cydgysylltu'r ddau glwstwr, gan sicrhau effeithlonrwydd a rhannu arfer da, ac ati.
- **Fforwm Diogelu dan arweiniad Meddygon teulu (Gogledd a De)** – arbenigedd a gwybodaeth a rennir ar draws y gwasanaethau meddygol cyffredinol.
- **Gwasanaeth Cynghorwyr Cyswllt Llesiant (Gogledd a De)** – ymateb i benderfynyddion cymdeithasol afiechyd.
- **Ymarferwyr Iechyd Seicolegol (Gogledd)** – mynediad lleol i asesiadau/gymorth iechyd meddwl.
- **Cynllun Gaeaf Blynnyddol** – dwyn ynghyd wasanaethau sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol a'r trydydd sector i gynllunio ar gyfer y pwysau a ragwelir ar y gwasanaethau, ac anghenion ein pobl fwyaf agored i niwed.
- **Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam** – adroddiadau 'sbotolau' yn helpu i nodi risgiau ac anghenion y gwasanaeth. Nod Datblygu Clwstwr Carlam yw sicrhau bod grwpiau cydweithredol ar yr un lefel o aeddfedrwydd.
- **Y niferoedd sy'n cael eu himiwneiddio:** Mae'r data'n cadarnhau bod practisau meddygon teulu Sir Fynwy wedi perfformio'n rhagorol o'u meirgodi yn erbyn practisau Gwent. Parhau i geisio cyflawni'r targed cenedlaethol o 75% ym mhob carfan yn ystod pob tymor.
- Bu i giplun o'r brechiadau COVID ym mis Hydref 2024 gadarnhau mai yn Sir Fynwy y cafodd y nifer mwyaf eu brechu yn BIPAB, sef 47.6%. Yn Sir Fynwy hefyd y cafodd y nifer mwyaf o breswylwyr cartrefi gofal yn BIPAB eu brechu, sef 78.8%.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol?

- Symud ymlaen â'r rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam, deall rolau proffesiynol, ac ansicrwydd parhaus ynghylch pa mor barhaus yw'r rhaglen a'r cyllid.
- Cydnabuwyd y pwysau parhaus ar wasanaethau sylfaenol a chymunedol o ganlyniad i boblogaeth sy'n cynyddu a datblygiadau tai newydd.
- Risg ariannol: ansicrwydd yn sgil y Llywodraeth yn cynyddu'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn 2024-25 – cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd yng nghyfarfodydd contract y Cystyrau i fonitro'r effaith ar recriwtio a chadw ymhlith contractwyr gofal sylfaenol.
- Risg bosibl i brosiectau a ariennir gan y clwstwr o ganlyniad i effaith dyfarniadau cyflog y GIG.
- Mae'r effaith barhaus ar iechyd meddwl a llesiant pobl wedi arwain at gynnydd yn y galw am gymorth lleol, sy'n cael ei fesur trwy ein Cynghorwyr Cyswllt Llesiant a'n Hymarferwyr Iechyd Seicolegol a ariennir ar y cyd. Mae'r data'n dweud wrthym bod nifer y cysylltiadau ar gyfer gwasanaeth y Cynghorwyr Cyswllt Llesiant wedi mwy na dyblu yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n golygu effaith gynyddol ar bobl Sir Fynwy yn sgil y costau cynyddol.
- Diffyg cyllid ar gyfer datblygiadau, mentrau a chyfleoedd newydd mewn perthynas â'r gwasanaeth a anelir at leihau'r pwysau.
- Breuder posibl mewn perthynas â rhai cydweithredfeydd a'u gallu i aeddfedu ar yr un gyfradd â rhai eraill – diffyg cymhelliant/cydnabyddiaeth gontractiol/cymorth gweinyddol/cynrychiolaeth uwch sy'n aml â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro (yn arbennig Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd).

Beth nesaf?

Adeiladu cymunedau cydnerth

Cysoni gwaith y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'r Rhwydweithiau Llesiant Integredig i ddatblygu model gofal sylfaenol sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned, a hynny trwy ddealltwriaeth ddyfnach o'r asedau cymunedol a'r anghenion lleol yn y boblogaeth, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed neu wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol.

Sicrhau bod gan Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth ddealltwriaeth dda o Rwydweithiau Llesiant Integredig er mwyn defnyddio asedau cymunedol, grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu i gynnal neu ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymdeithasol.

Adeiladu timau cymdogaeth integredig ym mhob "lle"

Sefydlu gwaith tîm amlddisgyblaethol ar gyfer pobl â chyflyrau mwy cymhleth, a'r rheiny sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio a wynebu digwyddiadau anffafriol megis cael eu derbyn i'r ysbyty. Mae'r dull tîm amlddisgyblaethol hwn yn gofyn am ofal cydlynol, gweithwyr ailalluogi ymrwymedig, timau nyrsio arbenigol, fferyllwyr clinigol, tîm iechyd meddwl cymunedol, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, tai, a sefydliadau trydydd sector.

Cydweithio ar raglenni atal a gwasanaethau ychwanegol

Hwyluso dull cydweithredol wrth ddarparu gwasanaeth atal diabetes a rheoli ffactorau risg clefyd cardiofasgwlaidd er mwyn sicrhau y gall y rhaglenni gael eu cyflawni mewn modd systematig ac ar raddfa fawr ledled y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

Parhau i hyrwyddo ein model 'presgripsiynu cymdeithasol' i gysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau, a gwasanaethau yn eu cymuned sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol.

Sefydlu darpariaeth gwasanaethau atodol/ychwanegol sy'n deg ac o ansawdd uchel ar draws pob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth gyda ffocws cychwynnol ar osod IUDau, mân lawdriniaethau, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.



**Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin
Bevan (BIPAB)**



BPGI Casnewydd

Dwyrain Casnewydd

Gorllewin Casnewydd

Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Casnewydd

Pwy ydym ni?

Caiff Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Casnewydd ei gadeirio ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd a Chyngor Dinas Casnewydd. Yn ogystal ag Arweinwyr y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a chynrychiolaeth o'r Bwrdd Iechyd, mae'n cwmpasu amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Tai, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector.

Mae Casnewydd yn ddinas amlddiwylliannol, a'i phoblogaeth yn 164,702 (yn ôl yr unigolion sydd wedi'u cofrestru gyda meddygon teulu). Mae cyfanswm y boblogaeth yn fwy o bum mlynedd na data'r boblogaeth amcanestynedig gan Stats Cymru – rhagwelwyd na fyddai'n cyrraedd y ffigur hwn hyd nes 2028.

Casnewydd sydd â'r gyfran uchaf o bobl yng Nghymru o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gyda 48 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad ymhlith 20 o gymunedau a nodwyd. Nodwyd bod 2,340 o aelwydydd yng Nghasnewydd nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel eu prif iaith.

Mewn perthynas â grwpiau Iechyd Cynhwysiant, mae'r boblogaeth ddigartref ac sy'n cysgu allan ar gynnydd. Mae nifer cofrestredig y bobl sy'n cysgu allan yn y ddinas wedi codi o 21 ym mis Ionawr 2021 i 47 ym mis Ionawr 2023. Mae'r broses ddiweddar o ailsefydlu ffoaduriaid o Wcráin wedi cynyddu nifer y ffoaduriaid yn ardal Casnewydd, yn ogystal â'r ceiswyr lloches sy'n cael caniatâd i aros ac ymgartrefu yn yr ardal.

Mae gan Gasnewydd boblogaeth sy'n heneiddio, ac ar hyn o bryd mae ei phoblogaeth dros 65 oed yn 27,510. Amcangyfrifir y bydd y boblogaeth sy'n heneiddio yn 37,241 erbyn 2039.

Mae diweithdra, incwm isel, lefelau sgiliau gwael, a throreddd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio yn anghymesur ar rai cymdogaethau. Yn ôl data Stats Cymru, mae Pillgwenlly yng ngorllewin y ddinas yn safle 10 o ran ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, ac mae ardal Ringland yn y dwyrain yn y 69ain safle. Hefyd, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cyhoeddi'n ddiweddar bod tua 9,000 o unigolion ar y rhestrau aros am dai cymdeithasol.

- Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/ gwasanaethau cymunedol)**
- 17 o bractisau meddygon teulu
 - 16 o bractisau deintyddol
 - 13 o optometryddion
 - 27 o fferyllfeydd cymunedol
 - Gwasanaethau'r Trydydd Sector (Pob Rhestr – Eich Casnewydd, Eich Lles)

Ar beth yr ydym yn gweithio?

- Cyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn lleol
- Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth
- Sicrhau bod cynlluniau'n adlewyrchu angen y boblogaeth
- Gofal Seiliedig ar Leoedd
- Ailgynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn
- Dull system gyfan o ymdrin â bwyta'n iach
- Cynyddu'r nifer sy'n derbyn imiwneiddiadau plentyndod
- Ymgysylltu â grwpiau agored i niwed

Beth nesaf?

Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

- Brechiadau plentyndod, gan gynnwys y potensial ar gyfer clinigau dros dro yn rhan o'r gwaith o adfywio asedau Cyngor Dinas Casnewydd
- Dull System Gyfan o Reoli Pwysau yn Iach a chynllun peilot penodol ar gyfer cymorth costau byw, a hynny trwy'r Partneriaethau Bwyd Cymunedol, gydag is-grŵp wedi'i sefydlu ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar Dlodï Bwyd
- Cynnydd pellach o ran Gofal Seiliedig ar Leoedd, gan gynnwys gwell model Presgripsiynu Cymdeithasol
- Ailgynllunio'r Gwasanaeth ar gyfer Pobl Hŷn, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer gofal cam-i-fyny/cam-i-lawr yn dilyn ymgynghoriadau a chanlyniadau Gerddi'r Gwanwyn a Parklands
- Ymgysylltu â'r grŵp Iechyd Cynhwysiant wrth gynllunio model cymorth amlasiantaethol
- "Canolfannau" Cymunedol ac adfywio asedau Cyngor Dinas Casnewydd – cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chydweithio, yn enwedig yn achos canolfan ganolog ar gyfer grwpiau Iechyd Cynhwysiant.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



RGC Casnewydd (Dwyrain)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Dwyrain Casnewydd:
Dr Graeme Yule
Graeme.Yule2@wales.nhs.uk

RGC Casnewydd (Dwyrain)

Pwy ydym ni?

Yng Nghasnewydd, mae yna ddau Rwydwaith Gofal Cymdogaeth sy'n gwasanaethu poblogaeth o tua 164,702 o bobl. Mae'n ddinas o ddwy hanner, lle mae'r mwyaf cyfoethog yn cwrdd â'r mwyaf difreintiedig. Mae dros 48 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad yma o 20 o wledydd gwahanol. Casnewydd sydd â'r ail gyfran uchaf o'r boblogaeth sy'n hanu o gefndir Du ac Ethnig Leiafrifol, ac mae'n ardal gwasgaru ceiswyr lloches.

Tîm Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Dwyrain Casnewydd: Leah MDCConald, Louise Williams, Nicola Cook, Kate Hopkins, Daniel Kendall a Maxine Spoke yng Nghanolfan Iechyd a Lles Victoria House/19 Hills, Casnewydd.

Mae naw practis meddygon teulu yn gweithredu yn ardal Clwstwr Dwyrain Casnewydd:

- Canolfan Gofal Sylfaenol Beechwood
- Canolfan Feddygol Llyswry
- Meddygfa'r Parc
- Canolfan Iechyd Ringland
- Y Feddygfa Rygbi
- Canolfan Iechyd Underwood
- Clinig Richmond
- Canolfan Feddygol Isca
- Canolfan Feddygol St Julian

Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/ gwasanaethau cymunedol)

- 9 practis meddygon teulu
- 7 practis deintyddol
- 7 optometrydd
- 15 o fferyllfeydd cymunedol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Adeiladu Cymunedau Cydnerth

Creu modelau gofal seiliedig ar le a dulliau ataliol o ddarparu gwasanaethau er mwyn helpu i wella cydnerthedd cymunedau lleol.

Mae gofal seiliedig ar le yn ddull o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr adnoddau sydd ar gael mewn ardal benodol er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau trwy:

- Gydweithrediad
- Adnoddau a rennir
- Cynllun lleol
- Ymyriadau targededig
- Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon

Gall gofal seiliedig ar le arwain at ganlyniadau cadarnhaol, megis: llai o ymweliadau â'r adran damweiniau ac achosion brys, amseroedd aros llai ar gyfer asesiadau iechyd, gwell boddhad â'r cymorth a geir, a gwell gwerth am arian.

Mae adeiladu cymunedau cydnerth yn golygu datblygu gallu unigolion a chymunedau i ymateb i argyfyngau a heriau eraill. Mae rhai strategaethau ar gyfer meithrin cydnerthedd yn cynnwys:

- Grymuso cymunedau
- Gwella mynediad at wasanaethau
- Cynnwys grwpiau agored i niwed
- Gwella sgiliau cyflogaeth
- Datblygu rhwydweithiau cymdeithasol
- Cefnogi iechyd meddwl
- Dysgu pethau newydd
- Bod yn ymwybodol o ragfarnau

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Canolfan Iechyd a Lles 19 Hills

Bydd y datblygiad iechyd a llesiant hwn, sy'n werth £28 miliwn, yn cael ei drosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd ar 28 Tachwedd 2024. Bydd dull fesul cam yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau yn yr adeilad rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2025. Dyma'r gwasanaethau a fydd ar gael:

- Practis Meddygol Ringland
- Meddygfa'r Parc
- Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol
- Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol
- Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl
- Podiatreg
- Therapi Lleferydd ac Iaith
- Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd
- Nyrsio Ysgolion
- Iechyd Rhywiol
- Lymffoedema
- Seicoleg Plant a Theuluoedd
- Nyrsio Ardal
- Awdioleg
- Asesu'r Cof
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed
- Deieteg
- Rheoli Pwysau
- Plant sy'n Derbyn Gofal
- Adferiad Pediatrig yn Dilyn Salwch
- Adferiad
- Clinig Afu/lau Cymunedol
- Grwpiau Llesiant Cymunedol

Cynaliadwyedd

Parhau i geisio creu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy a fydd yn gallu diwallu anghenion y boblogaeth ar unwaith ac am y dyfodol rhagweladwy. Parhau i gefnogi ac ariannu gwasanaethau statudol ac anstatudol er mwyn lleihau'r effaith ar amser meddygon teulu, er enghraifft:

- Ymarferwyr Iechyd Seicolegol
- Fferyllwyr y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth wedi'u lleoli mewn Practisau
- Gweithwyr Cyswllt

Datblygu Clwstwr Carlam

Mae Cydweithredfeydd Proffesiynol yn rhwydweithiau o weithwyr proffesiynol ag arbenigedd a sgiliau cyffredin sy'n cydweithio i asesu anghenion y boblogaeth.

Nod y ganolfan yw:

- Sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd y cael eu darparu mewn adeiladau o ansawdd uchel sy'n addas i'r diben
- Dod â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y trydydd sector, a darparwyr eraill at ei gilydd o dan yr un to i sicrhau dull cydgyssylltiedig o ymdrin ag iechyd a llesiant.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ynghyd â Chyngor Dinas Casnewydd a'n partneriaid trydydd sector, y Ganolfan Iechyd a Llesiant, yn ffurfio rhan o hwb cymunedol bywiog a fydd ar gael i breswylwyr Dwyrain Casnewydd.





Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin
Bevan (BIPAB)



RGC Casnewydd
(Dwyrain)

Arweinydd Clwster/RGC

Dwyrain Casnewydd:

Dr Graeme Yule
Graeme.Yule2@wales.nhs.uk

Beth nesaf?

Y Gweithlu

- Cryfhau'r gweithlu presennol i sicrhau parhad busnes. Meithrin ymgysylltiad â chyflogeion trwy eu datblygu a'u cefnogi a throsglwyddo gwybodaeth trwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Nodi unrhyw fylchau a mynd ati i recriwtio ar gyfer rolau estynedig er mwyn rhoi hwb i'r gweithlu presennol.
- Pe byddai cyllid ychwanegol yn dod ar gael i'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, yna gallai'r adnoddau staff gael eu cynyddu yn y tîm gofal seiliedig ar le. Cynnwys dolenni i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Gofal Seiliedig ar Le

- Bydd y model gofal seiliedig ar le yn parhau i fod yn gyfrwng trosfwaol ar gyfer llywio a chyflawni blaenoriaethau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yng Nghasnewydd. Bydd y Rhwydwaith yn parhau i weithio mewn partneriaethau sy'n drefniadau cydweithredol rhwng sefydliadau â chyfrifoldeb am drefnu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal a phartïon eraill sydd â rôl o ran gwella iechyd a llesiant. Bydd model Gofal Seiliedig ar Le Casnewydd yn parhau i nodi rolau a fydd yn ategu ac yn cryfhau proses y tîm amlddisgyblaethol.
- Parhau â model y tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod y bobl sydd â'r cyflyrau mwyaf cymhleth ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio ac wynebu digwyddiadau anffafriol, megis cael eu derbyn i'r ysbyty, yn byw bywydau diogel, annibynnol a chyflawn. Bydd y dull tîm amlddisgyblaethol hwn yn gofyn am gydlyn gofal, ac am fewnbwn ymrwymedig o du gweithwyr ailalluogi, timau nyrsio arbenigol, fferyllwyr clinigol, tîm iechyd meddwl cymunedol, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, tai, a sefydliadau trydydd sector.

Ardal Casnewydd o gymharu â Lleoedd

- Mae Strategaeth Ystadau Casnewydd wedi cael ei chreu sy'n darparu ôl troed o'r cymdogaethau yn y ddinas. Bydd hyn yn darparu sail o ran nodi'r cydbwysedd cywir rhwng strwythurau sy'n galluogi'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth i gynllunio gofal effeithiol ac effeithlon ar gyfer y boblogaeth leol gan hefyd alluogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gael ei ddarparu i ddiwallu anghenion unigolion yng nghyd-destun eu cymuned leol.
- Mae gwaith cydweithredol yn ofynnol wrth i'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig symud ymlaen o ran argaeledd setiau data i wella'r broses ataliol o haenu risgiau ac adnabod achosion er mwyn rhoi blaenoriaeth i bobl sydd, er enghraifft, yn dioddef o eiddilwch cymedrol neu ddifrifol. Trwy ddadansoddi a chysylltu setiau data ar ofal wedi'i gynllunio, byddai wedyn yn bosibl nodi carfanau a allai fod wedi cael cymorth yn gynt yn y gymuned trwy gyfrwng cymorth amlbroffesiynol rhagweithiol.

Presgripsiynu Cymdeithasol/Cysylltydd Cymunedol

- Cryfhau'r tîm amlddisgyblaethol trwy gyfrwng rolau ychwanegol ac amrywiol. Mae rôl cysylltydd cymunedol wedi cael ei nodi o ran bod yn rôl gyswllt a fydd yn cael ei chyflogi gan Gyngor Dinas Casnewydd, a bydd yn rhan o'r elfen Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor. Mae'n darparu apwyntiadau wyneb yn wyneb a bydd yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i rymuso cleifion i adnabod eu hanghenion, eu cryfderau a'u hasedau personol eu hunain. Bydd y cysylltydd cymunedol hefyd yn gweithredu fel cyfrwng i gysylltu

cleifion â'u cymunedau eu hunain i gael cymorth gyda'u hiechyd a'u llesiant personol. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi cael ei greu sy'n amlinellu diben ac amcanion y rôl, ac mae papur wedi cael ei gyflwyno i ofyn am gyllid i ganiatáu Cysylltydd Cymunedol peilot ar gyfer Meddygfa Bellevue a Meddygfa Ringland.

Rhwydwaith Llesiant Integredig

- Gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Llesiant Integredig a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO), a chysoni blaenoriaethau i wella llesiant, gan gefnogi unigolion i newid ymddygiadau nad ydynt yn iach a chynyddu eu hymwrthedd i glefydau.
- Gweithio'n gydweithredol â'r Rhwydwaith Llesiant Integredig mewn perthynas â Threftadaeth ac Iechyd i hybu cydweithrediad mewn cymunedau amrywiol yng Nghasnewydd, a hynny er mwyn gwella dealltwriaeth a mynediad at wasanaethau iechyd a chymorth cymunedol, fel ei gilydd, yn cynnwys sgrinio cymunedol a brechiadau, a meithrin ymwybyddiaeth o gymorth ataliol ar gyfer iechyd a llesiant. Mae diabetes, dementia ac iechyd menywod wedi cael eu nodi'n flaenoriaethau. Yn ogystal â darparu gweithdai gan gyfoedion ar gyfer diabetes, dementia ac iechyd menywod, mae ymgysylltiad â'r gymuned hefyd wedi nodi'r angen i ddarparu cymorth i wella cydnerthedd ar lawr gwlad trwy wneud y canlynol:
 - Rhoi hyfforddiant i arweinwyr cymunedol ac unigolion â diddordeb ar Sicrhau Bod Pob Cyswllt yn Cyfrif (MECC), Pum Ffordd at Les, Cymorth Cyntaf, Cysylltu 5 a Sgrinio, a sgiliau maeth ar gyfer bywyd, a hynny er mwyn iddynt ddarparu newidiadau o ran ffordd iach o fyw i'w cymunedau.
 - Uwchsgilio gofalwyr di-dâl – megis cynnig hyfforddiant ar gynnal bywyd sylfaenol, yn arbennig y rheiny sy'n gofalu am blant anabl a chyflyrau cyffredinol eraill
- Bydd y gwaith yn parhau i nodi a datblygu 'canolfannau' cymunedol ar gyfer adnoddau llesiant yn y gymuned.
- Sicrhau y gall 'canolfannau' cymunedol gysylltu pobl ag adnoddau iechyd a llesiant, gweithgareddau, a phobl/dinasyddion eraill i gefnogi eu llesiant eu hunain.
- Cysoni gwaith y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'r Rhwydweithiau Llesiant Integredig i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o fodel gofal sylfaenol sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned, a hynny trwy asedau cymunedol ac anghenion lleol yn y boblogaeth, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed neu wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol.

- Sicrhau bod gan Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth ddealltwriaeth dda o Rwydweithiau Llesiant Integredig er mwyn defnyddio asedau cymunedol, megis grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu i gynnal neu ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymdeithasol.
- Cydgynhyrchu model 'presgripsiynu cymdeithasol' sy'n cysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau a gwasanaethau yn eu cymuned a all fynd i'r afael â'u hanghenion ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol.

Rhaglenni Atal a Gwasanaethau Ychwanegol

- Sefydlu darpariaeth gwasanaethau atodol/ychwanegol sy'n deg ac o ansawdd uchel ar draws pob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth gyda ffocws cychwynnol ar ddyfeisiau atal cenhedlu yn y groth (IUD), mân lawdriniaethau, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Hwyluso dull cydweithredol wrth ddarparu gwasanaeth atal a rheoli diabetes a ffactorau risg ehangach clefyd cardiofasgwlaidd (yn cynnwys gorbwysedd) er mwyn sicrhau y gall y rhaglenni gael eu cyflawni mewn modd systematig ac ar raddfa fawr ledled y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

Cyflyrau Cronig

Parhau i fonitro cyfraddau lleol cyflyrau cronig trwy'r data Dadansoddi Anghenion y Boblogaeth. Mae diabetes ymhlith oedolion wedi cynyddu 40% i 212,716 yn 2021-22. Mae gan Gasnewydd y nifer uchaf o achosion o ddiabetes yng Nghymru, sef 8.7%, ac felly pennwyd bod diabetes yn un o flaenoriaethau allweddol yr is-adran. Anelu at leihau nifer yr oedolion sy'n byw â diabetes.

Iechyd Meddwl

Parhau i gefnogi problemau iechyd meddwl y boblogaeth leol a lleihau'r galw am y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn yr ardal hon.

Cydweithredfeydd Proffesiynol

Darparu arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer cydweithio neu weithio ar raddfa fawr i greu mwy o sefydlogrwydd ac i ddarparu gwasanaethau dan gontract mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Boblogaeth

Parhau i ymgysylltu â'r boblogaeth mewn perthynas ag iechyd a llesiant.

Dolenni i Gynlluniau Strategol

- Y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
- Cymru Iachach
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- Ymhellach yn Gyflymach
- Rhanbarth Marmot Gwent a'r Cynllun Llesiant.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



RGC Casnewydd (Gorllewin)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Gorllewin Casnewydd:
Susan Thomas
Susan.Thomas30@wales.nhs.uk

RGC Casnewydd (Gorllewin)

Pwy ydym ni?

Yng Nghasnewydd, mae yna ddau Rwydwaith Gofal Cymdogaeth sy'n gwasanaethu poblogaeth o tua 164,702 o bobl. Mae'n ddinas o ddwy hanner, lle mae'r mwyaf cyfoethog yn cwrdd â'r mwyaf difreintiedig. Mae dros 48 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad yma o 20 o wledydd gwahanol. Casnewydd sydd â'r ail gyfran uchaf o'r boblogaeth sy'n hanu o gefndir Du ac Ethnig Leiafrifol, ac mae'n ardal gwasgaru ceiswyr lloches.

Tîm Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Gorllewin Casnewydd: Leah MDCConald, Louise Williams, Nicola Cook, Kate Hopkins, Daniel Kendall a Maxine Spoke yng Nghanolfan Iechyd a Lles Victoria House/19 Hills, Casnewydd.

Mae saith practis meddygon teulu ar waith yn ardal Clwstwr Gorllewin Casnewydd:

- Canolfan Iechyd Malpas Brook
- Clinig Westfield
- Practis Tŷ-du
- Meddygfa Bryngwyn
- Clinig Dewi Sant
- Meddygfa Bellevue
- Clinig St Paul

Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/ gwasanaethau cymunedol)

- 7 practis meddygon teulu
- 9 practis deintyddol
- 5 optometrydd
- 12 o fferyllfeydd cymunedol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Adeiladu Cymunedau Cydnerth

Creu modelau gofal seiliedig ar le a dulliau ataliol o ddarparu gwasanaethau er mwyn helpu i wella cydnerthedd cymunedau lleol.

Mae gofal seiliedig ar le yn ddull o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr adnoddau sydd ar gael mewn ardal benodol er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau trwy:

- Gydweithrediad
- Adnoddau a rennir
- Cynllun lleol
- Ymyriadau targededig
- Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon

Gall gofal seiliedig ar le arwain at ganlyniadau cadarnhaol, megis: llai o ymweliadau â'r adran damweiniau ac achosion brys, amseroedd aros llai ar gyfer asesiadau iechyd, gwell boddhad â'r cymorth a geir, a gwell gwerth am arian.

Mae adeiladu cymunedau cydnerth yn golygu datblygu gallu unigolion a chymunedau i ymateb i argyfyngau a heriau eraill. Mae rhai strategaethau ar gyfer meithrin cydnerthedd yn cynnwys:

- Grymuso cymunedau
- Gwella mynediad at wasanaethau
- Cynnwys grwpiau agored i niwed
- Gwella sgiliau cyflogaeth
- Datblygu rhwydweithiau cymdeithasol
- Cefnogi iechyd meddwl
- Dysgu pethau newydd
- Bod yn ymwybodol o ragfarnau

Astudiaethau Achos ar gyfer Gofal Seiliedig ar Le

Mae yna nifer o astudiaethau achos sy'n dangos y modd y mae'r tîm Gofal Seiliedig ar Le a'r dull gweithredu cyffredinol wedi bod yn cefnogi pobl ag anghenion cymhleth.

Cynaliadwyedd

Parhau i geisio creu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy a fydd yn gallu diwallu anghenion y boblogaeth ar unwaith ac am y dyfodol rhagweladwy.

Parhau i gefnogi ac ariannu gwasanaethau statudol ac anstatudol er mwyn lleihau'r effaith ar amser meddygon teulu, er enghraifft:

- Ymarferwyr Iechyd Seicolegol
- Fferyllwyr y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth wedi'u lleoli mewn Practisau
- Gweithwyr Cyswllt Llesiant

Cydweithredfeydd Proffesiynol

Parhau i ddatblygu cydweithredfeydd proffesiynol i gryfhau ymwneud ambroffesiynol â'r broses o gynllunio a gweithredu rolau a modelau newydd ar gyfer darparu gofal.

Maes ffocws â blaenoriaeth – Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth/Rhwydweithiau Llesiant Integredig	Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y ddwy flynedd nesaf
Gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth, yn cynnwys pobl ag eiddilwch cymedrol neu ddifrifol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny)	Galluogi pobl ag anghenion cymhleth i fyw bywydau diogel, annibynnol a chyflawn gartref, a lleihau eu risg o wynebu digwyddiadau anffafriol oherwydd eu salwch neu eu hamgylchiadau cymdeithasol, yn cynnwys mynd i'r ysbyty neu gael eu derbyn i'r ysbyty lle gellir osgoi hynny, sy'n aml yn arwain at ddatgyflyru a cholli gallu gweithredol a chorfforol, cyflwr na ellir ei wrthdroi yn aml.
Afiachedd neu farwolaeth gynamserol o ganlyniad i ddiabetes a ffactorau risg cardiofasgwlaidd	Galluogi pobl i leihau'r risg o farw cyn amser o glefyd cardiofasgwlaidd trwy ganfod achosion o orbwysedd, optimeiddio'r broses o reoli pwysedd gwaed, atal diabetes rhag cychwyn, a lleihau'r risg o gymhlethdodau macrofasgwlaidd a microfasgwlaidd ymhlith pobl sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes math 2.
Cysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau a gwasanaethau anfeddygol yn eu cymuned	Gwella llesiant meddyliol a chorfforol trwy gysylltu pobl â gwasanaethau, grwpiau a gweithgareddau anfeddygol yn eu cymuned leol sy'n cynnig cymorth emosiynol, cysylltiadau cymdeithasol, neu gyfleoedd i fod yn fwy egniol, neu sy'n darparu cymorth ymarferol ar gyfer achosion iechyd gwael megis problemau o ran tai, diweithdra, perthnasoedd neu faterion ariannol.
Mynediad teg at wasanaethau ychwanegol neu atodol	Sicrhau bod pobl yn cael mynediad teg ac o ansawdd uchel at wasanaethau atodol/ychwanegol, gyda ffocws cychwynnol ar osod IUDau, mân lawdriniaethau, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.
Cymorth i newid ymddygiad	Sicrhau bod pobl yn cael mynediad amserol at gymorth unigol, grŵp a hunangyfeiriedig i newid ymddygiad, a hynny ar raddfa sy'n debygol o gael effaith ar y boblogaeth.
Ymgysylltu â'r gymuned a meithrin galluedd	Defnyddio a gwella asedau cymunedol a grymuso pobl i arwain mentrau sy'n gwella rhwydweithiau cymorth cymdeithasol a chydnerthedd cymunedol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



RGC Casnewydd (Gorllewin)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Gorllewin Casnewydd:

Susan Thomas
Susan.Thomas30@wales.nhs.uk

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Ymgysylltu â'r Gymuned – Ffeiriau Iechyd

Roedd y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth wedi darparu cymorth a chyllid ar gyfer cyfarpar mewn perthynas â 'Ffeiriau Iechyd' yn ymwneud ag Iechyd y Cyhoedd, ffeiriau a gynhaliwyd bedair gwaith yn ystod cyfnod o 12 mis. Cynhaliwyd pob digwyddiad mewn Mosgiau ac mewn lleoliadau cymunedol yng Ngorllewin Casnewydd, a hynny er mwyn ymgysylltu â'r cymunedau lle y cofnodwyd bod llai o bobl yn cael eu brechu a'u sgrinio.

Prif ffocws y digwyddiadau oedd:

- Clefyd fasgwlaidd coronaidd
- Sgrinio a chynghor ar hepatitis
- Cynghor ar Iechyd Cyffredinol
- Brechiadau'r fflw a COVID-19
- Brechiadau yn ystod plentynod
- Rhaglenni sgrinio

Gofal Seiliedig ar Le

- Bydd y model gofal seiliedig ar le yn parhau i fod yn gyfrwng trosfwaol ar gyfer llywio a chyflawni blaenoriaethau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yng Nghasnewydd. Bydd y Rhwydwaith yn parhau i weithio mewn partneriaethau sy'n drefniadau cydweithredol rhwng sefydliadau â chyfrifoldeb am drefnu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal a phartion eraill sydd â rôl o ran gwella iechyd a llesiant. Bydd model Gofal Seiliedig ar Le Casnewydd yn parhau i nodi rolau a fydd yn ategu ac yn cryfhau proses y tîm amlddisgyblaethol.
- Parhau â model y tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod y bobl sydd â'r cyflyrau mwyaf cymhleth ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio ac wynebu digwyddiadau anffafriol, megis cael eu derbyn i'r ysbyty, yn byw bywydau diogel, annibynnol a chyflawn. Bydd y dull tîm amlddisgyblaethol hwn yn gofyn am gydlyn gofal, ac am fewnbwn ymrwymedig o du gweithwyr ailalluogi, timau nyrsio arbenigol, fferyllwyr clinigol, tîm iechyd meddwl cymunedol, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, tai, a sefydliadau trydydd sector.

Beth nesaf?

Y Gweithlu

- Cryfhau'r gweithlu presennol i sicrhau parhad busnes. Meithrin ymgysylltiad â chyflogaeth trwy eu datblygu a'u cefnogi a thrwy drosglwyddo gwybodaeth trwy gyfrwng datblygiad proffesiynol parhaus. Nodi unrhyw fylchau a mynd ati i recriwtio ar gyfer rolau estynedig er mwyn gwella'r gweithlu presennol.
- Pe byddai cyllid ychwanegol yn dod ar gael i'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, yna byddai hwn yn cael ei fuddsoddi mewn adnoddau staff ychwanegol er mwyn datblygu'r Tîm Gofal Seiliedig ar Le ymhellach.

Cyfleusterau ac Ystadau

- Mae Strategaeth Ystadau Casnewydd wedi cael ei chreu sy'n darparu ôl troed o'r cymdogaethau yn y ddinas. Bydd hyn yn darparu sail o ran nodi'r cydbwysedd cywir rhwng strwythurau sy'n galluogi'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth i gynllunio gofal effeithiol ac effeithlon ar gyfer y boblogaeth leol gan hefyd alluogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gael ei ddarparu i ddiwallu anghenion unigolion yng nghyd-destun eu cymuned leol.

Data a Gwybodaeth

- Mae gwaith cydweithredol yn ofynnol wrth i'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig symud ymlaen o ran argaeledd data i wella'r broses o haenu risgiau ac adnabod achosion er mwyn rhoi blaenoriaeth i bobl sydd, er enghraifft, yn dioddef o eiddilwch cymedrol neu ddifrifol. Trwy ddadansoddi a chysylltu setiau data ar ofal wedi'i gynllunio, byddai wedyn yn bosibl nodi carfanau a allai fod wedi cael cymorth yn gynt yn y gymuned trwy gyfrwng cymorth ambroffesiynol rhagweithiol.

Presgripsiynu Cymdeithasol/Cysylltydd Cymunedol

- Cryfhau gwaith y tîm amlddisgyblaethol trwy gyfrwng rolau gweithwyr cyswllt ychwanegol. Mae rôl Cysylltydd Cymunedol wedi cael ei nodi o ran bod yn rôl gweithiwr cyswllt a gyflogir gan Gyngor Dinas Casnewydd, a bydd yn rhan o'r elfen Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor. Mae'n darparu apwyntiadau wyneb yn wyneb a bydd yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i rymuso cleifion i adnabod eu hanghenion, eu cryfderau a'u hasedau personol eu hunain. Bydd y Cysylltydd Cymunedol hefyd yn gweithredu fel cyfrwng i gysylltu cleifion â'u cymunedau eu hunain i gael cymorth gyda'u hiechyd a'u llesiant personol. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi cael ei greu sy'n amlinellu diben ac amcanion y rôl, ac mae papur wedi cael ei gyflwyno i ofyn am gyllid i ganiatáu Cysylltydd Cymunedol peilot ar gyfer Meddygfa Bellevue a Meddygfa Ringland.

Rhwydwaith Llesiant Integredig

- Gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Llesiant Integredig a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO), a chysoni blaenoriaethau i wella llesiant, gan gefnogi unigolion i newid ymddygiadau nad ydynt yn iach a chynyddu eu hymwrthedd i glefydau.
- Gweithio'n gydweithredol â'r Rhwydwaith Llesiant Integredig mewn perthynas â Threftadaeth ac Iechyd i hybu cydweithrediad mewn cymunedau amrywiol yng Nghasnewydd, a hynny er mwyn gwella dealltwriaeth a mynediad at wasanaethau iechyd a chymorth cymunedol, fel ei gilydd, yn cynnwys sgrinio cymunedol a brechiadau, a meithrin ymwybyddiaeth o gymorth ataliol ar gyfer iechyd a llesiant. Mae diabetes, dementia ac iechyd menywod wedi cael eu nodi'n flaenoriaethau. Yn ogystal â darparu gweithdai gan gyfoedion ar gyfer y materion iechyd hyn, mae ymgysylltiad â'r gymuned hefyd wedi nodi'r angen i ddarparu cymorth ar gyfer cydnerthedd cymunedol trwy wneud y canlynol:
 - Rhoi hyfforddiant i arweinwyr cymunedol ac unigolion â diddordeb ar Sicrhau Bod Pob Cyswllt yn Cyfrif (MECC), Pum Ffordd at Les, Cymorth Cyntaf, Cysylltu 5 a Sgrinio, a sgiliau maeth ar gyfer bywyd, a hynny er mwyn iddynt ddarparu newidiadau o ran ffordd iach o fyw i'w cymunedau.
 - Uwchsgilio gofalcwyr di-dâl – megis cynnig hyfforddiant ar gynnal bywyd sylfaenol, yn arbennig y rheiny sy'n gofalu am blant anabl a chyflyrau cyffredinol eraill
- Bydd y gwaith yn parhau i nodi a datblygu 'hybiau' cymunedol ar gyfer adnoddau llesiant yn y gymuned.
- Sicrhau y gall 'hybiau' cymunedol gysylltu pobl ag adnoddau iechyd a llesiant, gweithgareddau, a phobl eraill i gefnogi eu llesiant eu hunain.

- Cysoni gwaith y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'r Rhwydweithiau Llesiant Integredig i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o fodel gofal sylfaenol sy'n canolbwyntio ar y gymuned trwy asedau cymunedol ac anghenion lleol yn y boblogaeth, yn arbennig ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed neu wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol.
- Sicrhau bod gan Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth ddealltwriaeth dda o Rwydweithiau Llesiant Integredig er mwyn defnyddio asedau cymunedol, megis grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu i gynnal neu ddatblygu rhwydweithiau cymorth cymdeithasol.
- Cydgynhyrchu model 'presgripsiynu cymdeithasol' sy'n cysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau a gwasanaethau yn eu cymuned a all fynd i'r afael â'u hanghenion ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol.

Rhaglenni Atal a Gwasanaethau Ychwanegol

- Sefydlu darpariaeth gwasanaethau atodol/ychwanegol sy'n deg ac o ansawdd uchel ar draws pob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth gyda ffocws cychwynnol ar ddyfeisiau atal cenhedlu yn y groth (IUD), mân lawdriniaethau, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.
- Hwyluso dull cydweithredol wrth ddarparu gwasanaeth atal a rheoli diabetes a ffactorau risg ehangach clefyd cardiofasgwlaidd (yn cynnwys gorbwysedd) er mwyn sicrhau y gall y rhaglenni gael eu cyflawni mewn modd systematig ac ar raddfa fawr ledled y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

Cyflyrau Cronig

Parhau i fonitro cyfraddau lleol cyflyrau cronig trwy'r data Dadansoddi Anghenion y Boblogaeth. Mae diabetes ymhlith oedolion wedi cynyddu 40% i 212,716 yn 2021-22. Mae gan Gasnewydd y nifer uchaf o achosion o ddiabetes yng Nghymru, sef 8.7%, ac felly pennwyd bod diabetes yn un o flaenoriaethau allweddol yr is-adran. Anelu at leihau nifer yr oedolion sy'n byw â diabetes.

Iechyd Meddwl

Parhau i gefnogi problemau iechyd meddwl y boblogaeth leol a lleihau'r galw am y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn yr ardal hon.

Cydweithredfeydd Proffesiynol

Darparu arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer cydweithio neu weithio ar raddfa fawr i greu mwy o sefydlogrwydd ac i ddarparu gwasanaethau dan gontract mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Boblogaeth

Parhau i ymgysylltu â'r boblogaeth mewn perthynas ag iechyd a llesiant.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



BPGI Torfaen (Gogledd a De)

Torfaen (Gogledd a De)

Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Integredig Torfaen

Pwy ydym ni?

Mae Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Torfaen yn cael ei gadeirio ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol.

- Ers i'r dull gael ei drawsnewid o Gynllun Integredig Torfaen i Fwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Torfaen, y ffactor llwyddiant allweddol fu ehangder gwybodaeth y partneriaid dan sylw a harneisio hyn i ysgogi sefyllfa gyffredinol o wella systemau ar gyfer preswylwyr Torfaen. Cyflawnwyd hyn trwy sicrhau bod pob partner yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o bennu'r weledigaeth mewn gweithdai yn ystod cyfarfodydd, a thrwy gael amrywiaeth o raglenni sy'n defnyddio profiad partneriaid – er enghraifft, mae mynd i'r afael â'n mynychwyr aml i Adrannau Achosion Brys wedi denu cyd-weithwyr o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, yr Heddlu, y Trydydd Sector, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Byddai'r bartneriaeth yn elwa o gyllid dirprwyedig i weithredu rhaglenni gwaith yn gyflym gan ei bod yn ymrwymedig i sefydlu dull gofal seiliedig ar leoedd. Gall fod yn heriol weithiau gwneud cais i ffrydiau ariannu sy'n eiriol dros ddull rhanbarthol.
- Mae Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Torfaen yn cynnwys partneriaid allweddol sy'n chwarae rhan arwyddocaol yng ngweithrediad llwyddiannus y system iechyd a gofal cymdeithasol yn y fwrdeistref. Ers ei ailsefydlu yn 2023, mae ffocws y Bwrdd Partneriaeth wedi cael ei bwysoli'n bennaf tuag at ochr oedolion y system, ac mae'r partneriaid sy'n bresennol yn adlewyrchu hyn. Gwasanaethir y bartneriaeth gan gyd-weithwyr o'r meysydd Gofal Sylfaenol, Therapiau, Iechyd y Cyhoedd, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Adfywio Cymunedol (sy'n cynnwys Llyfrgelloedd a Chanolfannau Cymunedol), Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Cymdeithasau Tai, yr Heddlu, Cynghair Gwirfoddoli Torfaen (TVA) a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.
- Yn dilyn llwyddiant yn y system oedolion, mae'r Bwrdd Partneriaeth wrthi'n cyflwyno'r dull ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, ac ym mis Mawrth 2025 bydd yn cynnal gweithdy i gytuno ar feysydd gwaith ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae hwn yn faes blaenoriaeth i'r bartneriaeth am fod gan Dorfaen y boblogaeth uchaf yn Ewrop fesul 10,000 o blant sy'n derbyn gofal. Nod y gweithdy yw dod â chyd-weithwyr sydd eisoes yn gysylltiedig â'r Bwrdd Partneriaeth ynghyd, a denu mewnbyn arbenigol newydd ar gyfer y Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd, Nyrsio mewn Ysgolion, Addysg ac Ieuencid.

Lleolir Torfaen yn Ne-ddwyrain Cymru ac mae'n ffinio â dinas Casnewydd i'r de, Sir Fynwy i'r dwyrain, a bwrdeistrefi sirol Caerffili a Blaenau Gwent i'r gorllewin a'r gogledd-orllewin. Mae gan Dorfaen arwynebedd o 126 km² a hi yw'r 3edd fwrdeistref leiaf yng Nghymru, gyda phoblogaeth o tua 92,300.

Yn ddaearyddol, mae'r ardal yn rhedeg o Flaenau'r Cymoedd yn y gogledd i goridau'r M4 yn y de, ac mae tri phrif anheddiad i'w cael ar hyd y ffordd – Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân. Torfaen yw'r cwm mwyaf dwyreiniol o gymoedd diwydiannol De Cymru, a chafodd yr aneddiadau yng ngogledd a chanol y fwrdeistref eu sefydlu'n wreiddiol i fanteisio ar yr adnoddau

golosg, glo a haearn anadnewyddadwy a thoreithiog yn yr ardal. Wrth i'r diwydiannau trwm hyn ddirywio yn ystod y 100 mlynedd ddiwethaf, felly hefyd y dirywiodd ffyniant yr ardaloedd. Heddiw, mae gan dref Blaenafon, sy'n Safle Treftadaeth y Byd, boblogaeth o tua 6,000, a hi yw'r dref bellaf i'r gogledd yn y fwrdeistref. Mae Blaenafon yn enwog am amgueddfa lofaol y Pwll Mawr, ac am y gwaith haearn gorau o'r 18fed ganrif, o ran ei gyflwr, yn Ewrop.

Hen dref ddiwydiannol Pont-y-pŵl, gyda'i marchnad draddodiadol dan do ac yn yr awyr agored, yw'r anheddiad nesaf o ran maint yng nghanol y fwrdeistref, ac, ynghyd â'r cymunedau amrywiol o'i chwmpas, mae ganddi boblogaeth o tua 37,100.

Yn ne'r fwrdeistref, mae Cwmbrân yn unigryw o ran mai hi yw'r unig dref newydd yng Nghymru; cafodd ei dynodi yn 1949 ac fe'i cynlluniwyd i fod yn dref nodedig, flaengar a modern a oedd yn cynnig cyfleoedd newydd i'w phreswylwyr. Mae llawer o rannau deheuol y fwrdeistref sirol bellach wedi'u trefoli o amgylch Cwmbrân, ac yma y mae'r boblogaeth fwyaf, tua 48,700, o blith ardaloedd y tri anheddiad. Canolfan Siopa Cwmbrân sy'n denu'r nifer mwyaf o ymwelwyr siopa, gyda 17 miliwn o gwsmeriaid y flwyddyn yn dod yno o ardal ehangach Gwent a choridor yr M4.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae blaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Torfaen fel a ganlyn:

- Sicrhau ymgysylltiad llawn y trydydd sector
- Gweithlu integredig ar gyfer y dyfodol
- Gwaith seiliedig ar leoedd
- Ailgynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn
- Sicrhau ystad addas i'r diben
- Gwell craffu ariannol ar draws y system

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Nod Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Torfaen yw:

- Deall anghenion y boblogaeth, gan gynnwys y blaenoriaethau allweddol.
- Deall asesiadau proffesiynol a fynegir gan glystyrau/gydweithfeydd proffesiynol a gwasanaethau'r awdurdod lleol ynghylch bylchau, rhwystrau a chyfleoedd mewn perthynas â llwybrau gwasanaethau.
- Datblygu cynllun cyflawni sy'n gyson ac sy'n dwyn ynghyd y blaenoriaethau ar draws y system.
- Darparu arweinyddiaeth systemau sy'n galluogi cydweithrediad rhwng sefydliadau partner ar

draws iechyd a gofal cymdeithasol, a hynny i nodi a diwallu anghenion y boblogaeth leol.

- Ymgymryd â gwaith cynllunio integredig ar sail asesiad manwl o anghenion, ynghyd â chynlluniau gweithredol sy'n pennu uchelgeisiau cyffredin rhwng partneriaid ar gyfer darparu gwasanaethau integredig, datblygiadau i wasanaethau a chyfleoedd i gyflenwi gofal integredig yn y gymuned i breswylwyr Torfaen.
- Cefnogi datblygiad Cynllun Gweithlu Integredig sy'n adlewyrchu cynaliadwyedd lleol gwasanaethau ac uchelgeisiau Torfaen, fel ei gilydd, a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r cynllun hwnnw.
- Yn seiliedig ar angen ac fel y nodir yng Nghynllun Integredig Torfaen, cydgomisiynu cyfres o wasanaethau gan sefydliadau a all ddarparu gwasanaethau arloesol sy'n seiliedig ar ganlyniadau.
- Galluogi i wasanaethau gael eu darparu i wireddu'r amcanion a'r camau gweithredu a amlinellir yng Nghynllun Integredig Torfaen. Bydd hyn yn cynnwys dewis gwybodaeth sy'n seiliedig ar ddata cyfredol i greu'r fframwaith ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig, a darparu llinell sylfaen ar gyfer monitro mewn rhaglenni gwaith.
- Creu diwylliant sy'n cymell pob partner yn Nhorfaen, a defnyddio dull arloesol a gwybodaeth i ysgogi gwelliannau parhaus yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau integredig.
- Nodi, monitro a cheisio sicrwydd bod camau gweithredu ar waith i liniaru'r risgiau sydd i weithio mewn partneriaeth, a chyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y cynllun.

Mae'r bartneriaeth wedi bod yn llwyddiannus o ran goruchwyllo datblygiad a gweithrediad y canlynol:

- Ailgynllunio'r gwasanaeth Ailalluogi Integredig – bydd hyn yn sicrhau, adeg cyrchu gofal cymdeithasol gan naill ai'r gymuned neu ysbyty, fod ailalluogi rhyddhau yn cael ei gynnig/dreialu yn hytrach na gwasanaeth hirdymor; bydd hyn yn lleihau dibyniaeth ar ddarpariaeth gwasanaeth hirdymor ac yn creu capasiti yn y farchnad gofal cartref.
- Dull diwygiedig y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ac adolygiad cynhwysfawr o ddull cymunedau mewn perthynas ag ailbroffilio'r 'gymuned' fel y cynnig
- Dull Torfaen o leihau Oedi yn Achos Llwybrau Gofal, a hynny'n unol â thargedau Blaenoriaeth 1 y Pwyllgor Gweithredu Gofal o ran cyfanswm yr achosion o oedi, yr oedi yn achos asesiadau, a nifer y diwrnodau lle bo oedi wedi digwydd.



Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin
Bevan (BIPAB)



BPGI Torfaen
(Gogledd a De)

Torfaen
(Gogledd a De)

- Yn gysylltiedig â hyn, mae cyd-weithwyr ym maes Tai wedi darparu llwybr ar gyfer cymorth i gleifion a allai brofi oedi oherwydd problem tai
- Sefydlu gweithgor i adolygu defnyddwyr dwyster uchel a phennu trefniadau amgen i ymgylwyno yn yr Adran Achosion Brys
 - Prosiect trafndiaeth ar gyfer gogledd y fwrdeistref i gefnogi preswylwyr i gyrchu gwasanaethau iechyd
 - Prosiect tai gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, sy'n cysylltu data cod post am gleifion a chanddynt gyflwr anadlol â chymdeithasau tai, a hynny i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chyflwr eiddo.

- Mae'r cyflawniadau allweddol fel a ganlyn:
- Ymyriad ac Atal Cynnar trwy Ofal Seiliedig ar Lleoedd**
- Gwasanaeth Ailalluogi Cymunedol Integredig
 - Canolfan Adnoddau Blaenafon
 - Canolfan Adnoddau i Deuluoedd Stryd Wesley.

- Gwneud y Mwyaf o'n Hasedau**
- Tŷ Gwent, Canol Tref Cwmbrân
 - Ailgynllunio'r Ysbyty Sirol.

- Cynaliadwyedd ein Gwasanaethau Cymunedol**
- Y gwasanaeth plant – o ran darparu gofal yn lleol, ac uchelgais Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dileu elw ym maes gofal
 - Ailgynllunio Gwasanaethau Oedolion Hŷn – yn nhermau dull graddedig sy'n dechrau gyda Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, ac yn mynd ymlaen i atal ac ymyriad cynnar a gofal arbenigol hirdymor
 - Llwybrau Iechyd Meddwl – model gofal fesul cam, a hynny o lesiant meddwl i wasanaeth iechyd meddwl arbenigol.

- Rhwydweithiau Llesiant Integredig**
- Meithrin cydnerthedd a gallu yn y gymuned
 - Mapio a rhwydweithio asedau cymunedol
 - Creu rhwydwaith o “ganolfannau” cymdogaeth lle gall pobl gael cymorth a chymryd rhan mewn gweithgareddau a grwpiau
 - Cynnal y cyfeiriadur, Cyswllt Torfaen, sy'n rhestru gwasanaethau llesiant.

Beth nesaf?

- Y blaenoriaethau wrth symud ymlaen yw:**
- Adolygu a recriwtio i rôl Arweinydd y Rhwydwaith Llesiant Integredig i ddatblygu'r rhaglen ymhellach.
 - Ehangu cymorth ein Tîm Adnoddau Cymunedol yn y gymuned, gan weithio ar y cyd mewn lleoliadau cymunedol.
 - Sicrhau bod gan wasanaethau yr hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigolion.
 - Gwella'r mynediad at arbenigedd.
 - Darparu profiad cadarnhaol i gleifion a gofalwyr.
 - Sicrhau amgylchedd gwaith cefnogol a chyfluoedd datblygu gyrfa i'n staff, gan greu diwylliant ysgogol.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



RGC Torfaen (Gogledd a De)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Torfaen

Eryl Smeethe
Eryl.Smeethe@wales.nhs.uk

RGC Torfaen (Gogledd a De)

Pwy ydym ni?

Eryl yw Arweinydd y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ar gyfer Torfaen, a'i maes cyfrifoldeb yw Teuluoedd a Therapiau, ac Iechyd Menywod. Yn y blynyddoedd ers iddi fod yn Arweinydd y Rhwydwaith, mae Eryl wedi arwain proses cysoni cartrefi gofal sydd wedi trawsnewid gofal preswylwyr cartrefi gofal a chynyddu'r cydweithrediad rhwng clystyrau, a hynny trwy greu Rhwydwaith Fferylliaeth a Fferyllwyr Practis Torfaen. Mae gan Eryl gefndir ym maes Fferylliaeth, a hi yw'r Cynghorydd Presgripsiynu Arweiniol ar gyfer tîm Rheoli Meddyginiaethau BIPAB. Mae'n aelod o Grŵp Cynghori ar Bresgripsiynu Cymru Gyfan a'r Grŵp Cyflawni, Fferylliaeth yn Cyflawni Cymru Iachach. Mae Tîm Ardal Torfaen yn cynnwys: **Pennaeth y Gwasanaeth, Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaeth, Rheolwr y Rhwydwaith a'r Gymyned, Rheolwr Gwella Gwasanaethau, Swyddog Cymorth Busnes**

Mae gan Dorfaen boblogaeth o 98,300 o bobl. Mae dros 30% o'r preswylwyr hyn yn byw mewn ardaloedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd, tra bo 20% arall yn byw yn yr ail ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae lefelau uchel o amddifadedd yn Nhorfaen yn cyflwyno heriau sylweddol. Yn aml, mae gan yr ardaloedd hyn iechyd gwaeth, lefelau addysg is, a llai o adnoddau cymunedol a chyhoeddus. Y prif broblemau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd yn Nhorfaen yw diweithdra, tai o ansawdd gwael, ac incwm isel. Mae mynd i'r afael â'r problemau hyn yn allweddol i wella iechyd a llesiant ein cymuned.

Mae yna 11 o bractisau meddygon teulu yn gweithredu yn ardal Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Torfaen

- Practis Meddygol Blaenafon
- Meddygfa Heol-y-Dderwen
- Stryd Capel Newydd
- Meddygfa Pentref Cwmbrân/ Meddygfa Llanyrafon
- Meddygfa Rhodfa Clark
- Canolfan Iechyd Nant Dowlais
- Canolfan Iechyd Panteg
- Trosnant Lodge
- Practis Grŵp Abersychan
- Canolfan Feddygol Pont-y-pŵl

Services within the cluster (GP/other contractors/ Gwasanaethau Cymunedol)

- 11 Practis Meddygon Teulu
- 13 o bractisau deintyddol
- 11 o optometryddion
- 21 o fferyllfeydd cymunedol

Mae'r galw am ofal iechyd yn parhau i gynyddu mewn cyfrannedd â thwrf y boblogaeth. Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio, gyda chleifion yn byw am amser hirach ag anghenion mwy cymhleth, gan gynyddu ymhellach yr heriau a wynebir gan y GIG a'i bartneriaid. Nod Torfaen yw darparu system ofal seiliedig ar le sy'n fwy integredig ac sy'n cynnwys gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau llesiant, sy'n cynnig gofal cydlynol yn nes at y cartref, gyda chydweithrediad o ran sgiliau proffesiynol ar draws timau amlddisgyblaethol.

Mae Torfaen wedi cynyddu'r arfer o gydweithio ledled y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth gyda'r nod o gryfhau cydnerthedd cymunedol, ymateb i anghenion y boblogaeth, a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf trwy ei dair prif ffrwd waith:

1. Atal, Llesiant, a Hunanofal
2. Mynediad a Chynaliadwyedd
3. Gofal Sylfaenol a Chymunedol Integredig

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Tair prif flaenoriaeth Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth Gogledd a De Torfaen yn 2024-25

1. Cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y Rhwydwaith.

- CATCH yn darparu cymorth ar gyfer practisau meddygon teulu.
- Ystadau Tŷ Gwent a Trefddyn yn cefnogi gwasanaethau ychwanegol ac yn lleihau'r galw mewn practisau.
- Fferyllfeydd y Clwstwr yn gwella diogelwch meddyginiaethau.
- Ymgysylltu â'r tîm Rheoli Meddyginiaethau i fynd i'r afael â'r broses o ragnodi allanolion a gwella'r broses honno.
- Ymarferwyr Iechyd Seicolegol yn darparu mynediad at gyngor a chymorth mewn perthynas ag iechyd meddwl mewn practisau meddygon teulu.
- Cyflwyno Model Luton a hyrwyddo'r broses o estyn cyfnodau presgripsiwn.
- Parhau i nodi gwasanaethau, technoleg a datblygiadau arloesol i helpu i gynorthwyo mynediad a chynaliadwyedd ar gyfer Ymarfer Cyffredinol a gwasanaethau cymunedol megis AccuRx a'r llwyfan Dewis Fferyllfa.
- Parhau i wella'r broses o ddarparu Gwasanaethau Ychwanegol ac i sicrhau darpariaeth deg.

2. Datblygu Clwstwr Carlam – Cydweithredfeydd a Gwaith Amlddisgyblaethol

- Cipio gwybodaeth a phrofiad y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig, ac, wedi iddo gael ei benodi, tîm y Rhwydwaith Llesiant Integredig i fapio'r gwasanaethau a ddarperir, nodi bylchau,

a datblygu datrysiadau a rhwydweithiau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan ddefnyddio asedau'r gymuned yn unol ag anghenion y boblogaeth.

- Cydweithredfeydd Proffesiynol yn llywio'r penderfyniadau a wneir gan y Rhwydwaith.
- Llywio Gofal trwy gyfeirio at wasanaethau lleol i sicrhau'r gofal cywir ar yr adeg gywir ar lefel practisau, gan raeadru hyn trwy'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig a'r cydwethredfeydd proffesiynol.
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd; Allgymorth ar gyfer clefyd cardiofasgwlaidd – prosiect Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Torfaen.
- Treialu system archebu clinigau Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd Cymunedol mewn practisau meddygon teulu.
- Trefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer cyllido Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, CLGau, a gwerthuso gwasanaethau.

3. Adeiladau Cymunedau Cydnerth

- Dadansoddi'r angen lleol i nodi blaenoriaethau a llunio datrysiadau effeithiol.
- Hybu atgyfeiriadau a chynyddu mynediad at rolau arbenigol yn y gymuned, megis gwasanaethau Gofal Lliniarol, a Nyrsys Diabetig ac Anadlol Arbenigol.
- Cysylltwyr Cymunedol yn cysylltu unigolion â grwpiau, gweithgareddau a sefydliadau lleol i gefnogi llesiant corfforol a meddyliol.
- Amlygu gwasanaethau ataliol i gadw dinasyddion yn iach, gan gynnwys imiwneddio rhag y fflw, imiwneddio yn ystod plentynod, gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu, gwasanaethau rheoli pwysau, a chynlluniau atgyfeirio unigolion i wneud ymarfer corff.

ASTUDIAETH ACHOS

Mae ein Menter Cartrefi Iach yn golygu gweithio gyda phractisau meddygon teulu yn yr ardal i nodi cleifion a allai elwa o ymyriad a ddarperir gan y gwasanaeth Gofal a Thrwsio. Rydym yn cysylltu â chleifion ac yn eu gwahodd i estyn allan i'r gwasanaeth Gofal a Thrwsio, a fydd yn cynnal asesiad wyneb yn wyneb i nodi sut y gallent gael budd o'r gwasanaeth. Mae'r cynllun yn cynnig addasiadau i'r cartref a ariennir yn llawn i gleifion oedrannus y mae arnynt angen cymorth i leihau'r risg o gwmpo a'u helpu i gadw'n ddiogel, yn gynnwys, yn hapus ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Ers cychwyn y prosiect hwn, mae bron 900 o bobl wedi elwa o fân addasiadau i'w cartrefi ac o dros £230,000 o fudd-daliadau lles a nodwyd ac a hawliwyd yn sgil hynny.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)



RGC Torfaen (Gogledd a De)

Arweinydd Clwstwr/RGC

Torfaen
Eryl Smeethe
Eryl.Smeethe@wales.nhs.uk

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae aelodau Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth Torfaen wedi cael y gydnabyddiaeth a'r gwobrau canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

- Enillodd Dr Esther Okafor o Ganolfan Iechyd Panteg wobwr Meddyg Teulu y Flwyddyn yng Ngwobrau Iechyd a Gofal 2024 y South Wales Argus.
- Enillodd Fferyllfa Layanson Fferyllfa y Flwyddyn yng Ngwobrau Iechyd a Gofal 2024 y South Wales Argus.
- Cafodd tîm nyrsys ardal Gogledd Torfaen ym Mlaenafon ei enwebu gan glaf neu berthynas ar gyfer gwobrau cydnabyddiaeth y Bwrdd Iechyd.
- Cafodd staff Canolfan Iechyd Panteg Dystysgrif Cydnabyddiaeth Gwobr Dewis y Cleifion yng Ngwobrau Cydnabod Staff 2024.

Cyrhaeddodd tîm Canolfan Iechyd Trefddyn y rownd derfynol ar gyfer y wobwr Iechyd a Llesiant yng Ngwobrau Iechyd a Gofal 2024 y South Wales Argus.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae tîm CATCH Torfaen yn cefnogi practisau meddygon teulu ledled Torfaen trwy ymweld â chartrefi a chynnal asesiadau geriatrig cynhwysfawr ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal.

Mae buddion asesiad clinigol gan y Nyrs CATCH yn cynnwys:

- Mwy o amser i ddarparu asesiad holistaidd ar gyfer pob claf, ynghyd â diagnosteg
- Adnabod problemau clinigol newydd neu broblemau â'r feddyginiaeth
- Amser i drafod dymuniadau ar gyfer achosion yn y dyfodol â chleifion a'u teuluoedd
- Amser i gefnogi a chynghori staff cartrefi gofal mewn perthynas ag arfer gorau.

Gydol y flwyddyn, mae'r tîm CATCH wedi cael ei gynnwys fwyfwy wrth ddarparu gwasanaethau yn yr ardal, gan gryfhau perthnasoedd â chleifion a sefydliadau partner, fel ei gilydd.

- Gwasanaeth y rhoddir gwerth uchel arno yn Nhorfaen
- Adborth cadarnhaol gan gleifion, practisau, cartrefi gofal, a nyrsys ardal
- Rolau parhaol wedi cael eu sicrhau
- Staff yn cwblhau addysg bellach, sy'n eu galluogi i gynnal asesiadau ac ymyriadau clinigol mwy datblygedig, gan ryddhau amser meddygon teulu
- Cefnogi cartrefi gofal â Gwasanaeth Ychwanegol wedi'i Gyfeirio at Gartrefi Gofal ledled Torfaen.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol?

Mae yna dair her barhaus

1. Cyllideb

- Cyllidebau cyfyngedig y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yn rhwystro prosiectau mawr
- Caiff cyllideb y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ei bennu'n rheolaidd
- Prosiectau'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth sydd wedi cael gwerthusiad da heb bontio i gael cyllid craidd, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i fuddsoddi mewn mentrau newydd
- Pwysau ariannol ar gcontractwyr annibynnol o ganlyniad i bwysau chwyddiant a chodiadau cyflog.

2. Cynaliadwyedd

- Problemau o ran cadw a recriwtio'r gweithlu ledled y gwasanaeth gofal sylfaenol a thimau cymunedol
- Gweithlu sy'n heneiddio ac ymddeoliadau yn bygwth cynaliadwyedd y modelau presennol
- Problemau o ran recriwtio ar gyfer rolau penodol, megis meddygon teulu partner, nyrsys practis, ac uwch-ymarferwyr nyrsio
- Mynediad at ddeintyddiaeth, a phractis y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol yn cau
- Lefelau uchel rheolaidd o uwchgyfeirio ymhlith practisau'r Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol
- Ymwybyddiaeth y cleifion o'r gwasanaethau priodol.

3. Datblygu Clwstwr Carlam – Cydweithredfeydd Proffesiynol

- Mae symud y tu hwnt i'r cam pontio at ddatblygiad llwyr, a deall rolau a chyfrifoldebau yn heriol ar adegau
- Camau cynnar aeddfedrwydd
- Cynrychiolaeth gyfyngedig lle nad yw'r ymgysylltu dan gcontract
- Staff uwch yw aelodau'r cydweithredfeydd proffesiynol ar y cyfan, ac mae angen ymgysylltiad mwy eang
- Diffyg arweinydd optometreg yn Nhorfaen
- Lleoliadau rheolaidd i sicrhau cyfarfodydd cydweithredol.

Cynnwys dolenni i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

Ein meysydd blaenoriaeth ni, y Bwrdd Iechyd, ar gyfer yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol dros gyfnod 2025-26 fydd symud ymlaen â'r meysydd canlynol a'u cyflawni:

- Cyflyrau Hirdymor – Rheoli ac Atal
- Mynediad a Chynaliadwyedd
- Ailgynllunio'r Gwasanaethau Pobl Hŷn
- Datblygu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a Phartneriaethau.

Beth nesaf?

Blaenoriaethau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yw:

- Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth leol a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Cefnogi cynaliadwyedd contractwyr annibynnol
- Galluog pobl i gadw'n iach a byw bywydau iachach am amser hirach
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd
Sefydlu'r arfer o weithio mewn tîm amlddisgyblaethol ar gyfer pobl sydd â'r cyflyrau mwyaf cymhleth ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio a wynebu digwyddiadau anffafriol, megis cael eu derbyn i'r ysbyty.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Conwy
(Dwyrain a Gorllewin)

Sir Ddinbych
(Gogledd, Canol a De)

Dwyrain
(Wrecsam Canol, De a Gogledd)
(Sir y Fflint De, Gogledd Orllewin a Gogledd Dwyrain)

Gorllewin
(Ynys Mon, Arfon, Dwyfor a Gogledd Meirionnydd a De Meirionnydd)



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Tehmeena Ajmal
Prif Swyddog Gweithredu

Mae'n bleser mawr gennyf ysgrifennu'r rhagair ar gyfer Blwyddlyfr Gwaith Clwstwr 2025 ar ran yr 14 o Glystyrau yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn ogystal â darparu'r cefndir i bob un o'r Clystyrau unigryw iawn yng Ngogledd Cymru, mae pob proffil yn tynnu sylw at yr amrywiaeth sylweddol o weithgareddau a wneir i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth leol.

Oherwydd amrywiaeth y boblogaeth leol a daearyddiaeth Gogledd Cymru, mae pob un o'n Clystyrau yn wynebu heriau gwahanol iawn o ran iechyd, gofal cymdeithasol, a llesiant, heriau y mae Timau'r Clystyrau, Arweinwyr y Clystyrau, ac Arweinwyr y Cydweithredfeydd Phroffesiynol yn mynd i'r afael â nhw, gan ddatblygu atebion lleol i faterion lleol.

Mae Timau'r Clystyrau yn sicrhau, lle bo modd, eu bod yn gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd i gydweithio, gan rannu amser, adnoddau, sgiliau, a gwybodaeth. Mae'r blwyddlyfr hwn yn gyfle i ddysgu rhagor am yr hyn y mae pob un o'r Clystyrau yn gweithio arno i sicrhau effaith gadarnhaol i gleifion ledled Gogledd Cymru.




Mae ein blaenoriaethau'n cynnwys y canlynol:

- Gweithio i gryfhau gofal holistaidd yn y gymuned ac sy'n canolbwyntio ar y claf, a hynny trwy waith amlddisgyblaethol.
- Gweithio i hybu a chefnogi ymddygiadau iach yn y gymuned.
- Gweithio i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwahaniaethau gwledig.
- Gweithio i wella profiad y claf.
- Gweithio gyda'r rhai sydd mewn perygl o gael diabetes neu sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes i leihau eu ffactorau risg a hunanreoli eu cyflwr yn fwy effeithiol.
- Gweithio i gefnogi'r broses o reoli clefydau cronig yn y gymuned a chanolbwyntio ar atal a hunanreoli.




Mae'r adran hon yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y Cydweithredfeydd Proffesiynol a'r grwpiau Cynllunio Traws-Clwstwr yng Ngogledd Cymru ac ar y cyd mae eu cyfraniad yn allweddol i gyflawni blaenoriaeth y Bwrdd i symud gofal yn nes at y cartref yn ogystal â chefnogi cynaliadwydd gofal sylfaenol yn eu hardal leol.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



GCTC Conwy (Dwyrain a Gorllewin)

Dwyrain

Gorllewin

Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr (GCTG) Conwy

Pwy ydym ni?

Mae Conwy yn sir yng Ngogledd Cymru, sy'n adnabyddus am ei chyfuniad o drefi arfordirol, pentrefi gwledig, a chefn gwlad prydferth.

Mae gan y sir boblogaeth hŷn yn bennaf, ac mae cyfran sylweddol o drigolion yn 65 oed a throsodd, sy'n uwch na chyfartaledd rhanbarth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Er bod Conwy yn elwa o rwydweithiau cymunedol cryf a threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, mae hefyd yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau iechyd, hygyrchedd gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, a demograffeg sy'n heneiddio.

Mae Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr Conwy yn fforwm cydweithredol sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr iechyd, gofal cymdeithasol, sefydliadau'r sector gwirfoddol, a llywodraeth leol i weithio tuag at wella canlyniadau iechyd a llesiant ledled y sir.

Un o brif feysydd ffocws Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr Conwy yw lleihau gwahaniaethau o ran disgwyliad oes iach, lle mae yna wahaniaeth ar hyn o bryd o 13.8 mlynedd yn achos menywod a 18.8 mlynedd yn achos dynion rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig.

Rhagwelir hefyd mai'r sir hon fydd â'r cynnydd mwyaf mewn achosion o ddementia yng Ngogledd Cymru erbyn 2040, sy'n pwysleisio'r angen am wasanaethau gofal a chymorth cryfach sy'n gysylltiedig ag oedran.

Mae Conwy wedi'i rannu'n ddau glwstwr gofal sylfaenol: Dwyrain Conwy a Gorllewin Conwy, a'r naill a'r llall â phroffiliau iechyd a demograffig gwahanol.

Dwyrain Conwy

Mae Dwyrain Conwy yn cynnwys Bae Cinmel, Abergele, Llandrillo-yn-Rhos, a Bae Colwyn, sy'n ffurfio clwstwr mwy trefol ac iddo lefelau nodedig o amddifadedd. Mae gan yr ardal grynodiadau uwch o dai cymdeithasol ac anfantais economaidd, sy'n arwain at ganlyniadau iechyd gwaeth o gymharu â rhannau eraill o'r sir.

Mae'r heriau iechyd yn Nwyrain Conwy yn cynnwys lefelau uchel o dlodi plant, gyda 29.1% o blant yn cael eu magu ar aelwydydd incwm isel, sy'n effeithio ar y gallu i gael bwyd maethlon a thai sefydlog. Mae'r clwstwr hwn hefyd yn profi lefelau gweithgarwch corfforol is, gyda dim ond 37.5% o oedolion yn bodloni'r lefelau ymarfer corff a argymhellir, a chyfradd uchel o achosion o gyflyrau cronig megis diabetes (9.1%) a gorbwysedd (18.0%). Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn is nag yng Ngorllewin Conwy, gyda dim ond 18.8% o drigolion yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg.

Blaenoriaethau

Mae'r gwahaniaethau daearyddol hyn yn golygu bod blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn amrywio'n sylweddol ledled Conwy. Mae ar Ddwyrain Conwy angen ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag amddifadedd, tlodi plant, a chyflyrau iechyd cronig, tra bo ar Orllewin Conwy angen ffocws cryfach ar wella mynediad at ofal iechyd mewn ardaloedd gwledig, cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio, a mynd i'r afael â chyfraddau uwch o ordewdra ymhlith plant.

Trwy gydweithio, nod y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr yw sicrhau bod gan bob cymuned fynediad at y gofal a'r cymorth y mae arni eu hangen, ni waeth beth fo'i statws economaidd-gymdeithasol na'i daearyddiaeth.

Aelodaeth

Aelodau craidd Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr Conwy yw:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Tîm Iechyd Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Llais
- Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CCGC)
- Cartrefi Conwy

CCGC yw'r corff ymbarél a sefydlwyd i ddatblygu a hybu gweithredu gwirfoddol a chymunedol yn Sir Conwy. Mae Cartrefi Conwy yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n rheoli dros 4,000 o breswylfeydd ledled y sir.

Gorllewin Conwy

Mae Gorllewin Conwy yn ymestyn o ardaloedd arfordirol Conwy i Lanfairfechan ac i gymunedau gwledig megis Llanrwst, Betws-y-Coed, a Cherrigydudion. Mae ganddo lefelau is o amddifadedd, ond mae trigolion yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â natur wledig yr ardal a mynediad at wasanaethau gofal iechyd.


Un o'r pryderon allweddol yn yr ardal hon yw'r boblogaeth sy'n heneiddio, gyda 31% o aelwydydd yn cynnwys pensïynwyr, sy'n greu galw cynyddol am wasanaethau gofal a chymorth arbenigol i'r henoed. At hynny, nid oes gan 18.4% o gartrefi fynediad at gar, sy'n ei gwneud yn anodd cyrraedd gwasanaethau hanfodol, yn enwedig mewn cymunedau mwy ynysig.

Mae gan Orllewin Conwy gyfraddau uwch o ordewdra ymhlith plant (31.2%) o gymharu â Dwyrain Conwy, a allai fod yn gysylltiedig â mynediad cyfyngedig at gyfleusterau hamdden a dewisiadau bwyd iach mewn ardaloedd gwledig. Yn wahanol i Ddwyrain Conwy, mae 31.5% o drigolion y clwstwr hwn yn siarad Cymraeg, gan gyfrannu at bresenoldeb cryfach o ran yr iaith Gymraeg.

Poblogaeth a Gwasanaethau

Mae gan Gonwy boblogaeth practisau meddygon teulu o 116,618 ac fe'i gwasanaethir gan:

- 15 o Bractisau Cyffredinol
- 26 o Fferyllfeydd Cymunedol
- 10 Optegydd
- 13 o Ddeintyddion
- 5 Tîm Adnoddau Cymunedol



**Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi
Cadwaladr (BIPBC)**



**GCTC Conwy
(Dwyrain a
Gorllewin)**

Dwyrain

Gorllewin

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae gwaith y Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr yn cyd-fynd â fframweithiau polisi allweddol, gan gynnwys y Model Gofal Sylfaenol i Gymru, Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru, a strategaeth llesiant leol Conwy.

Mae'r meysydd ffocws allweddol ar gyfer 2025-26 yn cynnwys y canlynol:

Anghydraddoldebau Iechyd a Chymunedau Agored i Niwed – Mynd i'r afael ag amddifadedd, gwella mynediad at ofal i grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio, a lleihau gwahaniaethau o ran iechyd ledled y sir.

Pobl Hŷn a Phoblogaeth sy'n Heneiddio – Cefnogi eiddilwch, atal cwympiadau, a gofal dementia i helpu trigolion i fyw'n annibynnol yn hirach.

Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol – Cryfhau cymorth iechyd meddwl ledled yr holl grwpiau oedran, gan ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar a llwybrau ymateb i argyfyngau.

Atal a Llesiant – Hybu ffyrdd iach o fyw, cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu brechu, a chefnogi mentrau llesiant cymunedol.

Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng – Gwella mynediad at wasanaethau ar yr un diwrnod a'r tu allan i oriau gwaith er mwyn sicrhau gofal amserol a phriodol.

Gofal Sylfaenol a Chymunedol Cynaliadwy – Datblygu modelau gwasanaeth arloesol, cryfhau'r gweithlu aml-ddisgyblaethol, a sicrhau hyfywedd hirdymor gwasanaethau lleol.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- **Sefydlu Cynllun Cyntaf y Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr** – Mae datblygu'r cynllun hwn yn mynegi'r blaenoriaethau a rennir ar gyfer 2025-26.

Beth sydd wedi gweithio'n dda?

- **Cysoni Nodau a Gwerthoedd** – Mae'r grŵp wedi datblygu ffocws clir ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol?


- **Neilltuo Amser i Sefydlu'r Fforwm** – Er bod cynnydd wedi'i wneud, cymerodd amser i'r Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr ddatblygu ar ffurf fforwm (ac mae'n parhau i wneud hynny).
- **Gweithredu ar y Lefel Gywir** – Mae'r grŵp yn dal i weithio i ddiffinio'r cydbwysedd rhwng gwaith cynllunio/strategol a chyflawni gweithredol, gan sicrhau bod ei rôl yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau ar lefel uwch yn hytrach na materion y gwasanaeth o ddydd i ddydd.
- **Dealltwriaeth o Rôl y Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr yn y cyd-destun lleol** – Mae'r gwaith yn parhau i egluro perthynas y Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaeth Integredig Ardal gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd â strategaethau rhanbarthol ehangach ac nad yw'n dyblygu gwaith.

Beth nesaf?

Bydd cam nesaf gwaith y Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr yn canolbwyntio ar ymgorffori ei rôl strategol ymhellach a chyflawni'r blaenoriaethau a nodir yng nghynllun 2025-26 y Grŵp a chynlluniau'r clystyrau.

Bydd y meysydd ffocws allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Cryfhau gwaith partneriaeth ymhellach, yn enwedig mewn meysydd megis tai, iechyd meddwl ac iechyd ataliol.
- Cefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned i leihau anghydraddoldebau iechyd, gwella mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig, a chefnogi grwpiau agored i niwed.
- Sicrhau bod gweithgarwch y Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr yn bwydo i waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mewn modd ystyrlon a strwythuredig.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Clwstwr Dwyrain Conwy

Arweinydd y Clwstwr

Dr Jonathan Williamson
Jonathan.Williamson2@wales.nhs.uk

Cydgysylltwr Clwstwr

Nichola Cook
Nichola.Cook@wales.nhs.uk

Clwstwr Dwyrain Conway

Pwy ydym ni?

Mae Dwyrain Conwy yn cynnwys trefi arfordirol Bae Colwyn, Abergele, Tywyn, a Bae Cinmel yn ogystal â rhai ardaloedd gwledig mewndirol. Mae 27% o'r boblogaeth dros 65 oed, ac mae 21% o'r boblogaeth yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan y clwstwr lefelau gorbwysedd, clefyd cardiofasgwlaidd, a diabetes math 2 sy'n uwch na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Gwasanaethir yr ardal gan 10 Fferyllfa Gymunedol, 4 Optegydd, a 4 meddygfa deulu sy'n gcontractwyr gofal sylfaenol, ac maent yn darparu gwasanaethau i 52,333 o gleifion cofrestredig. Caiff y boblogaeth hefyd ei chefnogi gan 2 Dîm Adnoddau Cymunedol, ac mae'r clwstwr yn ariannu tîm Diabetes Lleol a thîm Therapi Galwedigaethol Gofal Sylfaenol (PCOT).

Dr Jonathan Williamson yw Arweinydd y Clwstwr ac mae wedi bod yn Feddyg Teulu ym Mae Colwyn ers 2011. Caiff ei gefnogi gan Gydgyssylltydd y Clwstwr, sef Nichola Cook, a Thîm Cymorth Canolog ehangach y Clwstwr.

Ein Gwasanaethau

- 4 Practis Cyffredinol
- 10 Fferyllfa Gymunedol
- 4 Optegydd
- 7 Deintydd
- 1 Gydweithredfa Nyrsio (Conwy gyfan)
- 1 Gydweithredfa Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (BIPBC gyfan)
- 2 Dîm Adnoddau Cymunedol

Practisau Cyffredinol

- Meddygfa Cadwgan (Bae Colwyn)
- Canolfan Feddygol Gwrych (Abergele)
- Canolfan Feddygol Bae Cinmel
- Canolfan Feddygol West End (Bae Colwyn)

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Ar hyn o bryd mae'r Clwstwr yn canolbwyntio ar anghenion y boblogaeth yn y pedwar maes canlynol:

1. Gweithio i gryfhau gofal holistaidd yn y gymuned, sy'n canolbwyntio ar y claf, trwy waith amlddisgyblaethol.
2. Gweithio i hybu a chefnogi ymddygiadau iach yn y gymuned.
3. Gweithio i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella profiad y claf.
4. Gweithio gyda'r rhai sydd mewn perygl o gael diabetes neu sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes i leihau eu ffactorau risg a hunanreoli eu cyflwr yn fwy effeithiol.

Y Tîm Diabetes Lleol Arbenigol

Mae'r tîm hwn yn datblygu ffyrdd o godi a chynnal lefel sgiliau staff Gofal Sylfaenol a Chymunedol, sy'n eu galluogi i gefnogi cleifion a thriniaethau mwy cymhleth mewn modd effeithiol yn y gymuned. O ganlyniad i hyfforddi a chefnogi'r staff nyrsio, mae mwy o'n practisau meddygon teulu bellach yn gallu cychwyn a chefnogi therapïau chwistrelladwy.

Mae aelodau'r tîm hefyd yn gweithio i leihau anghydraddoldebau mewn gofal diabetes trwy ddatblygu ymyriadau sy'n cynnig cefnogaeth well i gleifion a grwpiau anodd eu cyrraedd sy'n wynebu perygl penodol o gael diabetes. Maent wedi bod yn darparu gwybodaeth, cefnogaeth, a gwasanaethau cyfeirio trwy ddigwyddiadau mynediad agored mewn lleoliadau cymunedol i gyrraedd aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau iechyd.

Yn ystod y gweithgareddau hyn maent yn gweithio gyda nifer o dimau eraill i sicrhau bod gan gleifion y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen i wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw. Er enghraifft, roeddent wedi cynorthwyo claf a oedd yn byw ar ei ben ei hun ac a oedd yn ei chael yn anodd cadw rheolaeth dda ar ei ddiabetes er gwaethaf cefnogaeth amrywiol Dimau Adnoddau Cymunedol a'r meddyg teulu.

Gan weithio gyda'r timau eraill i asesu'r claf, diwygiodd y tîm diabetes y feddyginiaeth a galluogi'r unigolyn i aros yn ei gartref. Enghraifft arall yw unigolyn ag anawsterau dysgu a oedd yn byw'n annibynnol gyda chymorth gofalwyr, ac a oedd yn profi hypoglycemia yn rheolaidd. Gweithiodd aelodau'r tîm i ddarparu cyfarpar a hyfforddiant i'r unigolyn a'r gofalwyr, sydd wedi arwain at well rheolaeth ar ei ddiabetes ac mae wedi rhoi terfyn ar ddigwyddiadau hypoglycemig fwy neu lai.

Y Tîm Therapi Galwedigaethol Gofal Sylfaenol (PCOT)

Gweledigaeth y gwasanaeth hwn yw "Helpu pobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt pan maent yn dechrau cael trafferth". Mae'n mabwysiadu model gofal seicogymdeithasol holistaidd ac yn sicrhau bod yr un clinigydd yn cynnal yr asesiad a'r ymyriad sy'n helpu i sicrhau profiad da i'r claf. Mae wedi profi'n hygyrch i glinigwyr a chleifion, fel ei gilydd, oherwydd ehangder y bobl sy'n gallu atgyfeirio, y cyflymder o ran dechrau'r ymyriadau, a'r ystod o gyflyrau y gellir eu chefnogi. Mae hwn yn wasanaeth arall sy'n gweithio gyda nifer mawr o dimau er mwyn cael y cymorth priodol ar gyfer anghenion claf unigol. Mae llawer o'r ymyriadau Therapi Galwedigaethol a'r atgyfeiriadau i wasanaethau eraill yn digwydd i helpu pobl i wneud dewisiadau iachach o ran ymddygiad.

Timau Adnoddau Cymunedol a Gofal Uwch Rydym wedi parhau i weithio i sefydlu cyfarfodydd achosion cymhleth y Timau Adnoddau Cymunedol yn wythnosol, sy'n denu presenoldeb da, sy'n galluogi trafodaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws y disgyblaethau er mwyn sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei roi i glaf mewn lleoliad priodol. Rydym yn datblygu'r model hwn ymhellach i ddarparu gwasanaethau gofal uwch i gleifion y mae arnynt angen gofal clinigol a gofal cartref ychwanegol am gyfnod byr am fod eu cyflwr wedi dirywio, neu am eu bod wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Diabetes: Mae'r tîm hwn wedi amlygu gostyngiadau cyson yn HbA1c y cleifion y maent wedi bod yn gweithio gyda nhw. Mae bod â thîm diabetes medrus yn y gymuned

Beth nesaf?

I gefnogi pedair blaenoriaeth barhaus y clwstwr, rydym yn bwriadu ymgymryd â'r gwaith canlynol yn ystod y 12 mis nesaf:

- Ymchwilio i gyd-gynhyrchu cynigion prosiectau gyda chleifion, defnyddwyr y gwasanaethau, a rhanddeiliaid eraill i helpu i nodi anghydraddoldebau o ran cael mynediad at ofal iechyd, a chreu atebion sy'n lleihau'r anghydraddoldebau hyn.
- Ymchwilio i weld a ellir atgynhyrchu neu wella'r canlyniadau a welir yn ein gwasanaethau presennol pan gyflwynir yr ymyriad mewn grwpiau.
- Ymchwilio i'r modd y gallwn wneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau ychwanegol y gellir eu darparu gan Optometryddion a Fferyllfeydd Cymunedol.
- Ymchwilio i'r modd y gallwn rannu data yn well i lywio'r gwaith o gynllunio a datblygu ymarfer.

hefyd wedi atal nifer o dderbyniadau i'r ysbyty.

Therapi Galwedigaethol Gofal Sylfaenol: Mae'r gwasanaeth hwn wedi amlygu llwyddiant mawr o ran lleihau amhariadau corfforol a meddyliol cleifion ar ffurf mesurau trwy'r offeryn AusTOM. Mae dadansoddiad ôl-weithredol hefyd wedi dangos, pan fydd cleifion yn rhyngweithio â'r gwasanaeth, fod nifer yr adegau y maent yn teimlo'r angen am gymorth ychwanegol gan feddygfeydd teulu yn lleihau'n sylweddol.

Seilwaith DCC wedi'i sefydlu: Mae nifer dda yn mynychu'r Cydweithredfeydd Fferyllfeydd Cymunedol, Optometreg, a Meddygon Teulu, a cheir trafodaethau cynhyrchiol sy'n cael eu bwydo i gyfarfodydd y Clwstwr. Mae gan y Gydweithredfa Nyrsio grŵp craidd o bobl sy'n mynychu, ac mae'n parhau i archwilio'r ffordd orau o ymgysylltu â grŵp mor amrywiol a chael rhagor o bobl i fod yn bresennol. Mae nifer da o bobl yn mynd i gyfarfodydd y Clwstwr hefyd. Mae'r trafodaethau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol eisoes yn helpu timau i ddefnyddio'r gwasanaethau presennol yn well ac maent yn cynhyrchu syniadau diddorol ar gyfer gwelliannau a datblygiadau arloesol yn y dyfodol.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Daw arloesedd a gwelliant effeithiol ar bob ffurf. Nid oes rhaid iddo fod yn beth mawr na chostus. Gall rhywbeth mor syml â chael gwared ar gamau nad ydynt yn ychwanegu gwerth wella effeithlonrwydd yn fawr. Er enghraifft, galluogi pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i atgyfeirio pobl yn uniongyrchol i'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Gofal Sylfaenol, neu alluogi'r Therapyddion Galwedigaethol i gyhoeddi nodiadau ffitrwydd, neu greu ffurflen i sicrhau bod Optometryddion, Fferyllfeydd Cymunedol, a Meddygon Teulu yn rhoi'r holl wybodaeth berthnasol i'w gilydd wrth groesatgyfeirio, sydd wedi lleihau gwaith y clinigwyr ac wedi gwella profiad y claf.

Mae cyfarfodydd Clwstwr thematig wedi gweithio'n dda. Mae'n galluogi aelodau'r Clwstwr i ganolbwyntio ar eu gwaith paratoadol a gwahodd y bobl sydd fwyaf gwybodus am thema benodol. Er enghraifft, cawsom gyfarfod cyfan a oedd yn canolbwyntio ar Blant a Phobl Ifanc lle roeddem yn gallu gwahodd cyd-weithwyr o Ganolfannau Teulu yr Awdurdod Lleol, ac roedd y cynrychiolydd Iechyd Meddwl yn gallu siarad â'i gyd-weithwyr yn CAMHS i baratoi. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn bwriadu parhau i'w wneud.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Clwstwr Gorllewin Conwy

Arweinydd y Clwstwr

Gwag

Cydgysylltwr Clwstwr

Nicola Pritchard
Nicola.Pritchard5@wales.nhs.uk

Clwstwr Gorllewin Conwy

Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr Gorllewin Conwy yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr ac amrywiol, sy'n ymestyn o Gerrigydrudion yn y de gwledig i Lanfairfechan ar yr arfordir, a draw i Llandudno a Chonwy. Mae'r clwstwr yn gwasanaethu poblogaeth practisau meddygon teulu o 64,285 ac yn cynnwys cymysgedd o gymunedau gwledig ac arfordirol, pob un ohonynt ag anghenion amrywiol.

Mae gan yr ardal hon un o'r canrannau uchaf o gleifion hŷn yng Nghymru, gan greu galw cynyddol am wasanaethau gofal sy'n gysylltiedig ag oedran. At hynny, mae yna fewnlifiad tymhorol sylweddol o dwristiaid, sy'n effeithio ar y galw am ofal iechyd yn ystod y misoedd brig. Er bod gan Orllewin Conwy lefelau is o amddifadedd o gymharu ag ardaloedd eraill, mae 29.5% o blant yn byw mewn tldi incwm cymharol, ac nid oes gan 18.4% o aelwydydd fynediad at gar, sy'n amlygu rhwystrau i gael mynediad at ofal iechyd.

Mae gan y clwstwr bresenoldeb cryf o siaradwyr Cymraeg hefyd, gyda 31.5% o drigolion yn siarad Cymraeg, o gymharu â 29.1% ledled Gogledd Cymru.

- Dim ond pensïynwyr sy'n byw yn 31% o'r aelwydydd.
- Mae 18.2% o drigolion 66 oed neu hŷn yn byw ar eu pen eu hunain, sy'n cynyddu'r risg o arwahanrwydd cymdeithasol.
- Mae 9.5% o'r boblogaeth yn darparu gofal di-dâl.
- Mae 62.7% o oedolion dros bwysau neu'n ordew, o gymharu â 58.9% ar draws BIPBC.
- Mae 31.2% o blant 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Nid oes gan 1.7% o aelwydydd wres canolog, sy'n effeithio ar ganlyniadau iechyd yn ystod misoedd y gaeaf.

Mae'r cyfuniad o boblogaeth sy'n heneiddio, heriau'n ymwneud â hygyrchedd gwledig, a risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw, oll yn gofyn am ymyriadau wedi'u targedu.

Ein Gwasanaethau

- 11 o Bractisau Cyffredinol
- 13 o Fferyllfeydd Cymunedol
- 7 Optegydd
- 6 Deintydd
- 1 Gydweithredfa Nyrsio (Conwy gyfan)
- 1 Gydweithredfa Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (BIPBC gyfan)
- 3 Thîm Adnoddau Cymunedol

Practisau Cyffredinol

- Bodreinalt (Conwy)
- Practis Meddygol Craig-y-Don (Llandudno)
- Llys Meddyg (Conwy)
- Lonfa (Cyffordd Llandudno)
- Meddygfa Betws-y-Coed
- Meddygfa Gyffin (Conwy)
- Practis Meddygol Tŷ Mostyn (Llandudno)
- Meddygfa Plas Menai (Llanfairfechan)
- Y Ganolfan Feddygol (Bae Penrhyn)
- Meddygfa Gwydir (Llanrwst)
- Practis Meddygol Uwchaled (Cerrigydrudion)
- Meddygfa West Shore (Llandudno)

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd a Gwahaniaethau Gwledig

Mae'r clwstwr yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a rhwystrau i hygyrchedd trwy ymyriadau wedi'u targedu:

- Cymhwyso egwyddorion y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal, gan flaenoriaethu poblogaethau a ymleiddiwyd a phoblogaethau gwledig.
- Cryfhau partneriaethau â'r Awdurdod Lleol a darparwyr tai cymdeithasol i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd.
- Archwilio dulliau amgen o ddarparu gofal, megis unedau iechyd symudol a thelefeddygaeth, i wella mynediad cymunedau anghysbell.

Datblygu Dull y Tîm Amlddisgyblaethol

Mae'r Clwstwr yn cryfhau model y Tîm Amlddisgyblaethol o weithio i wella gofal integredig a lleihau derbyniadau i'r ysbyty:

- Ymgorffori model y Tîm Adnoddau Cymunedol ym maes gofal sylfaenol i greu taith ddi-dor i'r claf.
- Gwellu llwybrau cyfathrebu rhwng cydweithredfeydd proffesiynol i symleiddio'r prosesau cydgysylltu.
- Dysgu o'r Gwasanaeth Gofal Uwch yn Nwyrain Conwy, gan werthuso cyfleoedd i'w weithredu yng Ngorllewin Conwy.

Atal Afiechyd trwy Ymddygiadau Iach (Rhaglen Fy Mywyd)

Mae Rhaglen Fy Mywyd yn fenter ymyriadau o ran ffordd o fyw sydd â'r nod o wella iechyd y boblogaeth a lleihau ffactorau risg ar gyfer cyflyrau cronig:

- Ymgorffori'r rhaglen ym mhob practis meddyg teulu ledled Gorllewin Conwy.
- Annog newidiadau cynaliadwy i ffordd o fyw, yn enwedig o ran deiet, gweithgarwch corfforol, a rhoi'r gorau i smygu.
- Hyrwyddo Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif i integreiddio negeseuon iechyd ataliol ar draws pob rhyngweithiad gofal iechyd.
- Gwellu'r cydweithrediad rhwng darparwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau bod ymyriadau ataliol yn cael yr effaith fwyaf posibl.

Atal a Rheoli Diabetes Math 2

Mae diabetes yn flaenoriaeth drawsbynciol i'r clwstwr, sy'n gofyn am ddull system gyfan ar gyfer atal a gofal:


- Adolygu model y Nyrs Arbenigol Diabetes wedi'i lleoli mewn meddygfa i asesu'r effaith a nodi gwelliannau.
- Cydweithio â Llwybr Atal Diabetes Cymru Gyfan (AWDPP) i weithredu arfer gorau ledled y clwstwr.
- Monitro'r Hyb Cyflyrau Hirdymor yng Ngogledd Sir Ddinbych i gymhwyso gwersi perthnasol i Orllewin Conwy.
- Ehangu mentrau ymwybyddiaeth o ddiabetes yn y gymuned, gan gynnwys ymgyrchoedd addysg a rhaglenni sgrinio.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Defnydd cynyddol o Rhaglen Fy Mywyd, rhagor o feddygfeydd teulu yn cymryd rhan yn ystod 24-25, a chydweithio â thîm Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan.

Cael cydnabyddiaeth gan aelod etholedig lleol am wasanaethau gofal sylfaenol rhagorol wedi'u darparu gan feddygfa deulu yn y clwstwr.





**Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi
Cadwaladr (BIPBC)**



**Clwstwr Gorllewin
Conwy**

Arweinydd y Clwstwr

Gwag

Cydgysylltwr Clwstwr

Nicola Pritchard
Nicola.Pritchard5@wales.nhs.uk

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Beth a oedd wedi gweithio'n dda?

- Ehangu Rhaglen Fy Mywyd yn llwyddiannus, ynghyd â chynnydd yn nifer y meddygon teulu sy'n cymryd rhan.
- Cynnydd yn narpariaeth mentrau addysg ac atal diabetes.
- Ymgysylltiad cadarn â mentrau presgripsiynu cymdeithasol, gan gefnogi ymyriadau iechyd anfeddygol.


Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol

- Sicrhau strategaethau ymadael clir ar gyfer prosiectau, a chyfathrebu mewn modd tryloyw â rhanddeiliaid ynghylch amserlenni rhaglenni.


Beth nesaf?

- Sicrhau bod yr holl ddatblygiadau i wasanaethau yn y clwstwr yn mynd ati i ystyried y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal, gan flaenoriaethu cymorth i boblogaethau a ymleiddiwyd.
- Cryfhau partneriaethau â Llais a sefydliadau'r trydydd sector i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau i gymunedau a ymleiddiwyd.
- Archwilio dulliau arloesol o ddarparu gofal iechyd a'u rhoi ar waith, megis unedau iechyd symudol a thelefeddygaeth, i wella mynediad mewn ardaloedd gwledig.
- Cydweithio â'r Tîm Ymgysylltu i gyflwyno Digwyddiadau Blas ar Iechyd a mentrau allgymorth eraill sy'n targedu poblogaethau anoddach eu cyrraedd.
- Gwella partneriaethau ag awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol i fynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd ehangach.
- Ehangu dull y Tîm Amlddisgyblaethol o weithio, gan ymgorffori model y Tîm Adnoddau Cymunedol ymhellach ym mentrau'r Clwstwr.
- Gwella'r cyfathrebu rhwng cydweithredfeydd proffesiynol i symleiddio'r broses o gydgyssylltu gofal a gwella profiadau'r claf.
- Ymgorffori rhaglen Fy Mywyd ym mhob practis meddyg teulu i gefnogi newidiadau cynaliadwy i ffordd o fyw a lleihau ffactorau risg diabetes Math 2.
- Rhoi Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif ar waith ar draws cydweithredfeydd proffesiynol i wneud y defnydd gorau o negeseuon iechyd ataliol.
- Adolygu model y Nyrs Arbenigol Diabetes i asesu'r effaith ac archwilio gwelliannau.
- Parhau i weithio gyda Thîm Cenedlaethol Llwybr Atal Diabetes Cymru Gyfan i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu sy'n mynd rhagddo.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



GCTC Sir Ddinbych (Gogledd, Canol a De Sir Ddinbych)

Gogledd

Canol a De

Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr (GCTG) Sir Ddinbych

Pwy ydym ni?

Mae Sir Ddinbych yn sir yng Ngogledd Cymru, sy'n adnabyddus am ei chymysgedd amrywiol o dirweddau gwledig, trefi marchnad hanesyddol, a chymunedau arfordirol.

Mae'n gartref i boblogaeth sy'n cynyddu ac yn heneiddio, ac mae yno gyfran uwch o drigolion 65 oed a hŷn o gymharu â rhanbarth ehangach Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a Chymru gyfan.

Er bod Sir Ddinbych yn gyfoethog o ran diwylliant a chymuned, mae hefyd yn profi anghydraddoldebau iechyd sylweddol, ac mae yno wahaniaethau amlwg o ran amddifadedd, disgwyliad oes, a mynediad at wasanaethau ledled y sir.

Cefnogir Sir Ddinbych gan Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr, sy'n dwyn ynghyd randdeiliaid allweddol o feysydd gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, gofal cymdeithasol, iechyd cyhoeddus, a sefydliadau'r sector gwirfoddol.

Un ffocws pwysig i Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr Sir Ddinbych yw mynd i'r afael â'r bwlch o 14.5 mlynedd mewn disgwyliad oes iach rhwng cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig y sir.

Gorllewin y Rhyl yw'r ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac iddi lefelau uchel o dlodi plant, canlyniadau iechyd gwael, a heriau cymdeithasol.

Yn y cyfamser, mae ardaloedd gwledig yng Nghanol a De Sir Ddinbych yn wynebu problemau gwahanol, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, ynysigrwydd cymdeithasol, a mynediad cyfyngedig at wasanaethau iechyd.

Mae Sir Ddinbych yn cynnwys dau glwstwr gofal sylfaenol, sef Gogledd Sir Ddinbych a Chanol a De Sir Ddinbych, a'r naill a'r llall â'i nodweddion unigryw ei hun.

Gogledd Sir Ddinbych

Mae Gogledd Sir Ddinbych yn cynnwys trefi glan môr y Rhyl a Phrestatyn, yn ogystal â phentrefi cyfagos Rhuddlan, Bodelwyddan, a Dyserth.

Yr ardal hon sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru, gyda 26.8% o drigolion yn byw yn yr 20% o gymunedau mwyaf difreintiedig. Mae Gorllewin y Rhyl, yn benodol, yn profi cyfraddau uchel o dlodi, tai o ansawdd gwael, ac anghydraddoldebau iechyd sylweddol, gan gynnwys cyfraddau uwch o ddiabetes, asthma, a gordewdra ymhlith plant.

Mae gan yr ardal boblogaeth iau hefyd, er bod cyfran sylweddol o drigolion yn byw â chyflyrau iechyd hirdymor.

Blaenoriaethau

Mae'r gwahaniaethau daearyddol hyn yn golygu bod blaenoriaethau ac anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn amrywio'n sylweddol ar hyd a lled Sir Ddinbych. Er bod ar Ogledd Sir Ddinbych angen ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag amddifadedd ac anghydraddoldebau iechyd, mae ar Ganol a De Sir Ddinbych angen ffocws cryfach ar fynediad at iechyd mewn ardaloedd gwledig, cefnogaeth i'r boblogaeth sy'n heneiddio, a gofal dementia.

Trwy gydweithio, nod y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr yw sicrhau bod gan bob cymuned fynediad at y gwasanaethau y mae arni eu hangen, ni waeth beth fo'i statws economaidd-gymdeithasol na'i daearyddiaeth.

Aelodaeth

Aelodau craidd Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr Sir Ddinbych yw:

- Cyngor Sir Ddinbych
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Tîm Iechyd Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Llais
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd)
- ClwydAllyn
- Denbighshire Leisure Limited

Mae CGGSDd yn elusen a sefydliad aelodaeth sy'n cynorthwyo'r 2,000 o sefydliadau cymunedol, gwirfoddol a thrydydd sector ledled Sir Ddinbych i dyfu a llwyddo.

Mae ClwydAllyn yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ac mae'n rheoli dros 6,000 o breswylfeydd, gan ddarparu gofal, tai â chymorth, a chartrefi fforddiadwy.

Mae Denbighshire Leisure Limited yn gweithredu wyth cyfleuster hamdden, sy'n cynnwys ystafelloedd ffitrwydd, pyllau nofio, a dosbarthiadau ymarfer corff ar gyfer grwpiau, gan hybu iechyd a llesiant yn y gymuned.

Canol a De Sir Ddinbych

Mae Canol a De Sir Ddinbych yn ardal wledig yn bennaf, ac yn cynnwys trefi marchnad Dinbych, Rhuthun, Corwen, a Llanelwy, a phentrefi cyfagos.

Mewn cyferbyniad â'r gogledd, mae gan yr ardal hon lefelau is o amddifadedd, gyda dim ond 3.5% o drigolion yn byw yn 20% mwyaf difreintiedig Cymru. Fodd bynnag, mae gan yr ardal boblogaeth lawer hŷn, ac mae 28.6% o aelwydydd yn cynnwys pensiynwyr, sy'n arwain at alw cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag oedran.


Mae gan yr ardal gymuned gryfach o siaradwyr Cymraeg hefyd, gyda 34.4% o drigolion yn siarad Cymraeg, o gymharu â 14.4% yng Ngogledd Sir Ddinbych.

Poblogaeth a Gwasanaethau


Mae gan Sir Ddinbych boblogaeth practisau meddygon teulu o 104,530 ac fe'i gwasanaethir gan:

- 14 o Bractisau Cyffredinol
- 23 o Fferyllfeydd Cymunedol
- 11 Optegydd
- 7 Deintydd
- 4 Tîm Adnoddau Cymunedol

At hynny, mae yna oddeutu 2,000 o sefydliadau'r trydydd sector yn gweithredu ledled y sir.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



GCTC Sir Ddinbych (Gogledd, Canol a De Sir Ddinbych)

Gogledd

Canol a De

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae'r prif flaenoriaethau strategol yn cyd-fynd â pholisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol allweddol, gan gynnwys y Model Gofal Sylfaenol i Gymru, Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru, a Chynllun Llesiant Sir Ddinbych.

Mae'r meysydd ffocws allweddol ar gyfer 2025-26 yn cynnwys y canlynol:

Anghydraddoldebau Iechyd a Chymunedau Agored i Niwed – Mynd i'r afael ag amddifadedd, gwella mynediad at ofal i grwpiau sydd wedi'u hymleiddio, a lleihau gwahaniaethau o ran iechyd ledled y sir.

Pobl Hŷn a Phoblogaeth sy'n Heneiddio – Cefnogi eiddilwch, atal cwympiadau, a gofal dementia i helpu trigolion i fyw'n annibynnol yn hirach.

Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol – Cryfhau cymorth iechyd meddwl ledled yr holl grwpiau oedran, gan ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar a llwybrau ymateb i argyfyngau.

Atal a Llesiant – Hybu ffyrdd iach o fyw, cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu brechu, a chefnogi mentrau llesiant cymunedol.

Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng – Gwella mynediad at wasanaethau ar yr un diwrnod a'r tu allan i oriau er mwyn sicrhau gofal amserol a phriodol.

Gofal Sylfaenol a Chymunedol Cynaliadwy – Datblygu modelau gwasanaeth arloesol, cryfhau'r gweithlu amlddisgyblaethol, a sicrhau hyfywedd hirdymor gwasanaethau lleol.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- **Ymgorffori Tai ym Model y Tîm Adnoddau Cymunedol** – Mae swyddogion tai wedi'u hymgorffori ym model llwyddiannus y Tîm Adnoddau Cymunedol, gan eu galluogi i gyfrannu at drafodaethau preswylwyr a chynllunio gofal.
- **Sefydlu Cynllun Cyntaf y Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr** – Mae datblygu'r cynllun hwn yn mynegi'r blaenoriaethau a rennir ar gyfer 2025-26.

Beth sydd wedi gweithio'n dda?

- **Brwdfrydedd gan Bartneriaid** – Bu yna gefnogaeth ac ymroddiad cadarn gan randdeiliaid, sy'n amlygu cyd-ymrwymiad i wella anghydraddoldebau iechyd a gofal yn y gymuned.
- **Presenoldeb Cyson** – Mae'r Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr wedi llwyddo i sicrhau cyfranogiad rheolaidd gan bartneriaid allweddol, gan atgyfnerthu pwysigrwydd cydweithio a blaenoriaethau a rennir.
- **Cysoni Nodau a Gwerthoedd** – Mae'r grŵp wedi datblygu ffocws clir ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, integreiddio gwaith timau amlddisgyblaethol, a gwreiddio'r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd ar draws gwasanaethau.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol?


- **Neilltuo Amser i Sefydlu'r Fforwm** – Er bod cynnydd wedi'i wneud, cymerodd amser i'r Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr ddatblygu ar ffurf fforwm (ac mae'n parhau i wneud hynny).
- **Gweithredu ar y Lefel Gywir** – Mae'r grŵp yn dal i weithio i ddiffinio'r cydbwysedd rhwng gwaith cynllunio/strategol a chyflawni gweithredol, gan sicrhau bod ei rôl yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau ar lefel uwch yn hytrach na materion y gwasanaeth o ddydd i ddydd.
- **Dealltwriaeth o Rôl y Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr yn y cyd-destun lleol** – Mae'r gwaith yn parhau i egluro perthynas y Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaeth Integredig Ardal gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â strategaethau rhanbarthol ehangach ac nad yw'n dyblygu gwaith.

Beth nesaf?


Bydd cam nesaf gwaith y Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr yn canolbwyntio ar ymgorffori ei rôl strategol ymhellach a chyflawni'r blaenoriaethau a nodir yng nghynllun 2025-26 y Grŵp a chynlluniau'r clystyrau.

Bydd y meysydd ffocws allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Cryfhau gwaith partneriaeth ymhellach, yn enwedig mewn meysydd megis tai, iechyd meddwl ac iechyd ataliol.
- Cefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned i leihau anghydraddoldebau iechyd, gwella mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig, a chefnogi grwpiau agored i niwed.
- Sicrhau bod gweithgarwch y Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr yn bwydo i waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mewn modd ystyrlon a strwythuredig.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Clwstwr Gogledd Sir Ddinbych

Arweinydd y Clwstwr

Dr Nitin Shori
Nitin.Shori2@wales.nhs.uk

Cydgysylltwr Clwstwr

Sallie France
Sallie.France@wales.nhs.uk

Gogledd Sir Ddinbych

Pwy ydym ni?

Mae gan Ogledd Sir Ddinbych boblogaeth practisau meddygon teulu o 61,815. Mae'r clwstwr yn cynnwys trefi arfordirol mawr y Rhyl a Phrestatyn, ac mae'n cynnwys trefi a phentrefi cyfagos, megis Bodelwyddan, Rhuddlan, a Dyserth. Mae gan yr ardal lefelau sylweddol o amddifadedd, yn enwedig yn y Rhyl, sef y gymuned fwyaf difreintiedig yng Nghymru (yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).

Nodweddir y clwstwr hwn hefyd gan gyfran uchel o oedolion hŷn a phreswylwyr cartrefi gofal, yn ogystal â mewnlifiad tymhorol o dwristiaid, gan ychwanegu cymhlethdod pellach at y galw am wasanaethau. Mae gan yr ardal gyfradd uwch o gyflyrau cronig, gan gynnwys diabetes (8.8%), asthma (7.8%), a dementia, o gymharu â chyfartaleddau rhanbarthol a chenedlaethol.

Gogledd Sir Ddinbych yw un o'r clystyrau mwyaf poblog yn y rhanbarth, gyda 26.8% o gleifion yn byw yn 20% mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Gorllewin y Rhyl 1 a Gorllewin y Rhyl 2 wedi'u rhestru yn y safle cyntaf a'r ail safle o ran ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad, gan adlewyrchu anghydraddoldebau iechyd a heriau economaidd-gymdeithasol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn.

- Mae 25.1% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol.
- Nid oes gan 22.1% o gartrefi gar, sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd.
- Mae 16.9% o drigolion 66 oed neu hŷn yn byw ar eu pen eu hunain, sy'n cynyddu'r risgiau o arwahanrwydd cymdeithasol.
- Mae 3.8% o aelwydydd yn orlawn, sy'n gwaethygu anghydraddoldebau iechyd.

Mae'r cyfuniad o amddifadedd uchel, anghenion cymdeithasol cymhleth, a phoblogaeth sy'n heneiddio yn gosod heriau unigryw.

Ein Gwasanaethau

- 6 Phractis Cyffredinol
- 15 o Fferyllfeydd Cymunedol
- 6 Optegydd
- 3 Deintydd
- 1 Gydweithredfa Nyrsio (Sir Ddinbych gyfan)
- 1 Gydweithredfa Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (BIPBC gyfan)
- 2 Dim Adnoddau Cymunedol

Practisau Cyffredinol

- Madryn House (Y Rhyl)
- Canolfan Feddygol Clarence (Y Rhyl)
- Healthy Prestatyn Iach
- Meddygfa Park House (Prestatyn)
- Canolfan Feddygol Lakeside (Y Rhyl)
- Meddygfa Kings House (Y Rhyl)

Mae Sir Ddinbych hefyd yn elwa o sector gwirfoddol ffyniannus, lle mae tua 2,000 o grwpiau'n gweithredu.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd ac Amddifadedd

Mae'r clwstwr yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag amddifadedd ac anghydraddoldebau iechyd trwy weithredu ymyriadau wedi'u targedu sy'n cyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal:

- Canolbwyntio ar boblogaethau risg uchel, gan sicrhau bod gan y rhai y mae arnynt ei angen fwyaf a'r rhai anoddaf eu cyrraedd fynediad at ofal.
- Cydweithio â sefydliadau gofal cymdeithasol, tai, a chymunedol i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd.
- Cynyddu'r nifer sy'n cael eu himiwneiddio, yn enwedig ymhlith brechiadau i blant, sydd islaw cyfartaledd BIPBC.

Cryfhau Cydnerthedd y Boblogaeth trwy Fentrau Iechyd Meddwl a Llesiant

Mae'r clwstwr yn ymrwymedig i wella cydnerthedd iechyd meddwl a chydnerthedd emosiynol trwy:

- Gynllunio a gweithredu mentrau llesiant, megis gweithdai rheoli straen, rhaglenni cymorth iechyd meddwl, a rhwydweithiau cymorth i gymheiriaid.
- Hybu dulliau trawsbroffesiynol o reoli poen gronig, gan ymgorffori ffisiotherapi, cymorth seicolegol, ac ymyriadau o ran ffordd o fyw.
- Dadansoddi ac ymateb i dueddiadau presgripsiynu, gan gynnwys patrymau defnyddio opioidau, er mwyn sicrhau gofal diogel, effeithiol, a holistaidd.
- Cydweithio ag ysgolion, grwpiau cymunedol, a sefydliadau lleol i hybu cydnerthedd emosiynol ledled yr holl grwpiau oedran.

Cefnogi'r Broses o Werthuso'r Hyb Cyflyrau Hirdymor

Mae Hyb Cyflyrau Hirdymor Gogledd Sir Ddinbych wedi gwneud cyfraniad sylweddol at y modd y mae diabetes wedi cael ei reoli yn y clwstwr, a gellid o bosibl gymhwyso'r dysgu cysylltiedig i glefydau cronig eraill, megis clefyd cardiofasgwlaidd a salwch anadlol:

- Cydweithio â TriTech a'r Tîm Profion Pwynt Gofal i gefnogi'r broses o werthuso'r Hyb, gan gyfrannu dirnadaeth a data sy'n benodol i'r Clwstwr.
- Hwyluso'r gwaith o gasglu adborth gan gleifion a gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod y broses werthuso yn adlewyrchu profiadau a chanlyniadau'r byd go iawn.
- Datblygu model a allai dyfu yn unol â'r anghenion, wedi'i lywio gan werthusiad yr Hyb, gan alluogi ei fuddion i gael eu hystyng yn ledled y Bwrdd Iechyd.
- Archwilio cyfleoedd gyda'r Tîm Trawsnewid a Gwella a'r Tîm Llwybrau i ehangu cwrpas yr Hyb i fynd i'r afael â chyflyrau ychwanegol neu anghenion cysylltiedig.

Beth nesaf?

- Nodi a blaenoriaethu poblogaethau agored i niwed, cudd, ac a ymleiddiwyd, nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau gofal iechyd ar hyn o bryd, gan ddefnyddio data lleol a dirnadaeth gymunedol.
- Datblygu mentrau allgymorth wedi'u targedu i gysylltu â phoblogaethau â blaenoriaeth a mynd i'r afael â rhwystrau i gael mynediad at ofal iechyd.
- Cynllunio ymyriadau i wella mynediad at ofal sylfaenol a chymorth cymdeithasol ar gyfer poblogaethau a chymunedau â blaenoriaeth a nodwyd sydd ag anghenion cymhleth.
- Cydweithio ag awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, megis tai, cyflogaeth ac addysg.
- Ehangu'r Hyb Cyflyrau Hirdymor i reoli ystod ehangach o glefydau cronig yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Treialu cynllun peilot yr Hyb Cyflyrau Hirdymor yn llwyddiannus, a gwella'r gofal i gleifion diabetes, gan gynnwys cynyddu'r ymlyniad wrth yr wyth proses gofal yn y clwstwr.
- Cydweithio effeithiol â Mind Dyffryn Clwyd a'r Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS), gan gyflwyno gwasanaeth 'cadw mewn cysylltiad' a brysennu i gleifion sy'n aros am asesiad. Gyda chydysyniad y claf, darparwyd cymorth dros dro a help ymarferol gan ymarferwyr Mind, a oedd yn golygu, mewn rhai achosion, nad oedd angen ymyriadau pellach gan y Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?


Beth a oedd wedi gweithio'n dda?

- Mae model yr Hyb Cyflyrau Hirdymor yn cael ei werthuso gan TriTech, a'r gobaiith yw y bydd model Gogledd Sir Ddinbych yn lasbrint ar gyfer ehangu a chyflwyno'r cynllun ymhellach.
- Mae'r arweinwyr yn eu swyddi ledled yr holl Gydweithredfeydd Proffesiynol (ac eithrio'r Cydweithredfeydd Deintyddol, nad ydynt wedi'u sefydlu eto).
- Cymerodd y clwstwr ran yn y broses Adolygiad gan Gymheiriaid yn ystod 24-25.


Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol

- Byddai'r clwstwr wedi elwa o gael mwy o fewnbwn gan feysydd iechyd y geg a deintyddol. Mae ymdrechion ar y gweill i sicrhau mewnbwn rheolaidd gan gyd-weithwyr yn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol Lleol a gweithwyr proffesiynol perthnasol yng Nghydweithredfa'r Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn absenoldeb Cydweithredfeydd Proffesiynol y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Canol a De Sir Ddinbych

Arweinydd y Clwstwr

Dr Matt Davies
Matthew.Davies6@wales.nhs.uk

Cydgysylltwr Clwstwr

Sam Williams
Samantha.Williams10
@wales.nhs.uk

Canol a De Sir Ddinbych

Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr Canol a De Sir Ddinbych yn cynnwys poblogaeth practisau meddygon teulu o 42,700, ac yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr sy'n wledig yn bennaf, sy'n golygu heriau o ran cael mynediad at wasanaethau, gyda 12.4% o aelwydydd heb gar. Caiff y mater hwn ei waethygu gan seilwaith cludiant cyhoeddus cyfyngedig, sy'n ei gwneud yn anodd i drigolion, yn enwedig oedolion hŷn a'r rhai mewn ardaloedd mwy anghysbell, gael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio a'r 28.6% o aelwydydd sydd â phensiynwyr yn unig yn cynyddu'r galw am atebion gofal cymunedol ymhellach, a hynny i sicrhau mynediad teg at wasanaethau iechyd.

Y prif drefi yw Llanelwy, Dinbych, Rhuthun a Chorwen.

Ein Gwasanaethau

- 8 Practis Cyffredinol
- 8 Fferyllfa Gymunedol
- 5 Optegydd
- 4 Deintydd
- 1 Gydweithredfa Nyrsio (Sir Ddinbych gyfan)
- 1 Gydweithredfa Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (BIPBC gyfan)
- 2 Dîm Adnoddau Cymunedol

Mae Sir Ddinbych hefyd yn elwa o sector gwirfoddol ffyniannus, lle mae tua 2,000 o grwpiau'n gweithredu.

Practisau Cyffredinol

- Beech House (Dinbych)
- Berllan (Dinbych)
- Bronyffynnon (Dinbych)
- Lôn Ganol (Dinbych)
- Pen y Bont (Llanelwy)
- Plas Meddyg (Rhuthun)
- Y Clinig (Rhuthun)
- Y Ganolfan Iechyd (Corwen)

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwahaniaethau gwledig yn y Clwstwr.

Yn rhan o weledigaeth BIPBC i greu Gogledd Cymru iachach, dewiswyd Canol a De Sir Ddinbych yn un o dri Chlwstwr Arloeswyr ar gyfer rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal. Ffocws y Cystyrau o ran cymryd rhan yn y rhaglen oedd lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth yng nghyd-destun heriau gwledig.

Yn syml, mae'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal, a ddiffiniwyd gyntaf gan Dr Julian Tudor Hart yn 1971, yn disgrifio'r modd y mae'r bobl y mae arnynt angen gofal iechyd fwyaf yn lleiaf tebygol o'i gael.

Cynorthwyodd y rhaglen dimau lleol i fabwysiadu dull system gyfan i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn ein cymunedau.

Canfu gwerthusiad o'r rhaglen fod cyfleoedd i feithrin gwybodaeth, sgiliau a rhwydweithiau, a gafwyd o'r gweithdai, wedi rhoi'r hyder i unigolion a grwpiau wneud rhywbeth gwahanol.

Mae Gwasanaeth Allgymorth Gwybodaeth Wledig Mind Sir Ddinbych Dyffryn Clwyd, a elwir ar lafar gwlad yn Dîm DORIS, wedi datblygu presenoldeb dibynadwy y gellir ymddiried ynddo, mewn llawer o leoliadau gwledig ac amrywiol ddigwyddiadau ledled y Clwstwr. Yn dilyn y gweithdai, datblygwyd cysylltiadau rhwng Tîm DORIS a Thîm Atal Strôc BIPBC. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r ddau wasanaeth wedi bod yn bresennol gyda'i gilydd mewn marchnadoedd ffermwyr lleol, archfarchnadoedd, a gêm bêl-droed, i gynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol a gwiriadau iechyd sylfaenol (pwysedd gwaed a phwls), yn ogystal â chyfeirio pobl at wasanaethau eraill, megis rhoi'r gorau i smygu, lle bo hynny'n berthnasol. Ar gyfartaledd, cynghorwyd tua 10% o'r bobl a gafodd wriadi iechyd i gael eu gweld mewn lleoliad gofal sylfaenol.



Ochr yn ochr â llawer o wasanaethau eraill, gan gynnwys y rhai uchod, roedd Tîm Canolog y Clwstwr yn bresennol yn y pentref Iechyd a Llesiant cyntaf, a drefnwyd gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd) a Thîm Ymgysylltu BIPBC, yn sioe Dinbych a Fflint fis Awst diwethaf.

Siaradodd aelodau'r tîm â thua 200 o bobl ac, yn ogystal ag arddangos gwybodaeth yn ymwneud ag apwyntiadau a ffigurau mynediad mewn Meddygyfeydd Teulu a Fferyllfeydd Cymunedol, er mwyn cynorthwyo'r broses ymgysylltu, gofynnwyd i bobl hefyd "Ddyfalu faint o alwadau ffôn a wnaed i'r 8 Practis Meddyg Teulu yng Nghlwlstwr Canol a De Sir Ddinbych ym mis Mehefin 2024?" Roedd hyn yn gyfle i ni esbonio'r ardal a gwmpesir gan y Clwstwr, egluro beth yw Clwstwr a beth y mae'n ei wneud, ynghyd â nodi nifer y cleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'r 8 Practis Meddyg Teulu hynny. Roedd y dyfaliadau'n amrywio o gannoedd i filiynau ac roedd y cwestiwn wedi gwneud i bobl feddwl o ddifrif!

Mae tîm Canolog y Clwstwr yn parhau i gefnogi a hyrwyddo'r digwyddiadau Blas ar Iechyd, a drefnir gan Dîm Ymgysylltu BIPBC, gan gydweithio i wella mynediad at wybodaeth a hybu iechyd a Llesiant ataliol, a hynny yn y gweithle ac yn y gymuned.

Datblygu dull y Tîm Amlddisgyblaethol o weithio yn y Clwstwr ymhellach.

Bydd y Clwstwr yn parhau i adeiladu ar ein dull Tîm Amlddisgyblaethol rhagorol a chyfarfodydd achosion cymhleth i gryfhau model y Tîm Adnoddau Cymunedol (CRT) i wella canlyniadau cleifion, lleihau derbyniadau i ysbytai, a meithrin system gofal iechyd fwy integredig.

Mae tîm y Clwstwr yn cwrdd yn rheolaidd ag arweinwyr y CRT a Metron yr Ysbytai Cymunedol Lleol i gryfhau'r cydweithredu.

Rydym yn parhau i rannu arferion gorau a dysg o fodel Tîm Amlddisgyblaethol y Clwstwr ag ardaloedd cyfagos i ysbrydoli a dylanwadu ar welliannau.

Darparu gofal o ansawdd uchel i boblogaeth oedranus ac eiddil.

Mae adroddiad y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd: Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy, a gyhoeddwyd yn 2023, yn nodi'r angen i wneud penderfyniadau beiddgar ynghylch sut i ddarparu gofal ac adnoddau a ddysennir mewn ymateb i boblogaeth sy'n heneiddio sy'n wynebu perygl o gyflyrau cronig y gellir eu hatal gan mwyaf, gan olygu bod angen symud y ffocws i atal a gwella'r modd yr ydym yn cefnogi cleifion â chyflyrau cymhleth a chydafeiechdd.

Yng Nghanol a De Sir Ddinbych rydym yn amlygu dull ataliol o ofalu, gan ddefnyddio arbenigedd ein hymarferwyr uwch i ddarparu gwasanaethau allgymorth mewn cartrefi gofal, rhoi hyfforddiant i staff cartrefi gofal, a chefnogi preswylwyr i aros yn iach yn eu man preswyllo arferol, gan leihau derbyniadau i'r ysbyty a hybu canlyniadau iechyd gwell.


Adeiladu ar lwyddiant cynllun peilot yr Hyb Diagnostig Anadlol

Roedd cynllun peilot yr Hyb Diagnostig Anadlol yn wasanaeth integredig gan y gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd, a'i nod oedd amlygu manteision hyb cymunedol i ddarparu asesiadau diagnostig a rheolaeth well mewn perthynas â chleifion â Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) ac Asthma.


Y canlyniad, ar ôl y diagnosis, yw y dylai presgripsiynwyr fod yn dilyn Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Presgripsiynu a Rheoli COPD a Chanllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Presgripsiynu a Rheoli Asthma ymhlith Oedolion, yn y drefn honno, gan fod y ddau yn argymhell y triniaethau mwyaf costeffeithiol ac sy'n cydymffurfio â'r agenda werdd.

Roedd yr adborth yn ystod y cynllun peilot yn hynod o gadarnhaol ymhob agwedd.

Bydd y Clwstwr 'nawr yn parhau i hyrwyddo cysyniad yr Hyb Diagnostig Anadlol, gan fod yn arloeswyr a rhannu profiadau o'r cynllun peilot i ddatblygu model a allai dyfu yn unol â'r anghenion, ac archwilio cyfleoedd gyda Thîm Trawsnewid a Gwella a Thîm Llwybrau BIPBC i ehangu cwmpas yr Hyb i fynd i'r afael â chyflyrau anadlol ychwanegol.



**Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi
Cadwaladr (BIPBC)**



**Canol a De Sir
Ddinbych**

Arweinydd y Clwstwr

Dr Matt Davies
Matthew.Davies6@wales.nhs.uk

Cydgysylltwr Clwstwr

Sam Williams
Samantha.Williams10
@wales.nhs.uk

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Treialu cynllun peilot yr Hyb Diagnostig Anadlol yn llwyddiannus, gan arwain at ganlyniadau gwell i gleifion a gosod y sylfeini ar gyfer model ledled BIPBC.
- Gwasanaethau allgymorth cymunedol effeithiol, yn enwedig trwy gydweithio â Thîm "DORIS" Mind a'r tîm Atal Strôc.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Beth a oedd wedi gweithio'n dda?

- Ystyriwyd bod cynllun peilot yr Hyb Diagnostig Anadlol yn llwyddiant ac mae yna sgysiau parhaus ynghylch ailgychwyn, neu o bosibl ehangu, y gwasanaeth.
- Mae cysylltiadau wedi'u creu ledled y Clwstwr sydd wedi galluogi cyfleoedd i ymgysylltu â gwasanaethau, a rhyngddynt.


Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol?

- Er bod cysylltiadau wedi'u datblygu â nifer o wasanaethau a darparwyr ledled y Clwstwr, yn ystod cyfnod dal i fyny rhaglen ddiwethaf y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal, datgelodd trafodaethau fod hwn yn faes y gall tîm y Clwstwr ei ddatblygu ymhellach.


Beth nesaf?

- Ymgysylltiad parhaus ledled y Clwstwr, gan gynnwys Llais ac ar draws yr holl Gydweithredfeydd.
- Parhau i gefnogi rôl yr Uwch-ymarferwyr Nyrsio yn y Clwstwr ac adolygu model y tîm i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y boblogaeth oedrannus, eiddil mewn modd effeithiol.
- Bydd y Clwstwr yn archwilio ac yn gweithredu dulliau newydd o ddarparu gofal yn y gymuned i wella mynediad cleifion, gan ganolbwyntio ar ardaloedd gwledig.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



GCTC y Dwyrain

Canol Wrecsam

De Wrecsam

Gogledd a Gorllewin Wrecsam

De Sir y Fflint

Gogledd Orllewin Sir y Fflint

Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint

Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr (GCTG) y Dwyrain

Pwy ydym ni?

Mae Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr y Dwyrain yn dwyn ynghyd uwch-arweinwyr o EHC, Awdurdodau Lleol Wrecsam a Sir y Fflint, a phartneriaid allweddol yn y Trydydd Sector i ddarparu arweinyddiaeth systemau integredig sy'n galluogi cydweithrediad rhwng sefydliadau partner.

Gyda'n gilydd, rydym yn gallu comisiynu gwasanaethau a datblygu cytundebau i gefnogi gweithio mewn partneriaeth. Cydweithio lleol cryfach a phwrpas cyffredin a fydd yn flaenoriaeth i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol) ac a gaiff ei lywio trwy strategaethau datblygu sefydliadol lleol. Yna bydd yr ymreolaeth leol yn cynyddu wrth i'r systemau aeddfedu.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Ar hyn o bryd mae'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr yn canolbwyntio ar sawl maes allweddol i wella gwasanaethau gofal iechyd a llesiant cymunedol sydd wedi'u cofnodi yng nghynlluniau'r clystyrau.

Blaenoriaethau o gynlluniau'r clystyrau:

- Gofal Sylfaenol Brys – gwella mynediad i'r carfanau risg uchel
- Iechyd Meddwl – mae gwaith ar y gweill i ddatblygu haen 0 ym maes gofal sylfaenol.
- Rheoli clefydau cronig
- Gweithgorau Presgripsiynu Cymdeithasol ar gyfer Wrecsam a Sir y Fflint

Pwrpas y Grŵp yw cytuno ar y gofynion o ran data ac adrodd, a'u diffinio, a hynny mewn perthynas â gwasanaethau Presgripsiynu Cymdeithasol ledled yr ardaloedd lleol.

Un o nodau'r Grŵp yw sicrhau y gall Presgripsiynwyr Cymdeithasol a chomisiynwyr gwasanaethau gydweithio i sicrhau y gellir monitro a gwerthuso cynlluniau mewn modd effeithiol, a darparu'r dystiolaeth berthnasol mewn perthynas â chanlyniadau iechyd unigolion a'r boblogaeth.

Un arall o nodau'r Grŵp yw datblygu data a threfniadau adrodd a all gyfrannu at wneud penderfyniadau mwy effeithiol a arweinir gan wybodaeth, a hynny trwy nodi bylchau posibl yn y gwasanaethau a ddarperir.

Mae'r Grŵp yn cydnabod y bydd Presgripsiynu Cymdeithasol effeithiol ledled Wrecsam a Sir y Fflint yn gofyn am ddulliau lleol sydd â'r gallu i esblygu dros amser.

Bydd y prif bethau i'w cyflawni yn cynnwys y canlynol:

- Cytuno ar y set ddata ofynnol a'r safonau adrodd gofynnol, a'u diffinio, iddynt gael eu mabwysiadu gan gynlluniau Presgripsiynu Cymdeithasol
- Datblygu manylebau gwasanaethau ar gyfer datrysiad/datrysiadau meddalwedd a allai ddiwallu'r anghenion a nodir o ran cipio data ac adrodd
- Tendro ar gyfer datrysiad/datrysiadau meddalwedd, a'u gwerthuso, i ddiwallu'r anghenion a nodir o ran cipio data ac adrodd

Datblygu'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr

Datblygu gweledigaeth gyffredin y bartneriaeth ar gyfer y gymuned rhwng iechyd a'r awdurdod lleol

- Eglurder yr asesiad o anghenion a chytuno ar flaenoriaethau lleol
- Olion troed a rennir ar gyfer cynllunio a chyflawni
- Mapio adnoddau
- Comisiynu gwasanaethau sylfaenol a chymunedol i ddarparu llwybrau cytunedig
- Ymgysylltu â'r cyhoedd i ddeall profiadau defnyddwyr gwasanaethau ac i lywio'r broses o ailgynllunio gwasanaethau

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Llwyddo i sefydlu a chynnal y cyfarfodydd yn y Dwyrain
- Cynlluniau'r clystyrau wedi'u cyflwyno a'u cymeradwyo
- Deall anghenion defnyddwyr a chymunedau trwy ymgysylltu mewn modd effeithiol a thrylwyr
- Ymgynghori â sefydliadau darparu posibl a rhai presennol, gan gynnwys y rhai o'r trydydd sector, ynghyd ag arbenigwyr lleol, ymhell cyn comisiynu

gwasanaethau newydd, gan weithio gyda nhw i bennu'r canlyniadau sy'n flaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth hwnnw.


Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

- Trwy adnewyddu'r Cylch Gorchwyl rydym wedi dysgu pwy yw'r rhanddeiliaid a'u diben.
- Anaeddfedrwydd y broses gweithio trwy systemau i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.
- Heriau yn ymwneud ag ymgysylltu ym mhob asiantaeth.


Beth nesaf?

Trwy arwain a goruchwyllo ffrydiau gwaith allweddol, bydd aelodau'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr yn:

- Helpu i ddatblygu cyfarfodydd ac agenda'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr
- Nodi meysydd blaenoriaeth cytunedig i'w gwella, lle mae gofyn cael cydweithio cryfach i gyflawni canlyniadau gwell gyda'r adnoddau sydd ar gael
- Datblygu a chyflawni cynllun comisiynu i ardaloedd lleol
- Hyrwyddo a "byw" diwylliant sy'n mynd ati i gael gwared ar rwystrau, meini tramgwydd, a seilos mewn sefydliadau er mwyn sicrhau gwasanaethau di-dor i'r boblogaeth leol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol mewn cymunedau, gan gyfeirio'n benodol at grwpiau lleiafrifol a grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio
- Cefnogi gwaith ar y cyd a, lle bo hynny'n ofynnol, sicrhau'r awdurdodiad priodol yn eu sefydliadau eu hunain i wneud hynny
- Sicrhau bod swyddogion llywodraeth leol, y GIG a'r trydydd sector yn gallu gweithio ar y cyd yn unol â threfniadau llywodraethu statudol a sefydliadol sy'n darparu fframwaith atebolrwydd clir
- Goruchwyllo'r modd y defnyddir adnoddau, gan gynnwys grantiau perthnasol gan Lywodraeth Cymru
- Datblygu ei gapasiti a'i allu i ddarparu trefniadau llywodraethu effeithiol
- Awdurdodi gwaith ar y cyd a, lle bo hynny'n ofynnol, sicrhau'r awdurdodiad priodol yn eu sefydliadau eu hunain i wneud hynny
- Rhoi canlyniadau defnyddwyr wrth wraidd y broses gynllunio strategol
- Mapio'r ystod ehangaf posibl o ddarparwyr gyda'r bwriad o ddeall y cyfraniad y gallent ei wneud at gyflawni'r canlyniadau hynny
- Buddsoddi yn y broses o ddatblygu'r sylfaen darparwyr
- Sicrhau bod prosesau contractio yn dryloyw ac yn deg, ac yn hwyluso cyfranogiad yr ystod ehangaf o gyflenwyr
- Sicrhau contractau hirdymor a rhannu risgiau, lle bynnag y bo hynny'n briodol, fel modd o sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
- Gofyn am adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, cymunedau, a darparwyr er mwyn adolygu effeithiolrwydd y broses gomisiynu o ran diwallu anghenion lleol



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Canol Wrexham

Arweinydd y Clwstwr

Dr Phillip Alstead
Phillip.Alstead2@wales.nhs.uk

Canol Wrexham

Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr Canol Wrexham wedi'i leoli yng nghanol Dinas Wrexham. Mae Wrexham, a oedd yn dref farchnad yn wreiddiol, bellach wedi uno â nifer o bentrefi trefol ac yn ffurfio dinas fwyaf Gogledd Cymru. Mae Canol Wrexham yn gwasanaethu Gogledd Cymru a'r Gororau fel canolfan ar gyfer gweithgynhyrchu, manwerthu, addysg, a gweinyddiaeth. Mae Ysbyty Maelor Wrexham wedi'i leoli yng Nghanol Wrexham a dyma'r mwyaf o'r tri ysbyty aciwt yng Ngogledd Cymru.

Dr Phil Alstead yw Arweinydd Clwstwr Canol Wrexham ac mae'n cael ei gefnogi gan Linda Mairs, Uwch-gydgysylltydd y Clwstwr ac Emma Jones, Cydgysylltydd y Clwstwr.

Mae Clwstwr Canol Wrexham yn cwmpasu poblogaeth 6 Phractis Meddyg Teulu, 11 o Fferyllfeydd Cymunedol, a 10 Optegydd sy'n darparu gwasanaethau i tua 57,838 o gleifion cofrestredig. Rhwng 2011 a 2021, cynyddodd maint poblogaeth Clwstwr Canol Wrexham 2.9%.

Mae Practisau Meddygon Teulu yn cynnwys contractwyr annibynnol a dau sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd:

Mae Practisau Meddygon Teulu yn cynnwys contractwyr annibynnol:

- Practis Meddygol Strathmore
- Canolfan Feddygol Plas-y-Bryn
- Meddygfa St George's Crescent
- Canolfan Feddygol Beechley (a reolir gan y Bwrdd Iechyd)
- Canolfan Feddygol Hillcrest (a reolir gan y Bwrdd Iechyd)
- Meddygfa Parc Caia

Ein Gwasanaethau

- 6 Practis Cyffredinol
- 11 o Fferyllfeydd Cymunedol
- 10 Optegydd

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Ar hyn o bryd mae'r Clwstwr yn canolbwyntio ar sawl maes allweddol i wella gwasanaethau gofal iechyd a llesiant cymunedol yng Nghanol Wrexham. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys y canlynol:

These areas include:

- Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol
- Mynediad
- Datblygu Clwstwr Carlam
- Datblygu Gwasanaethau
- Meithrin Gallu Cymunedau
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Rheoli Clefydau Cronig
- Diogelwch Presgripsiynu
- Cefnogi Ymddygiadau Iach



Er mwyn cefnogi a gwella'r meysydd hyn ymhellach, dyrannodd Clwstwr Canol Wrexham gyllid 2024-25 y Clwstwr i ariannu'r canlynol:

- Gofal Sylfaenol Brys
- Ymarferydd Iechyd Meddwl
- Nyrs Clefydau Cronig
- Fferylltydd

Mae'r Clwstwr hefyd yn parhau â Rhaglenni'r Bwrdd Iechyd sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol ac arbenigol i'r boblogaeth am y canlynol:

- Smygu
- Pwysau Iach
- Alcohol (gan gynnwys atal trais)
- Iechyd Meddwl a Llesiant
- Brechu ac Imiwneiddio
- Sgrinio

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Un o'r prif gyflawniadau oedd penodi arweinydd newydd y Gydweithredfa Meddygon Teulu. Mae Dr Rebecca Campbell wedi ymgymryd â rôl Arweinydd Cydweithredfa Meddygon Teulu Canol Wrexham yn llwyddiannus.

Mae'r gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys a ariennir gan y Clwstwr hefyd yn amlgu cynnydd sylweddol yn nifer yr apwyntiadau sydd ar gael a gostyngiad o ran niwed yn achos cleifion risg uchel.

Cyflawniad allweddol arall yw dwyn tri Chlwstwr Wrexham ynghyd ar gyfer cyfarfod Clystyrau Wrexham Gyfan ym mis Rhagfyr 2024. Yn ystod y cyfarfod hwn, rhoddwyd gwybod i aelodau'r Clystyrau am gynnydd y Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam, y Rhaglen Meithrin Gallu Cymunedau, a rhoddwyd cyflwyniad iddynt gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar statws ac anghenion iechyd y boblogaeth leol yng Nghlystyrau Wrexham.

Tua diwedd y cyfarfod, cafodd yr aelodau gyfle i rwydweithio ag unigolion o gydweithredfeydd a chlystyrau eraill, ac â chynrychiolwyr y trydydd sector ac adrannau'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Mae'r adborth a gafwyd yn nodi bod cyd-gyfarfod y Clystyrau wedi bod yn llwyddiannus, gyda'r aelodau'n mynegi bod yn well ganddynt y fformat hwn a'u bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i rwydweithio'n arbennig.



Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Roedd cyfarfod Clystyrau Wrexham Gyfan yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, bydd Clystyrau Wrexham yn mabwysiadu'r fformat hwn o gyfarfod wrth symud ymlaen, a'r nod yw cynnal cyd-gyfarfod Wrexham o leiaf unwaith y flwyddyn.


Mae'r cyd-gyfarfod hefyd wedi annog Cydweithredfeydd y Fferyllfeydd Cymunedol i dreialu cyfarfodydd ar y cyd rhwng Wrexham a Sir y Fflint yn ystod Chwarter Cyntaf 2025-26.

Mae arweinwyr y Clystyrau a'r Cydweithredfeydd hefyd yn cynnal Asesiad o Anghenion Hyfforddi ar hyn o bryd i nodi eu cryfderau a meysydd i'w gwella. Bydd hyn yn eu helpu i wella eu galluoedd arwain a sicrhau bod y Clystyrau a'r Cydweithredfeydd yn gweithredu ar eu gorau.


Nid yw'r Gydweithredfa Ddeintyddol wedi'i sefydlu eto; fodd bynnag, mae cysylltiadau wedi'u gwneud â Deintyddiaeth Gymunedol ac mae pethau'n symud yn eu blaen.

Beth nesaf?

- Bydd y Clwstwr yn gwerthuso cynigion presennol y clwstwr i ddangos eu llwyddiant, ac yn ceisio nodi ffynonellau ariannu amgen y tu hwnt i gronfeydd y clwstwr.
- Bydd y Clwstwr yn asesu anghenion iechyd lleol Canol Wrexham i gefnogi cynlluniau a blaenoriaethau datblygu gwasanaethau ar gyfer 2025-26 ymlaen, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi aelodau ein cymuned sy'n fregus ac yn agored i niwed.
- Byddwn yn parhau â'n hymdrechion cydweithredol â sefydliadau'r trydydd sector, yn ogystal â hyrwyddo rhwydweithio ac ymgysylltu.
- Bydd Clwstwr Canol Wrexham hefyd yn blaenoriaethu ymgysylltu â chleifion ac yn anelu at gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol ar lefel leol yng nghymuned Canol Wrexham.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



De Wrecsam

Arweinydd y Clwstwr

Dr Nick Prigg
Nicholas.Prigg@wales.nhs.uk

De Wrecsam

Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr De Wrecsam wedi'i leoli yn ardal fwy gwledig Sir Wrecsam. Mae'r clwstwr yn cynnwys pentrefi Rhiwabon a Rhosllannerchrugog a threfi Llangollen a'r Waun, sy'n ffinio â sir Amwythig yn Lloegr yn union i'r de o'r dref. Mae'r Eisteddfod Ryngwladol flynyddol a gynhelir yn Llangollen yn denu nifer fawr o dwristiaid i'r ardal yn ystod yr haf. Ar un adeg roedd yn ardal ddiwydiannol dros ben, a oedd yn canoli'n bennaf ar wneud haearn, cloddio glo, a chloddio clai, a daeth y mwyafrif o'r mewnfudwyr cynnar o'r ardaloedd amaethyddol ucheldirol Cymraeg eu hiaith yng Ngorllewin Cymru.

Mae Clwstwr De Wrecsam yn dwyn ynghyd yr holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud â darparu iechyd a gofal ledled yr Ardal

Dr Nick Prigg yw Arweinydd Clwstwr De Wrecsam ac mae'n cael ei gefnogi gan Linda Mairs, Uwch-gydgysylltydd y Clwstwr ac Emma Jones, Cydgysylltydd y Clwstwr

Mae Clwstwr De Wrecsam yn cwmpasu poblogaeth 8 Practis Meddyg Teulu, 11 Fferyllfa Gymunedol a 2 Optegydd sy'n darparu gwasanaethau i tua 52,752 o gleifion cofrestredig. Rhwng 2011 a 2021, gostyngodd maint poblogaeth Clwstwr Canol Wrecsam 1.9%.

Mae Practisau Meddygon Teulu yn cynnwys contractwyr annibynnol:

- Canolfan Iechyd Llangollen
- Meddygfa Gardden Road
- Meddygfa'r Waun
- Practis Meddygol Dyffryn Dyfrdwy
- Canolfan Feddygol Rhiwabon
- Practis Beech Avenue
- Meddygfa Hanmer
- Canolfan Feddygol Crane

Ein Gwasanaethau

- 8 Practis Cyffredinol
- 11 o Fferyllfeydd Gymunedol
- 2 Optegydd

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae'r Clwstwr yn canolbwyntio ar sawl maes allweddol ar hyn o bryd i wella gwasanaethau gofal iechyd a lles cymunedol yn Ne Wrecsam.

Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol
- Mynediad
- Datblygu Clwstwr Carlam
- Datblygu Gwasanaethau
- Adeiladu Gallu Cymunedol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Rheoli Clefydau Cronig
- Diogelwch Presgripsiynu
- Cefnogi Ymddygiadau Iach



Er mwyn cefnogi a gwella'r meysydd hyn ymhellach, dyrannodd Clwstwr De Wrecsam gyllid Clwstwr 2024-25 tuag at y canlynol:

- Gofal Sylfaenol Brys
- Ymarferydd Iechyd Meddwl
- Uwch-ymarferydd Nyrsio Iechyd Meddwl
- Nyrsys Clefydau Cronig

Mae'r Clwstwr hefyd yn parhau â Rhaglenni'r Bwrdd Iechyd sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol ac arbenigol i'r boblogaeth am y canlynol:

- Smygu
- Pwysau Iach
- Alcohol (gan gynnwys atal trais)
- Iechyd Meddwl a Lles
- Brechu ac Imiwneiddio
- Sgrinio

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Un cyflawniad allweddol fu penodi Arweinydd newydd i'r Gydweithredfa Meddygon Teulu. Mae Dr Alec Jones wedi ymgymryd yn llwyddiannus â rôl Arweinydd Cydweithredol Meddygon Teulu De Wrecsam.

Mae'r gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys a ariennir gan y Clwstwr hefyd yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer yr apwyntiadau sydd ar gael a gostyngiad mewn niwed i gleifion risg uchel.

Cyflawniad allweddol arall oedd ymgynnull tri Chlwstwr Wrecsam ar gyfer cyd-gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024. Yn ystod y cyfarfod hwn, rhoddwyd gwybod i aelodau'r Clystyrau am gynnydd y Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam, y Rhaglen Meithrin Gallu Cymunedau, a rhoddwyd cyflwyniad iddynt gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar statws ac anghenion iechyd y boblogaeth leol yng Nghlystyrau Wrecsam.

Tua diwedd y cyfarfod, cafodd yr aelodau gyfle i rwydweithio ag unigolion o gydweithredfeydd a chlystyrau eraill, ac â chynrychiolwyr y trydydd sector ac adrannau'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Mae'r adborth a gafwyd yn dangos y bu cyd-gyfarfod y Clwstwr yn llwyddiannus, wrth i'r aelodau fynegi ei bod yn well ganddynt y fformat hwn a'u bod yn gwerthfawrogi'n arbennig y cyfle i rwydweithio.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Roedd cyfarfod Clwstwr Wrecsam Gyfan yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, bydd Clystyrau Wrecsam yn mabwysiadu fformat y cyfarfod hwn o hyn ymlaen ac yn ceisio cynnal cyd-gyfarfod yn Wrecsam o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae'r cyd-gyfarfod hefyd wedi annog y Cydweithredfeydd Fferylliaeth Gymunedol i dreialu cyfarfodydd ar y cyd rhwng Wrecsam a Sir y Fflint yn Ch1 2025-26.


Mae arweinwyr Clystyrau a Chydweithredfeydd hefyd wrthi'n cynnal Asesiadau o Anghenion Hyfforddi i nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Bydd hyn yn eu helpu i wella eu gallu i arwain a sicrhau bod y clystyrau a'r cydweithredfeydd yn gweithredu ar eu gorau.

Mae Cydweithredfa Optometreg De Wrecsam hefyd wedi uno â Chydweithredfa Optometreg Gogledd a Gorllewin Wrecsam oherwydd y nifer cyfyngedig o bractisau ym mhob un (dau bractis optometreg fesul clwstwr). Ers yr uno, mae'r cyfarfodydd hyn wedi dod yn fwy buddiol i aelodau, gan feithrin mwy o gynhyrchiant ac annog cyfleoedd i rwydweithio, cyfathrebu, ymgysylltu a chyfnwidd syniadau i wella anghenion iechyd cleifion. Mae hyn wedi gwella perthnasoedd, wedi sicrhau nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu, ac mae'n gosteffeithiol.


Nid yw'r Gydweithredfa Ddeintyddol wedi'i sefydlu eto; fodd bynnag, mae cysylltiadau wedi'u gwneud â Deintyddiaeth Gymunedol ac maent yn datblygu.

Beth nesaf?

- Bydd y Clwstwr yn gwerthuso cynigion presennol y clwstwr i ddangos eu llwyddiant, ac yn ceisio nodi ffynonellau ariannu eraill y tu hwnt i gronfeydd y Clwstwr.
- Bydd y Clwstwr yn asesu anghenion iechyd lleol Gogledd a Gorllewin Wrecsam er mwyn cefnogi cynlluniau a blaenoriaethau datblygu gwasanaethau ar gyfer 2025-26 ymlaen, gyda ffocws penodol ar gefnogi aelodau eiddil ac agored i niwed ein cymuned.
- Byddwn yn parhau â'n hymdrechion cydweithredol gyda sefydliadau'r trydydd sector, yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd i rwydweithio ac ymgysylltu.
- Bydd Clwstwr De Wrecsam hefyd yn blaenoriaethu ymgysylltu â chleifion ac yn ceisio cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol ar lefel leol yng nghymuned De Wrecsam.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Gogledd a Gorllewin Wrecsam

Arweinydd y Clwstwr

John Williams
John.Williams2@wales.nhs.uk

Gogledd a Gorllewin Wrecsam

Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr Gogledd a Gorllewin Wrecsam wedi'i leoli ar gyrion Dinas Wrecsam, gan ffinio â Sir y Fflint a Gorllewin Swydd Gaer. Mae'r Clwstwr yn cynnwys nifer o bentrefi dwys eu poblogaeth, ac mae rhai ohonynt ym mrynau Gogledd Cymru gan gynnwys Coedpoeth, Gwersyllt, Llai, Brymbo a Phentre Broughton. Roedd yr ardal gynt yn ddibynol iawn ar gloddio glo a gwneud dur, ac roedd Gwaith Dur Brymbo a Glofa Gresfordd yn nodweddion amlwg yn yr ardal.

Mae Clwstwr Gogledd a Gorllewin Wrecsam yn dwyn ynghyd yr holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud â darparu iechyd a gofal ledled yr Ardal

John Williams yw Arweinydd Clwstwr Gogledd a Gorllewin Wrecsam ac mae'n cael ei gefnogi gan Linda Mairs, Uwch-gydgysylltydd y Clwstwr a Jill Williams, Cydgysylltydd y Clwstwr.

Mae Clwstwr Gogledd a Gorllewin Wrecsam yn cwmpasu poblogaeth o 5 Practis Meddyg Teulu, 8 Fferyllfa Gymunedol a 2 Optegydd, sy'n darparu gwasanaethau i tua 32,550 o gleifion cofrestredig. Rhwng 2011 a 2021, gostyngodd maint poblogaeth Clwstwr Gogledd a Gorllewin Wrecsam 1.6%.

Mae Practisau Meddygon Teulu yn cynnwys contractwyr annibynnol ac un sy'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd:

- Meddygon Teulu Alyn
- Meddygfa Bryn Darland
- Meddygfa Caritas
- Canolfan Iechyd Pen y Maes (A Reolir gan y Bwrdd Iechyd)
- Y Ganolfan Iechyd, Coedpoeth

Ein Gwasanaethau

- 5 Practis Cyffredinol
- 8 Fferyllfa Gymunedol
- 2 Optegydd

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae'r Clwstwr yn canolbwyntio ar sawl maes allweddol ar hyn o bryd i wella gwasanaethau gofal iechyd a lles cymunedol yng Ngogledd a Gorllewin Wrecsam,

Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol
- Mynediad
- Datblygu Clwstwr Carlam
- Datblygu Gwasanaethau
- Adeiladu Gallu Cymunedol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Rheoli Clefydau Cronig
- Diogelwch Presgripsiynu
- Cefnogi Ymddygiadau Iach



Er mwyn cefnogi a gwella'r meysydd hyn ymhellach, dyrannodd Clwstwr Gogledd a Gorllewin Wrecsam gyllid Clwstwr 2024-25 tuag at y canlynol:

- Gofal Sylfaenol Brys
- APP Gwasanaeth Ymweld â Chartrefi
- Dyfodol Egni'ol

Mae'r Clwstwr hefyd yn parhau â Rhaglenni'r Bwrdd Iechyd sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol ac arbenigol i'r boblogaeth am y canlynol:

- Smygu
- Pwysau Iach
- Alcohol (gan gynnwys atal trais)
- Iechyd Meddwl a Lles
- Brechu ac Imiwneiddio
- Sgrinio

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Un cyflawniad allweddol fu penodi Arweinydd newydd i'r Gydweithredfa Meddygon Teulu. Mae Dr Helen Tinston wedi ymgymryd yn llwyddiannus â rôl Arweinydd Cydweithredfa Meddygon Teulu Gogledd a Gorllewin Wrecsam.

Mae'r gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys a ariennir gan y Clwstwr hefyd yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer yr apwyntiadau sydd ar gael a gostyngiad mewn niwed i gleifion risg uchel.

Cyflawniad allweddol arall oedd ymgynnull tri Chlwstwr Wrecsam ar gyfer cyd-gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024. Yn ystod y cyfarfod hwn, rhoddwyd gwybod i aelodau'r Clystyrau am gynnydd y Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam, y Rhaglen Meithrin Gallu Cymunedau, a rhoddwyd cyflwyniad iddynt gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar statws ac anghenion iechyd y boblogaeth leol yng Nghlystyrau Wrecsam.

Tua diwedd y cyfarfod, cafodd yr aelodau gyfle i rwydweithio ag unigolion o gydweithredfeydd a chlystyrau eraill, ac â chynrychiolwyr y trydydd sector ac adrannau'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Mae'r adborth a gafwyd yn dangos y bu cyd-gyfarfod y Clwstwr yn llwyddiannus, wrth i'r aelodau fynegi ei bod yn well ganddynt y fformat hwn a'u bod yn gwerthfawrogi'n arbennig y cyfle i rwydweithio.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Roedd cyfarfod Clwstwr Wrecsam Gyfan yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, bydd Clystyrau Wrecsam yn mabwysiadu fformat y cyfarfod hwn o hyn ymlaen ac yn ceisio cynnal cyd-gyfarfod yn Wrecsam o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r cyd-gyfarfod hefyd wedi annog y Cydweithredfeydd Fferylliaeth Gymunedol i dreialu cyfarfodydd ar y cyd rhwng Wrecsam a Sir y Fflint yn Ch1 2025-26.

Mae arweinwyr Clystyrau a Chydweithredfeydd hefyd wrthi'n cynnal Asesiadau o Anghenion Hyfforddi i nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Bydd hyn yn eu helpu i wella eu gallu i arwain a sicrhau bod y clystyrau a'r cydweithredfeydd yn gweithredu ar eu gorau.


Mae Cydweithredfa Optometreg Gogledd a Gorllewin Wrecsam hefyd wedi uno â Chydweithredfa Optometreg De Wrecsam oherwydd y nifer cyfyngedig o bractisau ym mhob un (dau bractis optometreg fesul clwstwr). Ers yr uno, mae'r cyfarfodydd hyn wedi dod yn fwy buddiol i aelodau, gan feithrin mwy o gynhyrchiant ac annog cyfleoedd i rwydweithio, cyfathrebu, ymgysylltu a chyfnwid syniadau i wella anghenion iechyd cleifion. Mae hyn wedi gwella perthnasoedd, wedi sicrhau nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu, ac mae'n gosteffeithiol.

Nid yw'r Gydweithredfa Ddeintyddol wedi'i sefydlu eto; fodd bynnag, mae cysylltiadau wedi'u gwneud â Deintyddiaeth Gymunedol ac maent yn datblygu.


Beth nesaf?

- Bydd y Clwstwr yn gwerthuso cynigion presennol y clwstwr i ddangos eu llwyddiant, ac yn ceisio nodi ffynonellau ariannu eraill y tu hwnt i gronfeydd y Clwstwr.
- Bydd y Clwstwr yn asesu anghenion iechyd lleol Gogledd a Gorllewin Wrecsam er mwyn cefnogi cynlluniau a blaenoriaethau datblygu gwasanaethau ar gyfer 2025-26 ymlaen, gyda ffocws penodol ar gefnogi aelodau eiddil ac agored i niwed ein cymuned.
- Byddwn yn parhau â'n hymdrechion cydweithredol gyda sefydliadau'r trydydd sector, yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd i rwydweithio ac ymgysylltu.
- Bydd Clwstwr Gogledd a Gorllewin Wrecsam hefyd yn blaenoriaethu ymgysylltu â chleifion ac yn ceisio cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol ar lefel leol yng nghymuned Gogledd a Gorllewin Wrecsam. Mae clwstwr Gogledd-orllewin Wrecsam yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd ar fodel Gofal Sylfaenol Brys mwy ataliol i gleifion, er mwyn lleihau ymhellach nifer y derbyniadau i adrannau brys.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



De Sir y Fflint

Arweinydd y Clwstwr

Dr Jo Parry-James
Jo.Parry-James2@wales.nhs.uk

De Sir y Fflint

Pwy ydym ni?

Mae De Sir y Fflint yn cynnwys cymunedau sy'n gyfuriog o hanes, gan gynnwys trefi prysur yr Wyddgrug a Bwcle hyd at bentrefi yr Hôb a Chaergwrle. Mae asedau cymunedol allweddol y clwstwr yn cynnwys Bryniau Clwyd, parc gwledig Loggerheads a Chlwyd Theatr Cymru. Mae tref farchnad brysur yr Wyddgrug hefyd yn cynnal nifer o wyliau a digwyddiadau blynyddol, ac mae unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg y sir hefyd wedi'i lleoli yn y dref.

Mae Clwstwr De Sir y Fflint yn dwyn ynghyd yr holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud â darparu iechyd a gofal ledled yr Ardal.

Dr Jo Parry-James yw Arweinydd Clwstwr De Sir y Fflint ac mae Linda Mairs, Uwch-gydgysylltyff y Clwstwr a Jill Williams, Cydgysylltydd y Clwstwr, yn ei chefnogi.

De Sir y Fflint yw'r ardal Clwstwr fwyaf gwledig yn Sir y Fflint, gyda 56,550 o gleifion, ac mae ychydig dros 21% o'r trigolion yn byw mewn ardal sydd wedi'i nodi fel un wledig. Mae'r Clwstwr yn cwmpasu poblogaeth 6 Practis Meddyg Teulu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ac mae hefyd yn cwmpasu 10 Fferyllfa ac 8 Optometrydd sydd oll yn gweithio ar y cyd.

Mae Practisau Meddygon Teulu yn cynnwys contractwyr annibynnol:

- Practis Bradley
- Practis Meddygol Caergwrle
- Canolfan Feddygol Teuluoedd yr Hôb
- Meddygfa Coed-llai
- Meddygfa Pendre (Yr Wyddgrug)
- Practis Meddygol RoseCastell-nedd

Ein Gwasanaethau

- 6 Practis Cyffredinol
- 10 o fferyllfeydd cymunedol
- 8 Optegydd

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae'r Clwstwr yn canolbwyntio ar sawl maes allweddol ar hyn o bryd i wella gwasanaethau gofal iechyd a lles cymunedol yn Ne Sir y Fflint.

Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol
- Mynediad
- Datblygu Clwstwr Carlam
- Datblygu Gwasanaethau
- Adeiladu Gallu Cymunedol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Rheoli Clefydau Cronig
- Diogelwch Presgripsiynu
- Cefnogi Ymddygiadau Iach

Er mwyn cefnogi a gwella'r meysydd hyn ymhellach, dyrannodd Clwstwr De Sir y Fflint gyllid Clwstwr 2024-25 tuag at y canlynol:

- Gofal Sylfaenol Brys
- Ymarferydd Iechyd Meddwl
- Nyrs Clefydau Cronig
- Park Run
- Presgripsiynu Cymdeithasol

Mae'r Clwstwr hefyd yn parhau â Rhaglenni'r Bwrdd Iechyd sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol ac arbenigol i'r boblogaeth am y canlynol:

- Smygu
- Pwysau Iach
- Alcohol (gan gynnwys atal trais)
- Iechyd Meddwl a Lles
- Brechu ac Imiwneiddio
- Sgrinio

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae'r gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys a ariennir gan y Clwstwr hefyd yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer yr apwyntiadau sydd ar gael a gostyngiad mewn niwed i gleifion risg uchel.

Mae Clwstwr De Sir y Fflint hefyd wedi mynd ati'n llwyddiannus i ddatblygu fformiwlari 'llygaid sych' ar y cyd rhwng gofal sylfaenol ac optometreg, sydd bellach wedi'i rannu ledled ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Clwstwr wedi sefydlu Park Run yn Ne Sir y Fflint, gan hyrwyddo ac annog y boblogaeth i ofalu am eu lles, eu hiechyd meddwl a'u llesiant eu hunain.



Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Oherwydd llwyddiant cyfarfod Clwstwr Wrecsam Gyfan ym mis Rhagfyr 2024, mae Clystyrau Sir y Fflint yn bwriadu trefnu digwyddiad tebyg i'w haelodau.


Mae'r cyd-gyfarfod hefyd wedi annog y Cydweithredfeydd Fferylliaeth Gymunedol i dreialu cyfarfodydd ar y cyd rhwng Wrecsam a Sir y Fflint yn Ch1 2025-26.

Mae arweinwyr Clystyrau a Chydweithredfeydd hefyd wrthi'n cynnal Asesiadau o Anghenion Hyfforddi i nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Bydd hyn yn eu helpu i wella eu gallu i arwain a sicrhau bod y clystyrau a'r cydweithredfeydd yn gweithredu ar eu gorau.


Mae recriwtio a chadw staff wedi bod yn broblemus, gan effeithio ar y galw a'r hyn a gynigir i gleifion. Mae'r newid o ran cael gweithlu ein clwstwr yn cael ei gyflogi gan adrannau presennol y Bwrdd Iechyd, sy'n darparu cymorth gan gymheiriaid a rheolaeth llinell, wedi bod yn llawer mwy llwyddiannus o ran cadw staff. Nid yw'r Gydweithredfa Ddeintyddol wedi'i sefydlu eto; fodd bynnag, mae cysylltiadau wedi'u gwneud â Deintyddiaeth Gymunedol ac maent yn datblygu.

Beth nesaf?

- Bydd y Clwstwr yn gwerthuso cynigion presennol y clwstwr i ddangos eu llwyddiant, ac yn ceisio nodi ffynonellau ariannu eraill y tu hwnt i gronfeydd y Clwstwr.
- Bydd y Clwstwr yn asesu anghenion iechyd lleol De Sir y Fflint er mwyn cefnogi cynlluniau a blaenoriaethau datblygu gwasanaethau ar gyfer 2025-26 ymlaen, gyda ffocws penodol ar gefnogi aelodau eiddil ac agored i niwed ein cymuned.
- Treialu presenoldeb presgripsiynu cymdeithasol mewn adeiladau gofal sylfaenol, gan wella cysylltiadau â darparwyr trydydd parti.
- Byddwn yn parhau â'n hymdrechion cydweithredol gyda sefydliadau'r trydydd sector, yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd i rwydweithio ac ymgysylltu.
- Bydd Clwstwr De Sir y Fflint hefyd yn blaenoriaethu ymgysylltiad â chleifion ac yn anelu at gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol ar lefel leol yng nghymuned De Sir y Fflint.
- Mae Clwstwr De Sir y Fflint yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd ar fodel Gofal Sylfaenol Brys mwy ataliol i gleifion, er mwyn lleihau nifer y derbyniadau i adrannau brys ymhellach.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Clwstwr Gogledd-orllewin Sir y Fflint

Arweinydd y Clwstwr

Swydd Wag

Clwstwr Gogledd-orllewin Sir y Fflint

Pwy ydym ni?

Mae Gogledd-orllewin Sir y Fflint wedi'i leoli ar hyd Afon Dyfrdwy gan edrych dros aber Cilgwri. Mae'r Clwstwr wedi'i ganoli o amgylch trefi marchnad y Fflint a Threffynnon, hyd at ffin Gogledd Sir Ddinbych. Mae Gogledd-orllewin Sir y Fflint hefyd yn cynnwys nifer o bentrefi trefol a gwledig yn ei dalgylch, gan gynnwys Bagillt, Brynford, Helygain, Maes-glas a Mostyn a chymunedau gwasgaredig llai eraill yn yr ardal. Roedd Gogledd-orllewin Sir y Fflint ar un adeg yn ddibynnol iawn ar y diwydiannau cloddio plwm a'r melinau cotwm.

Mae Clwstwr Gogledd-orllewin Sir y Fflint yn dwyn ynghyd yr holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud â darparu iechyd a gofal ledled yr ardal

Mae swydd Arweinydd y Clwstwr yn wag ar hyn o bryd, ond mae'r clwstwr yn cael ei gefnogi gan Linda Mairs, Uwch-gydgysylltydd y Clwstwr a Bethan Jones, Cydgysylltydd y Clwstwr.

Mae Clwstwr Gogledd-orllewin Sir y Fflint yn cwmpasu poblogaeth o 7 Practis Meddyg Teulu, 7 Fferyllfa Gymunedol a 2 Optegydd sy'n darparu gwasanaethau i tua 40,630 o gleifion cofrestredig. Rhwng 2011 a 2021, cynyddodd maint poblogaeth Clwstwr Gogledd-orllewin Sir y Fflint 2.1%.

Mae Practisau Meddygon Teulu yn cynnwys contractwyr annibynnol a dau sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd:

- Meddygfa Bodowen, Treffynnon
- Meddygfa Pendre, Treffynnon
- Meddygfa Panton, Treffynnon (A Reolir gan y Bwrdd Iechyd)
- Meddygfa Pennant, Treffynnon
- Canolfan Feddygol Allt Goch, Y Fflint
- Meddygfa Eyton Place, Y Fflint
- Y Laurels

Ein Gwasanaethau

- 7 Practis Cyffredinol
- 7 o Fferyllfeydd Cymunedol
- 2 Optegydd

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae'r Clwstwr yn canolbwyntio ar sawl maes allweddol ar hyn o bryd i wella gwasanaethau gofal iechyd a lles cymunedol yng Ngogledd-orllewin Sir y Fflint.

Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol
- Mynediad
- Datblygu Clwstwr Carlam
- Datblygu Gwasanaethau
- Adeiladu Gallu Cymunedol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal
- Digwyddiad Ymgysylltu â Chleifion
- Y Gwasanaeth Rheoli Meddyginiaethau

Er mwyn cefnogi a gwella'r meysydd hyn ymhellach, mae'r Clwstwr wedi dyrannu cyllid tuag at y canlynol:

- Gofal Sylfaenol Brys
- Ymarferydd Iechyd Meddwl
- Y Gwasanaeth Rheoli Meddyginiaethau

Mae'r Clwstwr hefyd yn parhau â Rhaglenni'r Bwrdd Iechyd sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol ac arbenigol i'r boblogaeth am y canlynol:

- Smygu
- Pwysau Iach
- Alcohol (gan gynnwys atal trais)
- Iechyd Meddwl a Lles
- Brechu ac Imiwneiddio
- Sgrinio

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Un cyflawniad allweddol fu penodi Arweinydd newydd i'r Gydweithredfa Meddygon Teulu. Mae Dr Ffion Prothero wedi ymgymryd yn llwyddiannus â rôl Arweinydd Cydweithredfa Meddygon Teulu Gogledd-orllewin Sir y Fflint

Mae'r gwasanaeth Gofal Sylfaenol Brys a ariennir gan y Clwstwr hefyd yn dangos cynnydd yn nifer yr apwyntiadau sydd ar gael a gostyngiad mewn niwed i gleifion risg uchel, gan ddarparu apwyntiadau brys ar y dydd i gleifion eiddil ac agored i niwed.

Roedd Gogledd-orllewin Sir y Fflint hefyd yn rhan o raglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ledled Gogledd-orllewin Sir y Fflint. Daeth y rhaglen â phobl o wahanol sefydliadau ynghyd i weithio gyda'i gilydd ar y ddeddf gofal gwrthgyfartal.

Mae'r Clwstwr hefyd wedi cynnal digwyddiad ymgysylltu â chleifion yn neuadd y dref, gan roi cyfle i gleifion siarad ag amrywiaeth o wasanaethau a chlinigwyr a rhannu eu barn, a rhoi cyfle i gydweithredfeydd Gogledd-orllewin Sir y Fflint ymgysylltu ag amrywiol wasanaethau.



Beth yr ydym wedi'i ddysgu?


Yn dilyn rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal, mae'r clwstwr wedi nodi bod angen gwneud mwy o waith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn yr ardal.

O ystyried yr adborth a'r gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiad i gleifion, mae'r clwstwr yn bwriadu trefnu rhagor o ddigwyddiadau yn y dyfodol.


Mae arweinwyr Clystyrau a Chydweithredfeydd hefyd wrthi'n cynnal Asesiadau o Anghenion Hyfforddi i nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Bydd hyn yn eu helpu i wella eu gallu i arwain a sicrhau bod y clystyrau a'r cydweithredfeydd yn gweithredu ar eu gorau.

Beth nesaf?

- Bydd y Clwstwr yn gwerthuso cynigion presennol y clwstwr i ddangos eu llwyddiant, ac yn ceisio nodi ffynonellau ariannu eraill y tu hwnt i gronfeydd y Clwstwr.
- Bydd y Clwstwr yn asesu anghenion iechyd lleol Gogledd-orllewin Sir y Fflint er mwyn cefnogi cynlluniau a blaenoriaethau datblygu gwasanaethau ar gyfer 2025-26 ymlaen, gyda ffocws penodol ar gefnogi aelodau eiddil ac agored i niwed ein cymuned.
- Byddwn yn parhau â'n hymdrechion cydweithredol gyda sefydliadau'r trydydd sector, yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd i rwydweithio ac ymgysylltu. Er mwyn datblygu cyfleoedd ymgysylltu a rhwydweithio y Clwstwr ymhellach, mae'r Gydweithredfa Fferylliaeth wedi trefnu cyd-gyfarfod ar gyfer pob un o'r tair cydweithredfa yn Sir y Fflint.
- Bydd Clwstwr Gogledd-orllewin Sir y Fflint hefyd yn blaenoriaethu ymgysylltu â chleifion ac yn anelu at gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol ar lefel leol yng nghymuned Gogledd-orllewin Sir y Fflint.
- Bydd y Clwstwr hefyd yn parhau â'r gwaith ar y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal ac yn gweithio gyda sefydliadau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint

Arweinydd y Clwstwr

Dr Angharad Fletcher
Angharad.Fletcher@wales.nhs.uk

Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint

Pwy ydym ni?

Mae Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint wedi'i leoli ar Lannau Dyfrdwy ac mae'n cynnwys trefi a chymunedau cyfagos Brychdyn, Cei Connah, Penarlâg, Queensferry a Shotton. Mae'r Clwstwr yn agos at ffin Cymru a Lloegr, wedi'i leoli i'r gorllewin o ddinas Caer. Mae Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint, sy'n adnabyddus am ei ddiwydiant, yn gartref i'r gwneuthurwr dur Tata Steel, ffatri injans Toyota a safle gweithgynhyrchu awyrofod Airbus, sy'n cyflogi tua 6,000 o bobl o'r ardal leol a hefyd Caer a Chilgwri. Canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Ddwyrain Sir y Fflint yw 8%.

Mae Clwstwr Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint yn dwyn ynghyd yr holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud â darparu iechyd a gofal ledled yr ardal.

Dr Angharad Fletcher yw Arweinydd Clwstwr Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint ac mae Linda Mairs, Uwch-gydgysylltydd y Clwstwr a Bethan Jones, Cydgysylltydd y Clwstwr, yn ei chefnogi.

Mae Clwstwr Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint yn cwmpasu poblogaeth o 7 Practis Meddyg Teulu, 12 Fferyllfa Gymunedol a 6 Optegydd, sy'n darparu gwasanaethau i tua 57,230 o gleifion cofrestredig.

Mae Practisau Meddygon Teulu yn cynnwys contractwyr annibynnol ac un sy'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd:

- Canolfan Feddygol Glannau Dyfrdwy, Shotton
- Practis Meddygol Queensferry, Queensferry
- Meddygfa Lôn Shotton, Shotton
- Meddygfa San Marc Dee View, Cei Connah (A Reolir gan y Bwrdd Iechyd)

- Practis Meddygol The Marches, Brychdyn
- Meddygfa'r Cei, Cei Connah
- Practis Meddygol y Stablau, Penarlâg

Ein Gwasanaethau

- 7 Practis Cyffredinol
- 12 o Fferyllfeydd Cymunedol
- 6 Optegydd

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae'r Clwstwr yn canolbwyntio ar sawl maes allweddol ar hyn o bryd i wella gwasanaethau gofal iechyd a lles cymunedol yng Ngogledd-ddwyrain Sir y Fflint.

Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol
- Mynediad
- Datblygu Clwstwr Carlam
- Datblygu Gwasanaethau
- Adeiladu Gallu Cymunedol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Er mwyn cefnogi a gwella'r meysydd hyn ymhellach, mae'r Clwstwr wedi dyrannu cyllid tuag at:

- Gofal Sylfaenol Brys (UPC)
- Gwella Mynediad

Mae'r Clwstwr hefyd yn parhau â Rhaglenni'r Bwrdd Iechyd sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol ac arbenigol i'r boblogaeth am y canlynol:

- Smygu
- Pwysau Iach
- Alcohol (gan gynnwys atal trais)
- Iechyd Meddwl a Lles
- Brechu ac Imiwneiddio
- Sgrinio

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae'r gwasanaeth Mynediad a Gofal Sylfaenol Brys a ariennir gan y Clwstwr yn dangos cynnydd yn nifer yr apwyntiadau sydd ar gael a gostyngiad mewn niwed i gleifion risg uchel, gan ddarparu apwyntiadau brys ar y dydd i gleifion eiddil ac agored i niwed.


Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae arweinwyr Clystyrau a Chydweithredfeydd wrthi'n cynnal Asesiadau o Anghenion Hyfforddi i nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Bydd hyn yn eu helpu i wella eu gallu i arwain a sicrhau bod y clystyrau a'r cydweithredfeydd yn gweithredu ar eu gorau.


Mae'r gwasanaethau Mynediad a Gofal Sylfaenol Brys a ariennir gan y Clwstwr wedi darparu apwyntiadau Gofal Sylfaenol ychwanegol i gleifion gael eu gweld yn agosach i'w cartref. Mae'r Clwstwr yn gobeithio parhau â'r gwasanaethau hyn.

Beth nesaf?

- Bydd y Clwstwr yn gwerthuso cynigion presennol y clwstwr i ddangos eu llwyddiant, ac yn ceisio nodi ffynonellau ariannu eraill y tu hwnt i gronfeydd y Clwstwr.
- Bydd y Clwstwr yn asesu anghenion iechyd lleol Gogledd-ddwyrain Sir y Fflint er mwyn cefnogi cynlluniau a blaenoriaethau datblygu gwasanaethau ar gyfer 2025-26 ymlaen, gyda ffocws penodol ar gefnogi aelodau eiddil ac agored i niwed ein cymuned.
- Byddwn yn parhau â'n hymdrechion cydweithredol gyda sefydliadau'r trydydd sector, yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd i rwydweithio ac ymgysylltu. Er mwyn datblygu cyfleoedd ymgysylltu a rhwydweithio y Clwstwr ymhellach, mae'r Gydweithredfa Fferylliaeth wedi trefnu cyd-gyfarfod ar gyfer pob un o'r tair cydweithredfa yn Sir y Fflint.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Grŵp Cynllunio Traws-glwestwr Gwynedd ac Ynys Môn

Ynys Môn

Arfon

Dwyfor/Gogledd Meirionnydd

De Meirionnydd

Grŵp Cynllunio Traws-glwestwr (GCTG) Gwynedd ac Ynys Môn

Pwy ydym ni?

Ar hyn o bryd mae'r Grŵp Cynllunio Traws-glwestwr yn cwmpasu awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn ac mae'n cynnwys pedwar clwstwr:

Poblogaeth Ynys Môn	Poblogaeth Gwynedd
69,291	119,173

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (diwedd 2023)

Mae clwstwr Ynys Môn yn rhannu'r un ôl troed â'r awdurdod lleol.

Mae Ynys Môn wedi'i lleoli oddi ar arfordir y gogledd-orllewin a hi yw sir fwyaf gogleddol Cymru a'r clwstwr mwyaf yn y Gorllewin. Mae 55.8% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae gan yr ynys ganran uchel o bobl sy'n byw â chyflyrau iechyd hirdymor, yn ogystal ag ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol uchel, gyda dros 35% o blant yn byw mewn tldi cymharol. Blaenoriaethau'r clwstwr o ran cyflyrau hirdymor yw sicrhau gwasanaeth sgrinio a rheoli effeithiol, gwneud yn siŵr bod cyflyrau'n cael eu hadnabod, a chynnig cymorth ychwanegol i'r rhai nad yw'r gwasanaeth yn eu cyrraedd, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Mae cefnogi iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant, ac unigolion sy'n byw ag Eiddilwch a Dementia, yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel. Ffocws o'r newydd ar gefnogi ymddygiadau iach. Adnabod y rhai sy'n cael trafferth gyda gordewdra, smygu neu alcohol; a sicrhau bod cyngor a chymorth priodol yn cael eu cynnig.

Gwynedd

Mae clwstwr **Dwyfor a Gogledd Meirionnydd** yn cwmpasu ardaloedd Pen Llŷn ac Eifionydd ac yn ymestyn i lawr cyn belled â Blaenau Ffestiniog. Mae ganddo boblogaeth hŷn sylweddol yn ogystal â phoblogaeth fwy yn ystod misoedd yr haf. Mae gan Ddwyrfor a Gogledd Meirionnydd boblogaeth o 39,950. Mae 68.7% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae iechyd meddwl a llesiant, yn enwedig atal hunanladdiad ymhlith dynion, yn flaenoriaethau iechyd cyhoeddus hollbwysig. Mae blaenoriaethau'r clwstwr hefyd yn cynnwys ymdrechion sy'n canolbwyntio ar atal a rheoli salwch cronig, gan gynnwys unigolion sy'n byw ag eiddilwch. Hefyd, archwilio ffyrdd o weithio mewn modd mwy effeithlon gan ddefnyddio technoleg, a meithrin cydnerthedd cymunedol.

Arfon yw'r clwstwr mwyaf yng Ngwynedd, a chanddo boblogaeth o 61,700, ac mae'n amrywiol o ran bywyd gwledig a threfol. Mae gan Arfon boblogaeth gymharol fawr o blant, pobl ifanc ac oedolion ifanc o oedran gweithio, gan gynnwys poblogaeth fawr o fyfyrwyr. Mae 64.5% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae blaenoriaethau'r clwstwr yn cynnwys canolbwyntio ar ffactorau ymddygiadol amddiffynnol, iechyd meddwl a llesiant – gan feithrin cydnerthedd ymhlith plant a phobl ifanc, a rheoli'r rhai sy'n byw â chlefyd cronig/eiddilwch mewn modd rhagweithiol.

Mae **De Meirionnydd** yn ardal arfordirol a mynyddig sy'n cwmpasu'r Bala, Tywyn, Dolgellau, a'r Bermo. De Meirionnydd yw'r clwstwr lleiaf, ac iddo boblogaeth gofrestredig o 18,800. Oherwydd yr ardal ddaearyddol fawr a'r cysylltiadau cludiant cyhoeddus gwael, mae'r clwstwr yn canolbwyntio ar gryfhau cynaliadwyedd gwasanaethau presennol ac yn edrych ar gyfleoedd i ddarparu gofal yn nes at y cartref. Mae hefyd yn canolbwyntio ar gefnogi'r Timau Adnoddau Cymunedol trwy ymgorffori uwch-ymarferwyr clinigol yn y timau sefydledig sydd â ffocws ar Glefydau Cronig ac Eiddilwch. At hynny, parhau i hybu ymddygiadau iach ac archwilio'r posibilrwydd o ddarparu hyb asesiadau anadlol canolog i gefnogi'r broses o asesu a gwneud diagnosis o gyflyrau anadlol. Mae 53% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Friog yn bentref glan môr sydd wedi'i leoli yn y clwstwr ac mae'n wynebu risg o lifogydd oherwydd y newid yn yr hinsawdd, a fydd yn cael effaith sylweddol ar y bobl sy'n byw yn y pentref a'r ardal gyfagos.

Mae'r Grŵp Cynllunio Traws-glwestwr yn dwyn ynghyd uwch-arweinwyr o'r GIG, yr Awdurdod Lleol, a phartneriaid allweddol yn y trydydd sector i ddarparu arweinyddiaeth systemau integredig.

Mae rhanddeiliaid allweddol y Grŵp Cynllunio Traws-glwestwr yn cynnwys y canlynol:

Awdurdod Lleol – Gwynedd ac Ynys Môn
CYFARWYDDWR STRATEGOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Bwrdd Iechyd
CYFARWYDDWR CYMUNEDOL IECHYD INTEGREDIG

PENNAETH STRATEGAETH A CHYNLLUNIO IECHYD

CYFARWYDDWR CYSYLLTIOL GOFAL SYLFAENOL

CYFARWYDDWR CYSYLLTIOL GOFAL CYMUNEDOL

UWCH-REOLWR ARDAL Y CLWSTWR

RHEOLWR CYNLLUNIO DATBLYGU CLWSTWR CARLAM

Clwstwr Ynys Môn
ARWEINYDD CLWSTWR YNYS MÔN

Clwstwr Arfon
ARWEINYDD CLWSTWR ARFON

Clwstwr Arfon
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd
ARWEINYDD CLWSTWR DWYFOR A GOGLEDD MEIRIONNYDD

De Meirionnydd
ARWEINYDD CLWSTWR DE MEIRIONNYDD

Iechyd y Cyhoedd
MEDDYG YMGYNGHOROL

BI/ALI
CYFARWYDDWR NYRSIO

PENNAETH NYRSIO

UWCH-ARWEINYDD Y GWEITHWYR PROFFESIYNOL PERTHYNOL I IECHYD

Y Trydydd Sector
PRIF SWYDDOGION Y CYNGHORAU GWIRFODDOL SIROL

Llais

Sefydliad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
PENNAETH PARTNERIAETHAU

Gofal Eilaidd
CYFARWYDDWR MEDDYGOL CYMUNEDOL IECHYD INTEGREDIG


Menywod a Mamolaeth
METRON MENYWOD – GORLLEWIN

Iechyd Plant a Phobl Ifanc
CYFARWYDDWR ARDAL CYNORTHWYOL


Iechyd Meddwl/ Anableddau Dysgu
PENNAETH NYRSIO

Cynrychiolydd Cyllid
PRIF SWYDDOG CYLLID CYNORTHWYOL

Contractio a Rheoleiddio ym maes Gofal Sylfaenol
CYFARWYDDWR CYSYLLTIOL CONTRACTIO A RHEOLEIDDIO YM MAES GOFAL SYLFAENOL



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr Gwynedd ac Ynys Môn

Ynys Môn

Arfon

Dwyfor/Gogledd Meirionnydd

De Meirionnydd

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Anogwyd y Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr gan y rhaglen Datblygu Cystyrau Carlam i lunio cynllun integredig tair blynedd yn nodi ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd y boblogaeth, gan wneud defnydd effeithiol o adnoddau, gan gynnwys y gweithlu a chyllid i gyd-fynd ag amcanion iechyd strategol.

Rydym wrthi'n gweithio ar ein cynllun integredig cyntaf ar gyfer Gwynedd a Môn ar hyn o bryd.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr wedi darparu fforwm defnyddiol i arweinwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol, a'r Trydydd Sector ddod ynghyd yn rheolaidd, gan alluogi rhwydweithio, a rhannu profiadau ac arfer da.

Mae gan y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr y potensial i sbarduno newid o ran y ddarpariaeth gymunedol.

Mae'r grŵp wedi rhoi cyfle i Arweinwyr y Cystyrau roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau a datblygiadau yn eu priod feysydd, ac mae hefyd wedi darparu llwybr i rannu gwybodaeth am feysydd buddsoddi allweddol eraill megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac Ymhellach yn Gyflymach.

Canolbwyntiodd adolygiad diweddar o'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr ar y modd y gallem gryfhau'r grŵp. Mae pob rhanddeiliad wedi rhannu ei flaenoriaethau, ei feysydd ffocws allweddol a'r risgiau, ac mae themâu wedi dod i'r amlwg sy'n cyd-fynd â'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau rhanbarthol cyffredin ar draws gwasanaethau iechyd a gofal, ochr yn ochr â'r heriau a'r risgiau sy'n wynebu pob partneriaeth, megis cyllid a chynaliadwyedd y gweithlu.

Mae nifer aelodau'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr wedi golygu heriau yn anochel, gydag adborth yn nodi bod y cyfarfodydd yn rhy fawr.

Mae heriau technolegol cynnal cyfarfodydd hybrid yn ddwyieithog wedi arwain at gynnal cyfarfodydd naill ai dros Teams neu wyneb yn wyneb.

Mae heriau llywodraethu wedi ei gwneud yn anodd symleiddio'r broses o gymeradwyo cynlluniau newydd.

Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/gwasanaethau cymunedol)

Mae gan y cystyrau y contractwyr annibynnol canlynol yn eu lle:

	Ynys Mon	Arfon	Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	De Meirionnydd
Practisau Meddygon Teulu	10	8	10	4
Fferyllfeydd Cymunedol	13	9	13	6
Practisau optometreg	7	7	7	1
Deintyddfeydd	6	6	6	2

At hynny, mae un Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, a chwe ysbyty cymunedol, ac mae ein timau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol wedi'u hen sefydlu ac wedi'u lleoli ledled yr ardal.


Mae yna bartneriaeth gadarn â sefydliadau'r trydydd sector sy'n hanfodol i wella llesiant a chefnogi cymunedau.

Mae awdurdodau lleol Gwynedd a Môn yn bartneriaid ymroddedig.


Beth nesaf?

- Ailedrych ar ddiben a chylch gwaith y Cylch Gorchwyl, a sicrhau bod gennym yr aelodaeth a'r awdurdod priodol yn y grŵp.
- Cryfhau trefniadau llywodraethu'r grŵp o ran cymeradwyo a chomisiynu.
- Cytuno ar y fformat – parhau i gynnal un Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr, neu ddau grŵp ar wahân yn ôl troed ardaloedd Gwynedd a Môn, a chynnal cyd-gyfarfodydd blynyddol.
- Cytuno ar flaenoriaethau integredig lleol yn seiliedig ar asesiad o anghenion y boblogaeth.
- Mapio adnoddau.
- Datblygu cynllun cyntaf y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn – cytuno ar weledigaeth gyffredin hirdymor y bartneriaeth ar gyfer y gymuned, yn hytrach na mentrau byrdymor a allai fod yn anghynnaladwy, a gwella effeithlonrwydd sy'n arwain at lai o ddyblygu.
- Cysoni'r cylchoedd cynllunio.
- Ystyried yr ystod o ffrydiau cyllido y gellid eu rheoli trwy'r Grŵp hwn.
- Model cyflawni cyffredinol – y Gweithlu/Capasiti/Safleoedd/Cynaliadwyedd.
- Adolygiad sicrwydd – perfformiad, gwerthusiad, canlyniadau.
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd/â rhanddeiliaid.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Ynys Môn

Arweinydd y Clwstwr

Dr Dyfrig ap Dafydd
dyfrig.ap-dafydd2.wales.nhs.uk

Ynys Môn

Pwy ydym ni?

Mae Ynys Môn wedi'i lleoli oddi ar arfordir Gogledd-orllewin Cymru a hi yw sir fwyaf gogleddol Cymru. Ynys Môn yw'r clwstwr mwyaf ac iddo boblogaeth o 65,850. Mae'r clwstwr yn cynnwys Cydweithredfa Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol wedi'i ffurfio o ddeg meddygfa deulu, gan gynnwys un practis a reolir gan y Bwrdd Iechyd. Ynys Môn yw cartref yr unig bractis Cynllun Triniaethau Amgen yn y Gorllewin, sef meddygfa Star. Yng Nghaergybi y mae'r unig Bractis 'Pen Dwfn' yn y Gorllewin, sydd ar reng flaen y GIG o ran mynd i'r afael â phroblemau iechyd a gofal iechyd cymunedau eithriadol o ddifreintiedig.

Mae yna saith practis sy'n dosbarthu, dau bractis sy'n hyfforddi, Cydweithredfa Fferylliaeth Gymunedol ac iddi dair ar ddeg o fferyllfeydd, Cydweithredfa Optometreg sy'n cynnwys saith practis, dau ysbty cymunedol, un hosbis, a chwe phractis Deintyddol. Mae'r Gydweithredfa Nyrsio ar draws y Gorllewin yn gweithio ledled Gwynedd ac Ynys Môn, ac mae Cydweithredfa'r Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ar hyn o bryd yn gweithio ar draws Bwrdd Iechyd PBC ledled Gogledd Cymru. Mae gan y clwstwr bartneriaeth waith wych gyda sefydliadau'r trydydd sector ac awdurdodau lleol, yn ogystal â bod ag un o'r gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol mwyaf sefydledig yng Nghymru.

Arweinydd y Clwstwr yw Dr Dyfrig ap Dafydd sydd hefyd yn Feddyg Teulu ym Meddygfa Coed y Glyn, Llangefni.

Mae Ellen V Williams (Uwch-reolwr Ardal y Clwstwr) a Helen Wyn Williams (Cydlynnydd Clwstwr Arfon ac Ynys Môn) wedi cefnogi'r clwstwr Gofal Sylfaenol ers nifer o flynyddoedd. Mae tîm y clwstwr hefyd yn cynnwys **Christine Carroll** a **Hannah Norbury**, sy'n darparu gwasanaeth rheoli prosiectau a chymorth gweinyddol i'r clystyrau.

Mae'r asesiad o anghenion iechyd a blaenoriaethau'r clwstwr wedi'u rhestru isod:

Poblogaethau agored i niwed ac	Mae 14.7% o gleifion yn byw yn 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) Mae 27.5% o blant yn dod o deuluoedd incwm isel Mae 16.8% o aelwydydd yn rhai lle mae pobl 66 oed neu hŷn yn byw ar eu pen eu hunain Mae 9% o'r boblogaeth yn darparu gofal di-dâl Nid oes gan 14.9% o aelwydydd gar
---------------------------------------	---

Ffyrdd o Fyw a Gwasanaethau Atal	Cyfraddau brechu a sgrinio da, ond mae'r cyfraddau'n isel ymhlith cymunedau agored i niwed Pobl iau: cyfraddau uchel o ymddygiad peryglus o gymharu â Gogledd Cymru, e.e. smygu, alcohol, diffyg ymarfer corff, gordewdra, beichiogrwydd yn ystod yr ardddegau Cyfraddau bwydo ar y fron isel ar ôl 10 diwrnod
---	--

Cyflwr Cronig	Clwstwr (%)	BIPBC (%)
Asthma	8.5	7.5
Ffibriliad atrïaidd	2.9	2.7
Diabetes	9.0	8.0
Pwysedd gwaed uchel	18.1	17.3
Strôc a TIA	2.7	2.2

Grŵp oedran	Nifer	Clwstwr %	BIPBC %
0-15	11,300	17.2	17.3
16-29	8,600	13.1	14.8
30-34	10,100	15.3	16.8
45-65	19,300	29.3	28.9
66-84	14,500	22.0	19.3
85+	2,050	3.1	3.0

Cyfanswm 65,850

Siaradwyr Cymraeg 55.8%

Blaenoriaethau'r Clwstwr
• Targedu'r rhai sydd wedi'u hymyleiddio trwy gynllun peilot y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal (Plant a Phobl Ifanc)
• Monitro a rheoli cyflyrau cronig
• Cynyddu gweithgarwch ataliol a llesiant trwy ganolbwyntio ar ymddygiadau iach, e.e. llesiant teuluol, prosiectau bwydo ar y fron
• Gwella mynediad at wasanaethau

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Dyma weledigaeth y clwstwr:

' Cefnogi ein poblogaeth ac unigolion i wella eu llesiant corfforol a meddyliol'

Mae'r asesiad o anghenion iechyd ar gyfer Ynys Môn yn awgrymu bod angen canolbwyntio ar atal salwch cronig, a gwasanaethau i'r boblogaeth hŷn yn benodol. At hynny, bydd cryfhau iechyd y boblogaeth iau ac oedran gweithio yn helpu i atal afiechyd yn y dyfodol. Mae'r cyfraddau sgrinio ar gyfer canser ceg y groth, er enghraifft, yn isel, ac mae cyfraddau gordewdra ymhlith oedolion a phlant yn uchel.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Prosiect Bwydo ar y Fron Ynys Môn: Gwasanaeth 3 blynedd o hyd a ariennir gan y clwstwr, sy'n cyd-fynd â chymorth bwydo ar y fron yr ail haen yn lleol ac yn genedlaethol. Caiff y gwasanaeth ei redeg gan ddau Ymgynghorydd Llaetha sydd wedi'u hyfforddi ar lefel arbenigol ac sy'n darparu sesiynau gofal a chymorth bwydo ar y fron mynediad agored arbenigol, integredig, dwyieithog, ddwywaith yr wythnos, yng Nghaergybi a Llangefni.

Y prif nodau yw darparu dechrau iach trwy'r rhaglen Bwydo ar y Fron. Cynyddodd cyfran y babanod a oedd yn parhau i gael eu bwydo ar y fron yn unig 4.39% ar ôl 10 diwrnod, 8.17% ar ôl 6 wythnos, a 3.85% ar ôl 6 mis. Mae bwydo rhannol yn dangos gwelliant tebyg o gyfuno bwydo ar y fron yn unig a bwydo rhannol, sef cynnydd o 5.9% ar ôl 10 diwrnod, 10.45% ar ôl 6 wythnos, a 5.08% ar ôl 6 mis.

Metrigau Allweddol:

- 591 o achosion o ofal
- 91 o glinigau wedi'u cynnal
- 123 o famau wedi dod iddynt
- Y niferoedd yn parhau i gynyddu. Cynnydd o 43% mewn presenoldeb ar gyfer 23-24

Cafwyd adborth cadarnhaol gan famau newydd:

' Mae'r grŵp yn anghygoel, ac o ddifrif, dyna'r unig reswm rwy'n dal i allu bwydo ar y fron hyd heddi gyda chymorth gan y grŵp '

Gellir atal llawer o'r cyflyrau cronig ar Ynys Môn, neu leihau eu difrifoldeb, trwy ffactorau ymddygiadol amddiffynnol, megis mynd i'r afael â smygu, gordewdra, bwydo ar y fron, a gwella iechyd meddwl a llesiant, sydd oll yn flaenoriaethau iechyd cyhoeddus cyfredol. Mae'r ffactorau amgylcheddol ehangach, megis tai, iechyd yr amgylchedd, a mannau gwyrdd hefyd yn ffactorau pwysig o ran sicrhau a chynnal iechyd a llesiant da.

Yn ogystal â hyn, mae lleihau anghydraddoldebau yn y clwstwr, gan gynnwys anghydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau, yn nod pwysig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o gofio cynllun peilot y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal ar Ynys Môn, sy'n cydnabod mai'r rhai sydd â'r penderfynyddion iechyd gwaethaf sydd leiaf tebygol o gael mynediad at wasanaethau.

Iechyd meddwl a llesiant Gweithio gyda phartneriaid i wella iechyd a llesiant ein poblogaeth.

Canlyniadau cadarnhaol o ran cyfraddau rheoli iachâd wiserau'r coesau Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu ar y cyd â chlwestwr Arfon (gweler tudalen clwstwr Arfon i gael rhagor o wybodaeth)

Gweithredu Rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal yn Llwyddiannus a sbarduno newid gan arwain at ganolbwyntio ar Blant a Phobl Ifanc a datblygu grŵp llywio Presgripsiynu Cymdeithasol a Phresgripsiynu Cymdeithasol i Blant.

Cryfhau Cynghreiriau Cymunedol ymhellach, gan gefnogi iechyd a llesiant a chydnerthedd mewn cymunedau.


Parhau i gryfhau gwaith/perthnasoedd y cydweithredfeydd a'r clystyrau.

Cymorth Iechyd Cyhoeddus pwrpasol i nodi anghenion y boblogaeth.


Hyfforddiant Mân-lawdriniaethau Llwyddiannus – Hyfforddiant mân-lawdriniaethau a dermatosgop. Hyfforddiant parhaus i glinigwyr i'w galluogi i wneud mân-lawdriniaethau mewn lleoliadau gofal sylfaenol, ac i ddiweddarau'r hyfforddiant at ddibenion llywodraethu. **(Gweler tudalen clwstwr Arfon i gael rhagor o wybodaeth)**

Diwrnod Apwyntiadau Cymunedol. Newid y dirwedd fel bod pobl yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain.

Timau Adnoddau Cymunedol - Mae Timau Adnoddau Cymunedol yn dwyn ynghyd gweithwyr proffesiynol o'r meysydd iechyd, cymdeithasol, a'r trydydd sector i ddarparu gofal integredig i gleifion yn eu cartref eu hunain. Mae yna dri Thîm Adnoddau Cymunedol yn y clwstwr ac maent yn hanfodol wrth gefnogi unigolion i barhau i allu byw'n annibynnol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Ynys Môn

Arweinydd y Clwstwr

Dr Dyfrig ap Dafydd
dyfrig.ap-dafydd2.wales.nhs.uk

Hyb 'Eiddilwch' Tîm Adnoddau Cymunedol Caergybi Mae cydlynnydd clinigol yn galluogi ymateb cyflym; mae ar gael trwy ganolfan ffrydio, bydd yn hwyluso llwybr di-dor a chydlynol i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau mewn modd holistaidd i aros gartref lle bo hynny'n bosibl, ac yn lleihau derbyniadau cleifion mewnol lle gellir osgoi gwneud hynny: yr unigolyn cywir, yr adeg gywir, y lle cywir, a'r gofal cywir. Nod y cynllun peilot hwn yw dileu gwastraff, osgoi dyblygu gwaith, atal derbyniadau i'r ysbyty, a chyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Cymorth Gofal i'r Henoed yn y gymuned i unigolion sy'n ymgyflwyno ag eiddilwch a chydafiachedd cymhleth, Asesiadau Geriatreg Cynhwysfawr, a Chynllunio Gofal yn y Dyfodol. Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer cartrefi gofal yng Nghaergybi. Dangosodd y prosiect ganlyniadau gwell, gostyngiad yn nifer y derbyniadau aciwt i'r ysbyty, a hyd arosiadau byrrach, yn ogystal â gwerthusiadau cadarnhaol gan gleifion, teuluoedd, a staff ar draws pob disgyblaeth – gyda'r bwriad o gyflwyno'r model ar draws y Timau Adnoddau Cymunedol eraill yn Ynys Môn a Gwynedd. (Cefnogir hefyd gan 'Gydweithredfa Gofal Diogel – Gwelliant Cymru/y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd').

Sefydlu gweithgor Plant a Phobl Ifanc. Cynhaliwyd cyd-gyfarfod o'r clwstwr a'r gwasanaeth Presgripsiynu Cymdeithasol, a oedd yn enghraifft wych o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan ddod â phobl ynghyd i fwrw ymlaen â blaenoriaeth gyffredin dan arweiniad Iechyd y Cyhoedd.

Y Gymdeithas Feddygol Mae'r Gymdeithas Feddygol yn llwyfan i feddygon teulu, meddygon, a chlinigwyr eraill, sy'n cynnig y cyfle iddynt gwrdd a rhannu diweddariadau meddygol. Yn ardal y Gorllewin, mae yna dair Cymdeithas Feddygol, a phob un yn cael ei chefnogi gan feddyg teulu o'i phriod ardal: Ynys Môn, Arfon, a Dwyfor/Meirionnydd. Mae'r cymdeithasau hyn yn cynnal cyfarfodydd bob dau fis gyda'r nos. Mae sesiynau hyn yn denu nifer dda o bobl yn gyson.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Beth a oedd wedi gweithio'n dda?

Cynhaliwyd cyd-gyfarfod llwyddiannus iawn rhwng Cydweithredfeydd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, y Fferyllfeydd Cymunedol, ac Optometreg lle rhannodd partneriaid arferion da a syniadau ar gyfer gwella sianeli cyfathrebu.

Gweithredu Rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal yn Llwyddiannus a sbarduno newid gan arwain at ganolbwyntio ar Blant a Phobl Ifanc a datblygu grŵp llywio Presgripsiynu Cymdeithasol a Phresgripsiynu Cymdeithasol i Blant.

Gweithio gydag Iechyd y Cyhoedd a chlystyrau/chydweithredfeydd yn llawer agosach gan ddefnyddio gwybodaeth am ddata iechyd i sbarduno gwaith y clwstwr.

Mae bod ag ymgysylltiad, ymroddiad, a chefnogaeth gadarn gan bartneriaid lleol yn sicrhau clwstwr sy'n gweithredu ar lefel uwch.

Beth y gallem ei wneud yn well?

Materion yn ymwneud ag ymgysylltu ac ôl-lenwi, yn enwedig yn achos rhai partneriaid cydweithredol, a hynny oherwydd diffyg capasiti.

Anhawster o ran prif-ffrydio prosiectau llwyddiannus a ariennir gan glwstwr. Bydd y clwstwr yn sicrhau bod yna gynlluniau ymadael cadarn i bob un o'i gynigion. Parhau i wella sianeli cyfathrebu rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd.

Beth nesaf?

Cyflwyno Cymuned EMIS ar gyfer partneriaid gofal sylfaenol

I gefnogi Gwasanaeth Wlserau'r Coesau ymhellach ar Ynys Môn ac yn Arfon, bydd Cymuned EMIS yn cael ei gosod o fis Ebrill 2025. Mae'r buddiannau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Defnydd gwell o Staff Clinigol a Gweinyddol:
- Proses Trefnu Apwyntiadau Well
- Dadansoddi Data yn Well
- Gofal Cleifion Gwell
- Boddhad Staff yn Cynyddu

Iechyd meddwl a llesiant Plant a Phobl Ifanc

Rheoli Clefydau Cronig ac Ymddygiadau Iach

Meithrin ymwybyddiaeth o 'Gwneud i bob cyswllt gyfrif' fel sail ar gyfer cychwyn trafodaethau â chleifion i hybu ymddygiadau iach.

Eiddilwch a Dementia

Datblygu syniadau i gefnogi ein poblogaeth hŷn, eiddil, a'r rhai sy'n byw â dementia, a'u teuluoedd.

Meithrin ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael gyda'n partneriaid cydweithredol a datblygu llwybrau atgyfeirio symlach.

Presgripsiynu Cymdeithasol o'r crud i'r bedd

Datblygu contract presgripsiynu cymdeithasol pwrpasol, i ddiwallu anghenion poblogaeth Ynys Môn.

Cychwyn Iach

Parhau i ddatblygu syniadau i gefnogi rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal ar gyfer ein hardaloedd mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol.

Cyflwyno Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan

Bydd ychydig o feddygfeydd teulu yn cymryd rhan yn y rhaglen trwy nodi'r rheiny sy'n wynebu'r perygl mwyaf o gael diabetes math 2, a darparu cyngor a chymorth i atal y clefyd rhag datblygu.

Diwrnod Apwyntiadau Cymunedol – annog pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.


Parhad y gwasanaeth therapi galwedigaethol iechyd meddwl ym maes gofal sylfaenol a darpariaeth ymarferydd llesiant teuluol

Hyfforddi ac uwch-sgilio'r gweithlu


Bydd yr Academi yn cefnogi hyfforddiant a datblygiad ym maes gofal sylfaenol i glinigwyr a staff gweinyddol, fel ei gilydd.

Sicrhau cyllid hirdymor ar gyfer uwch-ffisiotherapyddion cyswllt cyntaf

- Cynnwys dolenni i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig – i'w hychwanegu pan fydd y cynllun hwnnw ar y fewnrwyd.
- Dolen i'r trydydd sector – Medrwn Môn.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Arfon

Arweinydd y Clwstwr

Dr Nia Hughes
Nia.Hughes7@wales.nhs.uk

Arfon

Pwy ydym ni?

Mae Arfon yn un o'r clystyrau sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd. Mae'n eistedd gyferbyn ag Ynys Môn fel y mae'r enw Arfon yn ei awgrymu. Arfon yw'r clwstwr mwyaf yng Ngwynedd, a chanddo boblogaeth o 61,700. Mae'r clwstwr wedi'i ffurfio o Gydweithredfa Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol sy'n cynnwys wyth meddygfa, Cydweithredfa Fferyllfeydd Cymunedol sy'n cynnwys naw fferyllfa, a Chydweithredfa Optometreg ac iddi saith practis. Mae yna hefyd chwe phractis deintyddol yn y clwstwr, yn ogystal ag un ysbyty cymunedol ac un ysbyty cyffredinol. Mae'r Gydweithredfa Nyrsio yn gweithio ledled Gwynedd ac Ynys Môn, ac mae Cydweithredfa'r Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ar hyn o bryd yn gweithio ar draws Bwrdd Iechyd PBC ledled Gogledd Cymru.

Mae Dr Nia Hughes yn feddyg teulu ym Meddygfa Bodnant, Bangor ac yn Gyfarwyddwr Meddygol Gofal Sylfaenol y Gorllewin. Hi hefyd yw Arweinydd Clwstwr Arfon.

Mae Ellen V Williams (Uwch-reolwr Ardal y Clwstwr) a Helen Wyn Williams (Cydgysylltydd Clwstwr Arfon ac Ynys Môn) wedi cefnogi'r clwstwr Gofal Sylfaenol ers nifer o flynyddoedd. Mae tîm y clwstwr hefyd yn cynnwys Christine Carroll a Hannah Norbury, sy'n darparu gwasanaeth rheoli prosiectau a chymorth gweinyddol i'r clystyrau.

Mae'r asesiad o anghenion iechyd a blaenoriaethau'r clwstwr wedi'u rhestru isod:

Poblogaethau agored i niwed ac	Mae 11.7% o gleifion yn byw yn yr 20% mwyaf difreintiedig o'r WIMD. Mae 8.1% yn darparu gofal di-dâl Mae 34.2% o aelwydydd yn byw mewn tldi cymharol ($\leq 60\%$ o £22,021 y flwyddyn) Yn croesawu 10,000 o fyfyrwyr bob blwyddyn Mae poblogaethau o tua 300 o Sipsiwn/Teithwyr Gwyddelig/Roma yn byw yn ardal y gorllewin
Ffyrdd o Fyw a Gwasanaethau Atal	16.8% o oedolion, a 4.2% o bobl ifanc yn ysmegu Mae 27.5% o blant dros bwysau neu'n ordew Mae 19.2% o oedolion yn yfed mwy o alcohol na'r canllawiau Mae'r nifer o bobl sy'n cael eu sgrinio a'r nifer sy'n cael eu brechu'n dda yn gyffredinol, ond mae'r rhai o ardaloedd difreintiedig yn llawer llai tebygol o fanteisio ar y nifer sy'n cael eu sgrinio neu'n cael eu brechu

Cyflwr Cronig	Clwstwr (%)	BIPBC (%)
Asthma	6.7	7.5
Ffibriliad atrïaidd	1.9	2.7
Diabetes	6.4	8.0
Pwysedd gwaed uchel	13.6	17.3
Strôc a TIA	1.6	2.2

Poblogaeth

Grŵp oedran	Nifer	Clwstwr %	BIPBC %
0-15	10,650	17.2	17.3
16-29	13,800	22.4	14.8
30-34	10,450	17.0	16.8
45-65	15,850	25.7	28.9
66-84	9,400	15.2	19.3
85+	1,550	2.5	3.0

Cyfanswm 61,700

Siaradwyr Cymraeg 64.5%

Blaenoriaethau'r Clwstwr

- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc – gan ganolbwyntio ar imiwneiddio a gordewdra ymhlith plant
- Atal a llesiant, e.e. ymddygiad iach, imiwneiddio, sgrinio, gofal amenedigol gan gynnwys iechyd meddwl mamau
- Yr henoed – canolbwyntio ar eiddilwch

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Dyma weledigaeth y clwstwr:

'Darparu'r gofal gorau yn y gymuned'.

Mae gan Arfon boblogaeth gymharol fawr o blant, pobl ifanc ac oedolion ifanc o oedran gweithio, gan gynnwys myfyrwyr. Mae'r ffigurau ar gyfer salwch cronig yn gyffredinol is na'r ffigurau cenedlaethol; serch hynny, mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn byw â salwch cronig, sy'n awgrymu y dylai mesurau i atal a helpu i reoli'r cyflyrau hyn fod yn flaenoriaeth i'r clwstwr gofal sylfaenol.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Darpariaeth Ymarferydd Llesiant Teuluol – mae'r gwasanaeth hwn wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd ac mae'n darparu mynediad teg i bobl ifanc a'u teuluoedd ar draws pob practis. Mae gweithio mewn partneriaeth â CAMHS yn archwilio ffyrdd arloesol o gefnogi pobl ifanc trwy weithgareddau antur.

Hyfforddiant Mân-lawdriniaethau Llwyddiannus – Mae hyfforddiant mân-lawdriniaethau a dermatosgop wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus i glinigwyr gofal sylfaenol dros nifer o flynyddoedd. Bydd hyn yn galluogi clinigwyr i gynnig gwasanaeth mân-lawdriniaethau yn lleol ac yn helpu i leihau'r amseroedd aros hir ar gyfer gwasanaethau gofal eilaidd.

Gwasanaeth wlserau'r coesau – cyflwynwyd y fenter hon ym mis Ebrill 2023 ac mae ar gael yng nghlystyrau Arfon ac Ynys Môn.

Mae clinig a gwasanaeth arbenigol yn y gymuned ar gyfer wlserau rhan isaf y goes yn darparu gofal yn nes at gartref y claf.

Sefydlwyd y gwasanaeth hwn i leddfu baich trin a rheoli clwyfau wlserau'r coesau sy'n anodd eu gwella. Mae wedi lleihau'n sylweddol y galw cynyddol ar glinigwyr cymunedol, yn enwedig Nyrsys Ardal, sydd yn aml yn rheoli nifer cynyddol o achosion o wlserau'r coesau yn rhan o'u llwyth gwaith. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyfrannu at leihau derbyniadau diangen i'r ysbyty neu ofal estynedig yn y gymuned.



Mae gan Arfon boblogaeth amrywiol o ran bywyd gwledig a threfol.

Ffocws ar ffactorau ymddygiadol amddiffynnol, megis smygu, gordewdra, bwydo ar y fron, a gwella iechyd meddwl a llesiant, sydd oll yn flaenoriaethau iechyd cyhoeddus cyfredol. Yn ogystal â hyn, mae lleihau anghydraddoldebau yn y clwstwr, gan gynnwys tlodi, a chanolbwyntio ar y boblogaeth iau a'r boblogaeth sy'n heneiddio, yn nodau pwysig.

Mae'r clwstwr yn parhau i gryfhau'r cydweithio â phartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, a'r trydydd sector.


Gall cleifion gael mynediad at y llwybr clinigol cywir yn llawer cynharach, gan gael diagnosis cywir a'r driniaeth fwyaf priodol.

Caiff y gwasanaeth hwn ei redeg gan nyrsys â diddordeb arbennig mewn wlserau'r coesau ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau i reoli'r cyflwr mewn modd effeithiol. Gwella diagnosis gwahaniaethol cynnar. Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys y canlynol:


- Cefnogi model gofal ataliol.
- Lleihau'r angen am ymyriadau hirdymor.
- Atal derbyniadau diangen i'r ysbyty.

Tystiolaeth gan glaf

'Roeddwn wedi bod yn dioddef o wlser mawr ar fy nghoes ers dros 10 mlynedd. Roedd nyrsys fy meddygfa deulu wedi bod yn rhoi triniaethau cywasgu i mi trwy'r cyfnod hwnnw heb lwyddiant. Fodd bynnag, cefais fy atgyfeirio i'r clinig wlserau'r coesau ac mae'r wlser ar fy nghoes bellach wedi cau, o fewn ychydig fisoedd. Heb os, roedd lefel eu gwybodaeth a'u harbenigedd ymhell uwchlaw lefel nyrs y practis. Roeddent yn gofalu am iechyd a llesiant cyffredinol y claf. Roeddent bob amser yn groesawgar ac yn rhoi tawelwch meddwl i mi. Maent wedi rhoi fy mywyd yn ôl i mi yn bendant. Mae'r gwasanaeth hwn yn hanfodol ymhlith y boblogaeth hon yng Ngogledd Cymru sy'n heneiddio'n barhaus. Arian wedi'i fuddsoddi'n dda gan yr awdurdod iechyd.'



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Arfon

Arweinydd y Clwstwr

Dr Nia Hughes
Nia.Hughes7@wales.nhs.uk

Therapydd Galwedigaethol Iechyd Meddwl - Mae gwasanaethau Gofal Sylfaenol dan bwysau sylweddol yn y DU. Mae yna bwysau ar y gweithlu sydd ar gael, oherwydd, er bod niferoedd y meddygon teulu yn parhau i fod yn gymharol sefydlog, mae yna gynnydd sylweddol yn nifer y meddygon teulu sy'n gweithio'n rhan-amser gan arwain at ostyngiad yn nifer y meddygon teulu sydd ar gael fesul pob aelod o'r boblogaeth. Ar yr un pryd, mae cynnydd yn y galw yn deillio o boblogaeth sy'n heneiddio a chyflyrau cronig hirdymor yn dod yn fwy cyffredin.

Ers Hydref 2022, mae cyllid clwstwr/braenaru wedi'i ddyrannu ar gyfer therapyddion galwedigaethol iechyd meddwl cyswllt cyntaf sydd wedi'u lleoli mewn practisau meddygon teulu. O ganlyniad i ddynameg ac amgylchiadau'r boblogaeth sy'n newid mae yna ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen i ymateb i benderfynyddion cymdeithasol iechyd, er enghraifft mae unigrwydd yn cael effaith sylweddol ar y defnydd o wasanaethau iechyd a chanfyddiadau o symptomau megis poen a gorbryder.

Mae'r gwasanaeth gwerthfawr hwn wedi cael adborth cadarnhaol gan gleifion:

“Cefais y cymorth a'r gefnogaeth y mae arnaf eu hangen ar ôl ymladd am gymorth ers dros 5 mlynedd, a hynny trwy gael un sgwrs yn unig. Dw i mor ddiolchgar.”

“Dw i ar lwybr adferiad oherwydd y gwasanaeth amhrisiadwy hwn. Cefais gyngor defnyddiol a dealltwriaeth ac empathi llwyr ac yna cefais fy nghyfeirio at y gwasanaethau cywir i barhau i weithio ar fy iechyd meddwl. Gwych. Diolch.”

Y Gymdeithas Feddygol – Mae'r Gymdeithas Feddygol yn llwyfan i feddygon teulu, meddygon, a chlinigwyr eraill, sy'n cynnig y cyfle iddynt gwrrd a rhannu diweddariadau meddygol.

Yn ardal y Gorllewin, mae yna dair Cymdeithas Feddygol, a phob un yn cael ei chefnogi gan feddyg teulu o'i phriod ardal: Ynys Môn, Arfon, a Dwyfor/Meirionnydd. Mae'r cymdeithasau hyn yn cynnal cyfarfodydd bob dau fis gyda'r nos, ac maent yn denu nifer da o bobl yn gyson.

Mae sesiynau blaenorol wedi cynnwys pynciau megis:

- **Rheoli Meigrin ac Adolygu Llwybrau Cur Pen** – Dr Steve Cotton, Meddyg Teulu â diddordeb arbenigol mewn Niwroleg.
- **Dirnadaeth gan y Crwner** – Kate Robertson, Crwner EF dros Wynedd ac Ynys Môn.
- **Rheoli Strôc a Gofal yr Henoed** – Dr Salah Elghenzai, Meddyg Ymgynghorol Arweiniol Strôc a Gofal yr Henoed.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Beth a oedd wedi gweithio'n dda?

Mae cydweithio â phartneriaid, rhannu syniadau ac arferion gorau yn darparu sylfaen gadarn i gefnogi gwaith y clwstwr.

Cefnogaeth iechyd cyhoeddus gref sydd wedi datblygu asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth i gynorthwyo clystyrau i bennu eu meysydd blaenoriaeth allweddol a'u gweledigaeth strategol.

Mae'r clwstwr wedi bod yn datblygu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y clwstwr i sicrhau cysondeb.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol

Materion yn ymwneud ag ymgysylltu ac ôl-lenwi, yn enwedig yn achos rhai partneriaid cydweithredol, a hynny oherwydd diffyg capasiti.

Anhawster o ran prif-ffrydio prosiectau llwyddiannus a ariennir gan y clwstwr. Bydd y clwstwr yn sicrhau bod yna gynlluniau ymadael cadarn i bob un o'i gynigion.

Parhau i wella sianeli cyfathrebu rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd.

Beth nesaf?


Bydd y clwstwr yn canolbwyntio ar y canlynol:

- **Rheoli clefydau cronig**, a chynnwys cynlluniau i ddatblygu hyb diagnostig anadlol i gefnogi'r broses o roi diagnosis a thriniaeth gywir i gleifion, gan eu sefydlogi yn y gymuned a lleihau derbyniadau i'r ysbyty.
- **Cymorth eiddilwch** Gweithredu proses gynhwysfawr o gynnal asesiadau geriatreg /gynllunio gofal yn y dyfodol ar gyfer unigolion risg uchel. Parhau â phrosiect Therapydd Galwedigaethol Eiddilwch y clwstwr.
- **Gwella cymorth iechyd meddwl a llesiant** Canolbwyntio ar feithrin cydnherthedd ymhlith plant a phobl ifanc. Parhau i feithrin ymwybyddiaeth o'r cymorth presennol gan gynnwys y llwybr iechyd meddwl amenedigol.
- Datblygu contract Presgripsiynu Cymdeithasol cynhwysfawr i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y boblogaeth leol.
- Parhau i ddarparu pecynnau hyfforddi ar gyfer y gweithlu gofal sylfaenol mewn cydweithrediad â'r Academi. Mae adnoddau hyfforddi diweddar yn cynnwys datblygu rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer y clystyrau a'r cydweithredfeydd.
- Sicrhau cyllid hirdymor ar gyfer uwch-ffisiotherapyddion cyswllt cyntaf.
- Cynnwys dolenni i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig – i'w hychwanegu pan fydd y cynllun hwnnw ar y fewnrwyd.

Dolen i'r trydydd sector – Mantell Gwynedd .



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



Dwyfor a Gogledd Meirionnydd

Arweinydd y Clwstwr

Dr Eilir Hughes
Eilir.Hughes@wales.nhs.uk

Dwyfor a Gogledd Meirionnydd

Pwy ydym ni?

Mae clwstwr Dwyfor a Gogledd Meirionnydd yn cwmpasu ardaloedd Pen Llŷn ac Eifionydd ac yn ymestyn i lawr cyn belled â Blaenau Ffestiniog. Mae ganddo boblogaeth hŷn sylweddol yn ogystal â phoblogaeth fwy yn ystod misoedd yr haf. Mae gan Ddwyfor a Gogledd Meirionnydd boblogaeth o 39,950.

Mae'r clwstwr yn cynnwys Cydweithredfa Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol wedi'i ffurfio o chwe meddygfa deulu, Cydweithredfa Fferyllfeydd Cymunedol sy'n cynnwys deuddeg o fferyllfeydd, a Chydweithredfa Optometreg sydd wedi uno â De Meirionnydd ac iddi chwe phractis. Mae yna hefyd bedwar practis deintyddol a dau ysbyty cymunedol yn y clwstwr. Mae gan y clwstwr Gydweithredfa Nyrsio ar draws y Gorllewin yn gweithio ledled Gwynedd ac Ynys Môn, ac mae Cydweithredfa'r Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ar hyn o bryd yn gweithio ar draws Bwrdd Iechyd PBC ledled Gogledd Cymru. Mae gan y clwstwr hefyd berthynas ardderchog â sefydliadau'r trydydd sector, megis Canolfan Felin Fach a'r Dref Werdd.

Mae Dr Eilir Hughes yn Feddyg Teulu yn Tŷ Doctor, Nefyn, ac yn Gyfarwyddwr Meddygol Gofal Sylfaenol ar gyfer y Gorllewin, ac mae wedi bod yn arweinydd y Clwstwr ers 2018.

Mae Ellen V Williams (Uwch-reolwr Ardal y Clwstwr) a Carys Thomas (Cydgysylltydd Clwstwr Dwyfor/Gogledd Meirionnydd a De Meirionnydd) wedi cefnogi'r clwstwr Gofal Sylfaenol ers nifer o flynyddoedd. Mae tîm y clwstwr hefyd yn cynnwys Christine Carroll a Hannah Norbury, sy'n darparu gwasanaeth rheoli prosiectau a chymorth gweinyddol i'r clystyrau.

Mae'r asesiad o anghenion iechyd a blaenoriaethau'r clwstwr wedi'u rhestru isod:

Poblogaethau agored i niwed ac	Mae 8.8% yn darparu gofal di-dâl, ac mae poblogaeth fawr mewn cartrefi gofal Mae 35% o gartrefi yn aelwyd un person Mae 29.4% o blant yn byw mewn aelwydydd incwm isel (≤ 60% o £22,021 y flwyddyn) Mae amaethyddiaeth, coedwigaeth, a physgota yn cyfrif am 5.6% o alwedigaethau (Cymru – 1.8%) Mae yna nifer fawr o ymwelwyr yn ystod yr haf
Ffyrdd o Fyw a Gwasanaethau Atal	Cyfraddau brechu a sgrinio da - ond mae angen canolbwyntio ar boblogaethau bregus Ymddygiadau peryglus – Mae gan Gwynedd gyfraddau uchel o gamddefnyddio alcohol, ysmygwyr a diffyg ymarfer corff

Cyflwr Cronig	Clwstwr (%)	BIPBC (%)
Asthma	7.5	7.5
Ffibriliad atrïaidd	2.9	2.7
Diabetes	8.2	8.0
Pwysedd gwaed uchel	19.3	17.3
Strôc a TIA	2.4	2.2

Poblogaeth				
Grŵp oedran	Nifer	Clwstwr %	BIPBC %	
0-15	6,500	16.3	17.3	
16-29	5,200	13.0	14.8	
30-34	5,800	14.5	16.8	
45-65	12,000	30.0	28.9	
66-84	8,850	22.2	19.3	
85+	1,600	4.0	3.0	

Cyfanswm 39,950

Siaradwyr Cymraeg 68.7%

- Blaenoriaethau'r Clwstwr**
- Atal a lles o ran sgrinio, ac imiwneiddio, ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad
 - Gwasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys cymorth i deuluoedd
 - Canolbwyntio ar y boblogaeth oedrannus-mynd i'r afael ag anghenion drwy gydweithio rhwng clystyrau

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Dyma weledigaeth y clwstwr:

'Creu cymuned gofal holistaidd a chynhwysfawr i ddiwallu anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth'.

Mae gan Ddwyfor a Gogledd Meirionnydd boblogaeth fawr o bobl hŷn, a phoblogaeth gymharol lai o bobl iau a phobl o oedran gweithio. Mae hefyd yn ardal lle y mae ei phoblogaeth yn cynyddu'n sylweddol yn ystod misoedd yr haf. Mae ychydig yn llai nag un rhan o bump o'r boblogaeth yn byw â salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar yr unigolyn, ffigur sy'n debyg i ffigur Gogledd.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Cryfhau gwaith/perthnasoedd y cydweithredfeydd a'r clystyrau.
- Datblygu'r gweithlu Gofal Sylfaenol ymhellach gyda chymorth yr Academi.
- Ymgysylltiad cadarn gan y clwstwr â'r trydydd sector sy'n darparu cymorth iechyd meddwl a llesiant lefel isel i'r rhai y mae arnynt ei angen.

Cynllun Preswylwyr Dros Dro

Yn ystod misoedd yr haf a chyfnod gwyliau ysgol, mae yna fewnlifiad sylweddol o dwristiaid/preswylwyr dros dro i ardal Dwyfor a all olygu bod yna alwadau enfawr am wasanaethau gofal sylfaenol lleol. Yn hanesyddol, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd y clwstwr yn gweithredu gwasanaeth i breswylwyr dros dro trwy feddygfeydd teulu lleol ac yn cyflogi meddyg teulu locwm i weld cleifion a oedd yn breswylwyr dros dro.

Yn 2023, newidiodd y model cymorth, wrth i rai fferyllfeydd lleol ddarparu gwasanaeth presgripsiynau annibynnol. Ar y cyfan, mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn gyson trwy gydol y flwyddyn, ac mae'r cynnydd hwn yn y galw yn dadleoli preswylwyr, gan ei gwneud yn anoddach nag arfer iddynt gael mynediad at ofal arferol yn ystod cyfnodau prysur y gwyliau.

Eleni, gweithredwyd y gwasanaeth o fferyllfa Llanbedrog dros yr haf, a chafodd y cleifion canlynol eu trin:

274 o gleifion ar gyfer gwasanaethau lluosog (Presgripsiynu Annibynnol – IP, Gwasanaeth Asesu Clinigol – CAS, Gwasanaethau Meddygol Brys – EMS).

Roedd 176 o ymgynghoriadau yn ymwneud â Phresgripsiynu Annibynnol, ac roedd 96% o'r adborth yn cael ei drin yn y Fferyllfa heb yr angen i atgyfeirio ymlaen.

Cynhaliodd Fferyllfa Llanbedrog ymgynghoriadau â chyfanswm o 611 o gleifion o gymharu â'r cyfartaledd blynyddol ar gyfer y cyfnod hwnnw, sef 333 o gleifion.

Cymru gyfan. Serch hynny, mae cyfran sylweddol o bobl yn byw â salwch cronig, sy'n awgrymu y dylai mesurau i helpu i atal a rheoli cyflyrau cronig fod yn flaenoriaeth i'r clwstwr.

Prif ffocws yr holl drafodaethau yw gweithio gydag Iechyd y Cyhoedd gan ddefnyddio Data Iechyd y Cyhoedd ac Asesiad o Anghenion Iechyd y Boblogaeth i sbarduno gwaith y clwstwr.

Mae canolbwyntio ar wella iechyd meddwl a llesiant yn flaenoriaethau iechyd cyhoeddus cyfredol. Yn ogystal â hyn, darparu mesurau iechyd ataliol ac amddiffynnol ar gyfer y boblogaeth iau ochr yn ochr ag ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer dynion, megis atal hunanladdiad, i sicrhau iechyd a llesiant yn y dyfodol.

Cafodd y gwasanaeth a ariannwyd gan y clwstwr effaith sylweddol ar reoli'r galw ychwanegol, ac roedd yr adborth gan gleifion a phractisau meddygon teulu yn hynod o gadarnhaol.

Cleifion:

Roedd y gwasanaeth yn rhagorol.
Roedd y fferyllfydd yn drylwyr.
Gwasanaeth gwyach.
Mae'r gwasanaeth wedi creu argraff arnaf.

Practisau:

- Mae eu cymorth amhrisiadwy wedi bod yn adnodd hanfodol, yn enwedig yn ystod y cyfnod pan oedd twristiaeth yn ei anterth, pan mae'r gofynion ar ein practis yn cynyddu'n sylweddol.
- Mae ymagwedd ragweithiol y fferyllfa o sefydlu system atgyfeirio ar gyfer twristiaid wedi lleddfu'r pwysau ar ein practis meddyg teulu yn fawr.

Sgwrsfot ym Meddygfa Treflan


Mae'r Sgwrsfot yn feddalwedd gwbl awtomataidd sy'n sgwrsio â chleifion, yn gofyn cwestiynau ac yn casglu atebion, gan eu hannog i roi eu manylion cyswllt. Bydd y Sgwrsfot yn darparu atebion awtomataidd i gwestiynau cyffredin ac yn brysennu ymholiadau i'w cyfeirio ar hyd llwybrau cymhleth. Mae nodweddion eraill yn cynnwys:

- Galluogi apwyntiadau neu arddangosiadau i gael eu trefnu
- Cael adborth a chynnal arolygon ymwelwyr


Gall y feddalwedd ateb ymholiadau ailadroddol syml a chasglu gwybodaeth cyn i'r sgwrs ddechrau, gan arbed amser gwerthfawr i'r gweithredwr.

Yn dilyn cynllun peilot ym mis Rhagfyr 2022, mae'r practis yn parhau i ddefnyddio'r feddalwedd gan fod yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol a'i bod yn creu capasiti gweinyddol ychwanegol yn y practis.





Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi
Cadwaladr (BIPBC)



Dwyfor a Gogledd
Meirionnydd

Arweinydd y Clwstwr

Dr Eilir Hughes
Eilir.Hughes@wales.nhs.uk

Canolfan Felin Fach, Pwllheli

Mae Canolfan Felin Fach yn parhau i gynnis cymorth, cyngor, a gwybodaeth i oedolion agored i niwed yn Nwyfor trwy ystod o wasanaethau sydd wedi'u lleoli yn y ganolfan.

Mae clwb brecwast ar gael sy'n cynnig cyrsiau sy'n canolbwyntio ar feithrin sgiliau rhifedd oedolion, a sesiynau celf a chrefft a gyflwynir i grŵp celf ffyniannus. Mae'r staff wedi'u hyfforddi i helpu dinasyddion i lenwi ffurflenni PIP, Bathodyn Glas, a chymorth i gael Credyd Cynhwysol.

Mae Tîm Camddefnyddio Sylweddau y Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau o'r Ganolfan, gyda chymorth gan Dîm Lleihau Niwed y Bwrdd, a thrwy weithio mewn partneriaeth â Chanolfan Adsefydlu Penrhyn, mae amrywiaeth o gyrsiau ar gael i gefnogi oedolion cyn ac ar ôl iddynt ddadwenwyno.

Debbie Hughes yw Cysylltydd newydd Fedra' i (iCAN), a fydd yn rheoli'r holl atgyfeiriadau a ddaw trwy gyfeiriad e-bost referrals@felin-fach.co.uk, ac mae'n awyddus i sefydlu cysylltiadau â phartneriaid, gyda'r bwriad o ddatblygu grwpiau neu hyfforddiant i lenwi'r bylchau hynny yn y ddarpariaeth.

O fis Ebrill 2025 ymlaen, bydd Canolfan Felin Fach yn darparu cymorth ôl-hunanladdiad i drigolion Gogledd Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n darparu cymorth ôl-hunanladdiad ar hyn o bryd. Mae Enfys Alice wedi'i ariannu gan Grant Cymorth Hunanladdiad Llywodraeth Cymru a bydd yn rhedeg am dair blynedd i ddechrau. Bydd Canolfan Felin Fach, ynghyd ag elusen Sandy Bear, yn cynnal sioe deithiol ledled y chwe sir yng Ngogledd Cymru yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth i arddangos y gwasanaethau presennol, dod â sefydliadau yr effeithir arnynt gan hunanladdiad ynghyd, ac i lansio Enfys Alice.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol

Anhawster o ran prif-ffrydio prosiectau llwyddiannus a ariennir gan y clwstwr. Bydd y clwstwr yn sicrhau bod yna gynlluniau ymadael cadarn i bob un o'i gynigion.

Parhau i wella sianeli cyfathrebu rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd.

Hyfforddiant Mân-lawdriniaethau Llwyddiannus ar draws pob clwstwr – hyfforddiant mân-lawdriniaethau a dermatosgop (gan sicrhau bod llywodraethu ar waith). Hyfforddiant parhaus i glinigwyr i'w galluogi i wneud mân-lawdriniaethau mewn lleoliadau gofal sylfaenol, ac i ddiweddu'r hyfforddiant at ddibenion llywodraethu.

Y Gymdeithas Feddygol – Mae'r Gymdeithas Feddygol yn llwyfan i feddygon teulu, meddygon, a chlinigwyr eraill, sy'n cynnig y cyfle iddynt gwrdd a rhannu diweddariadau meddygol.

Yn ardal y Gorllewin, mae yna dair Cymdeithas Feddygol, a phob un yn cael ei chefnogi gan feddyg teulu o'i phriod ardal: Ynys Môn, Arfon, a Dwyfor/Meirionnydd. Mae'r cymdeithasau hyn yn cynnal cyfarfodydd bob dau fis gyda'r nos. Mae sesiynau hyn yn denu nifer da o bobl yn gyson.

Mae sesiynau blaenorol wedi cynnwys pynciau megis:

- **Rheoli Meigrin ac Adolygu Llwybrau Cur Pen** – Dr Steve Cotton, Meddyg Teulu â diddordeb arbenigol mewn Niwroleg.
- **Dirnadaeth gan y Crwner** – Kate Robertson, Crwner EF dros Wynedd ac Ynys Môn.
- **Rheoli Strôc a Gofal yr Henoed** – Dr Salah Elghenzai, Meddyg Ymgynghorol Arweiniol Strôc a Gofal yr Henoed.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

- Gall mwy o gydweithio â'n partneriaid sicrhau canlyniadau gwell ar lefel leol.
- Gall defnyddio technoleg uwch ddarparu amrywiaeth o fuddion sy'n cynnwys effeithlonrwydd o ran llwyth gwaith.
- Mae'r clwstwr yn gyfrwng gwych i rannu syniadau da, yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi.

Beth nesaf?

Bydd y clwstwr yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cefnogi iechyd a llesiant plant, pobl ifanc, ac yn enwedig atal hunanladdiad ymhlith dynion.
- Gweithio'n fwy effeithlon gan ddefnyddio technoleg, ac archwilio'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial i fod yn adnodd i gefnogi ymgynghoriadau gofal sylfaenol.
- Archwilio mentrau i gefnogi ffyrdd o reoli clefydau cronig yn y gymuned a chanolbwyntio ar atal a hunanreoli.
- Cyflwyno 'Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan'.
- Cydgyssylltu gofal y Timau Adnoddau Cymunedol.
- Gwellu gallu ac effeithlonrwydd y gweithlu gan ddefnyddio technoleg.
- Parhad y gwasanaeth therapi galwedigaethol iechyd meddwl ym maes gofal sylfaenol a darpariaeth ymarferydd llesiant teuluol.
- Parhau i gefnogi staff trwy hyfforddiant a datblygiad ym maes gofal sylfaenol, gan gynorthwyo cynaliadwydd y gweithlu yn yr hirdymor.
- Effeithiolrwydd cynyddol cydweithio rhwyngbroffesiynol yn y gymuned.
- Cynnwys dolenni i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig – i'w hychwanegu pan fydd y cynllun hwnnw ar y fewnwyd.

Dolen i'r trydydd sector – Mantell Gwynedd.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



De Meirionnydd

Arweinydd y Clwstwr

Dr Jonathan Butcher
Jonathan.Butcher3@wales.nhs.uk

De Meirionnydd

Pwy ydym ni?

Mae De Meirionnydd yn ardal arfordirol a mynyddig sy'n cwmpasu'r Bala, Tywyn, Dolgellau, a'r Bermo. De Meirionnydd yw'r clwstwr lleiaf, ac iddo boblogaeth o 18,800. Mae'r clwstwr wedi'i ffurfio o Gydweithredfa Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol sy'n cynnwys pedair meddygfa a Chydweithredfa Fferyllfeydd Cymunedol sy'n cynnwys chwe fferyllfa

Gan mai dim ond un practis optometreg sydd yn Ne Meirionnydd, mae'r Gydweithredfa Optometreg wedi uno â Dwyfor a Gogledd Meirionnydd i ffurfio Cydweithredfa Dwyfor a Meirionnydd sy'n cynnwys chwe phractis. Mae yna hefyd ddau bractis deintyddol a dau ysbyty cymunedol yn y clwstwr. Mae'r Gydweithredfa Nyrsio ar draws y Gorllewin yn gweithio ledled Gwynedd ac Ynys Môn, ac mae Cydweithredfa'r Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ar hyn o bryd yn gweithio ar draws Bwrdd Iechyd PBC ledled Gogledd Cymru.

Mae Dr Jonathan Butcher yn feddyg teulu ym Meddygfa Caerffynnon, Dolgellau, ac mae wedi bod yn arweinydd y Clwstwr ers 2018.

Mae Ellen V Williams (Uwch-reolwr Ardal y Clwstwr) a Carys Thomas (Cydgysylltydd Clwstwr Dwyfor a Gogledd Meirionnydd/De Meirionnydd). Mae tîm y clwstwr hefyd yn cynnwys Christine Carroll a Hannah Norbury, sy'n darparu gwasanaeth rheoli prosiectau a chymorth gweinyddol i'r clystyrau.

Mae'r asesiad o anghenion iechyd a blaenoriaethau'r clwstwr wedi'u rhestru isod:

Poblogaethau agored i niwed ac	Mae 9.3% o'r boblogaeth yn darparu gofal di-dâl. Mae 37.8% yn aelwydydd i bobl sengl. Mae dwysedd y boblogaeth yn 0.17 o bobl fesul hectar. Mae 17.3 o aelwydydd heb gar. Mae 7.2% yn gweithio yn y diwydiannau amaethyddiaeth, coedwigaeth a air (Ffigur 1.8% Cymru). Nifer uchel o ymwelwyr yn ystod cyfnod yr haf. Mae 85.4% yn byw mewn ardal sy'n peri risg o lifogydd
---------------------------------------	--

Ffyrdd o Fyw a Gwasanaethau Atal	Mae'r nifer sy'n cael eu sgrinio'n dda, ond mae'r rhai o ardaloedd difreintiedig yn sylweddol lai tebygol o ymgymryd â'r broses sgrinio, mae mynediad yn broblem (data Gwynedd). Ymddygiadau peryglus – Mae gan Gwynedd gyfraddau uchel o gamddefnyddio alcohol, ysmygwyr a diffyg ymarfer corff
---	---

Cyflwr Cronig	Clwstwr (%)	BIPBC (%)
Asthma	7.3	7.5
Ffibriliad atrïaidd	3.6	2.7
Diabetes	9.2	8.0
Pwysedd gwaed uchel	18.8	17.3
Strôc a TIA	2.8	2.2

Poblogaeth			
Grŵp oedran	Nifer	Clwstwr %	BIPBC %
0-15	2,700	14.4	17.3
16-29	2,250	12.0	14.8
30-34	2,700	14.3	16.8
45-65	5,950	31.7	28.9
66-84	4,400	23.3	19.3
85+	800	4.3	3.0

Cyfanswm 18,800

Siaradwyr Cymraeg 53%

Blaenoriaethau'r Clwstwr

- Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth (poblogaethau cudd)
- Canolbwyntio ar ofalwyr a gofalwyr di-dâl
- Atal a lles gan gynnwys imiwneddio a sgrinio, ymddygiadau iach
- Cynaliadwyedd y ddarpariaeth o wasanaethau, gofal sylfaenol gwyrddach
- Gwella mynediad at wasanaethau, yn enwedig gofal i'r henoed

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Dyma weledigaeth y clwstwr:

' Gwneud y lle prydferthaf yn y byd, y lle hapusaf ac iachaf hefyd'.

Mae'r asesiad o anghenion iechyd ar gyfer De Meirionnydd yn awgrymu bod angen canolbwyntio ar atal salwch cronig, mynediad at wasanaethau, a gwasanaethau i'r boblogaeth hŷn yn benodol. Bydd darparu gwasanaethau i'r boblogaeth ehangach, er enghraifft i blant, teuluoedd ifanc, ac oedolion iau.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Cryfhau gwaith/perthnasoedd y cydweithredfeydd a'r clystyrau.
- Datblygu'r gweithlu Gofal Sylfaenol ymhellach gyda chymorth yr Academi.
- Darparu hyb asesiadau sbirometreg canolog wedi'i leoli yn Ysbyty Dolgellau i gefnogi'r broses o asesu a gwneud diagnosis o gyflyrau anadlol.
- Parhau i gryfhau'r cydweithredu yn y Tîm Adnoddau Cymunedol i wella canlyniadau a rhyddhau cleifion yn gynharach o'r ysbyty cymunedol.
- Hyfforddiant Mân-lawdriniaethau Llwyddiannus ar draws pob clwstwr – hyfforddiant mân-lawdriniaethau a dermatosgop (gan sicrhau bod llywodraethu ar waith). Hyfforddiant parhaus i glinigwyr i'w galluogi i wneud mân-lawdriniaethau mewn lleoliadau gofal sylfaenol, ac i ddiweddarau'r hyfforddiant at ddibenion llywodraethu.

Rhaglen Uwch-ymarferwyr Nyrsio dan Hyfforddiant

Yn 2022, buddsoddodd y clwstwr mewn datblygu rhaglen hyfforddi uwch-ymarferwyr clinigol 3 blynedd o hyd.

Mae cynaliadwyedd gofal sylfaenol yn flaenoriaeth allweddol, wrth i niferoedd y Meddygon Teulu ostwng. Mae ehangu a datblygu'r tîm amlddisgyblaethol gofal sylfaenol a thîm yr uwch-ymarferwyr clinigol yn caniatáu i weithgarwch clinigol gael ei ddatganoli'n llwyddiannus. Mae cyflwyno'r Rhaglen Uwch-ymarferwyr Clinigol dan Hyfforddiant ym maes Gofal Sylfaenol yn cryfhau'r gweithlu ac yn lliniaru'r risgiau trwy ddarparu llwybr addysg academaidd a chlinigol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd o wybodaeth, sgiliau a chymhwysedd yr unigolyn i ymarfer ar lefel uwch ym maes gofal sylfaenol.

Oedran gweithio, hefyd yn helpu i atal afiechyd yn y dyfodol.

Gellir atal llawer o'r cyflyrau cronig lle mae gan Dde Meirionnydd gyfraddau uchel, neu gellir lleihau eu difrifoldeb, trwy ffactorau ymddygiadol amddiffynnol, megis mynd i'r afael â smygu, gordewdra, a gwella iechyd meddwl a llesiant, sydd oll yn flaenoriaethau iechyd cyhoeddus cyfredol. Mae'r ffactorau amgylcheddol ehangach, megis tai, iechyd yr amgylchedd, a mannau gwyrdd hefyd yn ffactorau pwysig o ran sicrhau a chynnal iechyd a llesiant da.

Bydd y pedwar hyfforddai a recriwtiwyd ledled Gwynedd yn cwblhau'r rhaglen hyfforddi ym mis Mawrth 2025.

Sbirometreg


Ddiwedd 2022, cydnabuwyd nad oedd unrhyw asesiadau sbirometreg wedi'u cynnal ar gyfer cleifion gofal sylfaenol ers oddeutu 30 mis oherwydd cyfyngiadau COVID. Pan godwyd y cyfyngiadau, roedd gan y clwstwr ôl-groniad sylweddol o gleifion yr oedd arnynt angen asesiadau i wneud diagnosis o gyflyrau megis asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint. Heb asesiadau sbirometreg, gall cleifion gael diagnosis anghywir, gan arwain at eu trin am glefyd anadlol â meddyginiaethau drud a allai fod yn ddiangen.

Ers mis Gorffennaf 2023, mae clwstwr De Meirionnydd wedi bod yn cynnal clinig asesiadau sbirometreg canolog wythnosol yn ysbyty Dolgellau, y gellir atgyfeirio cleifion o'r practisau cyfagos ato. Mae'r clinig yn cynnig gwerth uchel i'r cleifion am gost isel.

Mae'r adborth gan y cleifion wedi bod yn hynod o gadarnhaol ac mae trafodaethau'n parhau ynghylch darpariaeth tymor hirach ar hyd a lled BIPBC.

Iechyd y Cyhoedd

Gweithio gydag Iechyd y Cyhoedd i gynnal asesiadau o Anghenion y Boblogaeth i sbarduno gwaith y clwstwr. Mae dangosfwrdd mewnwelediadau data lleol yn cael ei ddatblygu y bydd y clwstwr yn gallu cael mynediad ato a llunio ei adroddiadau ei hun.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)



De Meirionnydd

Arweinydd y Clwstwr

Dr Jonathan Butcher
Jonathan.Butcher3@wales.nhs.uk

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

- Mae gweithio mewn modd mwy cydweithredol yn darparu buddion allweddol i'r clwstwr o ran gweledigaeth a rennir a symud i ffwrdd o weithio mewn seilos.
- Rhannu syniadau da trwy Gyfarfodydd Rhwydwaith Cymorth Datblygu'r Clwstwr.
- Mae cydweithio rhyngbroffesiynol hefyd yn arwain at gyfathrebu gwell.
- Mae offeryn hunanfyfrio'r clwstwr yn dangos bod y clwstwr yn aeddfedu'n araf, ond mae angen gwneud rhagor o waith i wireddu ei botensial llawn.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol

- Materion yn ymwneud ag ymgysylltu ac ôl-lenwi, yn enwedig yn achos rhai partneriaid cydweithredol, a hynny oherwydd diffyg capasiti.
- Anhawster o ran prif-ffrydio prosiectau llwyddiannus a ariennir gan y clwstwr. Bydd y clwstwr yn sicrhau bod yna gynlluniau ymadael cadarn i bob un o'i gynigion.
- Parhau i wella sianeli cyfathrebu rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd, yn enwedig yn achos optometreg, meddygfeydd teulu, a fferyllfeydd cymunedol.

Beth nesaf?

Datblygu'r cydweithredfeydd ymhellach, ac annog gweithio rhyngbroffesiynol i feithrin ymwybyddiaeth o fentrau newydd sy'n digwydd, yn ogystal â thrafod unrhyw rwystrau a allai godi.

Rheoli Eiddilwch a Chlefydau Cronig.

Hyb anadlol asesiadau a diagnosteg.

Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan.

Parhad y gwasanaeth therapi galwedigaethol iechyd meddwl ym maes gofal sylfaenol a darpariaeth ymarferydd llesiant teuluol.

- Parhau i hyfforddi a datblygu'r gweithlu i hybu cynaliadwyedd hirdymor y gweithlu.
- Sicrhau cyllid hirdymor ar gyfer uwch-ffisiotherapyddion cyswllt cyntaf

Presgripsiynu Cymdeithasol

Mae arweinydd y clwstwr yn cadeirio grŵp Contractau Presgripsiynu Cymdeithasol Gwynedd. Mae cyfres o weithdai wedi'u cynnal â phartneriaid, gan gynnwys yr awdurdod lleol, tai, optometreg, a'r trydydd sector i ddatblygu contract presgripsiynu cymdeithasol pwrpasol. Mae'r gweithdai hyn wedi dilyn dull 'o'r gwaelod i fyny', gan roi ystyriaeth i farn ein partneriaid i sicrhau bod y contract yn addas i'r diben ac yn diwallu anghenion y boblogaeth.

Gwneud y defnydd gorau o Ysbytai Cymunedol fel canolfannau llesiant, gan gynnwys:

Hyb Cymunedol Dolfleurig

Mae'r gwaith o ddymchwel ac ailadeiladu hen safle Hyb Cymunedol Dolfleurig yn ystod 2025 yn ddatblygiad cyffrous yn y clwstwr, ac yn gyfle i'r clwstwr gydweithio'n agos â'r Awdurdod Lleol i ddatblygu hyb cymunedol newydd sbon, modern, o'r radd flaenaf ar gyfer y boblogaeth leol. Bydd yr adeilad newydd yn cynnwys mannau clinigol cyffredinol ar gyfer cynnal ymgynghoriadau, archwiliadau meddygol, a chyf-weld.

Bydd hefyd yn darparu man diogel i'r boblogaeth leol gwrdd a dod ynghyd, ac i grwpiau cymunedol gael eu lleoli yno a chyflwyno amrywiol weithgareddau cymunedol i gefnogi anghenion lleol. Bydd yr adeilad newydd hwn yn gwella'r adnodd Presgripsiynu Cymdeithasol ymhellach yn y clwstwr, gan gryfhau a grymuso'r gymuned ymhellach i ddod yn fwy cydnerth.

Rhaglen Ddarganfod De Meirionnydd

Mae'r clwstwr yn cydweithio'n agos â phartneriaid i ddatblygu Rhaglen Ddarganfod De Meirionnydd.

Nod y rhaglen waith hon yw trawsnewid y ddarpariaeth gofal sylfaenol yn rhanbarth gwledig De Meirionnydd trwy weithredu dull tîm amlddisgyblaethol cynaliadwy, gwella mynediad at ofal, a gwneud y defnydd gorau o adnoddau, a hynny i wella profiad a chanlyniadau'r claf, ac iechyd a llesiant cyffredinol y boblogaeth.

Bydd y prif amcanion fel a ganlyn:

- Gwella profiad a chanlyniadau preswylwyr trwy wella boddhad cleifion, lleihau amseroedd aros, a gwella canlyniadau iechyd.
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau i wella effeithlonrwydd, lleihau costau, a sicrhau darpariaeth gwasanaethau cynaliadwy.
- Meithrin cydweithrediad ac integreiddio trwy gryfhau partneriaethau rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a sefydliadau cymunedol.
- Grymuso cymunedau trwy gynyddu ymgysylltiad y cymunedau a'u rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch gofal iechyd.

Cynnwys dolenni i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig – i'w hychwanegu pan fydd y cynllun hwnnw ar y fewnwyd.

Dolen i'r trydydd sector – Mantell Gwynedd.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)

Dinas a De Caerdydd

Dwyrain Caerdydd

Gogledd Caerdydd

De-ddwyrain Caerdydd

De-orllewin Caerdydd

Gorllewin Caerdydd

Canol y Fro

Dwyrain y Fro

Gorllewin y Fro



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Dr Rachel Lee
Cyfarwyddwr Bwrdd Clinigol

Mae'n bleser gennym rannu cyfraniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sy'n parhau i arddangos y gwaith ar draws ein naw Clwstwr, datblygiad Cydweithredfeydd Proffesiynol, a ffocws ein Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr ers cyflwyno'r Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam yn 2022.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch o galon i Arweinwyr ein Clystyrau, Rheolwyr Datblygu Prosiectau'r Clystyrau, a'r Tîmau Rheoli Ardal am eu hangerdd a'u cefnogaeth wrth symud yr agenda hon yn ei blaen. Cefnogir gwaith y clystyrau'n lleol gan Karen Pardy – Dirprwy Gyfarwyddwr Bwrdd Clinigol ac Emma Lewis – Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro, sy'n gweithio'n agos gydag Arweinwyr ein Clystyrau, Tîm y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, a phartneriaid y system ehangach i gefnogi a datblygu strwythurau a phrosesau ymhellach i ategu'r model hwn o weithio.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae ein Clystyrau wedi cymryd camau breision o ran eu hesblygiad. Rydym yn cydnabod bod yr esblygiad hwn wedi bod yn heriol ar adegau. Mae'r strwythurau a ddylai alluogi gwaith y clystyrau wedi bod yn rhwystrau ar brydiau i'r cyflymder y mae ein Clystyrau wedi bod yn dymuno datblygu. Yn yr un modd, mae gennym dipyn o ffordd i fynd o hyd i ymgorffori gwaith cynllunio traws-glwstwr i fod yn gyfrwng sy'n cysylltu arweinwyr o bob rhan o'n system wrth gyflawni'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru.



Ers y blwyddlyfr diwethaf, rydym yn parhau i arddangos mentrau llwyddiannus a ddechreuodd yn y Clystyrau. Mae ein menter fwyaf diweddar yn cynnwys cyflwyno Clinigau Pediatriig Integredig ledled pob Clwstwr. Rydym yn defnyddio cynllun a dylanwad rhaglen drawsnewid De-orllewin Caerdydd i lywio'r gwaith o ddatblygu Cam 1 o'n System Gofal Cymunedol Integredig. Dyma ein rhaglen Gofal Cymunedol Uwch sydd, trwy ofal cymunedol cysylltiedig, yn ceisio cyflwyno model cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol cyson ac integredig ym mhob Clwstwr, gyda chefnogaeth Hyb Gofal Integredig sy'n cydgyssylltu ymateb rhagweithiol yn unol ag anghenion yr unigolyn. Bydd hyn yn integreiddio'r gwasanaethau cymunedol presennol i'r eithaf.

Mae datblygu BIP Caerdydd a'r Fro i fod yn System Gofal Cymunedol Integredig wedi'i wreiddio'n gadarn yn uchelgais a bwriad y sefydliad i gyflawni'r newid strategol sy'n galluogi canlyniadau iechyd a llesiant tecach. Cyflawnir hyn trwy gynyddu cyfran yr adnoddau yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar ofal rhagweithiol ac ataliol.

Mae'r clystyrau, trwy grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr, mewn sefyllfa dda i ddylanwadu ar y newid hwn. Maent yn


adeiladu ar wybodaeth am anghenion eu poblogaethau, dulliau arloesol, perthnasoedd, a'r mewnwelediadau a geir yn lleol i lywio newidiadau system gyfan mewn modelau gofal, a hynny trwy lens gymunedol.

Pleser o'r mwyaf yw parhau i hyrwyddo gwaith ein Clystyrau, Arweinwyr y Clystyrau, a phartneriaid y system i ddatblygu swyddogaethau ein Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr ymhellach. Ein nod fydd iddynt aeddfedu ac ysgogi'r gwaith o gomisiynu a darparu ein System Gofal Cymunedol Integredig yn y dyfodol.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



GCTG Caerdydd a'r Fro

Dinas a De Caerdydd

Dwyrain Caerdydd

Gogledd Caerdydd

De-ddwyrain Caerdydd

De-orllewin Caerdydd

Gorllewin Caerdydd

Canol y Fro

Dwyrain y Fro

Gorllewin y Fro

Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr (GCTG) Caerdydd a'r Fro

Pwy ydym ni?

Mae ein Grwpiau Cynllunio Traws-glwtwr yn cynnwys cyd-weithwyr a chynrychiolwyr o bob rhan o'n system, gan gynnwys:

Iechyd y Cyhoedd	Arweinwyr y Clystyrau
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	Uwch-arweinydd Nyrsio
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol	Cyfarwyddwyr Clinigol ar gyfe Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedo
Arweinwyr (a chynrychiolwyr) Awdurdodau Lleol	Prif Swyddogion, y Trydydd Sector
Llais	Swyddog Arweiniol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio	Uwch-arweinydd y Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Ein pwrpas yw cysylltu'r asesiadau o anghenion a'r cynlluniau amrywiol a chydgyssylltiedig ym mhob rhan o'r system.

Trwy nodi a chytuno ar flaenoriaethau, ein nod yw gwella'r cydweithrediad a chryfhau gweithio ar y cyd, gan ein galluogi i gyflawni canlyniadau gwell yn unol â'r holl adnoddau ac asedau sydd ar gael i ni.

Mae gan Gaerdydd a'r Fro boblogaeth gofrestredig o 543,327 (Ionawr 2025), a disgwylir iddi dyfu ymhellach yn unol â Chynlluniau Datblygu Lleol yr Awdurdodau Lleol yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Gwyddwn hefyd y bydd ein poblogaeth yn newid, gyda rhagolygon y bydd mwy o bobl 65 oed a hŷn erbyn 2027.

Caiff ein mewnwelediad i anghenion ein poblogaeth, gan gynnwys bylchau yn y llwybrau a'r gwasanaethau, ei lywio gan:

- Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth a phroffiliau o Glystyrau Lleol
- Cynllun Ardal y Bwrdd
- Partneriaeth Rhanbarthol
- Blaenoriaethau strategol y BIP
- 9 Clwtwr, sy'n cael mewnbwn proffesiynol gan Arweinwyr sy'n cynrychioli:
- 56 o Ddarparwr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- 65 o Ddarparwr Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol
- 60 o Ddarparwyr Optometreg
- 100 o Fferyllfeydd Cymunedol
- Cydweithredfeydd Proffesiynol ar gyfer Nyrsio Cymunedol a'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd
- Cynrychiolwyr y Trydydd Sector a'r Awdurdodau Lleol
- Arweinwyr gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol eraill

Mae gwaith Amlasiantaethol/Amlbroffesiynol ar lefel y Clwtwr/yr Ardal wedi'i ffurfio'n llwyddiannus trwy raglen waith Datblygu Clwtwr Carlam, a mentrau'r Gronfa Integredig Ranbarthol sy'n cynnwys gweithio Amlddisgyblaethol a Gofal Cymunedol Integredig, gan ddwyn ynghyd yr ystod eang o weithwyr proffesiynol o bob rhan o'n system i drafod, cytuno a darparu'r ymateb cywir i'r unigolyn, ar yr adeg gywir, gan gydnabod yr hyn sy'n bwysig iddynt, a'u hailgyssylltu â'u cymuned.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Ar hyn o bryd rydym yn cynorthwyo'r Clystyrau i asesu a blaenoriaethu mentrau a gyflawnwyd yn llwyddiannus, er mwyn llywio'r gwaith o brif ffrydio llwybrau a modelau gofal y dylid eu darparu'n agosach at y cartref/yn y gymuned.

Mae ein grŵp wedi profi heriau wrth ymgorffori swyddogaeth y Grwpiau Cynllunio Traws-glwtwr yn strwythurau llywodraethu y Bwrdd Iechyd. Cynhaliwyd uwchgynhadledd ym mis Medi 2024, i lywio proses o ailsefydlu ein dull gweithredu, a amlygodd y canlynol:

- Ystod helaeth ac ehanger y prosiectau a gyflawnir gan y Clystyrau.
- Mae cyfran sylweddol o gyllid y Clystyrau wedi'i ddefnyddio mewn nifer o brosiectau cylchol heb fod iddynt unrhyw strategaethau ymadael.
- Nid oes yna lwybr clir i Glystyrau (neu Grwpiau Cynllunio Traws-glwtwr) arddangos/amlygu model cadarnhaol/llwyddiannus i gael cyllid amgen neu ddylanwadu ar fecanweithiau ariannu amgen.
- Diffyg seilwaith/galluoedd sefydliadol sy'n cyd-fynd â gwaith Clwtwr/Traws-glwtwr; dadansoddeg data, gwerthuso, gwybodaeth, a llywodraethu clinigol.

A ninnau'n bartneriaid, rydym yn ymrwymedig i weithredu ar allbynnau'r uwchgynhadledd, a hynny trwy ymgorffori dull cynllunio sy'n seiliedig ar anghenion y boblogaeth ac ar le, ac y mae Clystyrau a gwaith Traws-glwtwr yn y sefydliad a ledled ein partneriaeth yn dylanwadu arno ac yn ei lywio.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Cynnal Uwchgynhadledd gydag aelodau allweddol y Tim Gweithredol i dynnu sylw at yr heriau ond hefyd y cyfleoedd y mae gwaith y Clystyrau/Traws-glwtwr yn eu cynnig, a nodi meysydd ffocws cyffredin lle gall y ffordd hon o weithio amlygu a sicrhau gwerth ac effaith:

- Cadw pobl yn iach yn eu cymunedau.
- Atal/lleihau derbyniadau diangen/y gellir eu hosgoi
- Rhyddhau
- Carfan Cartrefi Gofal
- Cynllunio Gofal yn y Dyfodol
- Diabetes

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Er gwaethaf yr heriau wrth sefydlu Clystyrau a Grwpiau Cynllunio Traws-glwtwr fel swyddogaeth gynllunio a chyflawni ddylanwadol a chyfreithlon, rydym wedi gallu ymgysylltu ag ystod eang o bartneriaid yn y weledigaeth gwaith Traws-glwtwr ac rydym yn parhau i gwrdd a chydweithio gyda'n gilydd i sefydlu ein pwrpas a'n swyddogaeth.

Er bod diben y dull hwn, a'r cymhelliant drosto, yn glir, rydym wedi nodi'n fewnol bod yna sawl fforwm yn bodoli ac iddynt swyddogaethau a dibenion tebyg. Roedd angen gwneud mwy o waith ymlaen llaw i adolygu a naill ai diddymu neu ymgorffori swyddogaethau'r Grwpiau Cynllunio Traws-glwtwr i greu cysondeb yn y system, gan gynnwys ffurfio cysylltiadau cryfach â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Beth nesaf?

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ailsefydlu Grwpiau Cynllunio Traws-glwtwr, a fydd yn cael eu dwyn ymlaen trwy un fforwm cyfun, yn unol â'r uchelgais i ysgogi'r gwaith o gomisiynu a darparu System Gofal Cymunedol Integredig ar gyfer BIP Caerdydd a'r Fro, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar gysoni seilwaith ac adnoddau, yn seiliedig ar ddull iechyd y boblogaeth gyfan. Mae hon yn flaenoriaeth strategol allweddol sy'n cyd-fynd â phortffolio strategol y Bwrdd Iechyd, sef Llundio Iechyd ein Poblogaeth i'r Dyfodol.

Rydym yn bwriadu neilltuo rhagor o amser ar gyfer anghenion datblygu sefydliadol partneriaeth y System Traws-glwtwr, gan sicrhau bod pawb yn deall eu cyfraniad a'u rhan yn y model hwn o weithio, fel y gallwn wneud y mwyaf o'r arbenigedd, y dylanwad a'r asedau ar draws ein system.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



Dinas a De Caerdydd

Arweinydd y Clwstwr

Dr Evan Sun
Evan.Sun3@wales.nhs.uk

Dinas a De Caerdydd

Pwy ydym ni?



Mae Clwstwr Dinas a De Caerdydd yn cwmpasu ardaloedd Trelluest a Threbiwt ac mae'n un o'r rhai mwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd a diwylliant yng Nghymru, a adlewyrchir yn amrywiaeth yr ieithoedd a siaredir, ynghyd â'r nifer o eglwysi, mosgiau a grwpiau cymunedol sy'n weithgar yn yr ardal. Mae'r Clwstwr wedi'i osod yn y 3ydd safle o ran y boblogaeth fwyaf difreintiedig o blith cyfanswm o 64 o Glystyrau yng Nghymru.

Mae ein poblogaeth yn cwmpasu haen gymdeithasol amrywiol o'r dosbarth gweithiol i weithwyr proffesiynol coler wen, a nodweddir gan fywiogrwydd diwylliannol ac ethnig cyfoethog, sy'n cynnig heriau dyrys ond boddhaol, ond sy'n wynebu heriau unigryw, yn wahanol i'r rhai a geir mewn ardaloedd eraill yng Nghaerdydd. Rydym yn gweithio ar y cyd â chyrff iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector ac elusennau, gan ddefnyddio strategaethau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau penodol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu dyrannu mewn modd effeithiol.

Gwasanaethau Gofal Sylfaenol y Clwstwr

Darperir gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol gan chwe phractis meddygon teulu, saith deintyddfa, saith optometrydd, a deg fferyllfa sy'n gwasanaethu poblogaeth o tua 42,517 fel yr oedd ym mis Hydref 2024.

Dyma'r practisau meddygon teulu sy'n darparu gwasanaethau meddygol:

- Canolfan Iechyd Tre-biwt
- Meddygfa Bae Caerdydd
- Canolfan Feddygol Heol Clare
- Heol y Gorfforaeth
- Canolfan Iechyd Trelluest
- Practis Meddygol Grange

Personél y Clwstwr

Mae grŵp proffesiynol y Clwstwr yn cynnwys Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Meddygon Teulu, Nyrsys, Fferyllwyr, Optometryddion, Deintyddion, a Chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol a Sefydliadau'r Trydydd sector, sy'n cwrdd i rannu syniadau, trafod ac archwilio mentrau newydd ar y cyd, gyda'r nod o wella mynediad at ofal ac ansawdd y gofal hwnnw i gefnogi anghenion iechyd a llesiant ein poblogaeth.

Mae Arweinydd Clwstwr, Rheolwr Datblygu Prosiectau, a Swyddog Cymorth yn cydlynu gweithgareddau a phrosiectau'r Clwstwr, gan helpu i hwyluso'r broses o redeg y mentrau mewn modd hwylus a llwyddiannus.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Cynyddu'r nifer sy'n cael eu brechu a'u sgrinio yn ystod plentyndod i hybu pwysigrwydd imiwneiddio a sgrinio plant.

Cyfraddau Sgrinio: Mae holl gyfraddau sgrinio'r Clwstwr islaw targedau'r WHO, o gymharu â thargedau cenedlaethol:

Y math o sgrinio	Y Coluddyn	Y Fron	Serfigol	Llygaid Diabetig	AAA
Y GYFRADD DARGED	60%	70%	80%	80%	80%
Clwstwr y Ddinas a'r De	51.7%	53.9%	54.7%	61%	52.8%

Imiwneiddio: Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi gosod targed cenedlaethol o 95% i'r DU o ran imiwneiddio rheolaidd i blant erbyn eu bod yn bump oed er mwyn sicrhau imiwnedd torfol, ac mae pob cyfradd frechu yn is na thargedau'r WHO.

Ymgysylltu â phrosiect y Pen Dwfn:
ProsiectPenDwfnCymruRCGP – rhwydwaith ar gyfer practisau meddygon teulu sydd â'r gyfran uchaf o gleifion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda'r nod cyffredin o

Ein cyflawniadau allweddol?

Comisiynu **sesiynau ychwanegol gan ffisiotherapyddion**, gan alluogi cleifion â chyflyrau cyhyrsgerberbydol i gael eu gweld yn gynt.

Cyflogi **Fferyllwyr Clwstwr, Nyrsys Arbenigol Diabetes**, ac yn ddiweddar penodwyd **Ymarferydd Eiddilwch a Chyflyrau Cronig** i weithio ledled y Clwstwr.

- Mae **Fferyllwyr** y Clwstwr yn darparu lefel uwch o ofal i'n cleifion, gan gynyddu nifer yr adolygiadau amlgyffuriaeth a gynhelir mewn practisau meddygon teulu, a rhoi proses gynhwysfawr ar waith ar gyfer cysoni meddyginiaethau sy'n gwella diogelwch cleifion, ynghyd â sicrhau arbedion cost sylweddol.
- Mae **Nyrsys Arbenigol Diabetes** wedi gwella ansawdd a diogelwch gofal cleifion sydd wedi cael diagnosis o Ddiabetes Math 2, gan alluogi'r unigolion hyn i gael eu gweld yn gynt yn y gymuned, yn nes at eu cartref. Mae'n fwy cyfleus i'r grŵp hwn o gleifion fynd i glinigau arbenigol i gychwyn therapi chwistrelladwy, gan helpu i optimeiddio triniaethau, rheoli gofal mewn modd rhagweithiol, a datblygu cynlluniau rheoli ar gyfer unigolion a oruchwylir gan feddyg teulu. Mae Nyrsys Arbenigol Diabetes yn darparu amser dynodedig ochr yn ochr ag apwyntiadau therapi chwistrelladwy ac yn cynnal adolygiadau rheolaidd, ymgymryd ag elfennau o'r monitro blynyddol, a chofnodi canlyniadau, gan gynyddu cysondeb a gwelliant yn unol â Dangosyddion yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol ar gyfer microalbwminwria wrin, archwiliadau traed, ac ati.

Mae'r fenter wedi cyfrannu at wella hunanreolaeth ymhlith cleifion trwy gynnig gwasanaeth cyfeirio a gwybodaeth priodol i bobl â diabetes, gan gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau cadarnhaol a lleihau dirywiad iechyd.

hybu darpariaeth gofal iechyd decach, nodi heriau cyffredin, a dod o hyd i'r atebion gorau sy'n cyd-fynd â dulliau seiliedig ar leoedd, gan ychwanegu gwerth ar gyfer ein poblogaeth.

Archwilio Profion Pwynt Gofal am HbA1C, Cholesterol a Phwysedd Gwaed mewn digwyddiadau Ymgysylltu Cymunedol Bywydau Iach fel dull ataliol, gan fynd ati'n gynnar i nodi cyflyrau iechyd heb eu diagnosio, annog newidiadau iach ac ataliol o ran ffordd o fyw, a **galluogi pobl** i gael gofal amserol ar gyfer triniaeth.

- Bydd ein **Hymarferydd Eiddilwch a Chyflyrau Cronig** yn gwella parhad o ran gofal trwy ddarparu asesiadau proffesiynol yn y cartref ar gyfer ein grŵp o gleifion sy'n gaeth i'r tŷ, ynghyd â dull gofal holistaidd ar gyfer cleifion agored i niwed, gan ddarparu gwasanaeth cyfeirio priodol. Mae yna dystiolaeth anecdotaidd o ostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty.

Sefydlu rhaglen flynyddol o **Ddigwyddiadau Ymgysylltu Cymunedol Bywydau Iach** mewn lleoliadau lleol ledled y Clwstwr, gan helpu i leihau rhwystrau sy'n atal mynediad at ofal, a gwella'r cyfathrebu rhwng y boblogaeth a darparwyr gofal iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a mudiadau elusennol. **Hybu byw'n iach, gan amlygu'r gwasanaethau cymorth presgripsiynu cymdeithasol lleol sydd ar gael** i helpu iechyd a llesiant cyffredinol, ynghyd â **meithrin ymwybyddiaeth o bwysigrwydd imiwneiddio, brechu a sgrinio**. Maent yn galluogi'r sawl sy'n bresennol i siarad â gweithwyr proffesiynol a chael gwybodaeth.

Datblygu **llynyddiaeth hybu iechyd i gleifion mewn sawl iaith**, gydag Iechyd y Cyhoedd, gan adlewyrchu nifer yr ieithoedd a siaredir a **gwella'r cyfathrebu**, a chafodd dderbyniad cadarnhaol.

Darparu ffyrdd ychwanegol o helpu pobl i gynnal eu hiechyd a'u llesiant, gan gomisiynu **gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol Cysylltwyr Cymunedol**, sy'n cyfeirio cleifion at grwpiau cymorth lleol a gweithgareddau cymunedol priodol.

Cyflwyno **prosiect therapiwtig Tyfu Caerdydd** i fod yn fenter presgripsiynu cymdeithasol, sy'n cynnig cyfle i bobl sy'n teimlo'n unig, yn isel, ac yn ynysig gwrdd ag eraill i gael sgwrs dros ddiod, tyfu a chynaeafu ffrwythau a llysiau yn yr ardd, cymryd rhan mewn dosbarthiadau coginio, gwneud cawl, ac ati, er budd iechyd a llesiant y boblogaeth i drawsnewid bywydau trwy gysylltu ag eraill gan helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu bod yn iach a'u bod wedi'u grymuso.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



Dinas a De Caerdydd

Arweinydd y Clwstwr

Dr Evan Sun
Evan.Sun3@wales.nhs.uk

Blaenoriaethau'r dyfodol

Byddwn yn canolbwyntio ar atal salwch, ac ar sgrinio a brechu i wella iechyd a llesiant drwy gydol bywyd, gan alluogi pobl i reoli a chynnal eu hannibyniaeth cyhyd â phosibl, yn unol â'r strategaethau cyffredinol canlynol:

- **Cymru Iachach.Llyw.Cymru:** Strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol, gan flaenoriaethu atal salwch a hybu iechyd a llesiant.
- **Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol,** strategaeth Byw'n Dda, Gofalu'n Dda, Gweithio Gyda'n Gilydd 2023-2035 BIPCF.
- **Rhaglen Strategol GIG Cymru ar gyfer Gofal Sylfaenol:** sy'n canolbwyntio ar atal a llesiant.
- **Sicrhau Iechyd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,** gan rymuso pobl i ofalu am eu hiechyd eu hunain.
- **Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif:** canolbwyntio ar ymddygiadau i wneud y gorau o'r rhyngweithiadau dyddiol rhwng sefydliadau ac unigolion, gan helpu i feithrin newid cadarnhaol i gyflawni'r canlynol:
 - Gwellu gofal cleifion.
 - Moderneiddio gwasanaethau.
 - Lleihau ffyrdd o fyw nad ydynt yn iach.
 - Lleihau anghydraddoldebau iechyd.
 - Cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio a'u brechu.
 - Cynyddu'r defnydd o bresgripsiynu cymdeithasol.

Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y Clwstwr a'r ardal leol:

Dyma ein pum prif flaenoriaeth:

- Eiddilwch ymhlith yr henoed.
- Clefydau cronig h.y. asthma, diabetes, clefyd y galon, iselder.
- Cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu himiwneiddio a'u sgrinio.
- Mentrau ymgysylltu â'r gymuned a phresgripsiynu cymdeithasol sy'n cefnogi iechyd a llesiant y boblogaeth leiafrifol ethnig i fynd i'r afael ag amddifadedd.
- Gofalu am glwyfau.

Beth a aeth yn dda?

Digwyddiad Bywydau Iach i ddathlu Ramadan yn 2024, a agorwyd gan Arglwydd Faer Caerdydd, a oedd yn hybu iechyd menywod a phwysigrwydd imiwneiddio a sgrinio, ac a ddenodd dros 300 o fenywod a phlant.

Cynigiwyd cyfle i fenywod a oedd yn perthyn i'r ffydd Islamaidd ddysgu am bwysigrwydd sgrinio'r fron, sgrinio serfigol a sgrinio'r coluddion, yn ogystal â brechiadau yn ystod plentyndod, a mwynhaodd pawb y gweithgareddau.

Atebodd panel, a oedd yn cynnwys Meddyg Teulu, Pediatregydd, arbenigwr sgrinio Iechyd y Cyhoedd, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Gynaecolegydd ac Obstetregydd, amrywiaeth o gwestiynau yn ymwneud ag iechyd, gan helpu i chwalu camsyniadau cyffredin sy'n parhau yn ein cymuned.

Roedd llawer o gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, y trydydd sector, yr awdurdod lleol, elusennau, Heddlu De Cymru, ac ati, yno fel arddangoswyr, gan ddarparu gwybodaeth a chynghor i'r sawl a oedd yn bresennol.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae yna bresenoldeb uchel yng **nghyfarfodydd y Clwstwr**; fodd bynnag, mae angen gwella'r ymgysylltiad ag aelodau gweithredol a meithrin perthnasoedd rhyngbroffesiynol i gynyddu lefel yr ymrwymiad a'r cyfranogiad yn y gwaith o ddatblygu mentrau prosiectau posibl sy'n mynd i'r afael ag anghenion ein poblogaeth.

Mae ein **digwyddiadau Bywydau Iach** wedi bod yn llwyddiannus, ac wedi cael adborth eithriadol o gadarnhaol, gan helpu i wella gwelededd, ymgysylltiad, ac ymddiriedaeth ein cymuned.

Beth y gellid ei wneud yn wahanol?

Mae prosiectau etifeddol yn parhau i gael eu hariannu gan y clwstwr, er gwaethaf gwerthusiadau gwael i fesur eu budd, gan ein hatal rhag rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn mentrau newydd.

Diffyg mecanwaith a meini prawf diffiniedig ar gyfer trosglwyddo prosiectau y profwyd fod iddynt fudd, i BIPCF i gael eu cyllido'n ganolog.

Heriau cydymffurfedd o ran Llywodraethu Gwybodaeth, sy'n llesteirio'r broses o symud prosiectau yn eu blaen mewn modd effeithiol.

Dim digon o amser wedi'i ariannu ar gyfer Arweinwyr y Clwstwr, gan gynnig heriau o ran arweinyddiaeth effeithiol ac o ran recriwtio i symud yr agenda Datblygu Clwstwr Carlam yn ei blaen.

Mae amllder cyfarfodydd y Clwstwr yn heriol o ran gwneud penderfyniadau amserol wrth symud prosiectau yn eu blaen.

Nid yw cydweithredfeydd y Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Deintyddiaeth, Nyrsio, Optometryddion, a Fferyllol wedi ymgysylltu'n llawn eto.

Mae yna ddiffyg ymgysylltiad o ran iechyd meddwl – cyfle i sefydlu Cydweithredfa Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl benodol.

Beth nesaf?

Cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio am Ganser y Coluddyn, gan bwysleisio ei bwysigrwydd a meithrin ymwbyddiaeth o symlwrwydd y driniaeth.

Cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu himiwneiddio, a gweithio mewn modd rhagweithiol i fynd ar drywydd y rhai nad ydynt yn ymateb i wahoddiadau gan bractisau meddygon teulu.

Canolbwyntio ar ordewdra, sgrinio, smygu a brechu, a chynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl mewn perthynas ag ymddygiadau sylfaenol o ran ffordd o fyw, gan effeithio'n sylweddol ar iechyd a llesiant.

Gwellu cysylltiadau â phobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, cynyddu nifer y gweithwyr cyswllt amlieithog, ac ymgysylltu ag arweinwyr ffydd dylanwadol lleol, a fydd yn helpu i leihau rhwystrau, gan gael effaith ar nifer y bobl sy'n cael eu himiwneiddio a'u sgrinio.

Cymryd rhan yn Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan (AWDPP), sef menter Iechyd Cyhoeddus, sy'n cynnig cymorth wedi'i dargedu i bobl sydd mewn perygl o ddatblygu diabetes math 2, gyda'r nod o atal datblygiad y cyflwr hwn trwy sgysiau am ffordd o fyw, gan ganolbwyntio ar ddeiet a gweithgarwch corfforol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



Dwyrain Caerdydd

Arweinydd y Clwstwr

Tess Raybould
Tess.raybould2@wales.nhs.uk

Dwyrain Caerdydd

Pwy ydym ni?



Mae Clwstwr Dwyrain Caerdydd yn gwasanaethu cleifion Lloneirwg, Llanrhymni, Tredelerch, Trowbridge, Llanedern, a Phentwyn (a'r ardaloedd cyfagos).

Mae'r boblogaeth tua 59,300 ac yn un o'r rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) gan wasanaethu poblogaeth gofrestredig o tua 59,300 fel yr oedd ym mis Hydref 2024. Mae'r Clwstwr wedi'i osod yn y 12fed safle o ran y boblogaeth gofrestredig fwyaf difreintiedig o blith cyfanswm o 64 o Glystyrau yng Nghymru, ac mae iddo Ddisgwyliad Oes lach o 56.1 blwyddyn yn achos benywod a 55.2 blwyddyn yn achos gwrywod.

Mae oedran cyfartalog y boblogaeth yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Caerdydd, ond mae yna bocedi o gleifion hŷn yn Llanrhymni a Thredelerch.

Mae'r Clwstwr yn cynnwys:

- 6 Phractis Deintyddol
- 4 Practis Optometrydd
- 4 Practis Meddygon Teulu
- 10 Fferyllfa Gymunedol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Nod ein Clwstwr yw gwella iechyd ein poblogaeth trwy archwilio a gweithredu mentrau a fydd yn gwella ansawdd y gofal a'r gefnogaeth y mae ein cleifion yn eu cael.

Sicrhau bod digon o gapasiti i ddiwallu anghenion poblogaeth gynyddol yr ardal. O ystyried y twf disgwylidig yn y boblogaeth, rydym yn gweithio i sicrhau y gall ein gwasanaethau ddiwallu'r galw cynyddol ar ofal sylfaenol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd.

Cynyddu nifer y plant sy'n cael eu himiwneddio a'u sgrinio trwy weithio ar y cyd â'r Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol a Chyngor Caerdydd i hybu nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau imiwneddio a sgrinio iechyd yn ystod plentyndod er mwyn sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl. Darparu brechiadau yn ein digwyddiadau ffordd o fyw iach.

Cymryd rhan ym mhrosiect Pen Dwfn Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu: Prosiect Pen Dwfn Cymru (rcgp.org.uk) i ddatblygu a thyfu rhwydwaith cenedlaethol o feddygon teulu sy'n gwasanaethu'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol yng Nghymru i hybu darpariaeth gofal iechyd decach.

Cyflwyno profion am HbA1C, Colesterol a Phwysedd Gwaed mewn digwyddiadau Ymgysylltu Cymunedol Bywydau Iach i fynd ati'n gynnar i nodi cyflyrau iechyd heb eu diagnosio ac annog newidiadau iach ac ataliol o ran ffordd o fyw.

Nodi ffyrdd ychwanegol o helpu pobl i gynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain trwy gomisiynu gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol Cysylltwyr Cymunedol sy'n ymgysylltu â sefydliadau'r trydydd sector a mudiadau elusennol i gyfeirio cleifion mewn modd priodol at grwpiau cymorth lleol a gweithgareddau cymunedol.

Cyflwyno Cynllun TeenTalk newydd lle bydd cleifion sy'n agosáu at eu pen-blwydd yn 14 oed a'u rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu gwahodd i apwyntiad pwrpasol i gael ymgynghoriad pwrpasol, a hynny i ganfod unrhyw feysydd sy'n peri pryder ac i gyfeirio, addysgu, a rhoi gwybod

i unigolion sut i wella eu hiechyd a'u llesiant cyffredinol gyda'r prif nod o ddarparu dull ataliol/rhagweithiol. Bydd ymgynghoriadau TeenTalk yn rhoi cyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd sgrinio a brechu.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Cyflwyno Cynllun Ffit50 newydd, lle mae cleifion yn cael eu gwahodd i apwyntiad sgrinio iechyd

pwrpasol sy'n cyd-daro â'u pen-blwydd yn 50 oed, gyda'r prif nod o ddarparu dull ataliol/rhagweithiol o gynnal ymgynghoriadau penodol â chleifion i ganfod unrhyw feysydd sy'n peri pryder ac i gyfeirio, addysgu, a rhoi gwybod i unigolion sut i wella eu hiechyd a'u llesiant cyffredinol.

Bydd yr ymgynghoriadau Ffit50 hefyd yn hybu pwysigrwydd sgrinio a brechu i gleifion.

Y Cyfraddau sy'n Manteisio ar Sgrinio o Bob Math:

Y math o sgrinio	Y Coluddyn	Y Fron	Serfigol	Llygaid Diabetig	AAA
Y GYFRADD DARGED	60%	70%	80%	80%	80%
Dwyrain	62.1%	57.9%	69.4%	56.6%	63%

Comisiynu'r gwaith o gyflenwi a gosod Coronau Hall gan bractisau deintyddol i drin ac atal pydredd dannedd pellach ymhlith plant a phroblemau deintyddol cysylltiedig yn y dyfodol. Dyma'r cynllun peilot cyntaf sy'n ymwneud yn benodol â chontractwyr y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol.

Beth nesaf?

- Iechyd a llesiant pobl ifanc
- Clefydau cronig h.y. asthma, diabetes, clefyd y galon, iselder
- Cynyddu'r cyfraddau sy'n cael eu himiwneddio a'u sgrinio
- Cynorthwyo poblogaethau difreintiedig ac ethnig leiafrifol mewn perthynas â'r canlynol:
 - Presgripsiynu cymdeithasol
 - Iechyd a llesiant
 - Datblygu ymgysylltiad cymunedol
- Datblygu prosiectau partneriaethau rhwng y contractwyr gofal sylfaenol i ddiwallu anghenion iechyd y boblogaeth yn well.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



Gogledd Caerdydd

Arweinydd y Clwstwr

Angharad Triggs
Angharad.Triggs2@wales.nhs.uk

Gogledd Caerdydd

Pwy ydym ni?

Gogledd Caerdydd yw'r clwstwr mwyaf yng Nghymru, gyda'i boblogaeth o tua 107,025 o gleifion.

Mae'r Clwstwr yn cynnwys:

- 10 Practis Meddygon Teulu
- 12 o Optometryddion
- 3 Thîm Nyrsio Ardal
- 16 o Fferyllfeydd
- 13 o Bractisau Deintyddol
- Tîm Adnoddau Cymunedol o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Model Tîm Amlddisgyblaethol

Rydym wedi coleddu model gwaith tîm amlddisgyblaethol, gan sefydlu Hyb amlddisgyblaethol sy'n cefnogi'r broses o reoli meddyginiaethau mewn modd diogel ac sydd â'r nod o gadw cleifion yn ddiogel gartref ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty – mae tîm yr Hyb yn cynnwys Fferyllwyr y Clwstwr a Nyrsys Eiddilwch, yn ogystal â Chymorth i Lywio Gofal/Chymorth Gweinyddol. Mae Fferyllwyr y Clwstwr yn adolygu ac yn prosesu Llythyrau Cyngor i Gleifion wrth eu Rhyddhau o'r Ysbyty, a hynny i bob claf sydd wedi'i gofrestru yn y Clwstwr, gan gysoni meddyginiaethau a darparu cwnsela, a gweithio'n agos gyda Phractisiau Meddygon Teulu a gwasanaethau Gofal Eilaidd i sicrhau bod cleifion yn cael eu rheoli mewn modd diogel ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

At hynny, mae'r Clwstwr wedi sefydlu cyfarfodydd wythnosol o'r tîm amlddisgyblaethol lle mae achosion cleifion cymhleth ac agored i niwedd 18 oed a hŷn yn cael eu hadolygu gan dîm o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol i sicrhau bod y gwasanaethau a'r darpariaethau cywir ar waith i gadw cleifion yn ddiogel gartref ac allan o'r ysbyty, lle bo hynny'n bosibl. Mae cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys cynrychiolaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, yr awdurdod lleol, a'r trydydd sector, gan ddarparu dull holistaidd o ofalu am gleifion. Mae'r gwasanaethau a gynrychiolir yn cynnwys Practisau Meddygon Teulu, y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol, Nyrsys Eiddilwch y Clwstwr, y Tîm Adnoddau Cymunedol, Nyrsys Ardal, y Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Presgripsiynwyr Cymdeithasol, Gofal a Thrwsio.

Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) – y Gwasanaeth Ymweld â'r Cartref

Mae gan Ogledd Caerdydd gyfran fawr o bobl hŷn o gymharu â Chlystyrau eraill. Bydd nifer y cleifion sy'n cael eu hystyried yn eiddil neu'n gaeth i'r tŷ yn parhau i dyfu wrth i'n poblogaeth heneiddio. Rydym wedi buddsoddi mewn cymorth ychwanegol i ddarparu Apwyntiadau ar gyfer Ymweld â'r Cartref i'n cleifion eiddil a'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ.

Trwy ariannu Uwch-ymarferydd Parafeddygol, rydym yn darparu 10 apwyntiad ychwanegol ar gyfer Ymweld â'r Cartref bob dydd – sy'n golygu bod ein cleifion sy'n gaeth i'r tŷ yn cael eu gweld mewn modd amserol ac yn cael eu cadw'n ddiogel gartref ac allan o'r ysbyty, lle bo hynny'n bosibl. Mae'r prosiect hwn hefyd yn cefnogi cynaliadwydd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol trwy ryddhau capasiti meddygon teulu, ac mae'n cefnogi gwaith amlddisgyblaethol/ar y cyd ynghyd â chysylltiadau â gwahanol wasanaethau

Presgripsiynu Cymdeithasol

Mae Presgripsiynu Cymdeithasol yn ddull sy'n cysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau, a gwasanaethau yn eu cymuned i ddiwallu'r

anghenion ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant. Rydym wedi ffurfio partneriaeth ag ACE (Action in Caerau & Ely) i ddarparu gwasanaeth datblygu cymunedol a phresgripsiynu cymdeithasol ar gyfer y Clwstwr, sy'n ceisio diwallu anghenion anghlinigol ein cleifion. Mae ACE yn gweithio'n agos gyda'n cleifion, gan 'gyd-gynhyrchu' atebion sy'n cefnogi eu hanghenion cymdeithasol.

Y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys

Mae Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys yn trin cleifion ag anghenion gofal sylfaenol brys ar yr un diwrnod, gan greu capasiti i gynorthwyo meddygfeydd teulu a lleihau ymweliadau diangen ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae ein Hyb Amlddisgyblaethol wedi prosesu dros 20,403 o Lythyrau Cyngor i Gleifion wrth eu Rhyddhau ers ei sefydlu ym mis Mawrth 2023.

Rydym wedi cynnal 113 o gyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol ers mis Ebrill 2022, gan drafod 1,025 o gleifion a gwneud dros 415 o atgyfeiriadau i amrywiol wasanaethau

Rydym wedi atgyfeirio 606 o gleifion trwy ein llwyfan presgripsiynu cymdeithasol ers 2023

Mae 252 o drafodaethau ag Uwch-ymarferydd Clinigol wedi'u cofnodi

Mae ein Uwch-ymarferydd Parafeddygol wedi cynnal 4,381 o Apwyntiadau Ymweld â'r Cartref ers lansi'r prosiect ym mis Mai 2022.

Beth nesaf?

Rydym yn parhau i adolygu a gwerthuso ein prosiectau cyfredol gan archwilio sut y gellir eu datblygu ymhellach, ac rydym hefyd yn cynllunio mentrau newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Fferyllwyr y Clwstwr – Gwasanaethau Ychwanegol

Mae Fferyllwyr y Clwstwr yn edrych ar y modd y gallant gefnogi ein Practisau Meddygon Teulu a'n cleifion ymhellach, ac wrth i wasanaethau ychwanegol gael eu datblygu rydym yn gobeithio darparu cymorth ychwanegol trwy gynig Adolygiadau Amlgyffuriaeth, triniaeth Gwrthgeulo Uniongyrchol trwy'r Geg (DOAC), ac SGLT2.

Sgrinio Cyn-Ddiabetes/Atal Diabetes

Mae diabetes yn gyflwr sydd â goblygiadau hirdymor sylweddol i gleifion ac mae'n achosi pwysau sylweddol ar y GIG. Mae ar gleifion â diabetes angen mewnbyn gan yr holl gydweithredfeydd proffesiynol sy'n ffurfio'r Clwstwr. Mae Clwstwr Gogledd Caerdydd wedi

Rydym wedi cefnogi'r broses o sefydlu Canolfan Gofal Sylfaenol Brys yn y Clwstwr, gan ddarparu 32 o apwyntiadau ychwanegol y dydd i'r cleifion o fewn y Clwstwr.

Gwasanaethau Cyhyrsgerberbydol Ychwanegol

Mae'r gwasanaeth Ffisiotherapi ar gyfer Cyflyrau Cyhyrsgerberbydol yn gweithio gyda phobl ag amrywiaeth o anafiadau ac anableddau i sicrhau'r budd mwyaf posibl o'u gofal adsefydlu ac adfer.

Rydym wedi parhau i ariannu darpariaeth gwasanaethau cyhyrsgerberbydol (Ffisiotherapi ar gyfer Cyflyrau Cyhyrsgerberbydol) ychwanegol ar gyfer cleifion yn y Clwstwr.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae'r Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam wedi sicrhau bod y Cydweithredfeydd Proffesiynol wedi dod ynghyd am y tro cyntaf, ac rydym wedi sefydlu perthnasoedd gwaith da ar draws y cydweithredfeydd gan ddod at ein gilydd i weithio ar y cyd er budd ein cleifion.

Mewn cyfnod heriol, rydym wedi parhau i ddarparu Gwasanaethau'r Clwstwr sydd o fudd i iechyd a llesiant ein cleifion, ac rydym yn dal ati i edrych ar ffyrdd newydd o weithio.

cytuno bod Atal Diabetes yn flaenoriaeth allweddol i'w chario ymlaen ar y cyd i helpu i wella iechyd a llesiant ein cleifion.

Rydym wedi ariannu ymyriad targededig gan Raglen Atal Diabetes Cymru Gyfan i helpu i nodi cleifion sydd mewn perygl o ddatblygu diabetes math 2 a lleihau'r risg y bydd y boblogaeth gyn-ddiabetig yn datblygu'r cyflwr, a hynny trwy addysg a monitro gwell.

Mae'r Clwstwr yn archwilio sut y gellir datblygu'r gwaith hwn ymhellach, i gynnwys Fferyllfeydd Cymunedol, Optometryddion a Deintyddion i sicrhau dull gwirioneddol gydweithredol.

Cydweithio ym maes Gofal Eilaidd

Mae dod â gwasanaethau'n nes at y cartref yn un o nodau allweddol strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol. Mae gennym uchelgais i weithio gyda'r gwasanaethau Gofal Eilaidd i archwilio ffyrdd newydd o weithio a fydd yn helpu i leihau amseroedd aros a dod â gwasanaethau'n nes at y cartref.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



De-ddwyrain Caerdydd

Arweinydd y Clwstwr

Dr Shubha Sangal
shubha.sangal@wales.nhs.uk

De-ddwyrain Caerdydd

Pwy ydym ni?



Mae Clwstwr De-ddwyrain Caerdydd yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac mae wedi'i osod yn y 12fed safle o ran amddifadedd ymhlith 64 o Glystyrau ledled Cymru. Mae'r cyfansoddiad demograffig yn gymhleth, ac wedi'i nodweddu gan lefelau uchel o ddiweithdra ac amddifadedd cymdeithasol. Mae'n cynnwys canolfan fewnfudo y DU a charchar. Mae gan hanner y practisau meddygon teulu boblogaeth fawr o fyfyrwyr yn ogystal â phoblogaeth amrywiol iawn o ran gwahanol ethnigrwydd ac iaith, gan gynnwys ceiswyr lloches ac unigolion digartref.

Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn y Clwstwr

Darperir gwasanaethau gan wyth practis meddygon teulu, wyth deintydd, saith optometrydd, a deg fferyllfa, gan wasanaethu poblogaeth o tua 66,500 ym mis Hydref 2024.

Dyma'r practisau meddygon teulu sy'n darparu gwasanaethau meddygol:

- Meddygfa Albany
- Meddygfa Cathays
- Meddygfa Clifton
- Meddygfa Cloughmore
- Canolfan Feddygol Four Elms
- Practis Meddygol Heol y Gogledd
- Meddygfa Roathwell
- Meddygfa'r Ddinas

Personél y Clwstwr

Mae grŵp proffesiynol y Clwstwr yn cynnwys Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Meddygon Teulu, Nyrsys, Fferyllwyr, Optometryddion, Deintyddion, a Chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol a Sefydliadau'r Trydydd Sector, sy'n cwrdd i drafod ac archwilio mentrau newydd ar y cyd, gyda'r nod o wella mynediad at ofal a gwella ansawdd y gofal hwnnw i gefnogi anghenion iechyd a llesiant ein poblogaeth.

Mae Arweinydd Clwstwr, Rheolwr Datblygu Prosiectau, a Swyddog Cymorth yn cydlynu gweithgareddau a phrosiectau'r Clwstwr, gan helpu i hwyluso'r broses o redeg y mentrau mewn modd hwylus a llwyddiannus.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Cynyddu'r nifer sy'n cael eu brechu a'u sgrinio yn ystod plentyndod i hybu pwysigrwydd imiwneiddio a sgrinio plant.

Cyfraddau Sgrinio: Mae holl gyfraddau sgrinio'r Clwstwr islaw targedau a niferoedd y WHO, o gymharu â thargedau cenedlaethol, ac maent i'w gweld isod:

Y math o sgrinio	Y Coluddyn	Y Fron	Serfigol	Llygaid Diabetig	AAA
Y GYFRADD DARGED	60%	70%	80%	80%	80%
Y De-ddwyrain	57%	60.6%	57%	54.4%	65%

Ymgysylltu â phrosiect y Pen Dwfn: ProsiectPenDwfnCymruRCGP – rhwydwaith ar gyfer practisau meddygon teulu sydd â'r gyfran uchaf o gleifion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda'r nod cyffredin o hybu darpariaeth gofal iechyd decach, nodi heriau cyffredin, a dod o hyd i'r atebion gorau sy'n cyd-fynd â dulliau seiliedig ar leodd, gan ychwanegu gwerth ar gyfer ein poblogaeth.

Cyfraddau imiwneiddio: Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi gosod targed cenedlaethol o 95% i'r DU o ran imiwneiddio rheolaidd i blant erbyn eu bod yn bump oed er mwyn sicrhau imiwnedd torfol. Mae bron pob brechiad yn is na thargedau Sefydliad Iechyd y Byd, fel y dangosir (mae'r hyn a gyflawnwyd wedi'i amly.

Dechrau Prosiect Diabetes Math 2 ar gyfer unigolion 18-40 oed, gan ganolbwyntio ar gefnogi pobl i reoli eu diabetes yn fwy effeithiol lle bydd Nyrsys Arbenigol Diabetes yn adolygu cleifion a nodir i optimeiddio meddyginiaeth pobl â HbA1Cs uwch, yn cynnal gwasanaeth sgrinio profion wrin, ac yn cynnig cyngor ar faeth, gweithgarwch corfforol, cwsg, arferion cymdeithasol, a phwysau, gan helpu unigolion i ymdopi â straen, hwyliau isel ac emosiynau anodd.

Blaenoriaethau'r dyfodol

Byddwn yn canolbwyntio ar atal salwch, ac ar sgrinio a brechu i wella iechyd a llesiant drwy gydol bywyd, gan alluogi pobl i reoli a chynnal eu hannibyniaeth cyhyd â phosibl, yn unol â'r strategaethau cyffredinol canlynol:

- **Cymru Iachach.Llyw.Cymru:** Strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol', gan flaenoriaethu atal salwch a hybu iechyd a llesiant.
- **Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol,** strategaeth Byw'n Dda, Gofalu'n Dda, Gweithio Gyda'n Gilydd 2023-2035 BIPCF.
- **Rhaglen Strategol GIG Cymru ar gyfer Gofal Sylfaenol:** sy'n canolbwyntio ar atal a llesiant.
- **Sicrhau Iechyd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,** gan rymuso pobl i ofalu am eu hiechyd eu hunain.
- **Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif:** canolbwyntio ar ymddygiadau i wneud y gorau o'r rhyngweithiadau dyddiol rhwng sefydliadau ac unigolion, gan helpu i feithrin newid cadarnhaol i gyflawni'r canlynol:

- Gwella gofal cleifion.
- Moderneiddio gwasanaethau.
- Lleihau ffyrdd o fyw nad ydynt yn iach.
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio a'u brechu.
- Cynyddu'r defnydd o bresgripsiynu cymdeithasol.

Ehangu Canolfan Llesiant y De-ddwyrain, Caerdydd (SEWeCC), gan benodi'n ddiweddar Ymarferydd Eiddilwch a Chyflyrau Cronig i reoli cleifion ag anghenion cymhleth mewn modd holistaidd, gwella parhad o ran gofal trwy ddarparu asesiadau yn y cartref, cefnogi cleifion agored i niwed, a hwyluso'r broses o gynllunio gofal ymlaen llaw ar gyfer y rhai â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae hyn yn cryfhau ein tîm o Weinyddwyr, Fferyllwyr a Therapydd Galwedigaethol sydd, gyda'i gilydd, yn darparu gofal rhagweithiol, gan ategu'r gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu a chynnig cymorth ymyriadol trwy bresgripsiynu cymdeithasol, gan helpu i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a chymdeithasol ein poblogaeth.

Darparu hyfforddiant gan ddefnyddio Ap y GIG trwy fenter sy'n hyfforddi gwirfoddolwyr i hyfforddi'r boblogaeth, a ddarperir mewn meddygfeydd teulu yn y De-ddwyrain a lleoliadau cymunedol.

Archwilio Profion Pwynt Gofal am HbA1C, Cholesterol a Phwysedd Gwaed mewn digwyddiadau Ymgysylltu Cymunedol Bywydau Iach fel dull ataliol, gan fynd ati'n gynnar i nodi cyflyrau iechyd heb eu diagnosio, annog newidiadau iach ac ataliol o ran ffordd o fyw, a galluogi pobl i gael gofal amserol ar gyfer triniaeth.

Cynyddu ymgysylltiad ag Ysgolion, gan feithrin cydweithio mewn perthynas ag imiwneiddio, niwroamrywiaeth, ac ati.

Cynlluniau Tymor Canolig Integredig Clwstwr a'r ardal:

Y pum prif flaenoriaeth yw:

- Ansicrwydd yr henoed.
- Clefyd cronig h.y.,agaredd, diabetes, clefyd y galon, iselder.
- Gwella imiwneiddio a sgrinio.
- Mentrau ymgysylltu cymunedol a rhagnodi cymdeithasol sy'n cefnogi iechyd a lles ein poblogaeth ethnig leiafrifol i fynd i'r afael ag amddifadedd.
- Gofal clwyfau.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



De-ddwyrain Caerdydd

Arweinydd y Clwstwr

Dr Shubha Sangal
shubha.sangal@wales.nhs.uk

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Comisiynu **sesiynau ychwanegol gan ffisiotherapyddion**, gan alluogi cleifion â chyflyrau cyhyrsgerbydol i gael eu gweld yn gynt.

Lansio SEWeCC, sef gwasanaeth aml-broffesiynol/asiantaethol, sy'n helpu i leihau derbyniadau i'r ysbyty, gan ddarparu:

- **Cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol Gofal Sylfaenol**, rheoli'r gwaith o gydgysylltu gofal parhaus ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth sydd mewn perygl o ddirywio neu gael eu derbyn i'r ysbyty.
- **Camau dilynol rhagweithiol ar ôl rhyddhau cleifion o'r ysbyty**, ffonio cleifion a ryddhawyd o'r ysbyty yn ddiweddar i nodi eu hanghenion o ran adferiad, gan asesu a fyddai cymorth ychwanegol o fudd, neu ba gymorth ychwanegol a allai fod o fudd.
- **Rheoli meddyginiaeth**, lle mae Fferyllwyr y Clwstwr yn adolygu a diweddar meddyginiaethau a roddir ar bresgripsiwn i gleifion a ryddhawyd o'r ysbyty yn ddiweddar.

Mae **Fferyllwyr** wedi gwella gofal cleifion trwy wasanaeth cysoni meddyginiaethau cynhwysfawr, gan wella diogelwch yn ogystal â sicrhau arbedion cost sylweddol. Mae'r **Therapydd Galwedigaethol** wedi gwella gofal i gleifion sy'n cael trafferth gartref, gan gynnal ymweliadau â'r cartref i asesu eu hanghenion yn llawn a threfnu, mewn modd priodol, i gael unrhyw offer angenrheidiol, gwneud atgyfeiriadau, neu eu cyfeirio i gael cymorth presgripsiynu cymdeithasol.

Sefydlu rhaglen flynyddol o **Ddigwyddiadau Ymgysylltu Cymunedol Bywydau Iach** mewn lleoliadau lleol ledled y Clwstwr, gan helpu i leihau rhwystrau sy'n atal mynediad at ofal, a gwella'r cyfathrebu rhwng y boblogaeth a darparwyr gofal iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a mudiadau elusennol. Hybu **byw'n iach, gan amlygu'r gwasanaethau cymorth presgripsiynu cymdeithasol lleol sydd ar gael** i helpu iechyd a llesiant cyffredinol, ynghyd â **meithrin ymwybyddiaeth o bwysigrwydd imiwneiddio, brechu a sgrinio**. Maent yn galluogi'r sawl sy'n bresennol i siarad â gweithwyr proffesiynol a chael gwybodaeth ffeithiol.

Datblygu **llenyddiaeth hybu iechyd i gleifion mewn sawl iaith**, gydag iechyd y Cyhoedd, gan adlewyrchu nifer yr ieithoedd a siaredir, a **gwella'r cyfathrebu**, a chafodd dderbyniad cadarnhaol.

Darparu ffyrdd ychwanegol o helpu pobl i gynnal eu hiechyd a'u llesiant, gan gomisiynu **gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol Cysylltwyr Cymunedol**, sy'n cyfeirio cleifion at grwpiau cymorth lleol a gweithgareddau cymunedol priodol.

Beth a aeth yn dda?

Digwyddiad Bywydau Iach i ddathlu Ramadan yn 2024, a agorwyd gan Arglwydd Faer Caerdydd, a oedd yn hybu iechyd menywod a phwysigrwydd imiwneiddio a sgrinio, ac a ddenodd dros 300 o fenywod a phlant.

Cynigiwyd cyfle i fenywod a oedd yn perthyn i'r ffydd Islamaidd ddysgu am bwysigrwydd sgrinio'r fron, sgrinio serfigol a sgrinio'r coluddion, yn ogystal â brechiadau yn ystod plentyndod, a mwynhaodd pawb y gweithgareddau.

Atebodd panel, a oedd yn cynnwys Meddyg Teulu, Peditregydd, arbenigwr sgrinio Iechyd y Cyhoedd, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Gynaecolegydd ac Obstetregydd, amrywiaeth o gwestiynau yn ymwneud ag iechyd, gan helpu i chwalu camsyniadau cyffredinol sy'n parhau yn ein cymuned.

Roedd llawer o gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, y trydydd sector, yr awdurdod lleol, elusennau, Heddlu De Cymru, ac ati, yno fel arddangoswyr, gan ddarparu gwybodaeth a chyngor i'r sawl a oedd yn bresennol.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae yna bresenoldeb uchel yng **nghyfarfodydd y Clwstwr**, ynghyd ag ymgysylltiad gweithredol gan aelodau, a nodweddir gan berthnasoddedd rhyngbroffesiynol cadarn, sy'n amlygu ymrwymiad i fentrau posibl, gan adlewyrchu anghenion ein poblogaeth.

Mae ein **digwyddiadau Bywydau Iach** wedi bod yn llwyddiannus, ac wedi cael adborth eithriadol o gadarnhaol, gan helpu i wella gwelededd, ymgysylltiad, ac ymddiriedaeth ein cymuned.

Beth y gellid ei wneud yn wahanol?

Mae prosiectau etifeddol yn parhau i gael eu hariannu gan y clwstwr, er gwaethaf gwerthusiadau gwael i fesur eu budd, gan ein hatal rhag rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn mentrau newydd.

Diffyg mecanwaith a meini prawf diffiniedig ar gyfer trosglwyddo prosiectau y profwyd fod iddynt fudd, i BIPCF i gael eu cyllido'n ganolog.

Heriau cydymffurfedd o ran Llywodraethu Gwybodaeth, sy'n llesteirio'r broses o symud prosiectau yn eu blaen mewn modd effeithiol.

Dim digon o amser wedi'i ariannu ar gyfer Arweinwyr y Clwstwr, gan gynnig heriau o ran arweinyddiaeth effeithiol ac o ran recriwtio i symud yr agenda Datblygu Clwstwr Carlam yn ei blaen.

Mae amllder cyfarfodydd y Clwstwr yn heriol o ran gwneud penderfyniadau amserol wrth symud prosiectau yn eu blaen.

Nid yw cydweithredfeydd y Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Deintyddiaeth, Nysio, Opto metryddion, a Fferyllol wedi ymgysylltu'n llawn eto.

Mae yna ddiffyg ymgysylltiad o ran iechyd meddwl – potensial i sefydlu Cydweithredfa Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl benodol.

Beth nesaf?

Cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio am Ganser y Coluddyn, gan bwysleisio pwysigrwydd hyn a meithrin ymwybyddiaeth o symlwydd y driniaeth.

Cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu himiwneiddio, a gweithio mewn modd rhagweithiol i fynd ar drywydd y rhai nad ydynt yn ymateb i wahoddiadau gan bractisau meddygon teulu.

Canolbwyntio ar ordewdra, sgrinio, smygu a brechu, a chynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl mewn perthynas ag ymddygiadau sylfaenol o ran ffordd o fyw, gan effeithio'n sylweddol ar iechyd a llesiant.

Gwella cysylltiadau â phobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, cynyddu nifer y gweithwyr cyswllt amlieithog, ac ymgysylltu ag arweinwyr ffydd dylanwadol lleol, a fydd yn helpu i leihau rhwystrau, gan gael effaith ar nifer y bobl sy'n cael eu himiwneiddio a'u sgrinio.

Hwyluso proses o gynllunio gofal ymlaen llaw ar gyfer pobl â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd.

Cyflwyno Clinigau Peditrig Integredig ar draws y Clwstwr mewn meddygfeydd dynodedig, lle bydd yna Bediatregydd a Meddyg Teulu yn gweld cleifion ar y cyd yn nes at y cartref.

Cymryd rhan yn Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan (AWDPP), menter Iechyd Cyhoeddus, sy'n cynnig cymorth wedi'i dargedu i bobl sydd mewn perygl o ddatblygu diabetes math 2, gyda'r nod o atal datblygiad y cyflwr hwn trwy sgysiau am ffordd o fyw, gan ganolbwyntio ar ddeiet a gweithgarwch corfforol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



De-orllewin Caerdydd

Arweinydd y Clwstwr

Tess Raybould
Tess.Raybould@wales.nhs.uk

De-orllewin Caerdydd

Pwy ydym ni?

Mae gan Dde-orllewin Caerdydd boblogaeth o tua 74,577 o bobl.

Mae'r Clwstwr yn cynnwys ardaloedd o amddifadedd uchel ac amrywiaeth ethnig – mae'r cysylltiadau diwylliannol cyfoethog a chymunedol cryf yn y Clwstwr wedi ffurfio'r sylfeini ar gyfer ein Clwstwr bywiog ac arloesol.

Mae'r Clwstwr yn cynnwys:

- 9 Practis Meddygon Teulu
- 9 Fferyllfa
- 7 Optegydd
- 9 Practis Deintyddol
- 2 Dîm Nyrsio Ardal
- Tîm Adnoddau Cymunedol o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Hyb Amlddisgyblaethol/Model Tîm Amlddisgyblaethol

Mae gennym Fodel Gweithio Tîm Amlddisgyblaethol sefydledig yn y De-orllewin sy'n cynnwys Hyb y Tîm Amlddisgyblaethol a Chyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol.

Mae tîm ein Hyb yn cynnwys Fferyllwyr y Clwstwr, Technegydd Fferyllfa, Therapydd Galwedigaethol, Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd, Llyw-wyr Gofal, a Rheolwr Prosiectau – sy'n gweithio ar y cyd i gadw cleifion yn ddiogel gartref ac allan o'r ysbyty.

Digwyddiadau Addysg Iechyd ac Imiwneiddio Cymunedol

Rydym wedi cynnal nifer o Ddigwyddiadau Addysg Iechyd ac Imiwneiddio yn y gymuned lle rydym wedi gallu meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth â'n cleifion, hybu addysg iechyd i gefnogi dewisiadau iach o ran ffordd o fyw, a chael gwared ar stigma a chamwybodaeth ynghylch gofal iechyd.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi darparu mynediad at frechiadau imiwneiddio i gynyddu'r nifer sy'n cael eu brechu yn ein Clwstwr trwy gydweithio â nyrsys ysgol a thimau imiwneiddio torfol.

Cymorth Diogelu gan Gymheiriaid yn y Clwstwr

Rydym wedi datblygu grŵp cymorth diogelu gan gymheiriaid yn y clwstwr, sy'n caniatáu trafodaeth a dysgu ar y cyd i gefnogi'r broses o ddatblygu protocolau ac arfer gorau ledled y Clwstwr.

Clinigau Ymataliaeth yn Ystod Plentyndod

Mae'r amseroedd aros presennol i blant a phobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth ymataliaeth cymunedol oddeutu 2 flynedd. Mae oedi cyn cynnal yr asesiad cychwynnol ac o ran rheoli'r cyflwr yn arwain at drallod sylweddol i blant a'u teuluoedd, ac mae'r broblem yn datblygu tra eu bod ar y rhestr aros.

Rydym wedi gweithredu model o fewn y clwstwr o asesiadau gofal sylfaenol cyflym yn y gymuned ar gyfer plant sy'n ymglyfwyno â phroblemau ymataliaeth – sy'n golygu bod cleifion yn cael eu gweld yn gynt i gael asesiad cychwynnol: gan atal problemau rhag gwaethygu a lleihau pwysau ar wasanaethau Gofal Eilaidd.

Cymorth i'r Clwstwr gan ViPC

O ystyried cymhlethdodau gweithio mewn clwstwr, rydym wedi ariannu ViPC i wneud gwaith pwrpasol i gefnogi'r broses o gasglu, rheoli a phrosesu data fel y gallwn ddangos a gwerthuso canlyniadau ac effaith prosiectau mewn modd effeithiol.

Cyngor a Chymorth i Deuluoedd

Rydym wedi buddsoddi mewn cymorth ychwanegol i'n plant, ein pobl ifanc a'u teuluoedd trwy'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth i Deuluoedd – a hynny trwy ariannu gweithiwr dynodedig, sydd wedi'i leoli yn yr hyb gofal, i gynorthwyo cleifion yn y clwstwr. Mae'r gwerthusiad cynnar yn gadarnhaol.

Presgripsiynu Cymdeithasol

Mae Presgripsiynu Cymdeithasol yn ddull sy'n cysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau, a gwasanaethau yn eu cymuned i ddiwallu'r anghenion ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Rydym wedi cynnal 141 o gyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol ers mis Ebrill 2022, gan drafod 1,232 o gleifion.

Rydym wedi atgyfeirio 2,328 o gleifion trwy ein llwyfan presgripsiynu cymdeithasol ers mis Ebrill 2022.

Mae 329 o drafodaethau ag Uwch-ymarferwyr Clinigol wedi'u cofnodi.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi Presgripsiynu Cymdeithasol yn y clwstwr ers sawl blwyddyn, ac rydym wedi ffurfio partneriaeth ag ACE (Action in Caerau & Ely) i ddarparu gwasanaeth datblygu cymunedol a phresgripsiynu cymdeithasol ar gyfer y Clwstwr sy'n ceisio diwallu anghenion anghlinigol ein cleifion.

At hynny, rydym hefyd yn cefnogi prosiectau cynyddol Tyfu Caerdydd, sydd â'r nod o gael effaith drawsnewidiol ar iechyd corfforol a meddyliol pobl, ar eu hunigedd a'u hunigrwydd – gan ddarparu mynediad i gleifion.

Ehangu tîm yr hyb i gynnwys technegydd fferyllfa.

Cynnal y lefel is o dderbyniadau i'r ysbyty ac aildderbyniadau i'r ysbyty yn y clwstwr.

Sefydlu perthnasoedd â sefydliadau'r trydydd sector a thimau eraill BIPCF.

Beth nesaf?

Rydym yn parhau i weithio tuag at y weledigaeth gyffredin, sef 'Iechyd a Llesiant i bawb sy'n byw ac yn gweithio yn ein cymuned'. Yn ystod 2025-26 bydd y Clwstwr yn:

- Parhau i ddatblygu'r gwasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth â thîm yr hyb llesiant.
- Parhau i ddatblygu, monitro a gwerthuso'r gwaith gyda phobl ifanc a ddarperir gan ein Gweithiwr Porth a gomisiynir gan wasanaeth Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd.
- Parhau i gynnal yr ymyriad ymataliaeth yn ystod plentyndod.
- Parhau i ymgysylltu â'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a chydweithredfeydd deintyddol i ddod o hyd i ymyriad ymarferol i fynd i'r afael â mater brys gofal deintyddol i blant a phobl ifanc.
- Archwilio datblygiadau i wasanaethau yng nghyd-destun 'darparu yn ddiofyn yn y gymuned' yn achos gofal diabetes.

- Gweithio mewn partneriaeth i ddod o hyd i atebion ymarferol i'r risgiau a gyflwynir i brosiectau'r Clwstwr o ganlyniad i'r newidiadau mewn darparwyr digidol yng Nghymru.
- Cam dau o'n cynllun peilot meddygaeth ar gyfer ffordd o fyw gyda phartneriaid yn y trydydd sector sy'n archwilio modelau ymgynghoriadau grŵp o ddarparu yn y gymuned.
- Gweithio o fewn paramedrau strategaethau cenedlaethol mewn perthynas â chanolfannau triniaeth frys ac mewn partneriaeth â'r contractwyr gofal sylfaenol, i archwilio arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau'r clwstwr o ran mân anhwylderau a'r pwysau ar adnoddau yn ystod y gaeaf.
- Parhau i hybu a gwerthuso presgripsiynu cymdeithasol a datblygu cymunedol trwy wasanaethau a gomisiynir gan y Clwstwr.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



Gorllewin Caerdydd

Arweinydd y Clwstwr

Susan Davies
Susan.Daviesbd844@wales.nhs.uk

Gorllewin Caerdydd

Pwy ydym ni?

Mae gan Orllewin Caerdydd boblogaeth o tua 60,247 o gleifion.

Mae'r Clwstwr yn cynnwys:

- 7 Practis Meddygon Teulu
- 6 Optegydd
- 2 Dîm Nyrsio Ardal
- 13 o Fferyllfeydd Cymunedol
- 7 Practis Deintyddol
- Tîm Adnoddau Cymunedol o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Fferyllwyr y Clwstwr

Un prosiect etifeddol yn y Clwstwr fu darparu Fferyllwyr y Clwstwr fel adnodd ychwanegol ar draws y Practisiau Meddygon Teulu , gan gefnogi gwasanaethau cleifion a chynaliadwydd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol trwy wella capasiti'r practisau. O fis Chwefror 2025 ymlaen bydd gan bob fferyllfeydd gymhwyster Presgripsiynydd Annibynnol, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn ei ddefnyddio ar gyfer cleifion AF/DOAC. Bydd un fferyllfeydd yn gweithio'n dda gyda'r practis i wella prosesau presgripsiynu/monitro pwysedd gwaed gyda'r bwriad o rannu arfer gorau.

Rydym yn parhau i gefnogi'r prosiect hwn a'n huchelgais yw sefydlu Model Gweithio Tîm Amlddisgyblaethol yn y dyfodol.

Gwasanaethau Cyhyrsgerberbydol Ychwanegol

Mae'r gwasanaeth Ffisiotherapi ar gyfer Cyflyrau Cyhyrsgerberbydol yn gweithio gyda phobl ag amrywiaeth o anafiadau ac anableddau i sicrhau'r budd mwyaf posibl o'u gofal adsefydlu ac adfer.

Rydym wedi parhau i ariannu darpariaeth gwasanaethau cyhyrsgerberbydol (Ffisiotherapi ar gyfer Cyflyrau Cyhyrsgerberbydol) ychwanegol ar gyfer cleifion yn y Clwstwr.

Presgripsiynu Cymdeithasol

Mae Presgripsiynu Cymdeithasol yn ddull sy'n cysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau, a gwasanaethau yn eu cymuned i ddiwallu'r anghenion ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant.

Rydym wedi ffurfio partneriaeth ag ACE (Action in Caerau & Ely) i ddarparu gwasanaeth datblygu cymunedol a phresgripsiynu cymdeithasol ar gyfer y Clwstwr sy'n ceisio diwallu anghenion anghlinigol ein cleifion.

Mae ACE yn gweithio'n agos gyda'n cleifion, gan 'gyd-gynhyrchu' atebion sy'n cefnogi eu hanghenion cymdeithasol.

Y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys

Mae Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys yn trin cleifion ag anghenion gofal sylfaenol brys ar yr un diwrnod, gan greu capasiti i gynorthwyo meddygfeydd teulu a lleihau ymweliadau diangen ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

Rydym wedi cefnogi'r broses o sefydlu Canolfan Gofal Sylfaenol Brys yn y Clwstwr, gan ddarparu 96 o apwyntiadau wythnosol ychwanegol i'r cleifion yn y Clwstwr.

Addysg ar Draws y Cydweithredfeydd

Mae Arweinydd ein Cydweithredfa Ddeintyddol yn addysgu Cydweithredfeydd eraill ynghylch periodontitis a'r cysylltiadau â Diabetes.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae'r Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam wedi sicrhau bod y Cydweithredfeydd Proffesiynol wedi dod ynghyd am y tro cyntaf i weithio ar y cyd i fynd i'r afael ag anghenion ein poblogaeth.

Mae gennym ymgysylltiad cadarnhaol ar draws y Clwstwr, gyda phob Cydweithredfa Broffesiynol yn cael ei chynrychioli yng Nghyfarfodydd y Clwstwr – rydym yn parhau i feithrin perthnasoedd, rhannu'r dysgu, a rhoi gwybodaeth well i'n gilydd i sicrhau bod uchelgeisiau'r Clwstwr yn gynrychioliadol o bawb, ac y bydd prosiectau yn y dyfodol yn diwallu anghenion ein holl gleifion.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Er ein bod wedi gwneud cynnydd wrth ddod ynghyd ar ffurf Clwstwr, rydym yn dal i wynebu rhwystrau i gydweithio gwirioneddol – gyda chyfyngiadau o ran Technoleg Gwybodaeth a Llywodraethu Gwybodaeth yn cyfyngu ar brosiectau posibl ar draws y Cydweithredfeydd – rydym yn parhau i archwilio sut y gallwn oresgyn yr heriau hyn.

Yn yr un modd, mae diffyg ystadau ar draws y Clwstwr wedi bod yn rhwystr i waith posibl y Clwstwr.

Mae gan ein Clwstwr gyllideb gyfyngedig ar gael, sy'n ein hatal rhag gweithredu prosiectau newydd/ffyrdd arloesol o weithio. Rydym yn parhau i archwilio cyfleoedd ariannu posibl a all gefnogi Datblygiad ein Clwstwr.

Beth nesaf?


Rydym yn parhau i adolygu cynnydd ein Clwstwr a gwerthuso sut y gallwn gydweithio orau i fynd i'r afael ag anghenion ein poblogaeth o gleifion ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys archwilio atebion TG i wella mynediad a chyfathrebu ar draws y cydweithredfeydd, e.e. mae ein tîm D/N wedi gofyn i ni edrych ar sut y gallwn ddefnyddio system Consultant Connect ar draws y cydweithredfeydd.

Mae gennym yr ail boblogaeth uchaf o Gleifion Hŷn. Felly, ein nod o 2026 ymlaen, pan fydd ein prosiect presgripsiynu cymdeithasol yn dod i ben ac yn rhyddhau arian, fydd helpu ein poblogaeth sy'n heneiddio i fyw'n dda trwy ddatblygu prosiectau ac ymyriadau wedi'u targedu.

Mae'r Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n tyfu yn rhagweld cynnydd ym mhoblogaeth y Clwstwr, ac o ganlyniad bydd galw cynyddol am bob un o wasanaethau'r Clwstwr. Mae'r effaith ar gynaliadwydd Gofal Sylfaenol a chapasiti'r ystadau yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r Clwstwr. Rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i gynllunio ar gyfer y pwysau disgwylidig yn y byrdymor a'r tymor canolig.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



Canol y Fro

Arweinydd y Clwstwr

Dr James Martin

Canol y Fro

Pwy ydym ni?

Ein cenhadaeth yw gwella iechyd a llesiant y boblogaeth leol a hyrwyddo cynaliadwyedd gofal sylfaenol a chymunedol trwy ganolbwyntio ar atebion na ellir eu cyflawni ond trwy gydweithio.

Rydym yn falch o fod wedi datblygu nifer o brosiectau arloesol, gan gynnwys gwasanaeth poen gronig, gwasanaeth clwyfau, cymorth llesiant, a gwasanaeth pesari.

Mae Clwstwr Canol y Fro yn cynnwys 6 phractis meddygon teulu, sef 5 yn y Barri ac 1 yn Sili. Mae ganddo boblogaeth o 65,000 o gleifion a demograffig cymysg o ran ardaloedd trefol a gwledig, gyda rhai ardaloedd o amddifadedd sylweddol. Mae i Ganol y Fro boblogaeth sy'n tyfu, ac mae datblygiadau tai newydd sylweddol yn mynd rhagddynt.

Mae gan Glwstwr Canol y Fro:

- 6 Practis Meddygon Teulu
- 14 Fferyllfeydd
- 9 Optegydd
- 10 Practis Deintyddol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Un Pwynt Mynediad Iechyd Meddwl a Llesiant Canol y Fro

Mae gan lawer o drigolion Canol y Fro sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth, sy'n arwain at ganlyniadau iechyd a chymdeithasol negyddol. Yn aml, nid model meddygol yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion hyn. Gan gydnabod hyn, mae Clwstwr Canol y Fro wedi creu partneriaeth â Mind yn y Fro i gefnogi oedolion â'r problemau llesiant hyn, gan ddarparu gwasanaeth un pwynt mynediad, sydd wedi bod yn rhedeg ers bron tair blynedd.


Gellir atgyfeirio preswylwyr trwy'r meddyg teulu neu gallant hunanatgyfeirio i'r gwasanaeth, a fydd wedyn yn darparu cymorth a chefnogaeth trwy reolwr achos dynodedig.

Mae'r gwasanaeth hwn wedi creu canlyniadau cadarnhaol i boblogaeth ein clwstwr. Rydym hefyd yn bwriadu integreiddio'r gwasanaeth hwn yn fwy llawn â gwaith ehangach y clwstwr yn y dyfodol.

Uwch-ymarferydd ym maes Poen

Mae'r Barri wedi'i nodi'n ardal sydd â phroblem benodol o ran materion yn ymwneud â chamddefnyddio meddyginiaethau caethiwus o gymharu â rhanbarthau eraill y Bwrdd Iechyd. (Y llinell borffor yw Canol y Fro, y llinell werdd yw'r cyfartaledd cenedlaethol, a'r llinell las yw'r cyfartaledd yng Nghaerdydd a'r Fro.)

Cafodd ymarferydd ym maes poen ei recriwtio gan Ganol y Fro i wella gofal cleifion â phoen gronig yn y clwstwr.



Mae yna gorff cynyddol o dystiolaeth sy'n awgrymu mai ychydig iawn o fudd sydd i feddyginiaethau a ddefnyddir ar gyfer poen gronig, bod iddynt amryw o sgilleffeithiau, a gall fod yn anodd rhoi'r gorau iddynt gan eu bod yn gaethiwus. Rydym yn cynnig opsiwn rheoli gwahanol (a gwell) i gleifion a chlinigwyr ar gyfer cleifion â phoen gronig.

Ap Minute for Wound

Mae Canol y Fro wedi bod yn rhan o brosiect peilot cyffrous sy'n ymwneud â phlatfform rheoli clwyfau cronig Minute for Wound. Mae'r rhaglen hon yn defnyddio dull 3D o fapio clwyfau gan ddefnyddio ffôn clyfar i helpu i sicrhau bod clwyfau'n cael eu cofnodi mewn modd cyson bob tro. Mae hyn yn gwella'r broses o gofnodi clwyfau, ac mae iddi'r fantais ychwanegol o ddefnyddio dangosfwrdd i helpu i nodi arwyddion rhybudd o ddirywiad clwyfau. Yr effaith gyffredinol fydd cyflymu amseroedd gwella clwyfau, optimeiddio'r staffio, a rhyddhau amser i ofalu trwy leihau'r cyfnodau a dreulir yn cadw cofnodion a theithio. Mae gwerthusiad yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd.

Mae hyn yn cael ei weithredu ar y cyd rhwng y timau nyrsio ardal, nyrsys gofal sylfaenol, a'r gwasanaeth hyfywedd meinweoedd, sy'n amlygu cydweithio.

Gwasanaeth Pesari

Rydym wedi datblygu gwasanaeth lleol i drin menywod â phrolaps y wain y mae arnynt angen pesariau cylch. Cydnabuwyd bod yna fwllch yn y gwasanaeth, lle roedd menywod yn aros hyd at 52 wythnos i gael eu gweld mewn lleoliad gofal eilaidd ar gyfer y cyflwr hwn. Roedd hyn hefyd yn golygu taith i'r ysbyty.

Roedd gennym y sgiliau yn y clwstwr i ymgymryd â'r gwasanaeth hwn, ac ym mis Mehefin 2023 dechreuom weld cleifion o'n hysbyty cymunedol yn y Barri. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac wedi cael adborth rhagorol gan gleifion. Rydym wedi cyflwyno'r gwasanaeth yn y clystyrau cyfagos yn Nwyrain a Gorllewin y Fro hefyd. Mewn cyfnod o 10 mis gwelwyd 123 o gleifion newydd (cyfartaledd o 6 chlaf fesul clinig).

Clinigau Pediatrig Integredig

Roedd Canol y Fro yn un o'r clystyrau cyntaf i ddilyn De-orllewin Caerdydd trwy sefydlu Clinig Pediatrig Integredig. Mae'r model hwn bellach yn lledaenu ar draws Caerdydd a'r Fro. Nod y model yw caniatáu i gleifion weld pediatregydd mewn lleoliad cyfleus, yn agos at y cartref. Mae yna'r fantais ychwanegol o gael meddyg teulu yn yr ymgynghoriad hefyd, sy'n rhoi gwedd gofal sylfaenol ar yr ymgynghoriad, ac yn gwella'r cysylltiadau rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd.

Clinigau Niwroleg

Gan adeiladu ar lwyddiant y clinig pediatrig integredig, rydym wedi cyflwyno model tebyg iawn gan ddod â niwrolegydd allan i'r gymuned i redeg clinig gyda meddyg teulu lleol. Mae hyn yn cynnig yr un manteision â'r model pediatrig, ac yn amlygu ein nod parhaus i helpu i ddatblygu gwasanaethau clinigol rhagorol i gleifion, a gwella cysylltiadau rhwng gwasanaethau gwahanol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



Canol y Fro

Arweinydd y Clwstwr

Dr James Martin

Clinigau Methiant y Galon

Mae clwstwr Canol y Fro wedi nodi bod rheoli clefydau cronig yn flaenoriaeth allweddol yn ei gynllun.

Canol y Fro sydd â'r drydedd gyfradd uchaf o ran derbyniadau i'r ysbyty a'r gyfradd uchaf o farwolaethau cyn pen y flwyddyn gyntaf ar ôl cael diagnosis o fethiant y galon yn achos cleifion 75 oed a hŷn yn ardal Caerdydd a'r Fro (gweler y data isod o Godau ICD10 – 'I500', 'I501', 'I509', 'I110', 'I420', 'I255', 'I429').

Mae'r prosiect hwn yn helpu i bontio'r bwlch rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd trwy ddarparu gwasanaeth arbenigol mewn lleoliad cymunedol. Rydym hefyd yn optimeiddio'r codio a'r camau dilynol i gleifion â methiant y galon, gan safoni'r arfer hwn. Nod y prosiect yw sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o feddyginiaethau ar gyfer methiant y galon, y mae iddynt fuddion o ran marwolaethau a chydafiachedd. Cydnabyddir bod cyflawni'r dos mwyaf y gellir ei oddef yn fuddiol i gleifion, ond mae hyn yn cymryd llawer o amser ac yn gofyn am ymyriad gan glinig fel hwn.

Mae'r prosiect yn cynnwys nyrs arbenigol methiant y galon, sy'n gweithio o safle practis meddygon teulu lleol, i optimeiddio triniaeth cleifion lleol â methiant y galon.

Diogelu Plant

Mae diogelu plant wedi'i amlygu'n faes blaenoriaeth ar gyfer clwstwr Canol y Fro. Mae'r clwstwr yn cynnwys ardaloedd o amddifadedd sylweddol, a nodwyd bod materion diogelu plant, sydd â chysylltiad agos ag amddifadedd, yn bryder penodol.

Mae'r prosiect hwn yn cynnwys cyfarfod chwarterol o arweinwyr diogelu yr holl bractisau yn y clwstwr. Mae hyn yn rhannol addysgiadol, gyda siaradwyr gwadd, ond mae hefyd yn cynnig cyfle ffurfiol i drafod achosion diogelu cymhleth, a rhannu'r dysgu. Mae'r grŵp hefyd yn darparu cyngor ad hoc i'w gilydd wrth i achosion cymhleth godi rhwng y cyfarfodydd hyn.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae'r clinigau pesari cymunedol yn enghraifft o brosiect clwstwr cost isel ac effeithiol sydd bellach wedi'i gynnig i'r ddau glwstwr arall yn y Fro (Dwyrain a Gorllewin). Credwn fod hon yn enghraifft ardderchog o fodel clwstwr y gellir ei brif ffrydio.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Beth a oedd wedi gweithio'n dda?

Rydym wedi datblygu llawer o brosiectau arloesol, ac mae rhai ohonynt wedi lledaenu y tu hwnt i'n clwstwr (dechreuodd y model ffisiotherapi pwynt cyswllt cyntaf yng Nghaerdydd a'r Fro yng nghlwstwr Canol y Fro). Mae gennym ethos cadarn o gefnogi arferion ein gilydd, a ddatblygodd yn bennaf yn ystod y pandemig. Mae cynaliadwyedd gofal sylfaenol wrth wraidd yr hyn a wnawn, ac mae ein holl brosiectau wedi'u cynllunio gan ystyried y nod hwn. Mae'r tîm seiliedig ar werth wedi dweud ei fod yn ystyried ein clwstwr yn esiampl rhagorol.

Mae gennym dîm cryf sy'n rheoli prosiectau'n dda ac yn cael cefnogaeth leol, ac rydym yn ffodus o fod â swyddog gweinyddol dynodedig i'r clwstwr i helpu i ddatblygu gwaith y clwstwr.

Beth nesaf?

Blaenoriaethau'r dyfodol

Cyfraddau imiwneddio yn ystod plentyndod. Nod clwstwr Canol y Fro yw cynyddu nifer y plant dan 5 oed sy'n cael eu brechu. Yn dilyn trafodaeth ag Iechyd y Cyhoedd, penderfynwyd canolbwyntio ar y grŵp hwn i ddechrau. Rydym yn ymdrechu i gyrraedd y targed o 95% wedi'u brechu sy'n ofynnol i sicrhau imiwnedd torfol. Bydd nyrs neu gynorthwydd gofal Iechyd yn cysylltu â'r cleifion hyn i drafod eu statws brechu a gobeithio yn trefnu iddynt gael brechlyn yn y practis. Os yw cleifion yn betrusgar ynghylch cael eu brechu a bod angen trafodaeth glinigol bellach, bydd meddyg teulu yn cysylltu â'r cleifion hynny i gael sgwrs fanylach. Yn achos cleifion sy'n wirioneddol wrthwynebus i frechlynnau, bydd hyn yn cael ei godio.

Blaenoriaethau strategol eraill

Iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Cynhaliodd Canol y Fro weithdy ym mis Hydref 2023 i nodi anghenion poblogaeth leol y clwstwr. Un o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg oedd y diffyg cymorth i bobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl/llesiant. Aethom ati i ddatblygu arolwg i'w anfon at yr ysgolion uwchradd lleol a phractisau meddygon teulu Canol y Fro (yn targedu'r ystod oedran 10 i 19).

Ar sail y canlyniadau, bu i ni gyflwyno cynnig llwyddiannus yn amlinellu rhaglen gynhwysfawr ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc 10-18 oed trwy apwyntiadau un i un a sesiynau grŵp gydag ymarferydd plant a phobl ifanc cymwys a phrofiadol.

Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i ddarparu amgylchedd diogel a chefnogol lle gall y cyfranogwyr archwilio eu pryderon, datblygu strategaethau ymdopi, a meithrin hunan-barch a hyder. Darperir cymorth i rieni a gofalwyr sy'n oedolion hefyd. Bydd y gwasanaeth hwn yn fodd o gael cipolwg ar fodelau presgripsiynu cymdeithasol/atgyfeirio y Fro, a modelau gwasanaethau perthnasol eraill.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol?

Rhai o'n heriau:

- Mae Llywodraethu Gwybodaeth yn parhau i fod yn her sylweddol gan nad yw'r canllawiau'n gweddu i waith y clwstwr.
- Cynaliadwyedd (cyllid yn y dyfodol i barhau â phrosiectau profedig a rhyddhau cyllid y clwstwr ar gyfer darnau o waith newydd ac arloesol).
- Staff yn gadael prosiectau cyfnod penodol oherwydd ansicrwydd ynghylch parhad eu swyddi.
- Mae cael 4 cyfarfod clwstwr y flwyddyn yn unig yn creu heriau o ran datblygu prosiectau a phleidleisio.
- Nid yw pob un o'r cydweithredfeydd yn ymgysylltu'n llawn eto.

Seicolegydd ym maes Poen

Rydym wedi cyflwyno cais i gefnogi ein Huwch-ymarferydd ym maes Poen trwy ehangu'r tîm i gynnwys seicolegydd clinigol. Mae ymchwil ac ymarfer yn dangos pwysigrwydd ffactorau seicolegol wrth ymdopi â phoen o ran ansawdd bywyd ac anabledd/cyfngiadau. Mae yna sylfaen dystiolaeth gref o ran y cyfraniad y mae seicoleg yn ei wneud at effeithiolrwydd triniaeth cleifion â phoen barhaus. Felly, mae'n hanfodol cynnwys seicoleg ar ddechrau'r llwybr – i gynllunio a chyflwyno dulliau seiliedig ar dystiolaeth, cynnig ymgynghoriad a chefnogaeth i weithwyr proffesiynol nad ydynt yn seicolegwyr sy'n gweithio gyda chleifion a chanddynt boen, a helpu i reoli'r cymhlethdod dynol a systemig a fydd yn bodoli.

Clwyfau

Mae gofalu am gleifion â chlwyfau cronig yn broblemus am nad yw cyfrifoldeb y sawl sy'n ymgymryd â'r gofal hwn wedi'i ddiffinio'n glir. Roeddem yn ffodus o fod wedi recriwtio nyrs gofal clwyfau frwdfrydig a oedd yn gweithio yn y clwstwr rhwng mis Mai 2023 a mis Tachwedd 2024. Yn anffodus, am nad oedd yn bosibl cynnig y rôl fel swydd barhaol, gadawodd y nyrs hon y clwstwr i chwilio am sicrwydd cyflogaeth. Mae hyn wedi bod yn siom wirioneddol ac wedi atal y gwaith parhaus o ehangu'r weledigaeth ar gyfer maes gofal clwyfau yng Nghanol y Fro. At hynny, er bod nyrs brofiadol ar gael i gynnal asesiadau o glwyfau, roedd prinder staff clinigol o hyd i ymgymryd â'r cynlluniau gofalu am glwyfau arfaethedig. Mae arnom angen rhagor o ddyfnder yn nhîm clwyfau gofal sylfaenol y clwstwr i sicrhau cydnherthedd y tîm a'n galluogi i gynnal cynlluniau gofal clwyfau. Rydym yn gweithio gyda'r tîm Nyrsio Hyfywedd Meinweoedd i ddatblygu model newydd a llunio cais i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Gwasanaeth Rhyddhau o'r Ysbyty

Rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynorthwyo ein cleifion eiddil sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Ymhlith yr enghreifftiau y mae gofal personol, siopa, ac ati.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



Dwyrain y Fro

Arweinydd y Clwstwr

Dr Chris Matthews

Dwyrain y Fro

Pwy ydym ni?

Rydym yn glwstwr sy'n teimlo'n angerddol ynghylch mynd i'r afael ag anghenion iechyd ein poblogaeth leol. Rydym yn gwneud hyn trwy ddadansoddi Asesiad o Anghenion Iechyd y Boblogaeth Iechyd y Cyhoedd (a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2022) a gweithio gyda'n cydweithredfeydd i gael dealltwriaeth o broblemau iechyd ein poblogaeth. Rydym hefyd yn gwahodd Llais i gyfarfodydd ein clwstwr fel bod barn a phrofiadau ein poblogaeth yn cael eu hystyried yn ein gwaith cynllunio. Mae ymgorffori holiaduron profiad y claf yn rhan annatod o werthuso ein prosiectau.

Yn ogystal ag Arweinydd y Clwstwr (Dr Chris Matthews), mae gennym Arweinwyr y Cydweithredfeydd sy'n cynrychioli Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Deintyddiaeth, Optometreg, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Fferylliaeth, Nyrsio, Iechyd y Cyhoedd, ac Iechyd Meddwl.

Mae'r Clwstwr hefyd yn ariannu'r swyddi canlynol:

- Mae Fferyllydd y Clwstwr yn galluogi meddygon teulu i ganolbwyntio ar gleifion ag anghenion meddygol cymhleth, ac mae deiliad y swydd hefyd yn cynnal adolygiadau blynyddol o feddyginiaethau.
- Mae ein Nyrs Eiddilwch yn gweithio mewn lleoliad cymunedol yn rhan o dîm amlddisgyblaethol. Mae llawer o'r rôl yn cynnwys cysylltu â chartrefi gofal, adolygu prosesau rhyddhau, osgoi derbyniadau, a chysylltu â gwasanaethau hanfodol eraill.

Mae clwstwr Dwyrain y Fro yn gwasanaethu poblogaeth glwstwr gyfunol o tua 37,332.

Mae yna amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol a diwylliannol, gan gynnwys Ystafelloedd Paget yng nghanol Penarth, sy'n cynnal amryw o gynrychiadau theatr a chyngherddau trwy gydol y flwyddyn, a Phafiliwn arobryn Pier Penarth, sy'n cynnal arddangosfeydd ac sy'n gartref i sinema.

At hynny, mae Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston yn yr ardal ynghyd â glan môr hardd. Mae pedair gorsaf drenau yn darparu cysylltiadau rheilffordd da â Chaerdydd a'r rhanbarth.

Tynnwyd sylw at y blaenoriaethau canlynol sy'n wynebu ein poblogaeth yn Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Caerdydd a'r Fro 2022:

Poblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio. Clwstwr Dwyrain y Fro sydd â'r ail ganran uchaf o gleifion oedrannus (65+) ymhlith clystyrau Caerdydd a'r Fro. Mae yna dair cartref nyrsio a phedair cartref preswyl.

- Lefelau uwch o glefydau cronig yr effeithiwyd arnynt gan bandemig COVID – 5 niwed, COVID hir ac effaith 'syndemig'.
- Ffactorau risg y gellir eu haddasu – yn peri pryder cyn y pandemig, ond eto effeithiwyd arnynt gan COVID, yn bennaf i gyfeiriad llai ffafriol; y blaenoriaethau sy'n wynebu ein poblogaeth: penderfynyddion ehangach, arwahanrwydd cymdeithasol – effaith COVID a'r argyfwng costau byw.
- Effaith y Newid yn yr Hinsawdd a'r Argyfwng Hinsawdd.

Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/gwasanaethau cymunedol)

Mae gan Glwstwr Dwyrain y Fro bractisau meddygon teulu â phoblogaeth glwstwr gyfunol o 37,332.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Bywydau iach

Rydym yn canolbwyntio ar weithredu strategaethau iechyd ataliol trwy dargedu achos sylfaenol afiechyd cyn iddo ymafael. Rydym yn cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Hyrwyddo dewisiadau iach o ran ffordd o fyw trwy addysg a chyfluoedd.
- Mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd a'r modd y mae'r rhain yn cyfrannu at lesiant holistaidd ac atal.
- Hybu tegwch mewn gofal iechyd trwy dargedu penderfynyddion penodol.
- Rhoi mynediad a chyfle mewn lleoliad cymunedol lleol.
- Ymgysylltu â gwasanaethau perthynol i iechyd a'r trydydd sector.
- Hybu presgripsiynu cymdeithasol a pherchnogaeth ar iechyd.

Rydym eisoes wedi cynnal digwyddiad ffyrdd iach o fyw i oedolion yn 2024 a oedd yn llwyddiannus (mae rhagor o fanylion i'w cael yn yr adran Cyflawniadau Allweddol), ac rydym bellach yn cynllunio digwyddiadau i blant yn 2025.

Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan

Mae Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan yn fenter iechyd cyhoeddus yng Nghymru sy'n cynnig cymorth wedi'i dargedu i bobl sydd mewn perygl o ddatblygu diabetes math 2. Nod y rhaglen, dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru, yw atal y cyflwr hwn rhag datblygu, a hynny trwy sgysiau am ffyrdd o fyw sy'n canolbwyntio ar ddeiet a gweithgarwch corfforol.

Nyrs Eiddilwch

Ardal Dwyrain y Fro sydd â'r ail ddemograffeg hynaf ar draws Caerdydd a'r Fro. O ganlyniad, mae mwy o gleifion yn byw mewn lleoliadau gofal preswyl/nyrsio nag mewn lleoliadau clystyrau eraill. Cymeradwywyd cyllid y clwstwr i greu swydd nyrs eiddilwch yng nghylch 2023-24, ac mae ei gwerth wedi bod yn amhrisiadwy i'r boblogaeth sy'n byw yn Nwyrain y Fro.

Mae'r Clwstwr yn cynnwys:

- 3 Practis Meddygon Teulu
- 9 Fferyllfeydd
- 5 Optegydd
- 4 Practis Deintyddol

“Mae'r Nyrs Eiddilwch yn cynnal ei hadolygiad ychydig ddyddiau ar ôl i glaf gael ei dderbyn. Gan nad yw'r rhan fwyaf (o'r derbyniadau newydd) wedi'u cofrestru ym Mhartneriaeth Gofal Iechyd Penarth (PHP), rheolodd eu lleoliadau trwy roi trefn ar eu meddyginiaethau, diweddarau eu ffurflen DNACPR, a rhoi cyfarwyddedau ymlaen llaw ar waith. Rhoddwyd sicrwydd i'r preswylwyr ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd, oherwydd argaeledd y gwasanaethau, y gellid diwallu eu hanghenion trwy gydgyssylltu â'r Meddyg Teulu a'r Tim Lliniarol.

Gan fod y rhan fwyaf o'r cyfarwyddedau ymlaen llaw ar waith, mae derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau sydyn wedi lleihau'n sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o drigolion a'u teuluoedd yn dymuno bod gyda'u hanwyliaid yn ystod eu horiau olaf. Gallant aros yn hirach gyda nhw yn y cartref heb amharu ar ofal y preswylwyr, gan y gall staff y cartref nyrsio ddarparu'r holl ymyriadau a gofal nyrsio.

Roedd rhai o'n Preswylwyr yn byw y tu allan i Benarth ond wedi dewis aros yn y Waverley am eu bod wedi clywed adolygiadau cadarnhaol am y gofal nyrsio da a threfnus a oedd yn cael ei ddarparu. Cyfrannodd tîm gofal iechyd Partneriaeth Gofal Penarth yn sylweddol at gynnal llesiant ein preswylwyr a chefnogi eu teuluoedd hefyd.” Dirprwy-reolwr Canolfan Gofal y Waverley

Gwasanaeth Ychwanegol Gofal yn y Cartref

Mae'r prosiect yn galluogi adolygiadau cynhwysfawr yn y cartref o gleifion eiddil, hŷn, a'r rhai sy'n cael gofal lliniarol. Mae'n cefnogi ac yn ategu ymrwymiad Dwyrain y Fro i ddarparu ymagwedd gadarn ac amlbroffesiynol at ofalu am ei phoblogaeth eiddil a'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ.


Ap Minute! for Wound

Mae Dwyrain y Fro wedi bod yn rhan o brosiect peilot cyffrous sy'n ymwneud â phlatfform rheoli clwyfau cronig Minute! for Wound. Mae'r ap yn helpu i sicrhau bod clwyfau'n cael eu cofnodi mewn modd cyson bob tro, tra bod y dangosfyrddau'n helpu i nodi arwyddion rhybudd yn y llwyth achosion clwyfau. Yr effaith gyffredinol fydd cyflymu amseroedd gwella, optimeiddio'r staffio, a rhyddhau amser i ofalu trwy leihau'r cyfnodau a dreulir yn cadw cofnodion a theithio. Mae gwerthusiad yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



Dwyrain y Fro

Arweinydd y Clwstwr

Dr Chris Matthews

Clinigau Pediatrig Integredig

Mae Dwyrain y Fro bellach yn rhan o'r Clinigau Pediatrig Integredig. Mae'r model newydd yn cynnwys Clinigau Pediatrig Integredig amlddisgyblaethol yn y clwstwr a gynhelir mewn meddygfeydd teulu, gydag is-grwpiau penodol o gleifion yn parhau i gael eu gweld mewn clinigau gofal eilaidd mewn ysbytai.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Ar 26 Hydref, mewn cydweithrediad â Hyb Cydgysylltu Arloesedd Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, cynigiodd Clwstwr Dwyrain y Fro fynediad digynsail i gleifion Dwyrain y Fro at asesiadau a chynghor ar iechyd rhad ac am ddim mewn digwyddiad ffordd iach o fyw a oedd yn canolbwyntio ar y gymuned, a gynhaliwyd ym Mhenarth.

Nod y prosiect oedd gweithredu strategaethau iechyd ataliol a rhoi cynghor ar ffordd iach o fyw i dargedu achos sylfaenol afiechyd cyn iddo ymafael. Cynigiwyd hefyd fynediad uniongyrchol i gleifion at wasanaethau sydd fel arfer yn gofyn am atgyfeiriad gan feddyg teulu, gan gynnwys pwysedd gwaed, colesterol, a sgrinio cyn/diabetes. Gwahoddwyd cleifion i Ganolfan Hamdden Penarth, lle gallent gael mynediad at (a chael eu cofrestru at y dyfodol yn) nifer o fentrau ffordd iach o fyw a gwasanaethau ataliol. Cynigiwyd cyfle i gleifion gael profion pwynt gofal, pwysedd gwaed, HbA1c, a phroffil lipidau, a chafodd y canlyniadau eu rhoi i'w meddyg teulu arferol i weithredu arnynt. Trwy wneud hynny, roeddem yn gobeithio adnabod yn bendant y rhai sydd wedi bod yn byw â diabetes a chyflyrau iechyd cronig eraill a helpu i adennill rhywfaint o'n Hachosion Coll, sef y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwahaniaeth o ran nifer yr achosion rhwng diagnosisu o gyflyrau iechyd cronig cyn ac yn ystod/ar ôl pandemig COVID-19.

Trwy roi'r offer a'r cyfle i'r gymuned wneud dewisiadau iach o ran ffordd o fyw, rydym yn rhoi'r allweddidi iddynt i ddyfodol iachach a mwy cyflawn cyn i afiechyd ddechrau. Roedd y digwyddiad hefyd yn annog cydweithio yn y gymuned, gan ddwyn ynghyd gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gwasanaethau perthynol i iechyd, sefydliadau'r trydydd sector, a busnesau lleol i fynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd fel y'u cynllunwyd gan fodel Labonte a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth trwy sicrhau tegwch mewn gofal iechyd i bawb 18 oed a hŷn sy'n byw yn ardal Clwstwr Dwyrain y Fro.

Aethpwyd i'r afael â'r tair her sylweddol ym maes gofal iechyd: amddifadedd, anghydraddoldeb mewn gofal iechyd, achosion coll, a diabetes math 2. Er bod y digwyddiad yn agored i bawb, gwahoddwyd y rhai anodd eu cyrraedd (y rheiny sy'n byw yn nwy ardal fwyaf difreintiedig Dwyrain y Fro yn ôl mapiau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) trwy lythyrau unigol, ac roedd 18% o bawb a oedd yn bresennol yn perthyn i'r garfan hon. Yn rhan o'r ymgyrch farchnata, targedwyd yn benodol hefyd deuluoedd plant sydd wedi cofrestru mewn ysgol gynradd leol sydd â chyfradd uwch o brydau ysgol am ddim nag ysgolion eraill, a'r rhai sydd wedi bod i ddau o'r banciau bwyd lleol.

Canlyniadau'r arolwg cleifion.

Dyweddodd 100% o'r rhai a lenwodd holiadur adborth (91% o'r rhai a oedd yn bresennol) y byddent yn mynd i ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Y rheswm cyntaf dros fod yn bresennol yn y digwyddiad oedd cael mynediad at y profion clinigol. Dywedodd 74% y byddent yn gwneud newidiadau i'w ffordd o fyw yn seiliedig ar yr archwiliadau iechyd a gawsant.

Rhoddwyd canlyniadau clinigol ar y diwrnod.

Cafodd 76% o'r rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiad brofion clinigol. Canfuwyd bod gan 63% o'r rheiny ganlyniadau annormal, a chanfuwyd bod gan 6% gyflyrau difrifol cudd. Mae apwyntiadau clinig dilynol bellach yn cael eu trefnu ar gyfer y cleifion hynny. Mae'r tîm wedi cael ei dderbyn i'r Academi Lledaeniad a Graddfa ac wedi ymgeisio am Wobr Cynaliadwyedd Arweinwyr Gofal Iechyd ar gyfer y prosiect hwn.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Beth a oedd wedi gweithio'n dda?

Mae yna nifer da o bobl yn bresennol yng nghyfarfodydd y clwstwr, ac mae yna ymgysylltiad a mewnbwn da i'r prosiectau y mae eu hangen i gefnogi ein poblogaeth.

Cyflymodd y Digwyddiad Ffordd Iach o Fyw ein dysgu mewn sawl ffordd, gan gynnwys meithrin perthnasoedd gwaith newydd â'r Hyb Cydgysylltu Arloesedd Rhanbarthol, Llywodraethu Clinigol, a Thimau Llywodraethu Gwybodaeth. Bu i ni hefyd ddatblygu perthnasoedd rhagorol â'r gymuned a busnesau lleol a chawsom ymweliad gan yr AS lleol hyd yn oed.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol?

Mae dod o hyd i ffyrdd o ariannu modelau profedig mewn mannau eraill yn broblem. Mae hyn yn golygu na ellir rhyddhau cronfeydd y clwstwr ar gyfer prosiectau newydd ac arloesol.

Beth nesaf?

Blaenoriaethau'r dyfodol

Mae'r ffactorau risg Iechyd Cyhoeddus cyfredol y gellir eu haddasu fel a ganlyn:

Mae Dwyrain y Fro yn mynd i'r afael â'r rhain trwy ei ddigwyddiadau ffordd iach o fyw.

- Ymgorffori prosesau atgyfeirio systematig i gynyddu nifer yr oedolion sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau Helpa Fi i Stopio o wasanaethau Gofal Sylfaenol (gan ganolbwyntio'n benodol ar ddeintyddiaeth ac optometreg) fel rhan o ofal arferol i fynd i'r afael â chyfraddau smygu.
- Hyrwyddo a chael mynediad at yr hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (gan gynnwys y modiwl e-ddysgu pwysau iach) er mwyn teimlo'n hyderus wrth drafod smygu, pwysau ac imiwneiddio â chleifion a'r cyhoedd.
- Nodi cyfleoedd i ymgorffori a chofnodi sgysiau am bwysau iach yn systematig mewn ymarfer ymhlith gwasanaethau Gofal Sylfaenol i fynd i'r afael â chyfraddau gordewdra.

Cyfraddau imiwneiddio yn ystod plentyndod: Rydym yn ymchwilio i ddatrysiadau ymarferol i gynyddu'r nifer sy'n cael eu brechu.

Bydd hyn hefyd yn cynnwys ymgysylltu â'r timau Imiwneiddio a Chyfathrebu i ddatblygu posteri. Bydd hefyd yn thema yn y digwyddiad ffordd iach o fyw i blant 2025.

Prif flaenoriaethau strategol


Mae'r Clwstwr yn bwriadu cydweithio i gynorthwyo cleifion i aros gartref yn eu cymuned, gyda mynediad at dim gofal sylfaenol profiadol, a gweithio ar y cyd â gwasanaethau cymunedol gofal yr henoed. Yn ystod 2025-26, bydd y Clwstwr yn parhau i ganolbwyntio ar y canlynol:

- Ymyriadau byr ar gyfer y cyflwr cyn-ddiabetes.
- Hybu ffordd iach o fyw a gofal iechyd ataliol.
- Iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant (gan gynnwys niwroamrywiaeth) gan ganolbwyntio ar ffordd iach o fyw a gofal iechyd ataliol (gan gynnwys brechu).
- Cefnogi ein poblogaeth oedrannus ac eiddil trwy greu model eiddilwch amlddisgyblaethol cadarn.

Rydym yn canolbwyntio ar gyflwyno strategaethau gofal iechyd ataliol mewn lleoliad cymunedol seiliedig ar le trwy ddull cydlynol ac amlasiantaethol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



Gorllewin y Fro

Arweinydd y Clwstwr

Dr Evan Sun

Gorllewin y Fro

Pwy ydym ni?

Rydym yn ymdrechu i gefnogi poblogaeth Gorllewin y Fro trwy weithio'n agos gydag Arweinwyr ein Cydweithredfeydd a'r Tîm Iechyd Cyhoeddus i nodi anghenion cleifion a datblygu prosiectau clwstwr o'u cwrmpas.

Yn ogystal ag Arweinydd ein Clwstwr (Dr Evan Sun), mae gennym Arweinwyr y Cydweithredfeydd sy'n cynrychioli Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Deintyddiaeth, Optometreg, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Fferylliaeth, Nyrsio, Iechyd y Cyhoedd, ac Iechyd Meddwl. Mae gennym hefyd gynrychiolwyr y Trydydd Sector a Llais.

Mae gennym Reolwr Datblygu Prosiectau'r Clwstwr i'n cynorthwyo i ddatblygu cynigion a phrosiectau.

Mae'r clwstwr yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn ac yn cynnal gweithdy blynyddol i drafod syniadau a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r Clwstwr hefyd yn ariannu'r swyddi canlynol:

- Mae Fferylllydd y Clwstwr yn galluogi meddygon teulu i ganolbwyntio ar gleifion ag anghenion meddygol cymhleth, ac mae deiliad y swydd hefyd yn cynnal adolygiadau blynyddol o feddyginiaethau. Byddwn yn parhau i ariannu'r swydd nes bod llwybr ariannu cynaliadwy wedi'i nodi.
- Rydym wedi secondio Nyrs Eiddilwch @ 0.60 WTE.
- Rydym wedi secondio gweinyddydd @ 0.20 i gydgyssylltu'r Timau Amlddisgyblaethol a chasglu data ar gyfer y Nyrs Gofal yn y Cartref a'r Nyrs Eiddilwch.

Mae gan Glwstwr Dwyrain y Fro tua 32,000 o gleifion a wasanaethir gan dri phractis sylweddol sy'n gweithio o 7 safle. Mae'r clwstwr yn cwrmpasu ardal ddaearyddol fawr sy'n cynnwys y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Sain Tathan, a'r Rhws. Mae'n ymestyn o Aberogwr yn y gorllewin i Sain Nicolas yn y dwyrain, yr arfordir i'r de, a thraffordd yr M4 yn y gogledd.

Dyma'r ardal ddaearyddol fwyaf o blith y 9 clwstwr. Ar wahân i'r mannau trefol, mae llawer o'r ardaloedd yn wledig. Mae yna rai pocedi o amddifadedd a phoblogaeth gymharol oedrannus. Mae'r nodweddion hyn yn cynrychioli her unigryw wrth ddarparu gofal sylfaenol i'w boblogaeth. Mae disgwyl i'r boblogaeth yn yr ardal ehangu oherwydd datblygiadau tai a phoblogaeth gynyddol o bobl sy'n ceisio lloches.

Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/gwasanaethau cymunedol)

The Gorllewin y Fro Cluster has:

- 3 Practis Meddygon Teulu
- 6 Fferyllfeydd
- 6 Optegydd
- 6 Practis Deintyddol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Gofal yn y Cartref

Mae gan ein poblogaeth gofrestredig gyfran uwch o bobl hŷn na'r cyfartaledd ar gyfer Caerdydd a'r Fro. Ar draws pob clwstwr, rhagwelir y bydd cyfran y bobl 65 oed a hŷn yn cynyddu (disgwylir cynnydd o 27% ymhlith trigolion dros 65 oed yng Nghaerdydd erbyn 2042).

Mae Gofal yn y Cartref yn gyfarfod tîm amlddisgyblaethol, rhithwir, wythnosol lle trafodir cleifion sydd wedi'u cofrestru yng Nghlwtwr Gorllewin y Fro. Y prif nod yw cefnogi cleifion i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn y gymuned a rhoi mesurau ar waith i wella iechyd cleifion a lleihau derbyniadau i'r ysbyty.

Mae'r fenter Gofal yn y Cartref yn caniatáu i gyfathrebu agored rheolaidd ddigwydd rhwng y feddygfa deulu a gwasanaethau cymorth cymunedol (Tîm Adnoddau Cymunedol y Fro), gan ei gwneud yn gynllun effeithiol sydd ar gael yn lleol.

Mae meddyg teulu, nyrsys ardal, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, a ffisiotherapyddion yn rhan o'r tîm amlddisgyblaethol. Gyda'i gilydd, maent yn llunio cynllun ar gyfer gofal y claf.

Mae'r meini prawf atgyfeirio ar gyfer Gofal yn y Cartref yn cynnwys un neu ragor o'r canlynol:

- 75 oed neu hŷn
- Yn gaeth i'r tŷ
- Wedi cael diagnosis o ddementia
- Yn cymryd 7 meddyginiaeth neu ragor
- Yn meddu ar focs dosette

Derbyn i'r Ysbyty

Mae'r fenter Gofal yn y Cartref wedi helpu i atal cleifion rhag cael eu derbyn i ofal eilaidd. Er enghraifft, o blith 62 o gleifion ym Mhractis Teulu Gorllewin y Fro, dim ond 3% a gafodd eu derbyn i'r ysbyty cyn pen pythefnos ar ôl cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol, a chafodd 3% ychwanegol eu derbyn cyn pen chwe wythnos. Mae hyn yn awgrymu bod y mesurau a weithredir gan y Tîm Amlddisgyblaethol, er enghraifft, dechrau neu gynyddu pecyn gofal claf neu drefnu asesiad therapi galwedigaethol, yn lleihau nifer y derbyniadau cymdeithasol i'r ysbyty a derbyniadau meddygol am resymau megis cwmpiaadau. Mae hyn o fudd i wasanaethau gofal eilaidd a'r claf.

Gofal y Tu Allan i Oriau

Mae'r fenter hefyd wedi lleihau lefel cyswllt y cleifion â'r gwasanaethau y tu allan i oriau, gan mai dim ond 13% (data gan Bractis Teulu Gorllewin y Fro) o gleifion a gysylltodd â'r gwasanaethau hynny cyn pen chwe wythnos ar ôl cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol. Mae hyn yn awgrymu bod cleifion yn teimlo'n fwy diogel gartref gan nad oes arnynt angen unrhyw ymyriadau y tu allan i oriau gwaith pan fo llai o gymorth ar gael.

Straeon am Gleifion Anhysbys:

Claf 1:

- Claf 1 – menyw 84 oed a atgyfeiriwyd i'r cynllun Gofal yn y Cartref am ei bod yn profi llai o symudedd, nosweithiau aflonydd, ac anemia. Roedd gan y claf y galluedd ac roedd yn gwrthod ymchwiliadau pellach ac yn gwrthod cael ei derbyn i'r ysbyty. Y gofalwr dan straen eithafol. Y claf mewn perygl o gwmpo oherwydd symudedd cyfyngedig, eiddilwch, ac anemia.
- Ar ôl yr asesiad Gofal yn y Cartref, cwblhawyd asesiad o'r risg o gwmpo, a chafodd y claf sawl sesiwn gyda ffisiotherapydd i gynorthwyo ei symudedd. Rhoddwyd pecyn gofal ar waith i helpu'r gofalwr. Osgowyd derbyn y claf i'r ysbyty yn unol â'i dymuniadau. Ers hynny, nid oes unrhyw gwmpiaadau pellach wedi bod, ac mae'r gofalwr dan lai o straen.

Claf 2:

- Claf 2 – menyw 86 oed a atgyfeiriwyd i'r cynllun Gofal yn y Cartref yn sgil dryswch cynyddol a dementia. Roedd y claf yn dal i yrru ac wedi methu rhai apwyntiadau.
- Yn ystod cyfarfod Gofal yn y Cartref y Tîm Amlddisgyblaethol cymerodd y tîm cyfan ran a chytuno bod angen i'r claf roi'r gorau i yrru, rhoddwyd pecyn gofal ar waith, ac roedd y nyrsys ardal yn ymwneud yn helaeth â'r claf. Atgyfeiriwyd y claf at y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd. Ers hynny, mae'r claf wedi rhoi'r gorau i yrru, mae wedi methu llai o apwyntiadau, ac mae llygad barcud yn cael ei gadw ar gof y claf.

Gwaith ymchwiliol – y boblogaeth o bobl sy'n ceisio lloches

Mae gan y grŵp hwn o gleifion agored i niwed anghenion unigryw, ac yn aml byddant yn cyrraedd derbynfeydd meddygfeydd yn annisgwyl ac yn wynebu rhwystrau o ran iaith. Yn aml, nid oes ganddynt wybodaeth na dealltwriaeth mewn perthynas â sut i gael mynediad at wasanaethau meddyg teulu/y GIG mewn modd priodol.

Gall rhai ymgynghoriadau gymryd llawer o amser, ac yn aml mae iddynt heriau'n ymwneud â llinellau iaith, sy'n ychwanegu at senario sydd eisoes yn heriol iawn i bractisau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)



Gorllewin y Fro

Arweinydd y Clwstwr

Dr Evan Sun

Cawsom drafodaethau â'r Practisau Meddygon Teulu a Thîm Lloches Bro Morgannwg, a arweiniodd at y camau gweithredu cadarnhaol canlynol:

1. Cyhoeddi taflenni mewn Pashtu, Wcreineg, a Dari (a nodwyd fel y prif ieithoedd a ddefnyddir gan y garfan hon o gleifion). Dylai'r taflenni ategu na allwch fynd i'r feddygfa heb drefnu, a disgwyl cael eich gweld, a bod yn rhaid i chi fod yn brydlon ar gyfer unrhyw apwyntiad a drefnir, neu ni fyddwch yn cael eich gweld.
2. Cynigiodd tîm Bro Morgannwg gysylltu â'r gweithwyr cymorth os yw'r problemau'n ymwneud â'r un cleifion/teuluoedd. Bu iddynt hefyd gynghori meddygfeydd i egluro eu bod am helpu ond na allant ganiatáu iddynt gael eu gweld os byddant yn dod i'r feddygfa heb apwyntiad, gan fod hynny'n gosod cynsail.
3. Awgrymodd tîm Bro Morgannwg y dylai staff y dderbynfa ddefnyddio Google Translate os na allant gael gafael ar y llinell iaith.

Cynllun Peilot Clinigau Pesari Canol y Fro

Mae Clwstwr Canol y Fro wedi sicrhau bod y clinigau pesari yn agored i'n clwstwr tan ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r gobaith o gyflawni strategaeth ymadael gyda chyllid amgen.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Beth a oedd wedi gweithio'n dda?

Rydym yn falch fod Arweinwyr pob un o'r Cydweithredfeydd yn eu lle, ac yn ymrwymo i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y clwstwr, i ymgysylltu, ac i gydweithio mewn modd effeithiol.

Mae gennym gynrychiolaeth o'r Trydydd Sector a Llais yng Nghyfarfodydd y Clwstwr, sy'n denu nifer da o bobl.

Mae'r Nyrs Eiddilwch sydd newydd ei phenodi yn swydd y mae angen dybryd amdani yng Ngorllewin y Fro. Ardal Gorllewin y Fro sydd â'r ddemograffig uchaf o ran pobl hŷn ledled Caerdydd a'r Fro. O ganlyniad, mae gennym gyfran uwch o gleifion sy'n byw ag Eiddilwch o gymharu ag ardaloedd clystyrau eraill. Mae gennym hefyd ganran uwch o gleifion sy'n byw â chlefyd cronig. O ganlyniad i'r hyn a grybwyllir uchod, mae aelodau ein cydweithredfeydd yn ei chael yn anodd diwallu anghenion y garfan gymhleth hon. Sylweddolir felly, er mwyn gwasanaethu'r boblogaeth hon hyd eithaf ein gallu, fod yn rhaid dyrannu adnoddau/ystyriaethau ychwanegol.

Rydym am ddod yn rhagorol wrth gasglu data a gwerthuso ein prosiectau yn y gobaith o brif ffrydio'r cyllid. Rydym wedi penodi gweinyddydd rhan-amser i gefnogi'r gwaith o gasglu data yn ogystal â phrosesau ein tîm amlddisgyblaethol.

Beth y gellid ei wneud yn wahanol?

Rhai o'n heriau:

Mae dod o hyd i ffyrdd o ariannu modelau profedig mewn mannau eraill yn broblem. Mae hyn yn golygu na ellir rhyddhau cronfeydd y clwstwr ar gyfer prosiectau newydd ac arloesol. Heb allu rhyddhau cyllid y clwstwr ar gyfer gwasanaethau profedig a hanfodol megis y prosiect Gofal yn y Cartref/ Fferyllydd Clwstwr, ychydig iawn o gyfle sydd i ddatblygu prosiectau newydd.

Cynyddu capasiti meddygon a nyrsys iddynt gael yr amser i ddelio â chleifion cymhleth a'u rheoli mewn modd cynhwysfawr.

Prosesau recriwtio yn cael eu hatal a salwch hirdymor ymhlith aelodau'r Tîm Nyrsio Ardal.

Mae nifer y Nyrsys Deintyddol sydd wedi'u rhestru ar gofrestr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi gostwng yn sylweddol ers y pandemig, ac mae practisau'r GIG yn brin o staff.

Beth nesaf?

Blaenoriaethau'r dyfodol

Mae'r ffactorau risg Iechyd Cyhoeddus cyfredol y gellir eu haddasu fel a ganlyn:

Mae Gorllewin y Fro yn gobeithio mynd i'r afael â rhai o'r rhain trwy gynnal digwyddiad ffordd iach o fyw (yn ddibynnol ar gyllid).

Ymgorffori prosesau atgyfeirio systematig i gynyddu nifer yr oedolion sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau Helpa Fi i Stopio o wasanaethau Gofal Sylfaenol (gan ganolbwyntio'n benodol ar ddeintyddiaeth ac optometreg) fel rhan o ofal rheolaidd i fynd i'r afael â chyfraddau smygu.

Hyrwyddo a chael mynediad at yr hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (gan gynnwys y modiwl e-ddysgu pwysau iach) er mwyn teimlo'n hyderus wrth drafod smygu, pwysau ac imiwneiddio â chleifion a'r cyhoedd.

Nodi cyfleoedd i ymgorffori a chofnodi sgysiaau am bwysau iach yn systematig mewn ymarfer ymhlith gwasanaethau Gofal Sylfaenol i fynd i'r afael â chyfraddau gordewdra.

Cyfraddau imiwneiddio yn ystod plentyndod.

Dywedodd Cydgysylltwyr Imiwneiddio BIP yn ddiweddar eu bod wedi'u plesio gan y nifer sy'n cael eu brechu yng Ngorllewin y Fro, sydd uwchlaw 95% yn y rhan fwyaf o ardaloedd.

[Iechyd Meddwl a Niwroamrywiaeth ymhlith Plant](#)

Mentrau i gefnogi'r garfan hon yn 2025.

Nid yw optometryddion yn gymwys i ddarparu gwasanaethau ychwanegol megis IPOS a golwg gwan, ac mae'r gwasanaethau newydd yn destun diwygio contractau optometreg.

Nid oes yna ddarpariaeth Therapi Galwedigaethol yn y clwstwr hwn ar hyn o bryd.

Deintyddol – gyda chontract newydd y GIG, mae slotiau'r GIG ar gael ar gyfer argyfyngau bron bob dydd, ond nid yw pob un ohonynt yn cael eu llenwi.

Mae yna bryderon y bydd symud i Ysbyty'r Barri yn achosi problemau megis lleoliad cleifion a'r capasiti ar gyfer apwyntiadau yn y practisau.

Diffyg lle clinigol a gofod swyddfa; fodd bynnag, bydd asedau cymunedol yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn nesaf (2025).

Signal rhwydwaith gwael. Mae yna risg i weithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain gan fod llawer o ardaloedd ynysig/gwledig.

Cysylltu â'r Tîm Iechyd Cyhoeddus i hybu iechyd meddwl ac emosiynol ymhlith plant ysgol. Mae gwasanaeth newydd o'r enw 'The Hangout' hefyd wedi'i leoli yn y Barri. Mae'n ofod llesiant, galw heibio, rhad ac am ddim i bobl ifanc 11-18 oed. Gall ymarferwyr y Fro hefyd wneud atgyfeiriadau i gael cymorth un i un.

[Gwelliannau i gyfathrebu a llwybrau](#)

Cysylltu â 'materion llesiant' i wella presgripsiynu cymdeithasol a phrosesau cyfeirio. Mae'r clwstwr wedi gofyn am un rhif ffôn canolog (mae Rheolwr Ardal y Fro am weithredu hyn ar unwaith).

Prif flaenoriaethau strategol

Mae'r Clwstwr yn parhau i weithio tuag at ei weledigaeth gyffredin o gyflawni cynlluniau lleol i wella gwasanaethau a chynaliadwyedd gofal sylfaenol. Yn ystod 2025-26, bydd y Clwstwr yn:

- Gweithio gyda'r tîm Diogel yn y Cartref i ymgorffori Diogel yn y Cartref a Gofal yn y Cartref, gan gynnwys swydd Nyrs Eiddilwch a swydd weinyddol i alluogi cyfathrebu di-dor. Edrych ar y modd y gallai'r clwstwr helpu i wella gwelededd Diogel yn y Cartref ymhlith y practisau.
- Parhau i drafod a chyfathrebu â'r gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol gan edrych ar rolau hybiau amlddisgyblaethol a Fferyllwyr Cymunedol y Clwstwr, lle gellir integreiddio themâu neu arferion gorau, a chreu achos, gobeithio, dros gyllid cynaliadwy yn y dyfodol.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)

Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr

Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Merthyr Tudful

Gogledd Cynon

Rhondda

De Cynon

Taff Ely



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Julie Denley
Cyfarwyddwr Iechyd Sylfaenol,
Cymunedol a Meddwl

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r gwaith a wnaed gan yr wyth clwstwr sy'n ffurfio ardal gyfunol BIP Cwm Taf Morgannwg, ac sy'n cael eu harddangos ar y tudalennau canlynol.

Ar ôl ymgorffori ardal Pen-y-bont ar Ogwr o fewn ffiniau Cwm Taf yn 2019, mae gan Gwm Taf Morgannwg boblogaeth o 446,514 (Stats Cymru 2023), gan felly gynyddu nifer y clystyrau o bump i wyth.

Mae gwaith clwstwr ledled ardal gyfunol Cwm Taf Morgannwg yn dibynnu ar berthnasoedd gwaith da, ac rydym yn falch o'r cysylltiad agos sy'n bodoli rhwng y Bwrdd Iechyd a'n partneriaid ym maes Gofal Sylfaenol. Mae Rheolwyr Datblygu Clystyrau yn gweithio ar y cyd ag Arweinwyr Clinigol a Rheolaethol ein Clystyrau i gyflawni amcanion y clystyrau, ac mae yna nifer o enghreifftiau o waith arloesol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ledled ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae iechyd gwael ac amddifadedd yn gyffredin ymhlith cyfran fawr o'n poblogaeth o gleifion, ac mae addysgu cleifion a mynd i'r afael ag arferion diwylliannol ac ymddygiad presennol cleifion o ran mynediad yn flaenoriaeth ar draws y clystyrau.



Yn nodweddiadol, mae proffil y cleifion ym mhoblogaeth Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys y canlynol:

- Nododd 12% o'r oedolion yng Nghwm Taf eu bod yn yfed mwy na'r lefel uchaf a gynghorir, sef 14 uned yr wythnos, o gymharu ag 14% yng Nghymru gyfan.
- Nododd 15% o'r oedolion yng Nghwm Taf eu bod yn smygu ar hyn o bryd, o gymharu â 13% yng Nghymru.
- Nododd 52% o'r oedolion yng Nghwm Taf eu bod yn egniol am o leiaf 150 munud yn ystod yr wythnos, o gymharu â 56% ar lefel Cymru gyfan.
- Nododd 35% o'r oedolion yng Nghwm Taf eu bod yn egniol am lai na 30 munud yn ystod yr wythnos, o gymharu â 30% ar lefel Cymru gyfan.
- Roedd 68% o'r oedolion yng Nghwm Taf yn cael eu cyfrif dros bwysau neu'n ordew; y cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan oedd 62%.
- Roedd 25% o'r oedolion yng Nghwm Taf wedi bwyta pump neu ragor o ddogneau o ffrwythau neu lysiau ar y diwrnod cyn dyddiad yr arolwg, o gymharu â 29% ar gyfer Cymru gyfan.

Mae'r Clystyrau yn CTM yn ffocysu ar gefnogi ein gweithwyr proffesiynol ym maes gofal sylfaenol ac yn y gymuned ochr yn ochr â'n partneriaid yn yr awdurdodau lleol a'r trydydd sector, gan sicrhau bod cymaint â phosibl o ofal yn cael ei ddarparu mor agos â phosibl i'r cartref, a bod ysbytai cyffredinol dosbarth yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgarwch aciwt ac arbenigol yn unig.

Ar y tudalennau nesaf, byddwch yn gweld enghreifftiau o'r dulliau gwahanol a ddefnyddiwyd i ymdrin â'r materion sy'n gyffredin i bob un o'r Clystyrau yn ardal y Bwrdd Iechyd ac sydd wedi dechrau mynd i'r afael â nifer o'r problemau iechyd a llesiant sy'n effeithio ar ein poblogaeth o gleifion.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Arweinwyr y Clystyrau neu â'r Rheolwyr Datblygu, y mae eu manylion i'w gweld ar y dudalen berthnasol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)



GCTG Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf

Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr

Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Merthyr Tudful

Gogledd Cynon

Rhondda

De Cynon

Taff Ely

Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr (GCTG) Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf

Pwy ydym ni?

Yn BIPCTM, mae yna dri Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr, a'r rheiny ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi alinio ffiniau ei leoliadau i gyd-ffinio â rhai'r Awdurdodau Lleol a phartneriaid y trydydd sector.

Wrth ddatblygu'r Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr yn BIPCTM, penderfynwyd defnyddio fforymau a oedd yn bod le byddai partneriaid yn dod ynghyd. Bwrdd Partneriaeth ar y Cyd Pen-y-bont ar Ogwr oedd y model a fabwysiadwyd yn y ddau leoliad arall.

Mae BIPCTM wedi comisiynu tri gweithdy i ddod ag aelodau'r Byrddau Partneriaeth ar y Cyd at ei gilydd. Yn y gweithdai, cyflwynwyd data ar iechyd y cyhoedd i gynorthwyo'r Byrddau Partneriaeth ar y Cyd i bennu eu blaenoriaethau.

Yn ystod y gweithdai, penderfynwyd, er mwyn i'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr fod yn weithredol, y byddai'r aelodaeth graidd a ddisgrifir yn y Cylch Gorchwyl cenedlaethol yn cwrdd, ac y byddai yna 'ddarlennyddiaeth' ehangach a fyddai'n cael copïau o'r papurau.

Byddai'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr wedyn yn cyfethol arbenigwyr pwnc ychwanegol yn ddibynnol ar y blaenoriaethau a nodwyd: **Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr**



Aeth pob Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr ati i ddatblygu 'Cynllun ar Dudalen' yn sgil y gweithdai yn 2023-24, ac mae'r rhain wedi cael eu mireinio ymhellach mewn gweithdai dilynol ym mhob Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr.

Cyd-fwrdd Partneriaeth Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Cyd-fwrdd Partneriaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cwmpasu ardaloedd y tri chlwtwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sef y Dwyrain, y Gogledd a'r Gorllewin.

Prif flaenoriaethau strategol

Aeth Cyd-fwrdd Partneriaeth Pen-y-bont ar Ogwr ati i ddiweddarau ei gynllun ar gyfer 2023-24 mewn gweithdy a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2024, gan bennu bod y meysydd canlynol yn flaenoriaethau iddo. Roedd hyn hefyd yn unol â chynllun pum mlynedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cynllun Ardal Rhanbarthol – CTM

Mae'r meysydd allweddol y mae'r Cyd-fwrdd Partneriaeth am ganolbwyntio arnynt fel a ganlyn:

- Eiddilwch
- Iechyd Meddwl
- Plant, pobl ifanc a theuluoedd

Aeth ati i nodi'r ffrydiau gwaith i gyflawni ei flaenoriaethau'n unol â nhw, ac mae is-grwpiau'n cael eu sefydlu i symud y rhain ymlaen:

- Ailgynllunio llwybrau atgyfeirio – dim drws anghywir
- Ailgynllunio'r gweithlu llesiant – cydlynwyr, presgripsiynwyr cymdeithasol, llyw-wyr gofal, cysylltwyr cymunedol
- Llywodraethu
- Strategaeth cyflawni

Prosiect Anghydraddoldebau Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr

Mae un o'r is-grwpiau'n edrych yn benodol ar y gwaith a wnaed yng Nghwm Llynfi yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn symud ymlaen ag argymhellion Grŵp Llywio'r Prosiect. Roedd y prosiect hwn yn gydweithrediad rhwng Iechyd y Cyhoedd, Gofal Sylfaenol, a Chlwtwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, ac roedd y dulliau a nodwyd gan y Grŵp Llywio yn cynnwys:

- Adolygu'r asesiadau o anghenion presennol (e.e. Asesiad o Anghenion y Boblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer CTM; asesiadau o anghenion blaenorol ar gyfer Cwm Llynfi) a nodi materion sydd o bwys penodol i Ogledd Pen-y-bont ar Ogwr.
- Dadansoddi data segmentu ac amddifadedd o ardal y Clwtwr a Phen-y-bont ar Ogwr i nodi anghydraddoldebau penodol o ran iechyd yn y Clwtwr ac o gymharu ag ardaloedd eraill.
- Defnyddio technegau mapio systemau gyda gweithwyr proffesiynol a grwpiau cleifion i ddeall y modd y mae anghydraddoldebau o ran y penderfynyddion ehangach yn effeithio ar iechyd

yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr a'r cysylltiad rhyngddynt.

- Ceisio mapio gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau'r trydydd sector yn ardaloedd y Clwtwr i nodi asedau, bylchau ac adnoddau y gellir eu datblygu ymhellach.

Canfyddiadau

Nid oes gan boblogaeth Caerau fynediad lleol at wasanaethau cymdeithasol a chymunedol allweddol sy'n ofynnol ar gyfer ei hiechyd a'i llesiant.

Mae yna gyfleoedd i gynnwys cyngor ar iechyd ac atgyfeiriadau at ryngweithiadau cyfredol â'r sector iechyd a'r gymuned.

Mae yna ddulliau arloesol yn bod mewn clystyrau eraill i fynd i'r afael ag iechyd a'r penderfynyddion ehangach ym maes gofal sylfaenol a allai fod yn berthnasol i Ogledd Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Cydgysylltwyr Cymunedol a'r Llyw-wyr Cymunedol Lleol yn adnodd gwerthfawr nad yw, o bosibl, yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol.

Mae cludiant yn parhau i fod yn broblem o ran cael gofal iechyd ond hefyd o ran cysylltu â phenderfynyddion ehangach eraill megis addysg a chyflogaeth.

Gall y broses o gyllido asedau neu sefydliadau cymunedol fod yn dameidiog a heb ei chydlynu'n dda, a gall yr asedau gael eu dosbarthu ar sail daearyddiaeth neu faint y boblogaeth yn hytrach nag amddifadedd.

Camau nesaf

Mae is-grŵp y Cyd-fwrdd Partneriaeth yn symud ymlaen â chanfyddiadau adroddiad Bwrdd Llywio Anghydraddoldebau Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, a bydd yn adrodd i'r Cyd-fwrdd Partneriaeth.

Cyd-fwrdd Partneriaeth Merthyr Tudful

Mae Cyd-fwrdd Partneriaeth Merthyr Tudful yn cwmpasu un clwtwr, sy'n gydffiniol â'r Cyd-fwrdd Partneriaeth.

Prif flaenoriaethau strategol

Roedd 'Cynllun ar Dudalen' Merthyr Tudful ar gyfer 2023-24 yn nodi bod y meysydd canlynol yn flaenoriaeth i'r Cyd-fwrdd Partneriaeth. Roedd hyn hefyd yn cyd-fynd â chynllun pum mlynedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r meysydd allweddol y mae'r Cyd-fwrdd Partneriaeth am ganolbwyntio arnynt fel a ganlyn:

- Plant, pobl ifanc a theuluoedd iach
- Oedolion iach o oedran gweithio
- Oedolion o oedran gweithio sydd â chyflyrau hirdymor.



**Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm
Taf Morgannwg
(BIPCTM)**



**GCTG Pen-y-bont
ar Ogwr, Merthyr
Tudful a Rhondda
Cynon Taf**

Cyd-fwrdd Partneriaeth Rhondda Cynon Taf

Mae Cyd-fwrdd Partneriaeth Rhondda Cynon Taf yn cwmpasu pedair ardal clwstwr, sef Gogledd Cynon, De Cynon, Rhondda, a Thaf Elái.

Prif flaenoriaethau strategol

Aeth Cyd-fwrdd Partneriaeth Rhondda Cynon Taf ati i ddiweddaru ei gynllun ar gyfer 2023-24 mewn gweithdy a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2024, gan bennu bod y meysydd canlynol yn flaenoriaethau iddo. Roedd hyn hefyd yn cyd-fynd â chynllun pum mlynedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r meysydd allweddol y mae'r Cyd-fwrdd Partneriaeth am ganolbwyntio arnynt fel a ganlyn:

- Eiddilwch
- Iechyd Meddwl
- Ffordd o fyw
 - Cefnogi teuluoedd i wneud penderfyniadau iach
- Gofalwyr
- Cymunedau Cydnerth
 - Coladu'r llais
 - Esblygu rhwydweithiau cymunedol

**Beth yw cyflawniadau allweddol
y Cyd-fyrddau Partneriaeth?**

Mae gan bob un o'r lleoliadau Gyd-fwrdd Partneriaeth ar waith ac iddo gyd-gadeirydd o blith arweinwyr Gweithredol o'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd.

Beth sydd wedi gweithio'n dda?

Bu i nifer da o'r partneriaid ymuno, ac roedd yna barodrwydd i gydweithio ar y blaenoriaethau; fodd bynnag mae pob un ar lefel wahanol o aeddfedrwydd.

Bu'r gwaith prosiect yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn gadarnhaol iawn, a'r gobaith yw cyflwyno'r dull a ddefnyddir mewn Clystyrau/Cyd-fyrddau Partneriaeth eraill.

Beth nesaf?

Mae BIPCTM yn cynnal adolygiad o rôl a swyddogaeth bresennol y Clystyrau a'r Cyd-fyrddau Partneriaeth, ac yn ystyried sut y gallant ddod yn rhan fwy annatod o'r Bwrdd Trawsnewid Gofal Sylfaenol a'r Gymuned ehangach sydd wedi'i sefydlu ac sy'n gyson â'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol Aciwt, ac yn fodd o lywio'r Bwrdd hwnnw.

Yn rhan o hyn, bydd yr adolygiad yn cynnwys llywodraethu, gwneud penderfyniadau, ac adrodd.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)



Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

Arweinydd y Clwstwr

Dr Ian O'Connor
Ian.O'connor@wales.nhs.uk

David Blower
David.Blower@wales.nhs.uk

Rheolwr Datblygu y Clwstwr

Joanne Halse
Joanne.Halse2@wales.nhs.uk

Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn un o dri chlwtwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae iddo bum practis o fewn ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Gan mai dyma'r mwyaf o'r tri chlwtwr, mae'n gwasanaethu poblogaeth o tua 83,689, yn bennaf mewn amgylchedd trefol gyda rhai ardaloedd o amddifadedd. Mae'r practisau yn y clwtwr yn cynnwys:

- New Surgery Pencoed
- Meddygfa Oak Tree
- Practis Grŵp Pen-y-bont ar Ogwr
- Canolfan Feddygol Pencoed
- Meddygfa Riversdale

Mae pob un o'r pum practis yn bractisau hyfforddi ac mae ystâd y clwtwr yn cynnwys 5 prif feddygfa a dwy feddygfa gangen. Mae gan y clwtwr hefyd y canlynol i ddarparu mynediad a gwasanaethau i'w boblogaeth o gleifion:

- 5 Practis Meddygon Teulu
- 7 Optegydd
- 6 Chartref Preswyl
- 12 o Fferyllfeydd Cymunedol
- 9 Practis Deintyddol
- 3 Chartref Nyrsio

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf – Mewn cydweithrediad â thîm Ffisiotherapi y Bwrdd Iechyd, mae'r clwtwr wedi comisiynu gwasanaeth Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf (FCP) am 12 mis arall. Darparu apwyntiadau FCP i boblogaeth y clwtwr o bob un o'r 5 practis meddyg teulu gyda'r nod o wella mynediad a chanlyniadau i gleifion, gan osgoi'r angen i gleifion deithio i safleoedd ysbytai ar gyfer asesiad cychwynnol a darparu'r gofal cywir gan y person cywir ar yr amser cywir. Mae'n darparu dros 370 o apwyntiadau'r mis ar gyfer ein practisau.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r clwtwr yn rhedeg system archebu a rennir sy'n caniatáu i'r practisau roi cyfle i gleifion gael mynediad at yr apwyntiad cynharaf sydd ar gael, boed hynny yn eu practis cofrestredig neu yn un o'r 4 practis arall os yw'r claf yn fodlon. Mae yna hefyd elfen o weinyddiaeth a ddarperir gan brif bractis i gefnogi.

Arloesedd Digidol – Mae treialon yn cael eu cynnal gan bractisau yn y clwtwr i benderfynu pa blatfform digidol fyddai'n darparu'r cyfleoedd gorau i wella cyfathrebu a mynediad at wasanaethau a gwybodaeth i'w poblogaeth. Mae'r feddalwedd yn cynnwys E-Consult ac AccuRx. Mae'r ddau becyn yn blatfform ymgynghori a brysennu ar-lein sy'n darparu mynediad ar gyfer ceisiadau meddygol neu weinyddol, ac mae hefyd yn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaethau ymgynghori'n ddigidol.

Rydym wedi parhau i beilota dadansoddeg Gofal Sylfaenol a'n Post Cynorthwydd Digidol. Mae'r gwerthusiad o'r ddau i fod i gael ei gynnal ddiwedd mis Mawrth. Mae'r clwtwr hefyd wedi parhau i gefnogi'r wefan hunangymorth a sefydlwyd yn wreiddiol ar gyfer hyrwyddo, ac mae holl aelodau'r clwtwr bellach yn gallu lanlwytho gwybodaeth mewn perthynas â'u meysydd gwasanaeth.



Prosiect Methiant y Galon – Buddsoddodd y Clwtwr yn y prosiect hwn oherwydd fel arfer, bydd yn cymryd 8-12 wythnos (4-8 apwyntiad) i glaf â methiant y galon gychwyn meddyginiaethau ac i'r dosau gael eu hoptimeiddio'n llawn. Mae cleifion y mae angen eu hoptimeiddio yn cael eu hadnabod trwy ddulliau TYNNU (o archwiliadau o gofrestrau methiant y galon ym maes gofal sylfaenol) a dulliau GWTHIO (lle mae atgyfeiriadau'n cael eu cymryd/derbyn gan y tîm methiant y galon lleol ar gyfer cleifion sydd newydd gael diagnosis). Cardiologydd Ymgynghorol yn yr ysbyty lleol yw'r arweinydd clinigol/goruchwyliwr, gan ddarparu mynediad hael at gyngor a chymorth arbenigol trwy gydol y broses.

Mae'r model a fabwysiadwyd gan y clwtwr wedi sicrhau bod y fferyllwyr a gyflogir gan y practisau yn cael eu hyfforddi a'u defnyddio i ddarparu clinigau optimeiddio methiant y galon. Mae'r prosiect hwn yn gwella canlyniadau cardiofasgwlaidd i gleifion â methiant y galon, gan leihau derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i fethiant y galon, a lleihau achosion o anghydadferiad (decompensation) a digwyddiadau cardiofasgwlaidd. Lleihau cyfraddau marwolaethau cyffredinol cleifion â methiant y galon, a gwella eu symptomau a'u gallu gweithredol. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r broses o ddatblygu cryfder y Tîm Amlddisgyblaethol ym maes gofal sylfaenol, ac mae yna gyfathrebu a chydweithio gwell â gwasanaethau methiant y galon ym maes gofal eilaidd a gofal mwy cydgysylltiedig. Mae hefyd yn darparu mynediad gwell i gleifion at ofal arbenigol ar gyfer optimeiddio meddyginiaethau yn agosach i'w cartrefi.

Prosiect Cartrefi Iach – Mae'r Clwtwr wedi parhau i ariannu'r prosiect Cartrefi Iach am flwyddyn arall. Trwy gydweithio â Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r gwasanaeth hwn yn darparu Gweithiwr Achos a Therapydd Galwedigaethol pwrpasol sy'n gysylltiedig â meddygfeydd teulu yng Nghlwtwr y Dwyrain. Darparu model gofal rhagweithiol, amgen sy'n canolbwyntio ar ymyriad cynnar ac atal. Mae'r Gweithiwr Achos a'r Therapydd Galwedigaethol wedi cydweithio yn ystod y prosiect hwn i ddarparu gwasanaeth holistaidd sy'n canolbwyntio ar y cartref i gleifion, sy'n cynnig atebion ymarferol ar gyfer amgylchedd y cartref ac yn darparu cymhorthion ac addasiadau, yn ogystal â chynghor a chymorth ymarferol i'w helpu i fyw'n fwy cyfforddus, diogel ac annibynnol gartref.

Presgripsiynu – Yn ogystal, mae'r clwtwr yn gweithio ar y cyd â'r tîm Rheoli Meddyginiaethau i ddarparu hyb archebu presgripsiynau. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu math arall o fynediad i gleifion ac yn lleddfu pwysau ym maes gofal sylfaenol, trwy gyfeirio cleifion at ffynhonnell gyswllt amgen. Helpu i ryddhau amser gwerthfawr i staff y dderbynfa ddelio â galwadau eraill. Bydd y ganolfan archebu presgripsiynau hefyd yn cefnogi gweithgarwch arbed costau mewn perthynas â gwastraff meddyginiaethau a presgripsiynu mwy costeffeithiol.

Tîm Fferyllol y Clwtwr – Mae'r clwtwr yn parhau i fuddsoddi yn nhîm fferyllol sefydledig y clwtwr, sy'n cynnwys un fferylllydd band 8a a dau fferylllydd band 7.

Mae'r rolau hyn wedi cynyddu capasiti'r fferyllwyr, ac wedi hybu datblygiad y gwasanaethau fferyllol a'r agenda rheoli meddyginiaethau integredig. Trwy sicrhau presgripsiynu gofal sylfaenol diogel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gosteffeithiol ym mhactisau meddygon teulu y clwtwr.

Prosiect FENO – Mae'r clwtwr wedi buddsoddi mewn cyfarpar a fydd yn fodd i fonitro pobl ag asthma, a hynny er mwyn cynorthwyo'r broses o wneud diagnosis o asthma, prosiectau cynlluniau presgripsiynu fferyllwyr, ac i gwtogi ar bresgripsiynu corticosteroidau anadladwy (ICS). Mae defnyddio'r cyfarpar hwn yn cynorthwyo o ran gwneud diagnosis cywir o asthma ac yn cefnogi cynlluniau triniaeth, gan gynnwys lleihau dosau ICS, lleihau'r risg o sgileffeithiau niweidiol, a lleihau presgripsiynu ICS yn gyffredinol, a chynorthwyo hefyd i wella cydymffurfedd cleifion o ran anadlyddion.

Technegwyr Therapi Cymunedol – Mae'r Technegwyr Therapi Cymunedol yn cynnal amrywiaeth o asesiadau ac ymyriadau, gan ddarparu gofal adsefydlu ar gyfer pobl gymhleth yn y gymuned y mae arnynt angen dull amlasiantaeth. Maent hefyd yn cefnogi gydag ymarfer ymolchi a gwisgo, paratoi prydau bwyd, symudedd yn yr awyr agored i gael mynediad i'r gymuned, ac ymarfer corff o fewn amgylchedd y cartref. Mae Technegwyr Therapi hefyd yn asesu ac yn darparu cymhorthion symudedd a chyfarpar cynorthwyol. Mae hyn i gyd yn galluogi'r cleifion i fod yn fwy annibynnol o ran eu tasgau bob dydd, i reoli eu cyflyrau hirdymor, ac i ddod yn llai dibynnol ar wasanaethau eraill. Yn sgil gwerthuso'r prosiect y farn oedd, er bod yna fanteision iddo, y dylai'r tîm integredig ddarparu'r cyllid ar ei gyfer os oedd i barhau ar ôl cwblhau'r contract tymor penodol. Yn dilyn y broses werthuso ac adleoli, mae deiliad y swydd wedi sicrhau swydd yn y tîm integredig.



**Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm
Taf Morgannwg
(BIPCTM)**



**Dwyrain Pen-y-bont
ar Ogwr**

Arweinydd y Clwstwr

Dr Ian O'Connor
Ian.O'connor@wales.nhs.uk

David Blower
David.Blower@wales.nhs.uk

**Rheolwr Datblygu
y Clwstwr**

Joanne Halse
Joanne.Halse2@wales.nhs.uk

Technegydd Fferyllfa Gymunedol - Mae'r Technegydd Fferyllfa yn gweithio gyda Meddygfeydd Teulu; Tîm Rhwydwaith y Clwstwr Integredig a staff Fferyllol yn gweithio ac yn cefnogi cydweithio ar draws ôl troed Rhwydwaith y Dwyrain. Mae'r prosiect yn cefnogi'r tîm integredig i ddarparu cymorth ac addysg i gleifion i reoli eu meddyginiaethau mewn modd effeithiol a doeth, a hynny mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill. Cyfrannu at wella canlyniadau i gleifion a lleihau niwed a all arwain at ofal heb ei drefnu, pwysau ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y gymuned, ac osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty.

Trwy gydweithio ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, mae deiliad y swydd yn asesu'r gofynion o ran rheoli meddyginiaethau ac yn galluogi cleifion (defnyddwyr gwasanaeth/cleientiaid) i reoli eu meddyginiaethau eu hunain gartref, neu fel arall yn hwyluso cymorth priodol, gan gyfrannu at hyfforddi'r staff dan sylw. Bydd hyrwyddo annibyniaeth a gwella cymorth i bobl eiddil oeddrannus sydd ar nifer o feddyginiaethau yn allweddol, ynghyd â chymryd rhan yn y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau. Darparu'r cyfle i ymweld â chleifion yn eu cartrefi a thanlinellu'r cyfleoedd addysg iddynt wrth reoli eu hannibyniaeth, eu dealltwriaeth, a'u cydymffurfedd eu hunain â'u meddyginiaeth a gafwyd ar bresgripsiwn. Er i'r prosiect hwn gael gwerthusiad da, nid oedd unrhyw gyllid amgen i'w barhau y tu hwnt i'r contract cyfnod penodol.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Technegydd Therapi Cymunedol – Cafodd y rôl hon ei threialu gan y clwstwr ar gontract cyfnod penodol dwy flynedd, cafodd y prosiect ei werthuso'n dda a gan fod yna swyddi gwag yn y tîm llwyddodd deiliad y swydd i sicrhau swydd barhaol.

Beth a aeth yn dda?

Mae ymgysylltu â chynrychiolwyr y cydweithredfeydd i ffurfio'r clwstwr yn gweithio'n dda, mae bron pob aelod o'r clwstwr yn ymuno â chyfarfodydd y clwstwr ac yn chwarae rhan weithredol. Mae prosiectau a oedd eisoes yn bodoli y gallai aelodau ledled y clwstwr eu defnyddio bellach yn cael eu defnyddio yn unol â'u meysydd gwasanaeth, er enghraifft y wefan hunangymorth. Mae gan bob aelod o'r clwstwr fynediad er mwyn poblogi unrhyw ymgyrchoedd iechyd/sgrinio neu ddeunyddiau a fyddai'n ddefnyddiol i'w boblogaeth, gan gynnwys cymorth y trydydd sector, ac ati.

Beth y gellid ei wneud yn wahanol?

Mae angen rhoi sylw brys i'r broses o ystyried cyllid amgen ar gyfer prosiectau llwyddiannus, gan y bydd y clystyrau'n wynebu prosiectau megis Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf (FCP) yn gyson, lle maent wedi profi eu gwerth dros gyfres o flynyddoedd ac mae angen eu hariannu trwy lwybr amgen. Yr ethos cyfan y tu ôl i glwstwr yw, os yw cysyniad yn cael ei brofi, y byddid yn dod o hyd i gyllid canolog.

Gan nad yw'r Clystyrau'n gallu cyflogi'n uniongyrchol, mae pob swydd wedi'i llenwi trwy'r Bwrdd Iechyd. Mae'r clwstwr wedi dod ar draws sefyllfa lle cafodd prosiect werthusiad da a theimlwyd bod y cysyniad wedi'i brofi, ond roedd yn rhaid i'r tîm integredig ddod o hyd i'r cyllid os oedd am barhau. Nid oedd gan y tîm y gyllideb i barhau â'r prosiect ac felly bydd y prosiect yn dod i ben ar ddiwedd y tymor.

Beth nesaf?

Yn unol â Datblygu Clwstwr Carlam (DCC) mae model y clwstwr wedi esblygu i gynnwys pob un o'r cydweithredfeydd proffesiynol. Bydd y clwstwr yn parhau i weithio gydag aelodau cydweithredol y clwstwr i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi o ran y rhaglen waith newydd hon, a'u bod yn ymwybodol o gylch gwaith a chyfrifoldebau'r clwstwr. Archwilio ffyrdd cydweithredol newydd o weithio i fynd ati ar y cyd i ddiwallu anghenion y boblogaeth, gwella iechyd a llesiant poblogaeth y clwstwr, a chefnogi cynaliadwyedd ym maes Gofal Sylfaenol.

Adeiladu ar y strwythur adrodd rhwng y Cydweithredfeydd, y Clystyrau, y Cyd-fyrddau Partneriaeth/Grwpiau Clwstwr Cyfan a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan sicrhau bod y cyfathrebu'n gweithio'n effeithiol i fyny ac i lawr y grwpiau gwahanol. Cwblhau'r broses ar gyfer tynnu sylw at brosiectau llwyddiannus er mwyn gallu ystyried ffyrddau cyllid eraill, fel bod y clystyrau'n gallu ailfuddsoddi mewn mentrau eraill yn seiliedig ar ddata iechyd y boblogaeth a data segmentu.

Mewn cydweithrediad ag aelodau'r clwstwr, dadansoddi data segmentu y boblogaeth/data haenu risg i gynorthwyo prosiectau penodol y clwstwr, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion iechyd poblogaeth y clwstwr. Bydd hyn yn caniatáu i'r clwstwr fynd i'r afael ag ymddygiadau/dewisiadau ffordd o fyw y boblogaeth, megis gordewdra, smygu, camddefnyddio sylweddau, diffyg ymarfer corff a deiet gwael gyda chefnogaeth gan aelodau'r clwstwr megis y trydydd sector ac Iechyd Cyhoeddus, ac ati.

Mewn cydweithrediad â Camau'r Cymoedd, archwilio ymgysylltiad a datblygiad grwpiau cymorth cymunedol ADHD, a gwerthuso'r Rhaglen Gwydnwch Ysgolion ac os yw'n cael gwerthusiad da, gweithio ar y cyd ag addysg i ystyried cyfleoedd i ymestyn y rhaglen hon ledled Pen-y-bont ar Ogwr.

Parhau i gefnogi rhaglenni brechu a chynyddu nifer y bobl sy'n manteisio arnynt, a hynny ar y cyd â chydweithwyr o'r timau iechyd cyhoeddus a diogelu iechyd lleol. Parhau i gefnogi rhaglenni brechu a chynyddu nifer y bobl sy'n manteisio arnynt.

Adeiladu'n gyflym ar y broses o ddarparu datblygiadau arloesol, gan ehangu galluoedd yr adnoddau digidol i wella mynediad ledled ein cymunedau.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)



Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr

Arweinydd y Clwstwr

Dr Geoff Smith
Geoffrey.Smith@wales.nhs.uk

Rheolwr Practis Arweiniol

Sarah Thomas
Sarah.Thomas24@wales.nhs.uk

Rheolwr Datblygu y Clwstwr

Joanne Halse
Joanne.Halse2@wales.nhs.uk

Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr

Pwy ydym ni?

Mae gan glwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr saith practis sy'n gwasanaethu tua 47,600 o gleifion mewn rhanbarth o hen gymoedd glo yn Ne Cymru. Mae'n ardal o amddifadedd cymdeithasol uchel sydd â llawer o anghydraddoldebau iechyd, lle mae 66% o'r boblogaeth yn byw yn y 40% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae Clwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, sef un o wyth clwstwr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, yn cynnwys saith prif bractis cyffredinol, tair meddygfa gangen a dau bractis fferyllol. Ardaloedd gwledig a threfol sydd â phocedi o amddifadedd difrifol, diweithdra/problemau cymdeithasol, camddefnyddio alcohol/cyffuriau. Cyfraddau uchel o glefydau cronig o gymharu â chlystyrau eraill, yn benodol clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD), clefyd cardiofasgwlaidd a chyfraddau uchel o smygu a gordewdra.

Mae'r clwstwr yn cynnwys y practisau meddygon teulu canlynol:

- Meddygfa Bron y Garn
- Meddygfa Llynfi
- Meddygfa Dyffryn Ogwr
- Meddygfa Woodlands
- Practis Cwm Garw
- Meddygfa Nantymoel
- Meddygfa Tyncoed

Mae gan y clwstwr hefyd y canlynol i ddarparu mynediad a gwasanaethau i'w boblogaeth o gleifion:

- 7 Practis Meddygon Teulu
- 7 Optometrydd
- 9 Cartref Nyrsio/Preswyl
- 13 o Fferyllfeydd Cymunedol
- 5 o Bractisau Deintyddol
- 1 ysbyty cymunedol ym Maesteg


Hefyd yn gweithio ar y cyd o fewn ôl troed y clwstwr y mae partneriaid o'r gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector (Llyw-wyr Gofal), Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cydynwyr Ardal Lleol) a bwrdd iechyd CTM.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Digidol – Mae'r clwstwr wedi croesawu datblygiadau o ran technoleg newydd i wella mynediad cleifion at wybodaeth a gwasanaethau meddygol. Mae gweithredu ymgynghoriadau fideo ac ap 'My Surgery' yn rhoi amrywiaeth o ffyrdd i gleifion reoli eu hanghenion gofal iechyd.

Presgripsiynu – Yn ogystal, mae'r clwstwr yn gweithio ar y cyd â'r tîm Rheoli Meddyginiaethau i ddarparu hyb archebu presgripsiynau. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu math arall o fynediad i gleifion ac yn lleddfu pwysau ym maes gofal sylfaenol, trwy gyfeirio cleifion at ffynhonnell gswllt arall. Helpu i ryddhau amser gwerthfawr i staff y dderbynfaf ddelio â galwadau eraill. Bydd y ganolfan archebu presgripsiynau hefyd yn cefnogi gweithgarwch arbed costau mewn perthynas â gwastraff meddyginiaethau a phresgripsiynu mwy costeffeithiol.

Cartrefi Iach (Gofal a Thrwsio) – Mae'r Clwstwr wedi parhau i ariannu'r prosiect Cartrefi Iach am flwyddyn arall. Trwy gydweithio â Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r gwasanaeth hwn yn darparu Gweithiwr Achos a Therapydd Galwedigaethol pwrpasol sy'n gysylltiedig â meddygfeydd teulu yng Nghlwtwr y Gogledd. Darparu model gofal rhagweithiol, amgen



sy'n canolbwyntio ar ymyriad cynnar ac atal. Mae'r Gweithiwr Achos a'r Therapydd Galwedigaethol wedi cydweithio yn ystod y prosiect hwn i ddarparu gwasanaeth holistaidd sy'n canolbwyntio ar y cartref i gleifion, sy'n cynnig atebion ymarferol ar gyfer amgylchedd y cartref ac yn darparu cymhorthion ac addasiadau, yn ogystal â chynghor a chymorth ymarferol i'w helpu i fyw'n fwy cyfforddus, diogel ac annibynnol gartref.

Gwasanaeth Cwnsela (Tŷ Elis) – Mae'r clwstwr wedi parhau i ariannu a datblygu'r gwasanaeth cwnsela i wella mynediad cleifion at wasanaethau iechyd meddwl a llesiant. Darparu ymyriadau cwnsela therapiwtig strwythuredig i esmwytho pobl sy'n dioddef gofid emosiynol ac i wella strategaethau ymdopi a gwydnwch ymhlith unigolion. Gwnaeth y clwstwr fuddsoddiad ychwanegol hefyd tua diwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer menter rhestr aros gan fod y rhestr aros bresennol wedi cynyddu yn sgil y galw. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn helpu i leihau'r rhestr aros yn sylweddol wrth fynd i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd.

Darparu cwnsela therapiwtig i aelodau'r teulu sy'n defnyddio prosiect Teuluoedd Arbennig Maesteg – Mae Tŷ Elis yn cydweithio â phrosiect Teuluoedd Arbennig i gynnal ymyriadau cwnsela 6 wythnos i oedolion a/neu gyplau. Mae gan y teuluoedd a gefnogir gan y bartneriaeth hon rhwng Tŷ Elis a Teuluoedd Arbennig aelod sydd ag anghenion ychwanegol ac anableddau. Fel arfer, mae'r aelod o'r teulu sydd â'r anghenion ychwanegol yn cael cymorth gydag iechyd ac addysg yn ogystal â gwasanaethau statudol. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi anghenion y rhiant/gofalwr y mae'r plentyn/oedolyn agored i niwed yn dibynnu arno ar gyfer ei lesiant a'i fuddiant.

Mae'r gwaith partneriaeth yn caniatáu cysylltiad uniongyrchol o adeg yr atgyfeiriad hyd nes y ceir mynediad at sesiynau cwnsela. Felly mae'r ymatebolrwydd hwn yn darparu ymyriad cynnar i'r teuluoedd pryd a lle bynnag y bo'i angen. Mae'r cwnselwyr sy'n darparu'r gwasanaeth hwn yn brofiadol iawn ac yn meddu ar wybodaeth helaeth am weithio gyda theuluoedd sydd ag aelod o'r teulu ag anghenion ychwanegol megis awtistiaeth neu anawsterau dysgu, neu sy'n niwroamrywiol.

Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf – Mewn cydweithrediad â thîm Ffisiotherapi y Bwrdd Iechyd, mae'r clwstwr wedi comisiynu gwasanaeth Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf (FCP) am 12 mis arall. Darparu apwyntiadau FCP i boblogaeth y clwstwr o bob un o'r 7 practis meddyg teulu gyda'r nod o wella mynediad a chanlyniadau i gleifion, gan osgoi'r angen i gleifion deithio i safleoedd ysbytai ar gyfer asesiad cychwynnol a darparu'r gofal cywir gan y person cywir ar yr amser cywir.

Profi Protein C-Adweithiol (CRP) yn y Man Lle y Rhoddir Gofal – Mae'r clwstwr wedi cyflwyno profion CRP i leihau presgripsiynu gwrthfotigau amhriodol ac adnabod yn gynnar niwmonia difrifol a gafwyd yn y

gymuned. Mae pob un o'r saith practis yn cymryd rhan yn y prosiect hwn yn ogystal â thair fferyllfa gymunedol.

Fferyllwyr y Clwstwr – Mae'r clwstwr yn ariannu dau fferylllydd band 8a (1.6 WTE) i gefnogi a hybu datblygiad gwasanaethau fferyllol a'r agenda rheoli meddyginiaethau integredig yn y clwstwr, a hynny trwy sicrhau presgripsiynu gofal sylfaenol diogel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gosteffeithiol o fewn practisau meddygon teulu y clwstwr.

Tim Nyrsio Clwstwr Gofal Sylfaenol – Mae'r rôl yn darparu dull holistaidd, sy'n canolbwyntio ar y person, o reoli ac addysgu cleifion ag afiachedd cronig. Mae'r Nyrs Clwstwr Band 6 yn cynnal adolygiadau o gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi ac yn datblygu cynlluniau cymorth i alluogi cleifion sy'n byw â chlefyd cronig i reoli eu cyflwr mewn modd effeithiol. Mae hyn yn gwella ansawdd a strwythur y broses o fonitro clefydau cronig ar gyfer y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi. Mae gweithio o fewn tîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig wedi caniatáu i'r Nyrs gael mynediad uniongyrchol at therapyddion yn y tîm amlddisgyblaethol, gan gynnwys aelodau o'r trydydd sector.

Mae'r clwstwr hefyd wedi prynu system amserlennu ar gyfer gweithgarwch dyddiol tîm nyrsio gofal sylfaenol y clwstwr. Mae hyn nid yn unig yn caniatáu i amserlen waith y staff ym mhob un o'r practisau gael ei lanlwytho ar y system, mae hefyd yn darparu offeryn diogelwch wrth weithio ar eich pen eich hun, gan fod yn rhaid i staff fewngofnodi ac allgofnodi yng nghartrefi'r cleifion. Yn caniatáu i bractisau wirio ar y system lle mae'r aelod staff os oes yna unrhyw bryderon.

Dermatoleg – Cyrsiau dermatosgopi wedi'u hariannu trwy Brifysgol Caerdydd a dermatosgopau ar gyfer meddygfeydd teulu. Gwella cysylltiadau â gwasanaethau dermatoleg gofal eilaidd a gwella mynediad at ddiagnosis amserol o ganfer y croen.

Llif gwaith – Y clwstwr wedi buddsoddi yn Llif Gwaith HERE i sefydlu mecanweithiau i reoli gohebiaeth cleifion yn effeithiol a lleihau llwyth gwaith meddygon teulu.

Llwybr Iechyd Meddwl – Datblygu llwybr ar gyfer cleifion sydd ag anghenion iechyd meddwl i sicrhau y gallant gael mynediad at gymorth perthnasol yn ôl yr angen.

Profi ocsid nitrig wedi'i ffracsiynu a allanadlir (FENO) – Mae'r clwstwr wedi buddsoddi mewn cyfarpar a fydd yn fodd i fonitro pobl ag asthma, a hynny er mwyn cynorthwyo'r broses o wneud diagnosis o asthma, prosiectau presgripsiynu fferyllwyr, ac i gwtogi ar bresgripsiynu corticosteroidau anadladwy (ICS). Mae defnyddio'r cyfarpar hwn yn cynorthwyo o ran gwneud diagnosis cywir o asthma ac yn cefnogi cynlluniau triniaeth, gan gynnwys lleihau dosau ICS, lleihau'r risg o sgileffeithiau niweidiol, a lleihau presgripsiynu ICS yn gyffredinol, a chynorthwyo hefyd i wella cydymffurfedd cleifion o ran anadlyddion.





**Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm
Taf Morgannwg
(BIPCTM)**



**Gogledd Pen-y-bont
ar Ogwr**

Arweinydd y Clwstwr

Dr Geoff Smith
Geoffrey.Smith@wales.nhs.uk

Rheolwr Practis Arweiniol

Sarah Thomas
Sarah.Thomas24@wales.nhs.uk

**Rheolwr Datblygu
y Clwstwr**

Joanne Halse

Practisau'n cymryd rhan yn y Gwasanaeth Gwella Llesiant (WISE) – Mae practisau yng Nghlwestwr y Gogledd yn elwa o wasanaeth WISE y Bwrdd Iechyd. Mae hwn yn wasanaeth dan arweiniad hyfforddwr lles i rymuso cleifion i wella eu hiechyd hirdymor eu hunain a lleihau baich eu symptomau er mwyn gwella ansawdd eu bywyd. Caiff cleifion eu haddysgu a'u hyfforddi am hyd at naw mis a'u dysgu i reoli eu cyflwr iechyd. Mae'r hyfforddwr yn helpu'r claf i edrych mewn modd holistaidd ar yr holl ffactorau sy'n effeithio ar ei iechyd a'i hapusrwydd.

Nod WISE yw grymuso cleifion i ddatblygu ymdeimlad o reolaeth dros eu hiechyd corfforol a meddyliol hirdymor ac anelu at lesiant a hirhoedledd. Mae'r cleifion yn datblygu offer i oresgyn rhai o'r rhwystrau a wynebir o ran ffordd o fyw a ffactorau ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd. Mae hwn yn wasanaeth cynhwysol, anfeirniadol i gefnogi cleifion fel yr unigolion yr ydynt yn eu cymunedau. Mae'r gwasanaeth ar gael i unrhyw un sydd â chyflyrau iechyd hirdymor neu sydd ar restr aros, sy'n teimlo y byddai'n elwa o gael hyfforddwr i wella ei brofiad o fyw â'i gyflwr. Unrhyw un sydd â chymhelliant i wella'r ffactorau ffordd o fyw sy'n berthnasol i iechyd corfforol a meddyliol.

- Dolen i gynlluniau perthnasol
- Astudiaeth achos/enghraifft o waith

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Beth a aeth yn dda?

Mae ymgysylltu â chynrychiolwyr y cydweithredfeydd i ffurfio'r clwstwr yn gweithio'n dda, mae bron pob aelod o'r clwstwr yn ymuno â chyfarfodydd y clwstwr ac yn chwarae rhan weithredol.

Beth y gellid ei wneud yn wahanol?

Mae angen rhoi sylw brys i'r broses o ystyried cyllid amgen ar gyfer prosiectau llwyddiannus, gan y bydd y clystyrau'n wynebu prosiectau megis Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf (FCP) yn gyson, lle maent wedi profi eu gwerth dros gyfres o flynyddoedd ac mae angen eu hariannu trwy lwybr amgen. Yr ethos cyfan y tu ôl i glwstwr yw, os yw cysyniad yn cael ei brofi, y byddid yn dod o hyd i gyllid canolog.

Beth nesaf?

Yn unol â Datblygu Clwstwr Carlam (DCC) mae model y clwstwr wedi esblygu i gynnwys pob un o'r cydweithredfeydd proffesiynol. Bydd y clwstwr yn parhau i weithio gydag aelodau cydweithredol y clwstwr i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi o ran y rhaglen waith newydd hon, a'u bod yn ymwybodol o gylch gwaith a chyfrifoldebau'r clwstwr. Archwilio ffyrdd cydweithredol newydd o weithio i fynd ati ar y cyd i ddiwallu anghenion y boblogaeth, gwella iechyd a llesiant poblogaeth y clwstwr, a chefnogi cynaliadwyedd ym maes Gofal Sylfaenol.

Adeiladu ar y strwythur adrodd rhwng y Cydweithredfeydd, y Clystyrau, y Cyd-fyrddau Partneriaeth/Grwpiau Clwstwr Cyfan a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan sicrhau bod y cyfathrebu'n gweithio'n effeithiol i fyny ac i lawr y grwpiau gwahanol. Cwblhau'r broses ar gyfer tynnu sylw at brosiectau llwyddiannus er mwyn gallu ystyried ffyrddau cyllid eraill, fel bod y clystyrau'n gallu ailfuddsoddi mewn mentrau eraill yn seiliedig ar ddata iechyd y boblogaeth a data segmentu.

Mewn cydweithrediad ag aelodau'r clwstwr, dadansoddi data segmentu y boblogaeth/data haenu risg i gynorthwyo prosiectau penodol y clwstwr, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion iechyd poblogaeth y clwstwr. Bydd hyn yn caniatáu i'r clwstwr fynd i'r afael ag ymddygiadau/dewisiadau ffordd o fyw y boblogaeth, megis gordewdra, smygu, camddefnyddio sylweddau, diffyg ymarfer corff a deiet gwael gyda chefnogaeth gan aelodau'r clwstwr megis y trydydd sector ac Iechyd Cyhoeddus, ac ati.

Parhau i gefnogi rhaglenni brechu a chynyddu nifer y bobl sy'n manteisio arnynt. Parhau i wella'r rhaglen frechu ar y cyd â chyd-weithwyr o'r timau iechyd cyhoeddus a diogelu iechyd lleol, er enghraifft COVID, cyfraddau brechu rhag y ffliw ymhlith plant 2 a 3 oed, a nifer y cleifion hynny rhwng 6 mis a 64 oed sydd mewn perygl sy'n cael eu brechu, a brechiadau eraill i boblogaethau'r practis.

Adeiladu'n gyflym ar y broses o ddarparu datblygiadau arloesol, gan ehangu galluoedd yr adnoddau digidol i wella mynediad ledled ein cymunedau.

Parhau i drafod strategaeth gyfathrebu y clwstwr ar gyfer ei brosiectau/negeseuon. Un maes ffocws yn hyn o beth fydd cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu Sgrinio am Ganser, a hynny trwy wella ymwybyddiaeth cleifion/y cyhoedd o'r Gwasanaethau Sgrinio am Ganser sydd ar gael.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)



Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Arweinydd y Clwstwr

Dr Charlotte Reilly
Charlotte.Reilly@wales.nhs.uk

Matthew Whysall
Matthew.Whsall@wales.nhs.uk

Rheolwr Datblygu y Clwstwr

Joanne Halse
Joanne.Halse2@wales.nhs.uk

Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn un o dri chlwtwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae iddo dri phraxis o fewn ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Gan mai dyma'r lleiaf o'r tri chlwtwr, mae'n gwasanaethu poblogaeth o tua 34,526, a hynny'n bennaf mewn amgylchedd trefol gyda rhai ardaloedd o amddifadedd. Mae'r ardal ddaearyddol yn cwmpasu Porthcawl, y Pil, Mynydd Cynffig a Chorneli, sy'n arfordirol, yn wledig ac yn drefol gyda phocedi o amddifadedd difrifol. Mae Porthcawl yn gyrchfan wyliau ac yn gartref i barc carafanau statig mawr sy'n arwain at boblogaeth uchel o gleifion dros dro a thymhorol. Mae'r practisau yn y clwtwr yn cynnwys:

- Porthcawl
- Meddygfa Gogledd Corneli
- Heathbridge House

Mae dau allan o'r tri phraxis yn bractisau hyfforddi, ac mae ystâd y clwtwr yn cynnwys tair prif feddygfa ac un feddygfa gangen. Mae gan y clwtwr hefyd y canlynol i ddarparu mynediad a gwasanaethau i'w boblogaeth o gleifion:

- 4 Cartref nyrsio
- 8 Fferyllfa Gymunedol
- 4 o Bractisau Deintyddol
- 6 Chartref preswyl


Ar beth yr ydym yn gweithio?

Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf – Mewn cydweithrediad â thîm Ffisiotherapi y Bwrdd Iechyd, mae'r clwtwr wedi comisiynu gwasanaeth Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf (FCP) am 12 mis arall (2025-26). Darparu apwyntiadau FCP i boblogaeth y clwtwr o bob un o'r 3 practis meddyg teulu gyda'r nod o wella mynediad a chanlyniadau i gleifion, gan osgoi'r angen i gleifion deithio i safleoedd ysbytai ar gyfer asesiad cychwynnol a darparu'r gofal cywir gan y person cywir ar yr amser cywir. Ochr yn ochr â hyn, mae'r clwtwr yn rhedeg system archebu a rennir sy'n caniatáu i'r practisau roi cyfle i gleifion gael mynediad at yr apwyntiad cynharaf sydd ar gael, boed hynny yn eu practis cofrestredig neu yn un o'r 2 bractis arall os yw'r claf yn fodlon teithio. Mae yna hefyd elfen o weinyddiaeth a ddarperir gan brif bractis i gefnogi.

Tim Fferyllol y Clwtwr – Mae'r clwtwr yn parhau i fuddsoddi yn nhîm fferyllol sefydledig y clwtwr, sy'n cynnwys dau Fferyllydd band 8b (1.6 WTE) ac un technegydd fferyllol band 6 (0.8 WTE).

Mae'r rolau hyn wedi cynyddu capasiti'r fferyllwyr, ac wedi hybu datblygiad y gwasanaethau fferyllol a'r agenda rheoli meddyginiaethau integredig. Trwy sicrhau presgripsiynu gofal sylfaenol diogel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gosteffeithiol ym mhRACTISAU meddygon teulu y clwtwr. Mae cymorth y Technegydd Fferyllol yn fodd i ehangu'r ffrydiau gwaith yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Nyrs Rheoli Cyflyrau Cronig - Mae'r rôl yn darparu dull holistaidd, sy'n canolbwyntio ar y person, o reoli ac addysgu cleifion ag afiachedd cronig. Mae'r Nyrs Clwtwr Band 6 yn cynnal adolygiadau o gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi ac yn datblygu cynlluniau cymorth i alluogi cleifion sy'n byw â chlefyd cronig i reoli eu cyflwr mewn modd effeithiol. Mae hyn yn gwella ansawdd a strwythur y broses o fonitro clefydau cronig ar gyfer y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi. Mae gweithio o fewn tîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig wedi caniatáu i'r Nyrs gael mynediad uniongyrchol at therapyddion yn y tîm amlddisgyblaethol, gan gynnwys aelodau o'r trydydd sector.



Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan (AWDPP) – Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan, ac mae yna gynlluniau i'w chyflwyno ledled Cymru dros y tair blynedd nesaf. Mae Clwtwr Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn un o ddau glwtwr sydd wedi cael eu dewis i fod yn ardaloedd peilot ar gyfer BIPCTM.

Mae'r Rhaglen yn cynnwys ymyriad byr, a ddarperir gan Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd hyfforddedig, dan oruchwyliath deietegwyr lleol, i bobl y nodwyd eu bod mewn perygl o ddatblygu diabetes math 2 (HbA1c 42-47 mmol/mol). Oherwydd swyddi gwag a chyllid, cafodd y prosiect ei ohirio am gyfnod byr ond y gobaith yw y bydd yn aildechrau yn 2025/26.

- Dolen i gynlluniau perthnasol
- Astudiaeth achos/enghraifft o waith

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Beth a aeth yn dda?

Mae ymgysylltu â chynrychiolwyr y cydweithredfeydd i ffurfio'r clwtwr yn gweithio'n dda, mae bron pob aelod o'r clwtwr yn ymuno â chyfarfodydd y clwtwr

ac yn chwarae rhan weithredol. Mae prosiectau a oedd yn cynnwys holl aelodau'r clwtwr yn cael eu trafod, a bydd yr aelodau'n chwarae rhan weithredol yn natblygiad y rheiny, megis y strategaeth Digidol a Chyfathrebu.

Beth y gellid ei wneud yn wahanol?

Mae angen rhoi sylw brys i'r broses o ystyried cyllid amgen ar gyfer prosiectau llwyddiannus, gan y bydd y clystyrau'n wynebu prosiectau megis Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf (FCP) yn gyson, lle maent wedi profi eu gwerth dros gyfres o flynyddoedd ac mae angen eu hariannu trwy lwybr amgen. Yr ethos cyfan y tu ôl i glwtwr yw, os yw cysyniad yn cael ei brofi, y byddid yn dod o hyd i gyllid canolog.

Bu problem o ran cynyddu'r prosiect profi sibiometreg, a hynny oherwydd GDPR a'r pwysau ym maes gofal sylfaenol. Nod y prosiect oedd defnyddio data Segmentu'r Boblogaeth a Phennu Lefel Risg i ddod o hyd i gleifion â COPD a lliniaru'r galw cynyddol am ofal iechyd dros gyfnod y gaeaf. Yn anffodus, oherwydd gofynion GDPR, bu rhai problemau o ran DPA/DPIA ac mae hyn wedi atal y prosiect rhag symud ymlaen hyd yn hyn.

Beth nesaf?

Yn unol â Datblygu Clwtwr Carlam (DCC) mae model y clwtwr wedi esblygu i gynnwys pob un o'r cydweithredfeydd proffesiynol. Bydd y clwtwr yn parhau i weithio gydag aelodau cydweithredol y clwtwr i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi o ran y rhaglen waith newydd hon, a'u bod yn ymwybodol o glych gwaith a chyfrifoldebau'r clwtwr. Archwilio ffyrdd cydweithredol newydd o weithio i fynd ati ar y cyd i ddiwallu anghenion y boblogaeth, gwella iechyd a llesiant poblogaeth y clwtwr, a chefnogi cynaliadwydd ym maes Gofal Sylfaenol.

Adeiladu ar y strwythur adrodd rhwng y Cydweithredfeydd, y Clystyrau, y Cyd-fyrddau Partneriaeth/Grwpiau Clwtwr Cyfan a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan sicrhau bod y cyfathrebu'n gweithio'n effeithiol i fyny ac i lawr y grwpiau gwahanol. Cwblhau'r broses ar gyfer tynnu sylw at brosiectau llwyddiannus er mwyn gallu ystyried ffrydiau cyllid eraill, fel bod y clystyrau'n gallu ailfuddsoddi mewn mentrau eraill yn seiliedig ar ddata iechyd y boblogaeth a data segmentu.

Mewn cydweithrediad ag aelodau'r clwtwr, dadansoddi data segmentu y boblogaeth/data haenu risg i gynorthwyo prosiectau penodol y clwtwr, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion iechyd poblogaeth y clwtwr. Bydd hyn yn caniatáu i'r clwtwr fynd i'r afael ag ymddygiadau/dewisiadau ffordd o fyw y boblogaeth, megis gordewdra, smygu, camddefnyddio sylweddau, diffyg ymarfer corff a deiet gwael gyda chefnogaeth gan aelodau'r clwtwr megis y trydydd sector ac Iechyd Cyhoeddus, ac ati.

Parhau i gefnogi rhaglenni brechu a chynyddu nifer y bobl sy'n manteisio arnynt, a hynny ar y cyd â chydweithwyr o'r timau iechyd cyhoeddus a diogelu iechyd lleol.

Adeiladu'n gyflym ar y broses o ddarparu datblygiadau arloesol, gan ehangu galluedd yr adnoddau digidol i wella mynediad ledled ein cymunedau.

Parhau i wella'r rhaglen frechu, er enghraifft COVID, cyfraddau brechu rhag y fflw ymhlith plant 2 a 3 oed, a nifer y cleifion hynny rhwng 6 mis a 64 oed sydd mewn perygl sy'n cael eu brechu, a brechiadau eraill i boblogaethau'r practis. Gweithio ar y cyd â'r timau diogelu iechyd i sicrhau bod yr ymgrych frechu yn cael ei rhedeg mewn ffordd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Parhau i drafod strategaeth gyfathrebu y clwtwr ar gyfer ei brosiectau/negeseuon. Un maes ffocws yn hyn o beth fydd cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu Sgrinio am Ganser, a hynny trwy wella ymwybyddiaeth cleifion/y cyhoedd o'r Gwasanaethau Sgrinio am Ganser sydd ar gael.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)



Merthyr Tudful

Meddygon Teulu Arweiniol

Dr E Jones
evelyn.jones@wales.nhs.uk
Dr S Velupillai
shyama.velupillai@wales.nhs.uk

Rheolwyr Practis Arweiniol

Debbie Milton
debbie.milton@wales.nhs.uk
Kevin Rogers
kevin.rogers@wales.nhs.uk

Rheolwr Datblygu'r Clwstwr

Imran Gilani
imran.gilani@wales.nhs.uk

Merthyr Tudful

Pwy ydym ni?

Un o wyth clwstwr ym Mhractis Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sy'n cwmpasu ardal awdurdod lleol Merthyr Tudful a phoblogaeth o tua 60 mil.

Gwasanaethau yn y clwstwr:

- 6 Practis Meddygon Teulu
- 13 o fferyllfeydd cymunedol
- 4 Optegydd
- 7 Practis Deintyddol

Mae yna chwe phractis sy'n gweithredu yn ardal Clwstwr Merthyr Tudful:

- Practis Parc Iechyd Keir Hardie Un
- Practis Meddygol Morlais
- Practis Parc Iechyd Keir Hardie Dau
- Practis Meddygol Pont-cae
- Practis Parc Iechyd Keir Hardie Tri
- Canolfan Gofal Sylfaenol Treharris

Ein blaenoriaeth yw aeddfedu clystyrau meddygol yn llawn, parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu mentrau yn y gymuned i ganiatáu cynaliadwydd yr holl wasanaethau, a gwella iechyd a llesiant.

Cydweithredu Traws-sector: Cryfhau partneriaethau rhwng cydweithredfeydd i sicrhau gofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Cynaliadwydd y Gweithlu: Mynd i'r afael â heriau o ran y gweithlu a sicrhau cymorth ledled pob sector sy'n ymwneud â darparu gofal.

Gofal Integredig: Hybu proses esmwyth o integreiddio gwasanaethau i wella canlyniadau cleifion a pharhad gofal.

Iechyd Cymunedol Rhagweithiol: Canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth, gan gydweithio i fynd i'r afael ag anghenion iechyd ehangach.

Arloesi a Rhannu: Meithrin arloesedd a rhannu arfer gorau ledled pob sector i sicrhau gwelliant parhaus.

Integreiddio Digidol: Defnyddio offer digidol i wella prosesau cyfathrebu, rhannu data, a chydlynu gofal.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Prif flaenoriaethau strategol

Cydweithio yn unol â'r Model Clwstwr Carlam, datblygu gwasanaethau ac adolygu llwybrau i gefnogi mynediad at wasanaethau ar gyfer ei boblogaeth o gleifion mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

Y Clwstwr, ar y cyd â thimau Iechyd y Cyhoedd, i ddarparu cymorth targededig ar gyfer iechyd y boblogaeth, gan flaenoriaethu grwpiau anoddach eu cyrraedd a mynd i'r afael ag anghenion cymunedau agored i niwed a difreintiedig.

Cymorth Iechyd Meddwl: Gwasanaeth Cwnsela un i un: mewn partneriaeth ag ymddiriedolaeth elusennol Stephens a George, gall holl breswylwyr Merthyr gyrchu gwasanaethau cwnsela ar gyfer straen a gorbryder.

Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf ar gyfer cyflyrau cyhyrsgerberbydo: Mae'r Clwstwr yn ariannu 23 o sesiynau cyhyrsgerberbydol wythnosol ar draws practisau meddygon teulu. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu sesiynau



mewn practisau meddygon teulu, gan wella mynediad a chanlyniadau cleifion a hefyd ddileu'r angen am atgyfeiriadau pellach at y gwasanaeth gofal sylfaenol ehangach.

Prosiect Atal Diabetes Cymru Gyfan: Prosiect peilot dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n canolbwyntio ar atal diabetes math 2.

PIPYN/Pwysau Iach Plant yng Nghymru: Mae'r Rhaglen Iechyd y Cyhoedd hon yn cefnogi plant (3-7 oed) a'u teuluoedd ym Merthyr trwy gynnal sesiynau rhyngweithiol ar fwyta'n iach, cynllunio prydau bwyd, a gweithgareddau ar gyfer y teulu.

Presgripsiynu Cymdeithasol: Swyddogion Cymorth Ymarfer Cyffredinol (GPSO) yn darparu galluedd hanfodol i gefnogi'r awdurdod lleol a phractis cyffredinol, gan hwyluso iechyd ac integreiddiad cymdeithasol. Cafodd y rôl ei gwerthuso, ac amlygodd fuddion clir i bawb, gan gyfrannu'n effeithiol at y broses gyffredinol o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd a chefnogi agenda Cymru Iachach.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

A ydych wedi cael unrhyw wobrau neu gydnabyddiaeth yr hoffech eu rhannu?

Prosiect Sgrinio'r Fron - Defnyddio dull gwyddor ymddygiadol i feithrin ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth sgrinio'r fron.

Aeth y Clwstwr ati i ddatblygu ymgyrch sgrinio'r fron ar y cyfryngau cymdeithasol ar sail ymddygiad, a hynny i feithrin ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth sgrinio'r fron a chynyddu nifer yr unigolion sy'n ei ddefnyddio. Roedd yr ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar negeseuon allweddol ynghylch sgrinio'r fron ac yn nodi'r ymddygiadau targed mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Aed ati i rannu negeseuon â'r cyhoedd ar y cyfryngau cymdeithasol i gyd-fynd â gwahoddiadau i gleifion fynd i uned symudol Bron Brawf Cymru i fanteisio ar y gwasanaeth sgrinio'r fron.

Ar ben hyn, defnyddiwyd arolwg dulliau cymysg i gipio rhwystrau a hwyluswyr lleol o ran sgrinio'r fron i'w cynnwys mewn ymgyrchoedd/ymyriadau targededig yn y dyfodol. Yn sgil y prosiect, dysgwyd pethau defnyddiol am ddefnyddio dull seiliedig ar ymddygiad i gefnogi cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth sgrinio'r fron. Roedd y canfyddiadau wedi galluogi cyd-weithwyr a phartneriaid i feithrin gwell dealltwriaeth o'r hwyluswyr a'r rhwystrau o ran sgrinio'r fron ar gyfer menywod mewn cymunedau lleol. Yn dilyn y prosiect, lluniwyd dogfen am y dull partneriaeth i fanylu ar argymhellion ac arfer gorau mewn perthynas â meithrin ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth sgrinio'r fron.

Cafodd y prosiect hwn ei gynnwys fel enghraifft o arfer da yn e-fwletin Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Wyddor Ymddygiadol, a chafodd ei dderbyn i'w arddangos ar boster yng Nghynhadledd Canser Cymru a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2025.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Yr hyn a aeth yn dda

Mae'r ymgysylltiad â chynrychiolwyr y gydweithredfa wedi bod yn gryf, gyda mwyafrif yr aelodau'n cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd y clwstwr.

Roedd mentrau'r gydweithredfa (megis Swyddogion Cymorth Ymarfer Cyffredinol/Ffisiotherapyddion) wedi gwella effeithlonrwydd a phrofiad cleifion.

Mae offer digidol (Gwefannau/Apiau) wedi gwella hygyrchedd.

Mae'r ffocws ar wasanaethau cymorth iechyd trwy Bartneriaid (Stephens a George, Valleys Steps, ac ati) wedi cael croeso mawr gan gleifion.

Yr hyn y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol

Ymgysylltu'n gynt â rhanddeiliaid yn y cam cynllunio i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu – colli gwasanaeth y Swyddogion Cymorth Ymarfer Cyffredinol.

Mwy o gymorth gan bartneriaid i sicrhau cynaliadwydd a pharhad gwasanaethau – colli gwasanaeth y Swyddogion Cymorth Ymarfer Cyffredinol.

Cryfhau'r gweithlu i liniaru heriau staffio a phwysau ar y gwasanaeth – mae'n dal i fod yn anodd iawn recriwtio.

Mae angen proses frys i sicrhau cyllid amgen ar gyfer prosiectau hirdymor llwyddiannus. Mae clystyrau'n aml yn rheoli mentrau profedig, sy'n gofyn am gyllid cynaliadwy y tu hwnt i'r cynlluniau peilot cychwynnol. Y bwriad gwreiddiol oedd i brosiectau llwyddiannus gael cyllid canolog, ond mae hyn yn dal i fod yn her.

Mae Swyddogion Cymorth Ymarfer Cyffredinol wedi chwarae rôl hanfodol wrth lywio iechyd ac integreiddio cymdeithasol gan sicrhau cynaliadwydd ar gyfer y ddau sefydliad. Fodd bynnag, ers i'r clystyrau gael eu ffurfio'n ddiweddar, mae swyddi'r Swyddogion Cymorth Ymarfer Cyffredinol wedi cael eu dileu oherwydd diffyg endid cyfreithiol a statws cyflogaeth yn yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn cynrychioli cam sylweddol am yn ôl yn achos cysyniad profedig sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r agenda Cymru Iachach.



**Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm
Taf Morgannwg
(BIPCTM)**



Merthyr Tudful

**Meddygon Teulu
Arweiniol**

Dr E Jones
evelyn.jones@wales.nhs.uk
Dr S Velupillai
shyama.velupillai@wales.nhs.uk

**Rheolwyr Practis
Arweiniol**

Debbie Milton
debbie.milton@wales.nhs.uk
Kevin Rogers
kevin.rogers@wales.nhs.uk

**Rheolwr Datblygu'r
Clwstwr**

Imran Gilani
imran.gilani@wales.nhs.uk

Beth nesaf?

Dyrannu Adnoddau: Canolbwyntio ar sicrhau bod adnoddau a chyllid yn cael eu dosbarthu'n fwy effeithiol ledled yr ardal leol, gan ofalu eu bod yn cyd-fynd ag anghenion a blaenoriaethau allweddol.

Llwybrau Gofal Integredig: Gwellu prosesau cyfathrebu a chydgyssylltu rhwng y gwasanaethau gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol er mwyn sicrhau teithiau esmwyth i gleifion, gan flaenoriaethu diogelwch cleifion a llywodraethu clinigol da trwy'r defnydd o dechnolegau digidol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd effeithiol, gan leihau'r risgiau a chefnogi gofal diogel, o ansawdd uchel ledled pob lleoliad.

Materion Gweithredol: Mynd i'r afael â heriau gweithredol, yn cynnwys pwysau ar y gweithlu a recriwtio, gan sicrhau bod y system yn gweithredu'n esmwyth ac mewn modd cynaliadwy.

Arloesedd a Phrosiectau Peilot: Cefnogi'r gwaith o brofi prosiectau neu ymyriadau newydd cyn ystyried eu gweithredu ar raddfa fwy, gan sicrhau ein bod yn gwerthuso'u heffaith mewn modd effeithiol.

Yn ystod 2025-26, gwnaed dau fuddsoddiad newydd mewn arloesedd digidol. Y cyntaf yw'r ap Good Boost, sy'n rhoi cymorth i unigolion â chyflyrau cyhyrsgerberbydol trwy raglenni ymarfer corff personol. Yr ail yw'r ap Holly Health, sef llwyfan hyfforddi iechyd digidol a gynlluniwyd i helpu unigolion i wneud newidiadau cynaliadwy i'w ffordd o fyw. Mae'n cynnig technegau personol ar gyfer meithrin arferion i reoli straen, gorbryder, ymarfer corff, a chwsg, gan hybu llesiant meddyliol a chorfforol cyffredinol.

Amgylchedd Cefnogol: Creu diwylliant lle y gellir rhannu pryderon mewn modd agored, a lle y caiff dysgu ei annog ar bob lefel o'r system.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)



Gogledd Cynon

Arweinydd y Clwstwr

Dr Owen Thomas
Owen.thomas4@wales.nhs.uk

Rheolwr Practis Arweiniol

Hayley Rogers hayley.rogers@wales.nhs.uk

Rheolwr Datblygu'r Clwstwr

Imran Gilani imran.gilani@wales.nhs.uk

Gogledd Cynon

Pwy ydym ni?

Un o wyth clwstwr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sydd â phoblogaeth o tua 30,000. Mae data Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adlewyrchu cyfraddau uchel o amddifadedd cymdeithasol, problemau iechyd meddwl, anabledd/afiachedd hirdymor, tloedi/budd-daliadau, a salwch cronig yn sgil hen ddiwydiant trwm, yn enwedig mwyngloddio.

Mae gan bob Contractwr Gofal Sylfaenol gydweithredfeydd naill ai wedi'u sefydlu neu wrthi'n cael eu sefydlu, ac mae arweinydd o bob un yn cynrychioli'r proffesiwn yn y cyfarfodydd clwstwr.

Historically, Practis Meddygon Teulu in the Cynon valley worked as one cluster consisting of eight Practis Meddygon Teulu. However in 2018, the cluster agreed to separate into two formal clusters, North and South, to support each area's differentiating objectives, priorities and vision. The following three practices now form the Gogledd Cynon cluster:

- Canolfan Feddygol St John
- Canolfan Feddygol Hirwaun
- Canolfan Feddygol Foundry

Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/gwasanaethau cymunedol)

- 3 Practis Meddygon Teulu
- 14 o fferyllfeydd cymunedol
- 4 practis optometreg
- 6 phractis deintyddol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Prosiect Iechyd y Boblogaeth COPD: Mae cyfraddau Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer CTM, gyda gwaethygiadau yn y gaeaf yn rhoi pwysau ar gleifion a'r gwasanaethau gofal iechyd, fel ei gilydd. Mae nyrsys practis yn mynd ati i gysylltu â chleifion sy'n cydsynio, gan gynnig cymorth, gwybodaeth am yr hwb COPD, ac atgyfeiriadau megis at Helpa Fi i Stopio. Mae canfyddiadau cynnar yn dangos bod y dull rhagweithiol hwn wedi nodi a rhoi cymorth i gleifion, gan wella rheolaeth ar COPD yn ystod y gaeaf.

Iechyd Meddwl: Gwella cymorth iechyd meddwl ym maes gofal sylfaenol a'r gwasanaethau cwnsela i Oedolion ac i Blant a Phobl Ifanc mewn partneriaeth â Vitality Therapies. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig cymorth wedi'i deilwra, gydag wyth sesiwn gwnsela wythnosol i oedolion ac o leiaf chwe sesiwn ar gyfer plant a phobl ifanc.

Therapiau: Ehangu dulliau gofal iechyd holistaidd trwy gyflwyno gwasanaeth Therapiau Holistaidd, gyda'r nod o gefnogi cleifion gyda llesiant meddyliol, lludded, a phroblemau cyhyrol a achosir gan gyflyrau cysylltiedig ag arthrits.

Iechyd Meddwl: Cryfhau cydnerthedd a llesiant meddyliol ymhlith pobl ifanc trwy gydweithrediad ag ysgolion cyfun. Mae'r clwstwr yn ariannu ac yn trefnu cyrsiau cydnerthedd a ddarperir gan Camau'r Cymoedd, gan roi sgiliau ymarferol i fyfyrwyr i wella eu cydnerthedd a'u llesiant cyffredinol.



Fferyllwyr: Gwella'r broses o reoli meddyginiaethau trwy gyflogi fferyllwyr clwstwr pwrpasol sy'n adolygu meddyginiaethau, yn cefnogi profion lleol i gleifion, ac yn rheoli moddion gwrthgeulo uniongyrchol trwy'r geg (DOAC).

Ffisiotherapi: Gwella gofal cyhyrsgerberbydol a lleihau llwyth gwaith meddygon teulu trwy ddarparu gwasanaethau Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf. Mae'r fenter hon yn galluogi cleifion i gael mynediad uniongyrchol at sesiynau ffisiotherapi mewn practisau meddygon teulu, gan leihau nifer yr atgyfeiriadau ymlaen a gwella canlyniadau cleifion.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Cafodd y prosiect COPD ei gynnwys yng Nghynhadledd Ymchwil a Datblygu BIPCTM yn 2024.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Bydd gwerthuso prosiectau presennol yn caniatáu i'r Clwstwr adolygu ei lwyddiannau a llywio

trafodaethau â phartneriaid ynghylch prif ffrydio (os yw'n briodol). Gweithio gyda chyd-weithwyr ym maes Iechyd y Cyhoedd i dargedu cymorth iechyd y boblogaeth mewn grwpiau anoddach eu cyrraedd/cymunedau mwy difreintiedig ymhlith grwpiau agored i niwed ac ymylol.

Yr hyn a aeth yn dda

Mae ymgysylltu â chynrychiolwyr y cydweithredfeydd i ffurfio'r clwstwr yn gweithio'n dda; mae bron pob aelod o'r clwstwr yn ymuno â chyfarfodydd y clwstwr ac yn chwarae rhan weithredol. Mae prosiectau a oedd yn cynnwys holl aelodau'r clwstwr yn cael eu trafod, a bydd yr aelodau'n chwarae rhan weithredol yn natblygiad y rheiny, megis y strategaeth Digidol a Chyfathrebu.

Yr hyn y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol

Mae angen proses frys i sicrhau cyllid amgen ar gyfer prosiectau hirdymor llwyddiannus, gan sicrhau y gall clystyrau gynnal mentrau profedig ac ailfuddsoddi ynddynt.

Beth nesaf?

Bydd gwella'r broses adrodd rhwng Cydweithredfeydd, Clystyrau, a Byrddau Partneriaeth yn cryfhau'r broses gyfathrebu. Bydd hyn yn amlygu prosiectau llwyddiannus ar gyfer cyllid amgen, gan alluogi ailfuddsoddiad sy'n seiliedig ar ddata iechyd y boblogaeth.

Gan weithio gyda'r aelodau, bydd y clystyrau yn defnyddio data'r boblogaeth i fynd i'r afael â phroblemau iechyd megis gordewdra, smygu, a chamddefnyddio sylweddau, a hynny gyda chymorth gan sefydliadau Iechyd y Cyhoedd a'r trydydd sector.

Gan barhau i ddatblygu dulliau cydweithio yn unol â'r Model Clystyrau Carlam a datblygu gwasanaethau, adolygu llwybrau i gefnogi mynediad at wasanaethau ar gyfer ei boblogaeth o gleifion mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

Mae Clwstwr Cynon a'r Uned Rheoli Iechyd y Cyhoedd yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o brosiectau Rheoli Iechyd y Cyhoedd blaenorol er mwyn gweithredu prosiect ychwanegol sy'n cynnwys pob practis meddygon teulu yn y Clwstwr. Bydd y prosiect hwn yn ceisio nodi cleifion cymwys â chydafiachedd a'u haddasrwydd i gael eu hatgyfeirio at y Tim Llesiant Iechyd Cymunedol i gael cymorth ychwanegol ar gyfer eu hanghenion iechyd.

Bydd gwerthuso prosiectau presennol yn caniatáu i'r Clwstwr adolygu ei lwyddiannau a llywio trafodaethau â phartneriaid ynghylch prif ffrydio (os yw'n briodol).



Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)



Rhondda

Arweinydd y Clwstwr

Dr. Bikram Choudhary
Bikram.Choudhary@wales.nhs.uk

Kirsty James
Kirsty.James@wales.nhs.uk

Rheolwr Datblygu'r Clwstwr

Janet Kellend
Janet.Kellend@wales.nhs.uk

Rhondda

Pwy ydym ni?

- Un o wyth clwstwr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Cwm Taf Morgannwg.
- 10 practis meddygon teulu. Caiff un practis ei reoli'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd.
- 8 practis optometreg
- 27 o fferyllfeydd cymunedol
- 7 practis deintyddol

Mae gan bob Contractwr Gofal Sylfaenol gydweithredfeydd naill ai wedi'u sefydlu neu wrthi'n cael eu sefydlu, ac mae arweinydd o bob un yn cynrychioli'r proffesiwn yn y cyfarfodydd clwstwr.

Mae aelodaeth y Clwstwr hefyd yn cynnwys:

- Interlink, sef sefydliad ymbarél ar gyfer sefydliadau'r 3ydd sector
- Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
- Gofal Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol
- Iechyd y Cyhoedd
- Nyrso
- Poblogaeth o 88,603

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Parhau i gefnogi'r broses o ddatblygu mentrau ym maes gofal sylfaenol ac yn y gymuned i ganiatáu i'r boblogaeth wella ei hiechyd a'i llesiant, gyda blaenoriaethau penodol o ran iechyd meddwl, iechyd cyffredinol a chorfforol, a rheoli pwysau. Mae prosiectau 2025-26 yn cynnwys:

- **MIND** – Bydd cwnsela iechyd meddwl a gwasanaeth hunangymorth â chefnogaeth yn parhau tra bo'r Clwstwr yn gwerthuso'r gwasanaeth ac yn cychwyn ar drafodaethau â chyd-weithwyr perthnasol yn y Bwrdd Iechyd ynghylch modelau ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn y dyfodol.
- **Ymarferydd Cyswllt Cyntaf** – Mae'r Clwstwr wedi cymeradwyo gwasanaeth wedi'i ariannu'n llawn am un flwyddyn arall, tra ei fod yn aros am drafodaethau a phenderfyniadau gan y Bwrdd Iechyd ynghylch unrhyw fodel yn y dyfodol a'r ddarpariaeth o ran Gofal Sylfaenol a Chymunedol.
- **PIPYN** – Prosiect sy'n darparu dull teulu cyfan o fynd i'r afael â ffyrdd iach o fyw, pwysau, ac ymarfer corff. Bydd rhaglen 2 flynedd a ariennir yn dod i ben ym mis Mawrth 2026, a bydd angen mynd ati i drafod â gwasanaethau Therapi y Bwrdd Iechyd a chynllunio gyda nhw i bennu a fydd y rhaglen yn cyd-fynd â modelau darparu gwasanaethau craidd yn y dyfodol.
- **Y Gwasanaeth Ymweld â'r Cartref** – Mae Ymarferwyr Parafeddygol yn weithwyr proffesiynol profiadol sy'n gweithio'n agos gyda meddygon teulu yn rhan o'r tîm i sicrhau gwell darpariaeth ar gyfer asesiadau yn y cartref, gostyngiad yn nifer y galwadau i'r gwasanaeth parafeddygon/ ambiwlansys i ymateb i ymgyflwyniadau aciwt, lleihau nifer yr unigolion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty, a hynny am fod ymyriadau amserol yn atal cyflyrau cronig rhag dirywio.



- **Holly Health** – Mae'r ap Holly Health yn llwyfan hyfforddi digidol sy'n galluogi hunanreolaeth gan y claf, yn cynnig cymorth wedi'i deilwra ar gyfer cyflyrau cronig a gwasanaeth brysbennu lleol, ac yn lleihau'r straen ar dimau meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.
- **Cynllun cyfathrebu clystyrau** – mae cyllid yn darparu cymorth misol ar gyfer postadau ar y cyfryngau cymdeithasol a diweddariadau i'r wefan.

Mae'r prosiectau a gynigiwyd gan y clwstwr yn ystyried cysoni strategol yn unol â'r canlynol:

Strategaeth 2030 BIP CTM

Mae yna bedwar nod ar gyfer datblygu'r strategaeth; maent yn nodi'r prif bethau y dymunir eu cyflawni yn CTM yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

- Creu iechyd
- Gwella gofal
- Ysbrydoli pobl
- Cynnal ein dyfodol

Rhaglen Strategol Blaenoriaethau Allweddol Gofal Sylfaenol

- Datblygu Clwstwr Carlam
- Gofal Sylfaenol Brys
- Seilwaith Cymunedol
- Llesiant Meddyliol

Mae'r clystyrau hefyd yn ystyried ac yn hunanfyfyrion yn unol â mesurau canlyniadau'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru.

Mae'r **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** wedi pennu blaenoriaethau yn ei Gynodeb o 'Anghenion Iechyd y Boblogaeth', sy'n amlygu'r angen, y galw a'r negeseuon allweddol ac yn helpu i adeiladu darlun o'r anghenion o ran gofal a chymorth ar gyfer pobl yng Nghwm Taf Morgannwg, yn cynnwys:

Beth nesaf?

Gan barhau i ddatblygu dulliau cydweithio yn unol â'r Model Clystyrau Carlam a datblygu gwasanaethau, adolygu llwybrau i gefnogi mynediad at wasanaethau ar gyfer ei boblogaeth o gleifion mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

Bydd gwerthuso prosiectau presennol yn caniatáu i'r Clwstwr adolygu ei lwyddiannau a llywio trafodaethau â phartneriaid ynghylch prif ffyrddio (os yw'n briodol).

Gweithio gyda chyd-weithwyr ym maes Iechyd y Cyhoedd i dargedu cymorth iechyd y boblogaeth mewn grwpiau anoddach eu cyrraedd/cymunedau mwy difreintiedig ymhlith grwpiau agored i niwed ac ymylol, gan gynnwys dolenni i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Darparu ffisiotherapi gan weithio tuag at ddarparu gwasanaeth craidd a model system gyfan.

Cydweithio rhwng clystyrau ac arweinwyr a chynllunwyr iechyd meddwl y Bwrdd Iechyd er mwyn gweithio i sicrhau bod y gwasanaethau iawn yn cael eu darparu yn y man iawn a, lle bo angen, yn fwy lleol, i wella mynediad ac ymyriadau cynnar.

Cefnogi dull CTM o fynd i'r afael â PIPYN – dull teulu cyfan o fynd i'r afael â ffyrdd iach o fyw, pwysau, ac ymarfer corff.

- Plant a Phobl Ifanc
- Anableddau Dysgu
- Iechyd Meddwl
- Dementia
- Pobl hŷn
- Gofalwyr Di-dâl
- Hygyrchedd
- Niwroamrywiaeth

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Yr hyn a aeth yn dda

Datblygu Clwstwr Carlam

Mae addasiadau a symud i ddull cydweithredol a dull clwstwr, yn unol â'r Datblygiadau Clystyrau Carlam newydd, yn parhau i ddatblygu gyda dull gweithredu amlddisgyblaethol cynhwysol sy'n sefydlu. Mae ymagwedd gydweithredol at fentrau a gynigir fel prosiectau (megis Swyddogion Cymorth Ymarfer Cyffredinol/Ffisiotherapyddion) wedi gwella effeithlonrwydd a phrofiad y claf.

System Iechyd Cyhoeddus i reoli'r boblogaeth – mae'r clwstwr wedi sefydlu'r defnydd o system Iechyd y Boblogaeth a segmentu i echdynnu data o systemau clinigol a thargedu angen y boblogaeth, gan lywio prosiectau i wella canlyniadau ar gyfer y cleifion.

MIND – Cwnsela Iechyd Meddwl – Mae gwasanaethau cwnsela a ariennir gan y Clwstwr yn parhau i gefnogi'r boblogaeth, gan amlygu'n glir y galw am gymorth iechyd meddwl yng Nghwm Rhondda. Trwy lithriad yn 2024-25, cynhaliwyd rhagor o glinigau a rhoddwyd cymorth i ragor o gleifion. Mae hyn wedi arwain at gleifion yn gallu rheoli eu hiechyd mewn modd mwy priodol, a hynny heb fod arnynt angen cymorth gofal eilaidd ychwanegol.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)



De Cynon

Arweinydd y Clwstwr

Dr Jennifer Lewis-Jones
jennifer.lewis-jones@wales.nhs.uk

Rheolwr Practis Arweiniol

Ann Brown
ann.brown4@wales.nhs.uk

Rheolwr Datblygu'r Clwstwr

Imran Gilani
imran.gilani@wales.nhs.uk

De Cynon

Pwy ydym ni?

Un o wyth clwstwr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sydd â phoblogaeth o dros 30,000. Mae data Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adlewyrchu cyfraddau uchel o amddifadedd cymdeithasol, problemau iechyd meddwl, anabledd/afiachedd hirdymor, tlodi/budd-daliadau, a salwch cronig yn sgil hen ddiwydiant trwm, yn enwedig mwyngloddio.

Yn hanesyddol, roedd practisau meddygon teulu yng Nghwm Cynon yn gweithio ar ffurf un clwstwr a oedd yn cynnwys wyth practis meddygon teulu. Fodd bynnag, yn 2018 cytunodd y clwstwr i wahanu i ffurfio dau glwstwr ffurfiol, y De a'r Gogledd, i gefnogi gwahanol amcanion, blaenoriaethau a gweledigaeth y naill ardal a'r llall. Mae'r pum practis canlynol bellach yn ffurfio clwstwr De Cynon:

- Canolfan Feddygol Abercynon
- Practis Meddygol Abercwmboi
- Meddygfa Cwmaman
- Meddygfa Glan Cynon
- Meddygfa Penrhiwceibr

Gwasanaethau yn y clwstwr (meddygon teulu/contractwyr eraill/gwasanaethau cymunedol)

- 5 practis meddygon teulu
- 4 practis optometreg
- 14 o fferyllfeydd cymunedol
- 6 phractis deintyddol
- Fferyllwyr y Clwstwr
- Gwasanaeth cwnsela Tŷ Elis
- Uwch-ymarferydd Nyrsio cartref nyrsio
- Ffisiotherapi cyswllt cyntaf

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Prif flaenoriaethau strategol

Cydweithio yn unol â'r Model Clwstwr Carlam, datblygu gwasanaethau ac adolygu llwybrau i gefnogi mynediad at wasanaethau ar gyfer ei boblogaeth o gleifion mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

- Iechyd meddwl, gan gynnwys iechyd meddwl ein plant
- Cynaliadwyedd y gwasanaethau gofal sylfaenol
- Eiddilwch
- Gordewdra

Y Clwstwr, ar y cyd â thimau Iechyd y Cyhoedd, i ddarparu cymorth targededig ar gyfer iechyd y boblogaeth, gan flaenoriaethu grwpiau anoddach eu cyrraedd a mynd i'r afael ag anghenion cymunedau agored i niwed a difreintiedig.

Gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd o ran Iechyd y Cyhoedd a'r tîm Iechyd a Llesiant y gymuned i edrych ar ein pobl fwyaf agored i niwed a mynd ati'n rhagweithiol i nodi pwy ydynt a chynnig cymorth a mewnbwn cyn iddynt fynd i argyfwng, a hynny trwy ddefnyddio'r data rheoli Iechyd y boblogaeth.



Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae bod ag uwch-ymarferydd Nyrsio mewn cartrefi gofal yn cynnwys mynd ati mewn modd cynhwysfawr i reoli preswylwyr trwy adolygiadau wythnosol, yn cynnwys cynnal 'rowndiau wardiau' rheolaidd a darparu ymgynghoriadau clinigol strwythuredig yn ôl yr angen.

Mae fferyllwyr y clwstwr yn chwarae rôl allweddol wrth gynnal adolygiadau meddygol, cefnogi profion lleol i gleifion, a darparu gwasanaethau atodol, megis rheoli moddion gwrthgeulo uniongyrchol trwy'r geg (DOAC).

Mae'r gwasanaeth cwnsela a gynigir gan Tŷ Elis yn darparu cymorth proffesiynol i unigolion trwy sesiynau cwnsela wedi'u teilwra, gan ganolbwyntio ar gleientiaid sy'n oedolion ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth ar fin ehangu'r hyn a gynigir i gynnwys pobl ifanc, gan fynd i'r afael â'r angen cynyddol am gymorth Iechyd meddwl ymhlith y boblogaeth iau. Bydd y gwasanaeth yn parhau yn 2025-26 wrth i'r Clwstwr ei werthuso a chychwyn trafodaethau ar ddyfodol y ddarpariaeth.

Mae gwasanaeth ffisiotherapi cyswllt cyntaf yn cael ei ddarparu ledled y Clwstwr. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig sesiynau ffisiotherapi mewn practisau meddygon teulu, gan wella mynediad a chanlyniadau cleifion a hefyd ddileu'r angen am atgyfeiriadau pellach at y gwasanaeth gofal sylfaenol ehangach.

Cafodd y prosiect eiddilwch ei gynnwys yng Nghynhadledd Ymchwil a Datblygu BIPCTM yn 2024. Nod y prosiect eiddilwch oedd lleihau bach eiddilwch ar gleifion trwy wella cyfleoedd ar gyfer gofal ataliol yn nes at y cartref a phrofi ymarferoldeb a derbynioldeb defnyddio data cyfredol cymorth ymarfer i lywio'r broses o atgyfeirio cleifion sy'n byw ag eiddilwch at y Tîm Iechyd a Llesiant Cymunedol. Mae'r Tîm hwn yn un aml-ddisgyblaethol sy'n cydweithio i ddiwallu anghenion cleifion unigol.

Defnyddiwyd dull rheoli Iechyd cleifion, lle câi data cymorth ymarfer a data clinigol eu defnyddio i nodi a blaenoriaethu cleifion yn ôl amcangyfrif o'u hangen. Cafodd cleifion cymwys o Feddygfa Glan Cynon eu brysennu gan arweinydd practis cyffredinol y Tîm Iechyd a Llesiant Cymunedol, a thrafodwyd y gofal mewn sgwrs seiliedig ar 'Yr Hyn Sy'n Bwysig'; atgyfeiriwyd y cleifion at y Tîm Iechyd a Llesiant Cymunedol a gwasanaethau eraill, fel y bo'n briodol. Roedd y dull Rheoli Iechyd y Claf yn anelu gwasanaethau at y rheiny yr amcangyfrifid yr oedd arnynt fwy o angen, a hynny mewn modd rhagweithiol ac ataliol; gan gefnogi cleifion na fyddent wedi cael eu nodi fel arall, o bosibl.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Yr hyn a aeth yn dda

Rydym wedi dangos y modd y mae'r defnydd o gyllid clwstwr wedi cefnogi gofal sylfaenol wrth reoli'r galwadau presennol ar fynediad. Roedd yr Hwb Argyfwng a gynhaliwyd yn ystod gaeaf 2023-24 o fudd i'r practisau; fodd bynnag, nid oedd cyllid ar gael i barhau â hwn.

Mae defnyddio'r Uwch-ymarferydd Nyrsio yn y cartrefi nyrsio wedi caniatáu i'r staff yn y cartrefi gael eu haddysgu i helpu i gefnogi ac annog cysylltiadau priodol â'r gwasanaeth gofal sylfaenol, yn ogystal â gwell gofal ar gyfer y preswylwyr, gyda mwy o wybodaeth am gynlluniau rhag-gynllunio gofal.

Mae'r Ymarferydd Cyswllt Cyntaf wedi lleihau'r llwyth gwaith ar gyfer gofal sylfaenol a gofal eilaidd, fel ei gilydd, gan hefyd gynnig mynediad cyflym at ffisiotherapyddion arbenigol.

Rydym wedi cynnal cynllun peilot poen gronig yng nghlwstwr Cynon, sy'n cael ei ddefnyddio fel enghraifft o'r modd y gellir cynnig gwasanaethau poen gronig yn y gymuned a manteision y cynnig hwn.

Beth nesaf?

Rydym yn bwriadu symud tuag at gefnogi nid yn unig ein hoedolion sydd â phroblemau Iechyd meddwl, ond hefyd ein poblogaeth o bobl ifanc, a hynny trwy gynnig gwasanaethau cwnsela i unigolion 11 oed+.

Rydym yn cydnabod yr angen i barhau i gynnig gwasanaethau ffisiotherapi cyswllt cyntaf i'n cleifion, gyda'r gobaith y bydd hyn yn cael ei brif ffrydio yn y blynyddoedd i ddod.

Dechrau gweithio tuag at brosiectau sy'n cynnwys cydweithredfeydd eraill yn y clwstwr.

Hoffem geisio cynnig gofal deietegydd a gordewdra arbenigol i'n poblogaeth o gleifion trwy PIPYN, a hynny i gysoni'r gwasanaethau â'r rheiny a gynigir yng ngweddill y Clwstwr Carlam.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)



Taff Ely

Arweinydd y Clwstwr

Dr Rebecca Broughton
Rebecca.Broughton@wales.nhs.uk

Jayne Taylor-Lloyd
Jayne.Taylor-Lloyd@wales.nhs.uk

Rheolwr Datblygu'r Clwstwr

Janet Kellend
Janet.Kelland@wales.nhs.uk

Taff Ely

Pwy ydym ni?

- Un o wyth clwstwr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- 7 practis meddygon teulu
- 8 practis optometreg
- 21 o fferyllfeydd cymunedol
- 12 o bractisau deintyddol

Mae gan bob Contractwr Gofal Sylfaenol gydweithredfeydd naill ai wedi'u sefydlu neu wrthi'n cael eu sefydlu, ac mae arweinydd o bob un yn cynrychioli'r proffesiwn yn y cyfarfodydd clwstwr.

Mae aelodaeth y Clwstwr hefyd yn cynnwys:

- Interlink, sef sefydliad ymbarél ar gyfer sefydliadau'r 3ydd sector
- Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
- Gofal Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol
- Iechyd y Cyhoedd
- Nyrsio
- Poblogaeth o 95,320

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Parhau i gefnogi'r broses o ddatblygu mentrau ym maes gofal sylfaenol ac yn y gymuned i ganiatáu i'r boblogaeth wella ei hiechyd a'i llesiant, gyda blaenoriaethau penodol o ran iechyd meddwl, iechyd cyffredinol a chorfforol, a rheoli pwysau. Mae prosiectau 2025-26 yn cynnwys:

Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf – mae'r Clwstwr newydd gymeradwyo gwasanaeth wedi'i ariannu'n llawn am un flwyddyn arall yn 2025-26 tra ei fod yn aros am drafodaethau a phenderfyniadau gan y Bwrdd Iechyd ynghylch unrhyw fodel yn y dyfodol a'r ddarpariaeth o ran Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

Asesiadau Iechyd Meddwl Cyswllt Cyntaf – mae'r Clwstwr wedi ariannu dau ymarferydd ychwanegol i ychwanegu at ddarpariaeth y Tim Iechyd a Llesiant Cymunedol mewn practisau meddygon teulu. Mae hyn yn darparu ymyriad ac asesiad cynnar gan unigolyn hyfforddedig, ynghyd ag atgyfeiriadau priodol at wasanaethau a chymorth iechyd meddwl.

Grwpiau Ymylol ac Agored i Niwed - cymorth wedi'i dargedu ar gyfer Iechyd y Boblogaeth ymhlith grwpiau anoddach eu cyrraedd/cymunedau mwy difreintiedig:

- **Prosiect Anableddau Dysgu** – gweithio gyda Gwellw Iechyd Cymru i adolygu a phrofi templed electronig newydd sydd, yn ei dro, wedi arwain at well gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r angen am y Gwiriad Iechyd Blynyddol. Y nod yw gwella mynediad at Wiriad Iechyd Blynyddol o ansawdd.
- **Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig y Cymoedd** – ariannwyd y fenter yn 2024-25 i ddarparu gwybodaeth a chymorth i gyrchu gwasanaethau lleol – iechyd, cymdeithasol, gweithgareddau cymunedol, cyflogaeth, cyngor gyrfaoedd.
- **Byw â Dementia** – mae'r prosiect hwn wedi darparu hyfforddiant i hyrwyddwyr mewn practisau meddygon teulu i gynorthwyo'r broses o nodi achosion o golli'r cof yn gynt a chynnig mynediad at wasanaethau a chymorth. At hynny, ymgysylltwyd â'r gymuned i ddatblygu sesiynau therapi seiliedig ar y celfyddydau/seiotherapi cymunedol.



Gwasanaeth Nyrsys Eiddilwch – mae hyn bellach wedi symud i gyllid craidd gan wasanaeth Gofal Sylfaenol BIPCTM; fodd bynnag, mae'r nyrsys yn dal i weithio yn Nhaf Elái. Mae'r nyrsys yn darparu cyswllt rhagweithiol i'r boblogaeth, ynghyd ag asesiadau, cyngor a chyfeirio, ac atgyfeiriadau i'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau.

Cynllun cyfathrebu clystyrau – mae cyllid yn darparu cymorth misol ar gyfer postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a diweddariadau i'r wefan.

Cymorth rheoli pwysau i bobl ifanc – mae PIPYN yn darparu dull teulu cyfan o fynd i'r afael â ffyrdd iach o fyw, pwysau ac ymarfer corff. Bydd rhaglen 2 flynedd a ariennir yn dod i ben ym mis Mawrth 2026, a bydd trafodaethau'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn â gwasanaethau Therapi y Bwrdd Iechyd, gan hefyd gynllunio gyda nhw, i bennu a fydd y rhaglen yn cyd-fynd â modelau darparu gwasanaethau craidd yn y dyfodol, yn unol â'r ddarpariaeth a fandadir gan Lwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan – Pwysau Iach, Cymru Iach, sef tair lefel o wasanaeth ar gyfer pobl dan 18 oed.

Mae **iechyd meddwl a llesiant i bobl ifanc** yn darparu asesiad a chymorth cynnar i bobl ifanc. Mae Vitality Therapies hefyd yn cefnogi rhieni/gwarcheidwaid. Bydd y gwasanaeth hwn yn dod i ben ym mis Mawrth 2025, a bydd y Clwstwr yn rhoi ystyriaeth iddo ym mis Ebrill yn seiliedig ar gael adroddiad llawn ac argaeledd cyllid.

Therapiau siarad un i un ar gyfer oedolion – cafodd hyn ei gymeradwyo'n ddiweddar gan y clwstwr am ddwy flynedd i ddarparu ymyriad a chymorth cynnar i oedolion sy'n ymgysylltuo i'r sector Gofal Sylfaenol â phryderon iechyd meddwl.

Profion FeNO – mae cyfarpar wedi cael ei brynu ar gyfer practisau meddygon teulu i ddarparu mynediad i gleifion gael eu profi am asthma, yn unol â chanllawiau Cymru Gyfan a NICE/SIGN/BTS y sicrhawyd eu hansawdd. Bydd staff y practisau sy'n cynnal y profion hyn yn cael hyfforddiant, a nod y prosiect yw galluogi diagnosis mwy cywir o asthma a lleihau nifer y camddiagnosisau a'r presgripsiynau a roddir.

Mae'r prosiectau a gynigiwyd gan y clwstwr yn ystyried cysoni strategol yn unol â'r canlynol:

Strategaeth 2030 BIP CTM

Mae yna bedwar nod ar gyfer datblygu'r strategaeth; maent yn nodi'r prif bethau y dymunir eu cyflawni yn CTM yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

- Creu iechyd
- Gwellw gofal
- Ysbrydoli pobl
- Cynnal ein dyfodol

Rhaglen Strategol Blaenoriaethau Allweddol Gofal Sylfaenol

- Datblygu Clwstwr Carlam
- Gofal Sylfaenol Brys
- Seilwaith Cymunedol
- Llesiant Meddyliol

Mae'r clystyrau hefyd yn ystyried ac yn hunanfyfyrion yn unol â mesurau canlyniadau'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru.

Mae'r **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** wedi pennu blaenoriaethau yn ei Gynodeb o 'Anghenion Iechyd y Boblogaeth', sy'n amlygu'r angen, y galw a'r negeseuon allweddol ac yn helpu i adeiladu darlun o'r anghenion o ran gofal a chymorth ar gyfer pobl yng Nghwm Taf Morgannwg, yn cynnwys:

- Plant a Phobl Ifanc
- Anableddau Dysgu
- Iechyd Meddwl
- Dementia
- Pobl hŷn
- Gofalwyr Di-dâl
- Hygyrchedd
- Niwroamrywiaeth

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Prosiect Anableddau Dysgu gyda Gwelliant Cymru

Nyrsys Eiddilwch wedi ennill Gwobr Genedlaethol – gwobrau'r Nursing Times yn 2022

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Yr hyn a aeth yn dda

Gwasanaeth Nyrsio Eiddilwch Gweithredu gwasanaeth eiddilwch rhagweithiol sefydledig sy'n cysylltu'n uniongyrchol â phractisau meddygon teulu, Fferyllfeydd Cymunedol, Optometreg, yr Awdurdod Lleol, Gofal Cymdeithasol a thimau sefydliadau'r trydydd sector, a hynny i sicrhau agwedd gydgyssylltiedig at ofal cleifion.

ADHD – prosiect peilot wedi'i ddatblygu a'i ddarparu gan Camau'r Cymoedd i gefnogi'r broses o ddarparu cysiau seicoaddysgol/hunangymorth i'r rheiny sy'n delio ag ADHD. Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru trwy'r Bwrdd Iechyd, mae hyn bellach wedi cael ei gyflwyno ledled Cwm Taf Morgannwg.

Datblygu Clwstwr Carlam Mae addasiadau a symud i ddull cydweithredol a dull clwstwr, yn unol â'r Datblygiadau Clystyrau Carlam newydd, yn parhau i ddatblygu gyda dull gweithredu amlddisgyblaethol cynhwysol sy'n sefydlu.

System Iechyd Cyhoeddus i reoli'r boblogaeth – mae'r clwstwr wedi sefydlu'r defnydd o system Iechyd y Boblogaeth a segmentu i echdynnu data o systemau clinigol a thargedu angen y boblogaeth, gan lywio prosiectau i wella canlyniadau ar gyfer y cleifion – yn arbennig yn y Gwasanaeth Nyrsio Eiddilwch.

Grŵp diogelu – mae grŵp sefydledig o feddygon teulu bellach yn cwrdd yn chwarterol ac yn ffurfio grŵp cymheiriaid o arbenigwyr. Rhoddwyd ystyriaeth i Gontractwyr Gofal Sylfaenol eraill, a gellir datblygu hyn yn ôl yr angen.

Iechyd Menywod Mae gweithio cydgysylltiedig, hyfforddiant ar ymwybyddiaeth wedi bod ar waith ymhlith clinigwyr Gofal Sylfaenol ac Eilaidd i wella'r broses o reoli iechyd menywod a'r menopos ym maes Gofal Sylfaenol.





**Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm
Taf Morgannwg
(BIPCTM)**



Taff Ely

Arweinydd y Clwstwr

Dr Rebecca Broughton
Rebecca.Broughton@wales.nhs.uk

Jayne Taylor-Lloyd
Jayne.Taylor-Lloyd@wales.nhs.uk


**Rheolwr Datblygu'r
Clwstwr**

Janet Kellend
Janet.Kellend@wales.nhs.uk

Beth nesaf?

Parhau i wneud y canlynol:

- Datblygu trefniadau cydweithio yn unol â'r Model Clwstwr Carlam, a datblygu gwasanaethau ac adolygu llwybrau i gefnogi mynediad at wasanaethau ar gyfer ei boblogaeth o gleifion mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol a Chymunedol.
- Darparu ffisiotherapi gan weithio tuag at ddarparu gwasanaeth craidd a model system gyfan.
- Cydweithio rhwng clystyrau ac arweinwyr a chynllunwyr iechyd meddwl y Bwrdd Iechyd er mwyn gweithio i sicrhau bod y gwasanaethau iawn yn cael eu darparu yn y man iawn a, lle bo angen, yn fwy lleol, i wella mynediad ac ymyriadau cynnar.
- Cefnogi dull CTM o fynd i'r afael â PIPYN – dull teulu cyfan o fynd i'r afael â ffyrdd iach o fyw, pwysau, ac ymarfer corff.
- Llywio cleifion tuag at y gofal a'r cyngor mwyaf priodol yn eu cymuned.
- Cynnal ffocws penodol ar iechyd y boblogaeth ymhlith grwpiau anoddach eu cyrraedd/cymunedau mwy difreintiedig ar gyfer grwpiau ymylol ac agored i niwed.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD)

Tywi Taf

Amman Gwendraeth

Llanelli

De Sir Benfro

Gogledd Sir Benfro

Gogledd Ceredigion

De Ceredigion



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Jill Paterson

Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol,
Gwasanaethau Cymunedol a Gofal Hirdymor

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda raglen gref o arweinyddiaeth ac arloesedd lefel Clwstwr ers nifer o flynyddoedd, ac mae hefyd wedi cefnogi a hyrwyddo dull amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol o ddatblygu prosiectau sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth orau.

Wrth i'r gwaith o ddatblygu prosiectau'r Clwstwr fynd rhagddo, rydym wedi gwella ein dulliau casglu data i'n galluogi i gyflwyno tystiolaeth o ddata sylfaenol, yn ogystal â chanlyniadau prosiectau, o gymharu â chyfres o fesurau a bennwyd yng nghamau cynnar datblygiad y prosiectau.

Mae gwaith Cynllunio Traws-glwstwr yn dal i gael ei arwain a'i gefnogi gan ein grwpiau amlbroffesiynol yn y Sir, Sir Gaerfyrddin Iachach, Sir Benfro Iachach a Cheredigion Iachach. Gwaith ein Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr yw sylfaen cynllun strategol y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau bod y ffocws ar ddarparu a chynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion iechyd y boblogaeth.



Yn dilyn llwyddiant ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i uwchraddio a chyflwyno tri phrosiect blaenorol a ddatblygwyd gan Glystyrau (Presgripsiynu Cymdeithasol a Nyrsio Anadlol, a Chyn-ddiabetes), mae gwaith yn mynd rhagddo i symud tri phrosiect arall yn eu blaen (Ffisiotherapi Cyswllt Cyntaf, Dull Amlddisgyblaethol o Reoli Poen, a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc Haen 0/Haen 1) i'w huwchraddio a'u cyflwyno yn 2025-26.


At hynny, rydym yn adolygu rôl Fferyllwyr y Clwstwr i sicrhau y gallwn fanteisio i'r eithaf ar set sgiliau'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ac ar draws ein Clystyrau.

Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar draws pob un o'n saith Clwstwr, gyda datblygiad Cynllun Strategol Gwasanaethau Sylfaenol ac Eilaidd ar gyfer y Bwrdd Iechyd ar y gweill gobeithiwn weld cwmpas a chylch gwaith y Clystyrau'n datblygu a thyfu yn y blynyddoedd i ddod.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD)



Sir Gaerfyrddin Iachach

Tywi Taf

Amman Gwendraeth

Llanelli

Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr (GCTG) Sir Gaerfyrddin Iachach

Mae aelodau Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr Sir Gaerfyrddin Iachach yn gynrychiolwyr amlasiantaethol uwch, ac mae'r aelodau i gyd yn gyfrifol am gyfleu penderfyniadau a chymau gweithredu allweddol trwy eu priod sefydliadau a rhwydweithiau. Gwahoddir yr aelodau presennol i gymryd rhan:

Y Cyfarwyddwr Cymunedau (yr Adran Nawdd Cymdeithasol)

Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion (Oedolion Hŷn ac Iechyd Meddwl/Anableddau Dysgu)

Y Pennaeth Tai a Chymunedau Mwy Diogel (Tai a Diogelu'r Cyhoedd)

Pennaeth y Gwasanaethau Plant

Y Pennaeth Hamdden

Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd

Cyfarwyddwr y Sir/Rheolwr Cyffredinol Ysbytai Aciwt

Y Cyfarwyddwr Cynllunio

Y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol

Y Pennaeth Nyrsio Cymunedol

Yr Arweinydd Therapiau

Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu y Bwrdd Iechyd

Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Plant y Bwrdd Iechyd

Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd

Uwch-bartner Busnes Cyllid

Arweinwyr Clystyrau Llanelli, Tywi/Taf ac Aman Gwendraeth

Rheolwyr y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol

Rheolwr Datblygu'r Clwstwr

Prif Swyddogion y Cynghorau Gwirfoddol Sirol

Aelod o'r Cabinet

Pennaeth y Rhaglen Partneriaeth Ranbarthol

Arweinydd Gwasanaeth Trawsnewid Sir Gaerfyrddin

Y Rheolwr Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau Corfforaethol

Mae gan Sir Gaerfyrddin dri Chlwstwr: Tywi/Taf, Aman Gwendraeth a Llanelli. Mae'r sir yn wledig yn bennaf gydag aneddiadau trefol.

Gwasanaethau Iechyd yn y Clwstwr

Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:

- 23 o Bractisau Meddygon Teulu ynghyd ag 11 o Feddygfeydd Cangen
- 18 o Bractisau Deintyddol Cyffredinol a 2 Bractis Orthodontig
- 45 o Fferyllfeydd Cymunedol: 18 sy'n darparu Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd (PIPS)
- 20 o Bractisau Optometreg: 12 sy'n darparu o leiaf un elfen o WGOS4 a 9 sy'n darparu WGOS5
- 2 Ysbyty Cyffredinol
- 2 Ysbyty Cymunedol
- 37 o Gartrefi Nyrsio/Preswyl
- Tîm Adnoddau Cymunedol
- Tîm Gofal Canolraddol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Sefydlwyd Grŵp Traws-glwstwr Sir Gaerfyrddin Iachach i fod yn is-grŵp ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD) a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Nod y Grŵp yw cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

(2014), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Cymru Iachach, a'r Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod yna gysondeb ac ymgysylltiad cynyddol rhwng trefniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Clwstwr i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi i safle Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru a'r cynllun cyfredol:

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru – Gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer oedolion a phlant ag anghenion gofal a chymorth.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi i safle Gofal Sylfaenol Un a Chynlluniau cyfredol y Clwstwr:

BIP Hywel Dda – Gofal Sylfaenol Un

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae Grŵp Traws-glwstwr Sir Gaerfyrddin Iachach wedi cyflawni'r canlynol:

Nodi meysydd blaenoriaeth cytunedig i'w gwella, lle mae gofyn cael cydweithio cryfach i gyflawni canlyniadau gwell gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Datblygu a chyflawni cynllun ardal lleol.

Hyrwyddo diwylliant sy'n mynd ati i gael gwared ar rwystrau, meini tramgwydd a seilos mewn sefydliadau er mwyn sicrhau gwasanaethau di-dor i'r boblogaeth leol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol mewn cymunedau, gan gyfeirio'n benodol at grwpiau lleiafrifol a grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio.

Cefnogi gwaith ar y cyd a, lle bo hynny'n ofynnol, sicrhau'r awdurdodiad priodol yn eu sefydliadau eu hunain i wneud hynny.

Sicrhau bod swyddogion llywodraeth leol, y GIG a'r trydydd sector yn gallu gweithio ar y cyd yn unol â threfniadau llywodraethu statudol a sefydliadol sy'n darparu fframwaith atebolrwydd clir.

Goruchwyllo'r modd y defnyddir adnoddau, yn cynnwys grantiau perthnasol gan Lywodraeth Cymru.

Datblygu ei gapasiti a'i allu i ddarparu trefniadau llywodraethu effeithiol.

Awdurdodi ac annog gwaith ar y cyd a, lle bo hynny'n ofynnol, sicrhau'r awdurdodiad priodol yn eu sefydliadau eu hunain i wneud hynny.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Caiff cylch gorchwyl Grŵp Traws-glwstwr Sir Gaerfyrddin Iachach ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau i'r personél ac i sicrhau bod diben y grŵp yn gywir ac y cytunir arno.

Beth nesaf?

Bydd blaenoriaethau Grŵp Traws-glwstwr Sir Gaerfyrddin Iachach ar gyfer y dyfodol yn cael eu pennu gan y Cynllun Cymunedol Integredig a'r blaenoriaethau a nodir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Clystyrau.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD)



Tywi/Taf

Arweinydd y Clwstwr

Dr Kerry Phillips
Kerry.Phillips3@wales.nhs.uk

Rheolwr y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Dan Kristof
Daniel.Kristof@wales.nhs.uk

Arweinwyr ein Cydweithredfeydd

Cydweithredfa Meddygon Teulu:
Dr Kerry Phillips

Cydweithredfa Fferylliaeth:
Nicola Griffiths

Cydweithredfa Optometreg:
Heddwyn Davies

Tywi/Taf

Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr Tywi/Taf yn gweithio i ddatblygu system gofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol integredig, lle y gall cleifion lifo trwy'r sectorau yn ôl yr angen ar hyd eu taith yn seiliedig ar lwybrau ar gyfer gwahanol gyflyrau. Ein nod yw cefnogi ein poblogaeth leol i aros yn eu cartref eu hunain; gyda phwyslais ar lesiant y boblogaeth a chwlwm cymunedol, trwy feithrin mwy o gysylltiadau â gwasanaethau partner. Rydym yn anelu at sicrhau ardal gwbl integredig gyda mwy o bwyslais ar gyfuno gwasanaethau a ffocysu ar rag-gynllunio gofal a gofal ataliol i wella'r cymorth a ddarperir i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd, a hynny er mwyn rheoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain yn unol â "Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol".

Gwrywod: 49% Benywod: 51%

Rhwydwaith Clwstwr Tywi Taf yw'r pedwerydd grŵp Clwstwr mwyaf o'r saith grŵp Clwstwr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD). Mae'n cynnwys wyth Practis Meddygon Teulu ac yn ymestyn o Hendy-gwyn ar Daf yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin trwy Dref Caerfyrddin i Lanymddyfri yn y gogledd-ddwyrain. Mae'r ardal ddaearyddol a gwmpesir gan y Clwstwr yn sylweddol fwy na'r ardaloedd cyfagos yn Aman Gwendraeth a Llanelli, ac mae'n wledig yn bennaf, sy'n cyfateb i 81% o gyfanswm ehangdir Sir Gaerfyrddin. Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y trefi yn y clwstwr; mae hyn yn amlwg iawn yn ardal Afon Tywi lle mae 43% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.

Ein Gwasanaethau

- 8 Practis Meddygon Teulu with 2 Branch Surgeries
- 8 Practis Meddygon Teulu ynghyd â 2 Feddygfa Gangen
- 7 Practis Deintyddol Cyffredinol ac 1 Practis Orthodontig
- 13 o Fferyllfeydd Cymunedol – 4 sy'n darparu Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd (PIPS)
- 10 o Bractisau Optometreg – 6 sy'n darparu o leiaf un elfen o WGOS4 a 4 sy'n darparu WGOS5
- Ysbyty Cyffredinol Glangwili
- Ysbyty Cymunedol Llanymddyfri
- 11 o Gartrefi Nyrsio/Preswyl
- 1 Tîm Adnoddau Cymunedol
- 1 Tîm Gofal Canolraddol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Blaenoriaethau'r Clwstwr 2024-25

Mae eiddilwch yn flaenoriaeth barhaus, a'n nod yw lleihau derbyniadau brys a hyd cyfartalog arosiadau yn yr ysbyty.

Ar hyn o bryd, mae'r Clwstwr wedi cofrestru ar gyfer prosiect EQUIP i nodi, cydlynu, cynllunio a chefnogi pobl sy'n wynebu risg uwch o fod angen gofal brys neu ofal mewn argyfwng.

Yn ddiweddar, mae'r Clwstwr wedi ail-dendro a dyfarnu contract i MIND am ei wasanaethau monitro gweithredol ar gyfer symptomau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol.

ASTUDIAETH ACHOS: Arfer Gorau y Tîm Amlddisgyblaethol o ran Rhag-gynllunio Gofal

Mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol yng Nghlwtwr Tywi/Taf wedi gweithio gyda nyrsys ardal a meddygfeydd teulu i sefydlu trefniadau gweithio amlddisgyblaethol effeithiol, gan ganolbwyntio ar adnabod pobl hŷn eiddil y mae arnynt angen dull cydlynol, amlddisgyblaethol i hybu eu hannibyniaeth a lleihau'r risg o gael eu derbyn i'r ysbyty. Cyflwynwyd cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol fesul tipyn i'r wyth Practis Meddygon Teulu yn ardal Tywi/Taf.

Cytunwyd y bydd cyllid y Clwstwr yn cael ei ddefnyddio i wella gwaith amlddisgyblaethol trwy wneud y canlynol:

- Penodi Technegydd Therapi Galwedigaethol generig
- Datblygu a defnyddio Cynlluniau Cadw'n Iach sy'n amlinellu ymyriadau amlddisgyblaethol a threfniadau cynllunio gofal
- Cyflwyno meddalwedd haenu risgiau i systemau meddygon teulu a fydd yn cefnogi'r gwaith o adnabod oedolion hŷn sydd mewn perygl o fynd yn fwyfwy eiddil ac a fyddai'n elwa o rag-gynllunio gofal.

Mae meddygon teulu wedi croesawu'r cyfle i ymgysylltu â'u cyd-weithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gan arwain at well dealltwriaeth o brosesau. Nododd arolwg o'r timau amlddisgyblaethol dan sylw fod 85% o'r ymatebwyr o'r farn bod y cyfarfodydd yn fuddiol. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod gwaith amlddisgyblaethol yn golygu ymrwymiad sylweddol o ran amser ac adnoddau i bawb sy'n cymryd rhan. Dim ond nifer bach o gleifion y gellir eu hatgyfeirio at y timau amlddisgyblaethol, ac mae'r cyfarfodydd yn adweithiol ar hyn o bryd; maent yn ymdrin â phroblemau cleifion sydd eisoes mewn argyfwng.

Rydym yn cyflogi Technegydd Generig i reoli cleifion mewn modd mwy effeithiol a rhagweithiol yn eu cartref eu hunain, er mwyn cyfoethogi eu profiad o ofal a gwella eu canlyniadau. Mae'r rôl yn canolbwyntio ar atal derbyniadau trwy ddarparu gwasanaeth cyflym mewn ymateb i atgyfeiriadau uniongyrchol gan feddygon teulu ar gyfer pobl a nodwyd gan y tîm amlddisgyblaethol eu bod yn wynebu risg o gwmpo ac eiddilwch a bod arnynt angen asesiad lefel isel ac ymyriad cynnar i gynnal symudedd ac annibyniaeth. Mae'r rôl hon yn gwella'r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol y tu hwnt i ffiniau gofal iechyd traddodiadol

gan hefyd integreiddio model presgripsiynu cymdeithasol sy'n symud i ffwrdd oddi wrth fodelau darparu traddodiadol a arweinir gan wasanaethau. Mae'r swydd hon yn cefnogi cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ac yn derbyn atgyfeiriadau uniongyrchol i gynnal asesiadau lefel isel, a gall wella'r broses o ganfod y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn gynnar a gofalu amdanynt, gan gynnwys y rheiny sydd â dementia. Mae'r rôl wedi'i hanelu'n benodol at gynnal llesiant ac annibyniaeth.

Mae creu'r swydd hon wedi cael effaith gadarnhaol ar restrau aros ffisiotherapi a therapi galwedigaethol y gymuned. Mae'r gyfradd drosi yn 95% gyda dim ond 5% o'r atgyfeiriadau yn gofyn am atgyfeiriad ymlaen at therapydd galwedigaethol/ffisiotherapi.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Cefnogwyd elfen ymgysylltu â'r cyhoedd y broses o ddatblygu Cynllun Strategol y Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol trwy gynnal digwyddiad i arddangos prosiectau'r Clwstwr.
- Mae'r Clwstwr, mewn cydweithrediad â PLANED, wedi agor Canolfan Byw'n Dda yng Nghaerfyrddin, ac mae dros 15 o sefydliadau partner wedi ymrwymo i ddefnyddio'r cyfleuster. Bydd y ganolfan yn cynnal gwasanaethau Gofal Sylfaenol, y Trydydd Sector a chymorth, a fydd yn amrywio o iechyd meddwl, dementia a chymorth i ofalwyr, i ddarparu gwybodaeth, cyngor, addysg, a dosbarthiadau celfyddydau ac ymarfer corff, ymhlith gweithgareddau eraill. Darperir dull cydlynol i ddefnyddwyr y ganolfan i rymuso'r unigolyn.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Ymgymrodd y Clwstwr â phroses hunanfyfyrrio y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, lle roedd yna gyfle i aelodau'r Clwstwr fyfyrrio a meincnodi eu hunain yn erbyn canlyniadau'r Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru a Datblygu Clwstwr Carlam. Mae'r Clwstwr wedi cymryd amser i fyfyrrio ar y canlyniadau ac wedi llunio cynllun gweithredu yn sgil hynny.

Defnyddiwyd data o brosiectau'r Clwstwr i lywio penderfyniadau comisiynu ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â dadlau dros uwchraddio a chyflwyno mentrau a ddatblygwyd gan y Clwstwr. Mae methodoleg gwella ansawdd 'nawr yn cael ei defnyddio wrth ddylunio a chomisiynu unrhyw brosiectau newydd.

Beth nesaf?

Datblygu'r achos dros uwchraddio a chyflwyno nifer o'r prosiectau y mae Clwstwr y wedi'u datblygu a/neu wedi bod yn rhan ohonynt.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD)



Amman Gwendraeth

Arweinydd y Clwstwr

yn wag ar hyn o bryd

Rheolwr y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Gemma Badham-Evans
gemma.m.badham-evans@wales.nhs.uk

Arweinwyr y Cydweithredfeydd:

Cydweithredfa Meddygon Teulu:
yn wag ar hyn o bryd

Cydweithredfa Fferylliaeth:
Gareth Harlow

Cydweithredfa Optometreg:
Lewis Richards

Amman Gwendraeth

Pwy ydym ni?

Ein nod yng Nghlwestwr Aman Gwendraeth yw nodi anghenion y boblogaeth leol ac arloesi i gysylltu prosiectau sy'n bod yn barod a phrosiectau newydd a fydd, yn ein barn ni, yn diwallu'r anghenion hynny. Bydd darparu presgripsiynwyr cymdeithasol, gwasanaethau ychwanegol gan asiantaethau trydydd sector, a chysylltu pobl â gwasanaethau gofal cymdeithasol a hamdden yr Awdurdod Lleol yn gwella argaeledd a gwelededd y seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol ar ein stepen drws, gan arwain at gyfleoedd llesiant poblogaidd a derbyniol sydd ar gael i bawb. Ein nod yw cysylltu pob un o'r pedwar gwasanaeth gofal sylfaenol statudol ac integreiddio a chydlynu'r gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned trwy weithio gyda phartneriaid cymunedol a defnyddio arian Senedd Cymru mewn modd darbodus.

Gwrywod: 48.9% Benywod 51.1%

Mae Clwstwr Aman Gwendraeth wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin, sy'n sir amaethyddol yn bennaf, ar wahân i ardal y de-ddwyrain sy'n cynnwys Llanelli, a'r trefi yng Nghymoedd Aman a Gwendraeth, sydd wedi'u lleoli ar Faes Glo De Cymru. Roedd y rhan hon o Sir Gaerfyrddin yn ddiwydiannol iawn ar un adeg gyda phyllau glo, a gwaith cynhyrchu dur a phlatio tun. Mae'r gweithgarwch glo brig yn yr ardal bellach wedi dod i ben; fodd bynnag, mae'r hen aneddiadau glofaol yn parhau, ac mae rhai o ganlyniadau iechyd hirdymor y diwydiannau hyn yn dal i gael eu hadlewyrchu yn y data ar afiachedd a marwolaethau ar gyfer yr ardal.

Ein Gwasanaethau

- 8 Practis Meddygon Teulu ynghyd â 7 Meddygfa Gangen
- 4 Practis Deintyddol Cyffredinol
- 16 o Fferyllfeydd Cymunedol – 8 sy'n darparu Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd (PIPS)
- 5 Practis Optometreg – 3 sy'n darparu o leiaf un elfen o WGOS4 a 3 sy'n darparu WGOS5
- Ysbyty Cymunedol Dyffryn Aman
- 12 o Gartrefi Nyrsio/Preswyl
- 1 Tîm Adnoddau Cymunedol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Blaenoriaethau'r Clwstwr 2024/25

Parhau i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer y rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol, na fyddent fel arall yn bodloni'r meini prawf. Mae'r Clwstwr wedi llwyddo i gomisiynu Sefydliad Jac Lewis am dair blynedd arall i lenwi'r bwlch yn y gwasanaeth a ddarperir a chefnogi cleifion y Clwstwr.

Mae gwasanaeth Poen Barhaus y Clwstwr yn darparu mynediad cyflym a rhwydd at ddull mwy costeffeithiol, seiliedig ar dystiolaeth, gan ddarparu ymyriad cynnar a gofal yn nes at y cartref. Mae'r tîm yn gweithio'n rhagweithiol yn y Clwstwr i gynnig addysg, hyfforddiant a chymorth i staff y Clwstwr er mwyn ymgorffori'r hyn a ddysgir i'w galluogi i reoli'r garfan gymhleth hon o gleifion mewn modd mwy effeithiol. Mae'r Clwstwr wedi estyn y gwasanaeth hwn am chwe mis ychwanegol gyda'r nod o'i uwchraddio a'i gyflwyno ledled ôl troed y Bwrdd Iechyd.

Datblygu'r broses o integreiddio'r cydweithredfeydd Optometreg a Fferylliaeth a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi ar lefel y Clwstwr. Hoffai'r Clwstwr gefnogi'r cydweithredfeydd Optometreg trwy ymrwymo i ariannu cyfarpar newydd, yn benodol lampau hollt symudol â ffotograffiaeth i wella mynediad ar gyfer cleifion yn y gymuned, a fydd yn helpu i leihau nifer yr

atgyfeiriadau a wneir i'r gwasanaeth Offthalmoleg ym maes gofal eilaidd, a hynny trwy ddarparu gofal mewn practisau Optometrig.

ASTUDIAETH ACHOS:Y Gwasanaeth Poen Barhaus

Mae poen gronig a pharhaus yn broblem gymhleth ond cyffredin sy'n gysylltiedig â defnydd uchel o Opioidau a Gabapentinoidau. Yn 2022, defnyddiodd Clwstwr Aman Gwendraeth wasanaethau Fferyllydd sy'n arbenigo mewn Rheoli Poen i adolygu carfan o gleifion mewn ymdrech i leihau eu defnydd o opioidau, ond yn hytrach cydnabuwyd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'u poen a'r anawsterau a wynebir gan glinigwyr wrth fynd i'r afael â'u cynlluniau rheoli a'u defnydd o feddyginiaethau. Roedd ar y cleifion hyn angen ymgynoriadau hir, roedd ganddynt broblemau dibyniaeth ac iechyd meddwl, roeddent yn gaeth i sylweddau, ac roedd yna risgiau o ran presgripsiynu.

Er bod y cleifion hyn fel arfer wedi cael archwiliad meddygol da, gadawyd y meddygon teulu heb fawr ddim opsiynau, ac nid oedd gan nifer ohonynt y set sgiliau i reoli'r cleifion cymhleth hyn. Arweiniodd hyn at gleifion yn cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Poen Gronig yn y gwasanaeth Gofal Eilaidd neu at gael eu camreoli trwy gynyddu presgripsiynau. Ar y pryd, roedd practisau meddygon teulu yn y Clwstwr yn dibynnu'n fawr ar feddygon teulu locwm, gan waethygu'r sefyllfa.

Mae gan y Gwasanaeth Poen Gronig Gofal Eilaidd lwybr Bioseicogymdeithasol sy'n cynnig rhaglen rheoli poen. Y llwybr hwn sydd wedi cynnig y cymorth mwyaf i gleifion trwy eu helpu i ddeall eu canfyddiad o boen a'r modd i'w rheoli. Yn anffodus, roedd yr amser aros ar gyfer y gwasanaeth rhwng dwy a phum mlynedd. At hynny, mae cleifion y gwasanaethau Rhewmatoleg ac Orthopedeg Gofal Eilaidd sydd wedi dod i ddiwedd eu triniaeth, ond sy'n dal i fod mewn poen, hefyd yn cael eu rhyddhau i'r Gwasanaethau Poen neu yn ôl i'w meddyg teulu ar gyfer rheolaeth barhaus. Mae hyn yn aml yn arwain at ragor o archwiliadau, diagnosteg a meddyginiaeth.

Yn 2022, cytunodd y Clwstwr i ariannu tîm poen barhaus pwrpasol a oedd yn cynnwys Fferyllydd Arbenigol, Ffisiotherapydd Arbenigol, a Seicolegydd Cynorthwyol. Sail resymegol y prosiect oedd dangos y gallai gwasanaeth Poen Bioseicogymdeithasol gael ei ddarparu'n effeithiol yn rhan o Ofal Sylfaenol a hefyd:

- Lleihau nifer yr atgyfeiriadau at y Gwasanaeth Poen Gofal Eilaidd
- Lleihau'r pwysau ar wasanaethau eraill megis adrannau cleifion allanol a diagnosteg
- Lleihau'r pwysau ar bractisau meddygon teulu
- Lleihau presgripsiynu a'r costau cysylltiedig

- Lleihau amseroedd aros ar gyfer cleifion, a galluogi hunanreolaeth
- Sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif trwy gael pethau'n iawn y tro cyntaf, a sicrhau mai dim ond y rheiny y mae arnynt angen barn feddygol ac sy'n cael eu hatgyfeirio.

Mae'r prosiect yn cynnig cymorth amserol i gleifion reoli eu poen barhaus, ac mae'r tîm yn gweithio'n rhagweithiol yn y Clwstwr i gynnig addysg, hyfforddiant a chymorth i'r staff er mwyn ymgorffori'r hyn a ddysgir i'w galluogi i reoli cleifion y dyfodol mewn modd mwy effeithiol.

Yn 2023-24, roedd y gwasanaeth wedi brysbennu 345 o gleifion, gyda 293 ohonynt yn cael eu derbyn i'r gwasanaeth. Daeth 72% o'r cleifion i'w hapwyntiadau. Rhoddwyd terfyn ar feddyginiaeth 82% o'r cleifion, newidiwyd meddyginiaeth 9% arall ohonynt, a diwygiwyd dos 8% arall. Arbedodd yr ymyriad a ddarparwyd £7.7 mil mewn perthynas â chostau presgripsiynu, ynghyd â £7.1 mil arall mewn perthynas â lleihau ymweliadau â'r ysbyty.

Defnyddiwyd set o Fesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMS) yn rhan o'r prosiect, gan gynnwys Holiadur Iechyd Cleifion (PHQ), Anhwylder Gorbryder Cyffredinol (GAD), Holiadur Hunaneffeithiolrwydd Cleifion (PSEQ), a Graddfa Ginesioffobio Tampa (TSK); roedd pob un o'r rhain yn dangos gwell canlyniadau ar gyfer y cleifion o gymharu â'r asesiad sylfaenol.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Cefnogwyd elfen ymgysylltu â'r cyhoedd y broses o ddatblygu Cynllun Strategol y Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol trwy gynnal digwyddiad i arddangos prosiectau'r Clwstwr.

Ariannwyd hyfforddiant i Optometryddion a phrynwyd cyfarpar arbenigol i gefnogi'r broses o weithredu WGOS4, gan alluogi mynediad rhwyddach i gleifion at wasanaethau.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD)



Amman Gwendraeth

Arweinydd y Clwstwr

yn wag ar hyn o bryd

Rheolwr y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Gemma Badham-Evans
gemma.m.badham-evans@
wales.nhs.uk

Arweinwyr y Cydweithredfeydd:

Cydweithredfa Meddygon
Teulu:

yn wag ar hyn o bryd

Cydweithredfa Fferylliaeth:
Gareth Harlow

Cydweithredfa Optometreg:
Lewis Richards

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Beth sydd wedi gweithio'n dda ar gyfer y Clwstwr?

Gweithredwyd pob un o dair blaenoriaeth y Clwstwr yn llwyddiannus.

Penodwyd arweinydd newydd ar gyfer y gydweithredfa Fferylliaeth.

Cymerwyd rhan yn y gwaith o sefydlu Cydweithredfa Nyrsio y Bwrdd Iechyd, ac rydym wrthi'n trefnu cydweithredfa Gofal Cymdeithasol.

Defnyddiwyd data o brosiectau'r Clwstwr i lywio penderfyniadau comisiynu ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â dadlau dros uwchraddio a chyflwyno mentrau a ddatblygwyd gan y Clwstwr. Mae methodoleg Gwella Ansawdd bellach yn cael ei defnyddio wrth ddylunio a chomisiynu unrhyw brosiectau newydd.

Beth y gellid ei wneud yn wahanol?

- Defnyddio data a methodoleg Gwella Ansawdd i fynd ati mewn modd gwrthrychol i ystyried prosiectau'r Clwstwr gan arwain at gynnal trafodaethau cadarn ynghylch pryd y dylid rhoi terfyn ar brosiectau nad ydynt wedi gweithio yn ôl y disgwyl.
- Ymgysylltu â thimau Iechyd Seiliedig ar Werthoedd y Bwrdd Iechyd i ddatblygu a gwerthuso prosiectau'r Clwstwr.

Beth nesaf?

Datblygu'r achos dros uwchraddio a chyflwyno nifer o'r prosiectau y mae Clwstwr Aman Gwendraeth wedi'u datblygu a/neu wedi bod yn rhan ohonynt, yn cynnwys y Gwasanaeth Poen Barhaus.

Cefnogi arloesedd yn achos rhaglenni iechyd ataliol, e.e. gordewdra yn ystod plentyndod.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD)



Llanelli

Arweinydd y Clwstwr

Dr Alan Williams
Alan.Williams3@wales.nhs.uk

Rheolwr y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Kristy Williams
kristy.n.williams@wales.nhs.uk

Arweinwyr ein Cydweithredfeydd

Cydweithredfa Meddygon Teulu: Dr Raj Vaikunthnathan

Cydweithredfa Fferylliaeth: y swydd yn wag ar hyn o bryd

Y Gydweithredfa Optometreg: Eleri Williams

Llanelli

Pwy ydym ni?

Mae blaenoriaethau Clwstwr Llanelli yn cael eu llywio tuag at helpu'r boblogaeth i ddod yn fwy cydnerth a chanolbwyntio ar wella iechyd a llesiant pobl. Y nod yn y pen draw fydd bod â phoblogaeth sy'n cyrchu'r gwasanaethau llai, sy'n ymgysylltu mwy â'u cymunedau, ac sy'n chwarae rôl fwy gweithredol yn eu hanghenion iechyd a llesiant eu hunain. Ar hyn o bryd, mae'r ystod amrywiol eang o weithwyr proffesiynol sy'n ymgysylltu â phrosiectau'r Clwstwr, yn cynnwys presgripsiynwyr, Nyrsys, Therapyddion a Chwnselwyr, i gyd yn cyfrannu at wneud Gofal Sylfaenol yn fodel mwy cynaliadwy ac integredig. Ein nod yng Nghlwestwr Llanelli yw creu partneriaeth, gan gefnogi pobl i fod â gwell iechyd a llesiant trwy gydol eu bywydau.

Gwrywod: 48.5% Benywod: 51.5%

Mae Clwstwr Llanelli wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin, sy'n sir amaethyddol yn bennaf, ar wahân i'r ardal y de-ddwyrain sy'n cynnwys Llanelli a threfi yng Nghymoedd Aman a Gwendraeth, a leolir ar Faes Glo De Cymru. Roedd y rhan hon o Sir Gaerfyrddin yn ddiwydiannol iawn ar un adeg gyda phyllau glo, a gwaith cynhyrchu dur a phlatio tun. Mae'r gweithgarwch glo brig yn yr ardal bellach wedi dod i ben; fodd bynnag, mae'r hen aneddiadau glofaol yn parhau, ac mae rhai o ganlyniadau iechyd hirdymor y diwydiannau hyn yn dal i gael eu hadlewyrchu yn y data ar afiachedd a marwolaethau ar gyfer yr ardal.

Ein Gwasanaethau

- 7 Practis Meddygon Teulu ynghyd ag 1 Feddygfa Gangen
- 7 Practis Deintyddol Cyffredinol ac 1 Practis Orthodontig
- 6 o Fferyllfeydd Cymunedol – 6 sy'n darparu Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd (PIPS)
- 5 Practis Optometreg – 3 sy'n darparu o leiaf un elfen o WGOS4 a 2 sy'n darparu WGOS5
- Ysbyty'r Tywysog Philip
- Clinig Cymunedol Elizabeth Williams
- 14 o Gartrefi Nyrsio/Preswyl
- 1 Tîm Adnoddau Cymunedol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Blaenoriaethau'r Clwstwr 2024/25

Mae'r gwasanaethau iechyd meddwl yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Clwstwr; fodd bynnag, o ganlyniad i ailgomisiynu gwasanaethau bydd 2024-25 yn gyfle i bwysu a mesur yr hyn a gomisiynwyd yn flaenorol, gan fapio ar draws gwasanaethau Iechyd Meddwl eraill i sicrhau ein bod yn comisiynu'r gwasanaethau iawn ar gyfer ein cleifion.

Profion sbiometreg ac adrodd trwy glinigau sy'n hygyrch yn lleol, gyda'r nod o glirio'r ôl-groniad presennol a bod heb restr aros ar gyfer profion yn y dyfodol. Rydym am wella safonau'r driniaeth ar gyfer clefyd anadlol mewn ardal lle mae'r angen yn fawr.

Mae'r Clwstwr wedi cefnogi ein Tîmau Cymunedol i wella gofal cleifion diabetig a'r boblogaeth oedrannus eiddil.

Rydym yn darparu asesiadau ffisiotherapi a thriniaeth ym mhob practis, gan leihau nifer yr atgyfeiriadau i'r ysbyty a darparu triniaeth megis pigladau i'r cymalau yn y practisau.

Gwella prosesau cyfeirio ar gyfer cleifion i'w cefnogi i gymryd rheolaeth dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain gan ddefnyddio gwefannau'r Clwstwr, gwella hygyrchedd o ran ymarfer corff, ac ati. Nod y Clwstwr yw sicrhau bod yr holl ddarparwyr gofal yn cydweithio mewn tîm cynhwysol i hybu hunanofal a llesiant.

ASTUDIAETH ACHOS: Sbiometreg

Mae'r Clwstwr wedi gweithio gyda Thîm Anadlol y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaeth sbiometreg yn y gymuned, gan ddarparu sbiometreg cywir a chynhwysfawr i sicrhau diagnosis cywir i gleifion sy'n arwain at driniaethau priodol. Mae'r Clwstwr wedi nodi cyfleoedd i weithio mewn lleoliadau cymunedol i ddarparu gofal yn nes at y cartref, yn y man iawn, ar yr adeg iawn, y tro cyntaf, gan hefyd amlygu dewis y claf. Mae'r model hwn yn cynnig gofal teg i boblogaeth Llanelli.

Hyd yn hyn, gwnaed 665 o atgyfeiriadau at yr Hwb Anadlol o bob un o'r saith practis meddygon teulu. O blith y 665 o gleifion a atgyfeiriwyd at y gwasanaeth, gellir dadansoddi'r archwiliadau Sbiometreg a gynhaliwyd fel a ganlyn:

- 398 ar gyfer Cildroadedd
- 79 ar gyfer Ôl Broncoledydd
- Cafodd 72 eu hatgyfeirio er mwyn sefydlu llinell sylfaen.

Roedd y canlyniadau sbiometreg yn cynnwys 64% normal, 24% rhwystrol, 7% lle profwyd cildroadedd, a 5% cyfyngedig.

Nododd 21% o'r cleifion a gofnododd eu statws o ran smygu eu bod wedi smygu'n flaenorol, ac roedd 20% yn smygwyr ar y pryd. Nododd 19% o'r cleifion nad oeddent erioed wedi smygu.

Beth nesaf?

Datblygu'r achos dros uwchraddio a chyflwyno nifer o'r prosiectau y mae Clwstwr Llanelli wedi'u datblygu a/neu wedi bod yn rhan ohonynt.

Cynnal cymuned iach trwy adnabod clefydau'n gynnar pan ellir eu trin yn fwy effeithiol ac mewn modd llai dwys.

Byddwn yn cefnogi ein poblogaeth i gymryd rheolaeth dros eu hiechyd a'u llesiant.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Cefnogwyd elfen ymgysylltu â'r cyhoedd y broses o ddatblygu Cynllun Strategol y Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol trwy gynnal digwyddiad i arddangos prosiectau'r Clwstwr.

Gweithiwyd ar y cyd â thîm prosiect Pentre Awel i gynnal digwyddiadau Gwiriad Iechyd yn y gymuned.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Gweithredwyd pob un o dair blaenoriaeth y Clwstwr yn llwyddiannus.

Arweiniwyd y gwaith o sefydlu cydweithredfa Nyrsio y Bwrdd Iechyd.

Cynhaliodd y Clwstwr ymarfer hunanfyfrio ddechrau'r flwyddyn ariannol, lle y myfyriwyd ar lwyddiant prosiectau'r Clwstwr.


Defnyddiwyd data o brosiectau'r Clwstwr i lywio penderfyniadau comisiynu ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â dadlau dros uwchraddio a chyflwyno mentrau a ddatblygwyd gan y Clwstwr.

Mae methodoleg Gwella Ansawdd bellach yn cael ei defnyddio wrth ddylunio a chomisiynu unrhyw brosiectau newydd.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD)



Sir Benfro Iachach

De Sir Benfro

Gogledd Sir Benfro

Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr (GCTG) Sir Benfro Iachach

Mae aelodau Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr Sir Benfro yn gynrychiolwyr amlasiantaethol uwch, ac mae'r aelodau i gyd yn gyfrifol am gyfleu penderfyniadau a chamau gweithredu allweddol trwy eu priod sefydliadau a rhwydweithiau. Gwahoddir yr aelodau presennol i gymryd rhan:

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd
Pennaeth Gofal Oedolion
Pennaeth y Gwasanaethau Plant
Y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
Yr Uwch-reolwr Comisiynu Strategol
Rheolwr y Gwasanaeth Gofal Canolraddol ac Atal
Pennaeth Cynaliadwyedd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
Rheolwr Cyffredinol Cyfarwyddwr y Sir
Rheolwr Cyffredinol Ysbyty Llwynhelyg
Yr Arweinydd Therapïau Cymunedol
Y Pennaeth Nyrsio Cymunedol
Y Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau ar gyfer y Gwasanaethau Plant

Y Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau Gofal Rhagweithiol ac wedi'i Gynllunio
Arweinydd Gofal Brys a Chanolraddol
Arweinwyr Clystyrau Gogledd a De Sir Benfro
Rheolwyr y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
Prif Swyddog Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)
Y Prif Swyddog – Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru (WWAMH)
Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Cynrychiolydd y Cyngor Iechyd Cymuned
Rheolwr y Rhaglen Partneriaethau Rhanbarthol
Pennaeth Trawsnewid Integredig
Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Strategol a Chynllunio Gweithredol

Mae gan Sir Benfro ddau Glwstwr: De Sir Benfro a Gogledd Sir Benfro. Mae'r Sir yn ffinio â Sir Gaerfyrddin i'r dwyrain, Ceredigion i'r gogledd-ddwyrain, a'r môr ym mhobman arall. Mae'r sir yn gartref i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yr unig barc cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig a sefydlwyd yn bennaf oherwydd yr arfordir; mae'r Parc yn cwmpasu dros draean o arwynebedd y sir, ac mae'n cynnwys Mynyddoedd y Preseli yn y gogledd yn ogystal â Llwybr Arfordir Sir Benfro, sy'n 190 milltir (310 km) o hyd.

Mae sylfaen economaidd y sir yn ffocysu ar amaethyddiaeth (86 % o'r defnydd tir), olew a nwy, a thwristiaeth. Mae traethau Sir Benfro wedi ennill nifer o wobrau. Mae i'r sir ddaearyddiaeth amrywiol, ynghyd ag amrywiaeth eang o nodweddion daearyddol, cynefinoedd a bywyd gwylt.

Gwasanaethau Iechyd yn y Clwstwr

- 12 o Bractisau Meddygon Teulu ynghyd â 6 Meddygfa Gangen
- 9 Practis Deintyddol Cyffredinol ac 1 Practis Orthodontig
- 29 o Fferyllfeydd Cymunedol: 7 sy'n darparu Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd (PIPS)
- 14 o Bractisau Optometreg ac 8 WGOS: 3 sy'n darparu o leiaf 3 elfen o WGOS4 a 4 sy'n darparu WGOS5
- 1 Ysbyty Cyffredinol
- 56 o Gartrefi Nyrsio/Preswyl
- 7 Clinig Cymunedol
- 4 Tîm Adnoddau Cymunedol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Sefydlwyd Grŵp Traws-glwstwr Sir Gaerfyrddin Iachach i fod yn is-grŵp ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD) a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Nod y Grŵp yw cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

(2014), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Cymru Iachach, a'r Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod yna gysondeb ac ymgysylltiad cynyddol rhwng trefniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Clwstwr i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi i safle Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru a'r cynllun cyfredol:

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru – Gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer oedolion a phlant ag anghenion gofal a chymorth.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi i safle Gofal Sylfaenol Un a Chynlluniau cyfredol y Clwstwr:

BIP Hywel Dda – Gofal Sylfaenol Un

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Nodi meysydd blaenoriaeth cytunedig i'w gwella, lle mae gofyn cael cydweithio cryfach i gyflawni canlyniadau gwell gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Datblygu a chyflawni cynllun ardal lleol.

Hyrwyddo diwylliant sy'n mynd ati i gael gwared ar rwystrau, meini tramgwydd a seilos mewn sefydliadau er mwyn sicrhau gwasanaethau di-dor i'r boblogaeth leol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol mewn cymunedau, gan gyfeirio'n benodol at grwpiau lleiafrifol a grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio.

Cefnogi gwaith ar y cyd a, lle bo hynny'n ofynnol, sicrhau'r awdurdodiad priodol yn eu sefydliadau eu hunain i wneud hynny.

Sicrhau bod swyddogion llywodraeth leol, y GIG a'r trydydd sector yn gallu gweithio ar y cyd yn unol â threfniadau llywodraethu statudol a sefydliadol sy'n darparu fframwaith atebolrwydd clir.

Goruchwyllo'r modd y defnyddir adnoddau, yn cynnwys grantiau perthnasol gan Lywodraeth Cymru

Datblygu ei gapasiti a'i allu i ddarparu trefniadau llywodraethu effeithiol.

Awdurdodi ac annog gwaith ar y cyd a, lle bo hynny'n ofynnol, sicrhau'r awdurdodiad priodol yn eu sefydliadau eu hunain i wneud hynny.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Caiff cylch gorchwyl Grŵp Traws-glwstwr Sir Benfro Iachach ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau i'r personél ac i sicrhau bod diben y grŵp yn gywir ac y cytunir arno.

Beth nesaf?

Bydd blaenoriaethau Grŵp Traws-glwstwr Sir Benfro Iachach ar gyfer y dyfodol yn cael eu pennu gan y Cynllun Cymunedol Integredig a'r blaenoriaethau a nodir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Clystyrau.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD)



De Sir Benfro

Arweinydd y Clwstwr

Dr Helen Wang
helen.wang@wales.nhs.uk

Rheolwr y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Lucie-Jane Whelan Hughes
lucie-jane.whelan@wales.nhs.uk

Arweinwyr ein Cydweithredfeydd

Cydweithredfa Meddygon Teulu:
Dr Helen Wang

Cydweithredfa Fferylliaeth:
Sarah Day

Cydweithredfa Optometreg:
Alex Devereux

De Sir Benfro

Pwy ydym ni?

Ein gweledigaeth yw parhau i ddatblygu iechyd a llesiant y boblogaeth leol yn Ne Sir Benfro trwy ddefnyddio'r gwasanaethau presennol, gan hefyd ddatblygu prosiectau newydd ac arloesol mewn perthynas â phroblemau cyffredin a hyrwyddo gwaith amlddisgyblaethol, a hynny trwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ehangach yn y trydydd sector ac ym meysydd therapïau, yr awdurdod lleol, iechyd meddwl, gwasanaethau plant, a fferylliaeth i sicrhau dull gweithredu ardal gyfan.

Mae dull y clwstwr yn fodel o'r crud i'r bedd yn achos pob prosiect cyfredol. Ein nod yw cefnogi ein poblogaeth leol i aros yn eu cartref eu hunain; gyda phwyslais ar lesiant y boblogaeth a chwlwm cymunedol, trwy feithrin mwy o gysylltiadau â gwasanaethau partner.

Gwrywod: 48.6% Benywod: 51.4%

Mae amgylchedd y Clwstwr yn wledig yn bennaf (99.1%), gydag amddifadedd uchel mewn un ardal drefol (Doc Penfro).

Mae'r Sir yn ffinio â Sir Gaerfyrddin i'r dwyrain, Ceredigion i'r gogledd-ddwyrain, a'r môr ym mhobman arall. Mae'r sir yn gartref i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yr unig barc cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig a sefydlwyd yn bennaf oherwydd yr arfordir; mae'r Parc yn cwmpasu dros draean o arwynebedd y sir, ac mae'n cynnwys Mynyddoedd y Preseli yn y gogledd yn ogystal â Llwybr Arfordir Sir Benfro, sy'n 190 milltir (310 km) o hyd.

Mae sylfaen economaidd y sir yn ffocysu ar amaethyddiaeth (86 % o'r defnydd tir), olew a nwy, a thwristiaeth. Mae traethau Sir Benfro wedi ennill nifer o wobrau. Mae i'r sir ddaearyddiaeth amrywiol, ynghyd ag amrywiaeth eang o nodweddion daearyddol, cynefinoedd a bywyd gwyllt.

Ein Gwasanaethau

- 5 Practis Meddygon Teulu ynghyd â 3 Meddygfa Gangen
- 4 Practis Deintyddol Cyffredinol ac 1 Practis Orthodontig
- 13 o Fferyllfeydd Cymunedol – 6 sy'n darparu Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd (PIPS)
- 5 Practis Optometreg – 2 sy'n darparu o leiaf un elfen o WGOS4 a 2 sy'n darparu WGOS5
- Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg
- 21 o Gartrefi Nyrsio/Preswyl
- 2 Ysbyty Cymunedol
- 4 Tîm Adnoddau Cymunedol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Blaenoriaethau'r Clwstwr 2024/25

Rydym yn ymchwilio i brofion Sbirometreg ac yn adrodd trwy glinigau sy'n hygyrch yn lleol, a hynny gyda'r nod o glirio'r ôl-groniad presennol a bod heb restr aros ar gyfer profion yn y dyfodol.

Parhau i ddatblygu prosiectau llwyddiannus cyfredol y Clwstwr, h.y. Rhwydwaith Cymunedol Integredig, Prosiect Ieuentid 5 i 18 oed, Gwella Rheolaeth ar Asthma mewn Ysgolion Cynradd, Partneriaid ar gyfer y Daith (MIND a CAB).

Ffisiotherapydd Cyhyrsgerberbydol/Ymarferydd Cyswllt Cyntaf – y nod yw casglu rhagor o ddata o brosiect y Ffisiotherapydd Cyhyrsgerberbydol/Ymarferydd Cyswllt Cyntaf i brif ffrydio'r prosiect hirsefydlog hwn ers 2019.

ASTUDIAETH ACHOS: Gwella Iechyd Plant (Asthma)

Mae rhaglen adolygu asthma yn ysgolion Sir Benfro yn gwella bywydau o ddydd i ddydd plant ag asthma ac yn grymuso teuluoedd i reoli eu cyflwr yn effeithiol. Nod y rhaglen arloesol hon yw integreiddio'r broses o adolygu cleifion a chanddynt ddiagnosis o asthma neu symptomau sy'n dynwared asthma, a darparu addysg mewn 52 o ysgolion cynradd yn Sir Benfro. Gyda mynediad uniongyrchol at gofnodion clinigol, gall y tîm gofal iechyd ddarparu asesiadau asthma manwl i blant a theuluoedd, a'u haddysgu yn lleoliad yr ysgol.

Mae'r prosiect yn dangos y gellir cyflawni rheolaeth effeithiol ar asthma gyda gofal hygyrch yn y gymuned, ac y gellir ailadrodd hyn mewn cymunedau eraill i lywio canlyniadau cadarnhaol tebyg. Mae'r prosiect yn pwysleisio gwerth dull cydweithredol amlasiantaethol.

Mae'r gwasanaeth wedi gweld 151 o blant yn Ne Sir Benfro, gyda chydymffurfedd o 74.4% o ran defnyddio anadlydd ataliol, a chafodd 68.3% adolygiad asthma yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae'r prosiect cyfan ledled Goledd a De Sir Benfro wedi rhoi cynllun gweithredu ar asthma i 95% o'r plant, a newidiwyd meddyginiaeth 55.1% o'r plant yn unol â'r canllawiau.

Defnyddiwyd y Prawf Rheoli Asthma yn ystod Plentyndod (C-ACT) fel yr holiadur canlyniadau, a chofnodwyd gwelliant o 17.5 yn yr ymgynghoriad cyntaf i 22.1.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Cefnogwyd elfen ymgysylltu â'r cyhoedd y broses o ddatblygu Cynllun Strategol y Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol trwy gynnal digwyddiad i arddangos prosiectau'r Clwstwr.
- Roedd y prosiect Asthma, Gwella Iechyd Plant yn rhan o Garfan Enghreifftiol Bevan 8, a chafodd ei gyflwyno yn y Senedd yng Nghaerdydd ym mis Mai 2024.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

- Rydym yn cynnal cyfarfod amser cinio bob pythefnos lle mae gofal eilaidd, arweinwyr clinigol, yr adran Damweiniau ac Achosion Brys, gweithwyr y tu allan i oriau, a meddygon teulu lleol yn trafod y pwysau ar y system yng Nghlystyrau Sir Benfro.
- Rydym ni yn y Clwstwr wedi myfyrio ar y ffordd yr ydym yn gweithio ac wedi cydnabod bod yna fwy i'w ddysgu. Defnyddiwyd data o brosiectau'r Clwstwr i lywio penderfyniadau comisiynu ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â dadlau dros uwchraddio a chyflwyno mentrau a ddatblygwyd gan y Clwstwr. Mae methodoleg gwella ansawdd 'nawr yn cael ei defnyddio wrth ddylunio a chomisiynu unrhyw brosiectau newydd.

Beth y gellid ei wneud yn wahanol?

Bod yn fwy rhagweithiol wrth edrych ar gyfleodd cyllido allanol a gweithio ar y cyd â'r holl randdeiliaid.

Gan fod yn ymwybodol bod rhai prosiectau yn methu, a myfyrio ar y rhesymau pam y maent yn methu, mae'n rhaid i ni gynnal cyfarfod ymadael pan fydd hyn yn digwydd, a hynny'n rhan o'r broses werthuso.

Myfyrio ar y prosiectau ledled y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfan i osgoi dyblygu a chyllido'r un themâu a phrosiectau.

Beth nesaf?

Datblygu'r achos dros uwchraddio a chyflwyno nifer o'r prosiectau y mae Clwstwr De Sir Benfro wedi'u datblygu a/neu wedi bod yn rhan ohonynt.

Ceisio gwella technoleg trwy gyfleoedd i ddefnyddio deallusrwydd artifisial (AI Scribe) ar draws y sectorau clinigol yn Sir Benfro i alluogi'r system gofal cymunedol integredig.

Archwilio cyfleoedd i ymchwilio i werth economaidd y Prosiect Asthma mewn Ysgolion trwy ffrydiau gwaith cyllido eraill.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD)



Gogledd Sir Benfro

Arweinydd y Clwstwr

Tom Miles
Tom.Miles@wales.nhs.uk

Rheolwr y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Katie Edwards
katie.edwards7@wales.nhs.uk

Arweinwyr ein Cydweithredfeydd

Cydweithredfa Meddygon Teulu:
Dr Katie Williams

Cydweithredfa Fferylliaeth:
Tom Miles

Cydweithredfa Optometreg:
Andy Britton

Gogledd Sir Benfro

Pwy ydym ni?

Prif ffocws Clwstwr Gogledd Sir Benfro yw darparu gwasanaethau gofal sylfaenol cynaliadwy i Ogledd Sir Benfro. Ein nod yw lleihau'r ddibyniaeth ar gyrchu gwasanaethau, annog mwy o ymgysylltu â'r gymuned, a grymuso unigolion i chwarae rôl weithredol o ran rheoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gan hefyd gefnogi'r gwasanaeth gofal sylfaenol cyfan i wella mynediad at ofal. Mae ystod amrywiol o weithwyr proffesiynol yn ymwneud â phrosiectau'r Clwstwr, gan gynnwys Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion, a Chydgyssylltwyr Gofal; mae pob un ohonynt yn cyfrannu at greu model Gofal Sylfaenol sy'n fwy cynaliadwy ac integredig, gan hefyd dargedu anghenion iechyd y boblogaeth, megis iechyd traed diabetig.

Gwrywod: 48.8% Benywod: 51.2%

Mae Sir Benfro yn ffinio â Sir Gaerfyrddin i'r dwyrain, Ceredigion i'r gogledd-ddwyrain, a'r môr ym mhobman arall. Mae'r sir yn gartref i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yr unig barc cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig a sefydlwyd yn bennaf oherwydd yr arfordir. Mae'r Parc yn cwmpasu dros draean o arwynebedd y sir, ac mae'n cynnwys Mynyddoedd y Preseli yn y gogledd yn ogystal â Llwybr Arfordir Sir Benfro, sy'n 190 milltir (310 km) o hyd.

Mae sylfaen economaidd y sir yn ffocysu ar amaethyddiaeth (86% o'r defnydd tir), olew a nwy, a thwristiaeth. Mae traethau Sir Benfro wedi ennill nifer o wobrau. Mae i'r sir ddaearyddiaeth amrywiol, ynghyd ag amrywiaeth eang o nodweddion daearyddol, cynefinoedd a bywyd gwyllt. Astudiwyd ei hanes modern a'i chynhanes yn helaeth, o feddiannaeth llwythi, trwy gyfnod y Rhufeiniaid, i ddylanwad y Cymry, y Gwyddelod, y Normaniaid, y Saeson, y Llychlynwyr a'r Fflemeniaid.

Ein Gwasanaethau

- 7 Practis Meddygon Teulu ynghyd â 3 Meddygfa Gangen
- 13 o Bractisau Deintyddol Cyffredinol
- 16 o Fferyllfeydd Cymunedol – 1 sy'n darparu Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd (PIPS)
- 9 Practis Optometreg a 6 WGOS – 2 sy'n darparu o leiaf un elfen o WGOS4 a 2 sy'n darparu WGOS5
- Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg
- 35 o Gartrefi Nyrsio/Preswyl
- 5 Clinig Cymunedol
- 4 Tîm Adnoddau Cymunedol

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Blaenoriaethau'r Clwstwr 2024/25

Ffisiotherapydd Cyhyrysgerbydol/Ymarferydd Cyswllt Cyntaf – y nod yw casglu rhagor o ddata o brosiect y Ffisiotherapydd Cyhyrysgerbydol/Ymarferydd Cyswllt Cyntaf i brif ffrydio'r prosiect hirsefydlog hwn ers 2019.

Prosiect Iechyd Traed Diabetig – lleihau'r baich ariannol ar y Gwasanaeth Iechyd yn Hywel Dda ac, yn yr hirdymor, lleihau nifer yr achosion o wlsrau traed a llawdriniaethau i dorri rhan o'r corff i ffwrdd.

Tîm Amlddisgyblaethol Cydgysylltu Gofal – sefydlu gwaith amlddisgyblaethol cadarn ledled yr 8 Practis Meddygon Teulu, a lleihau nifer y derbyniadau brys a hyd cyfartalog arosiadau.

ASTUDIAETH ACHOS: Cydgysylltwyr Gofal

Mae'r cydgysylltwyr gofal yng Ngogledd Sir Benfro yn darparu gwasanaeth lleol cydgysylltiedig i'r cleifion. Mae'r prosiect yn datblygu ymagwedd fwy cadarn at weithio'n integredig yn y gymuned trwy roi profiad o "ofal di-dor" i'r claf a gwella dulliau cyfathrebu ymhlith gweithwyr proffesiynol yn y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r cynllun yn optimeiddio'r broses integreiddio yng nghymuned drefol a gwledig Gogledd Sir Benfro a'r timau amlasiantaethol sylfaenol, eilaidd a chymunedol, yn unol â chyfeiriad polisïau lleol a chenedlaethol cyfredol.

Rhwng misoedd Ebrill a Rhagfyr 2024, cynhaliwyd 123 o gyfarfodydd, a thrafodwyd achosion 453 o gleifion. Cofnodwyd bod gan fwyafrif y cleifion (157) broblemau'n ymwneud ag eiddilwch, cwympiadau neu symudedd, neu gyflyrau cronig (155).

Atgyfeiriwyd 209 o gleifion at y gwasanaethau gofal cymdeithasol neu dai, ac atgyfeiriwyd 149 ar gyfer Therapi Galwedigaethol. Atgyfeiriwyd 96 o bobl at y Cysylltydd Cymunedol, gyda 66 yn cael eu hatgyfeirio at y Nyrsys Ardal a 62 yn ôl at eu Meddyg Teulu.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Cefnogwyd elfen ymgysylltu â'r cyhoedd y broses o ddatblygu Cynllun Strategol y Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol trwy gynnal digwyddiad i arddangos prosiectau'r Clwstwr.
- Mae Clwstwr Gogledd Sir Benfro, mewn cydweithrediad â Chlwstwr De Sir Benfro, wedi cael nifer o wobrau ar gyfer y prosiect Cyflyrau Anadlol mewn Ysgolion.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae Clwstwr y Gogledd wedi llwyddo i sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer saith prosiect newydd; mae'r mentrau hyn wedi golygu cydweithredu ledled ôl troed y Clwstwr i sefydlu llwybrau newydd sy'n mynd i'r afael ag anghenion iechyd y boblogaeth ac yn darparu gofal yn nes at y cartref i'n cleifion.

Beth y gellid ei wneud yn wahanol?


Mae heriau o ran recriwtio wedi arwain at oedi yn amserlenni prosiectau. Cafodd y fenter Iechyd Traed Diabetig ei gohirio am sawl mis o ganlyniad i broses gymeradwyo hir ar gyfer swydd-ddisgrifiadau newydd. At hynny, ni all y prosiect Sbirometreg ddechrau oherwydd diffyg ymgeiswyr ar gyfer y swyddi sydd ar gael.

Beth nesaf?

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â thîm y sir i sicrhau cyllid trwy RIFT ar gyfer menter y Cydgysylltydd Gofal, gan felly symud i ffwrdd oddi wrth gyllid y Clwstwr.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD)



Ceredigion Iachach

De Ceredigion

Gogledd Ceredigion

Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr (GCTG) Ceredigion Iachach

Mae aelodau Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr Ceredigion yn gynrychiolwyr amlasiantaethol uwch, ac mae'r aelodau i gyd yn gyfrifol am gyfleu penderfyniadau a chamau gweithredu allweddol trwy eu priod sefydliadau a rhwydweithiau. Gwahoddir yr aelodau presennol i gymryd rhan:

Cyfarwyddwr y Sir, Ceredigion
Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal
Prif Swyddog Gweithredol CMGC
Y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol
Cyngor Sir Ceredigion – Swyddog Arweiniol Porth Cynnal
Y Cydgysylltydd Cyllid Allanol
Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chomisiynu
Cyngor Iechyd Cymuned
Y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol, Gofal Sylfaenol a'r Gwasanaethau Cymunedol
Rheolwr Cyffredinol Gofal Cymunedol a Sylfaenol Ceredigion
Pennaeth y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Fferylliaeth Gymunedol (Contractau a Pherfformiad)
Rheolwr Cyffredinol Bronglais
Rheolwr Cyffredinol Glangwili
Arweinydd Therapiau Ceredigion
Pennaeth Nyrsio Sir Ceredigion
Y Pennaeth Nyrsio – Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Y Pennaeth Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn
Y Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau Pediatreg Cymunedol
Y Nyrs Gymunedol Arweiniol Plant
Pennaeth Strategol y Gymuned a Chyflyrau Cronig
Cydgysylltydd Cynllunio Gwasanaethau Lleol
Partner Busnes Cyllid Iechyd y Cyhoedd
Rheolwr Datblygu'r Clwstwr
Arweinwyr Clystyrau Gogledd a De Ceredigion
Rheolwyr y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
Rheolwr y Rhaglen Partneriaethau Rhanbarthol
Yr Arweinydd Trawsnewid Gwasanaethau
Rheolwr y Rhaglen ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig
Rheolwr y Rhaglen ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig
Rheolwr Gweithrediadau Ambiwlansys

Mae sir Ceredigion yn dibynnu ar amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgota a thwristiaeth. Mae'r trefi yn rhan fwy amaethyddol y sir yn dal i gynnal marchnadoedd da byw rheolaidd. Mae Ceredigion yn cyfateb i'r Sir Aberteifi hanesyddol, ac fe'i hystyrir yn galon diwylliant Cymreig. Mae'r sir yn wledig yn bennaf, ac mae iddi dros 50 milltir o arfordir a chefnwlad fynyddig. Er bod yna hanes o economi ddiwydiannol yng Ngheredigion yn seiliedig ar echdynnu a morgludo deunyddiau crai, erbyn heddiw mae'r economi'n dibynnu ar amaethyddiaeth a thwristiaeth.

Gwasanaethau Iechyd yn y Clwstwr

- 12 o Bractisau Meddygon Teulu
- 7 Practis Deintyddol Cyffredinol ac 1 Practis Orthodontig
- 1 Practis Deintyddol Cymunedol
- 23 o Fferyllfeydd Cymunedol – 5 sy'n darparu Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd (PIPS)
- 11 o Bractisau Optometreg – 6 sy'n darparu o leiaf un elfen o WGOS4 a 5 sy'n darparu WGOS5
- 1 Ysbyty Cyffredinol
- 14 o Gartrefi Nyrsio/Preswyl
- 1 Ganolfan Gofal Integredig

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Sefydlwyd Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr Ceredigion Iachach i fod yn is-grŵp ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD) a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Nod y Grŵp yw cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Cymru Iachach a'r Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod yna gysondeb ac ymgysylltiad cynyddol rhwng trefniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Clwstwr i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi i safle Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru a'r cynllun cyfredol:

[Gorllewin Cymru – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru](#)

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi i safle Gofal Sylfaenol Un a Chynlluniau cyfredol y Clwstwr:

[BIP Hywel Dda – Gofal Sylfaenol Un](#)

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Nodi meysydd blaenoriaeth cytunedig i'w gwella, lle mae gofyn cael cydweithio cryfach i gyflawni canlyniadau gwell gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Datblygu a chyflawni cynllun ardal lleol.

Hyrwyddo diwylliant sy'n mynd ati i gael gwared ar rwystrau, meini tramgwydd a seilos mewn sefydliadau er mwyn sicrhau gwasanaethau di-dor i'r boblogaeth leol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol mewn cymunedau, gan gyfeirio'n benodol at grwpiau lleiafrifol a grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio.

Cefnogi gwaith ar y cyd a, lle bo hynny'n ofynnol, sicrhau'r awdurdodiad priodol yn eu sefydliadau eu hunain i wneud hynny.

Sicrhau bod swyddogion llywodraeth leol, y GIG a'r trydydd sector yn gallu gweithio ar y cyd yn unol â threfniadau llywodraethu statudol a sefydliadol sy'n darparu fframwaith atebolrwydd clir.

Goruchwyllo'r modd y defnyddir adnoddau, yn cynnwys grantiau perthnasol gan Lywodraeth Cymru.

Datblygu ei gapasiti a'i allu i ddarparu trefniadau llywodraethu effeithiol.

Awdurdodi ac annog gwaith ar y cyd a, lle bo hynny'n ofynnol, sicrhau'r awdurdodiad priodol yn eu sefydliadau eu hunain i wneud hynny.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Caiff cylch gorchwyl Grŵp Traws-glwstwr Ceredigion Iachach ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau i'r personél ac i sicrhau bod diben y grŵp yn gywir ac y cytunir arno.

Beth nesaf?

Bydd blaenoriaethau Grŵp Traws-glwstwr Ceredigion Iachach ar gyfer y dyfodol yn cael eu pennu gan y Cynllun Cymunedol Integredig a'r blaenoriaethau a nodir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Clystyrau.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHD)



Gogledd Ceredigion

Arweinydd y Clwstwr

Dr Ahmed Ellaban
ahmed.ellaban@wales.nhs.uk

Rheolwr y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Geraint Scales
geraint.scales@wales.nhs.uk

Arweinwyr ein Cydweithredfeydd

Cydweithredfa Meddygon Teulu: yn wag ar hyn o bryd

Cydweithredfa Fferylliaeth: Mehul Panchal

Cydweithredfa Optometreg: yn wag ar hyn o bryd

Gogledd Ceredigion

Pwy ydym ni?

Gweledigaeth Clwstwr Gogledd Ceredigion yw darparu gofal a chymorth di-dor, diogel, cynaliadwy, hygyrch a charedig i'n poblogaeth, yn unol â Cymru Iachach ac egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus. Sicrhau bod y driniaeth a'r gofal a ddarparwn yn seiliedig ar werth ac yn diwallu anghenion yr unigolyn.

Gwrywod: 49.3% Benywod: 50.7%

Mae Clwstwr Gogledd Ceredigion wedi'i leoli yn Sir Ceredigion, sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgota, a thwristiaeth. Mae'r trefi yn rhan fwy amaethyddol y sir yn dal i gynnal marchnadoedd da byw rheolaidd.

Mae Ceredigion yn cyfateb i'r Sir Aberteifi hanesyddol, ac fe'i hystyrir yn galon diwylliant Cymreig. Mae'r sir yn wledig yn bennaf, ac mae iddi dros 50 milltir o arfordir a chefnwlad fynyddig. Er bod yna hanes o economi ddiwydiannol yng Ngheredigion yn seiliedig ar echdynnu a morgludo deunyddiau crai, erbyn heddiw mae'r economi'n dibynnu ar amaethyddiaeth a thwristiaeth.

Ein Gwasanaethau

- 7 Practis Meddygon Teulu
- 4 Practis Deintyddol Cyffredinol
- 1 Practis Deintyddol Cymunedol
- 10 Fferyllfa Gymunedol – 2 sy'n darparu Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd (PIPS)
- 5 Practis Optometreg – 3 sy'n darparu o leiaf un elfen o WGOS4 a 3 sy'n darparu WGOS5
- Ysbyty Cyffredinol Bronglais
- 9 Cartref Nyrsio/Preswyl
- 1 Ganolfan Gofal Integredig

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Blaenoriaethau'r Clwstwr 2024/25

Parhau â'r Gwasanaeth Seicoleg Iechyd Clinigol i ddarparu gofal a thriniaeth seicolegol ar gyfer cyflyrau cysylltiedig ag iechyd menywod ac iechyd y pelfis.

Datblygu'r broses o integreiddio'r cydweithredfeydd Optometreg a Fferylliaeth, gan sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth ar lefel y Clwstwr. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu hyfforddiant, y bydd ar gyd-weithwyr ym maes Optometreg ei angen i gynyddu eu rhwymedigaethau contractiol ar gyfer gwell ffocws ar iechyd holistaidd.

Bu'r Gwasanaeth Ymyriad Cynnar ar gyfer Poen yn llwyddiannus iawn hyd yma, gan gael sgorau adborth rhagorol gan y cleifion. Y nod yw dyblu capasiti'r gwasanaeth trwy gyflogi Seicolegydd Band 5 ychwanegol a chymorth gweinyddol.

ASTUDIAETH ACHOS: Y Gwasanaeth Seicoleg Iechyd Clinigol

Mae'r prosiect yn profi ymagwedd newydd at ofal iechyd ar gyfer menywod. Mae gwasanaeth seicoleg iechyd clinigol, a ariennir gan y Clwstwr, yn darparu gofal seicolegol arbenigol i fenywod â chyflyrau iechyd menywod sy'n effeithio er gwaeth ar eu gweithrediad a'u llesiant. Mae'r gwasanaeth yn cynnal therapïau unigol ac ar gyfer grwpiau, gan wella effeithiolrwydd a hyrwyddo hygyrchedd. Bydd darpariaeth effeithiol o bell yn cefnogi gofal iechyd digidol a chyfleoedd i ledaenu

a thyfu, yn lleihau heriau o ran y gweithlu, ac yn cyfrannu at leihau carbon a sicrhau cynaliadwyedd yr agenda werdd.

Mae yna nifer mawr o achosion o drallod seicolegol ac emosiynol ymhlith cleifion ar y llwybr iechyd menywod ac iechyd y pelfis, sy'n cael effaith ddifrifol ar eu llesiant, eu hiechyd meddwl, eu bywydau cymdeithasol, eu perthnasoedd, a'u bywydau proffesiynol.

Mae un o bob deg menyw yn byw ag endometriosis, ac mae un o bob pedair menyw yn profi symptomau difrifol y menopos, sy'n gofyn am gymorth seicolegol i reoli straen, gorbryder, ac iselder. Mae'r nifer uchaf o achosion o hunanladdiad ymhlith menywod yn y DU yn digwydd yn yr ystod oedran 50-54 oed, sy'n cyfateb i ddechrau'r menopos.

Sefydlwyd y gwasanaeth ddiwedd 2023, a derbyniwyd 14 o gleifion i'r gwasanaeth, gydag 16 yn rhagor o atgyfeiriadau rhwng misoedd Ebrill a Hydref 2024.

Defnyddiwyd set o Fesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMS) yn rhan o'r prosiect, gan gynnwys Holiadur Iechyd Cleifion (PHQ), Anhwylder Gorbryder Cyffredinol (GAD), Holiadur Hunaneffeithiolrwydd Cleifion (PSEQ), a Graddfa Ginesioffobio Tampa (TSK).

Mae'r prosiect wedi cael ei dderbyn yn yr Academi Lledaenu a Thyfu ac ar Raglen Enghreifftiol Bevan.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Cefnogwyd elfen ymgysylltu â'r cyhoedd y broses o ddatblygu Cynllun Strategol y Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol trwy gynnal digwyddiad i arddangos prosiectau'r Clwstwr.
- Mae ein Prosiect Seicoleg Iechyd Clinigol yn seiliedig ar fodel sydd, hyd yma, wedi cael ei integreiddio i mewn i'r gwasanaethau Gofal Cardioleg, Anadlol a Diabetes. Nod y prosiect yw atgyfnerthu a mynd i'r afael â'r syniad bod llesiant y claf yn golygu iechyd meddwl a chorfforol da, yn hytrach na thrin y ddwy elfen ar wahân, fe sy'n arferol.

Beth nesaf?

Mae'r Clwstwr wrthi'n recriwtio Arweinwyr Cydweithredfeydd newydd ar gyfer ei grwpiau cydweithredol proffesiynol ar gyfer Meddygon Teulu, Fferylliaeth ac Optometreg. Bydd y perthnasoedd newydd hyn yn dod â syniadau newydd, llawn bywyd i'r Clwstwr ac yn helpu i ddatblygu gwell proses integreiddio ledled Ceredigion, elfen a fydd yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at aeddfedrwydd ei Chlystyrau.

Mae rhaglenni hyfforddiant ar Arweinyddiaeth Cydweithredfeydd yn cael eu harchwilio fel y gall staff clinigol na fyddent fel arall yn cael mynediad at y mathau hyn o fodiwlau hyfforddi, ddatblygu eu sgiliau arwain. Bydd hyn yn ategu eu harbenigedd clinigol i sicrhau bod pob grŵp cydweithredol yn gweithredu'n dda ac yn integreiddio'n hwylus i mewn i'r Clwstwr a'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr.

- Mae'r Clwstwr wedi llwyddo i sicrhau cyllid i uwchsgilio sawl aelod o'n staff clinigol. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ganiatáu i nifer o'n meddygon teulu presennol ymgymryd â chymwysterau arbenigol ym meysydd clinigol Dermatoleg, Gofal Lliniarol, a gofal ac atal Diabetes.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

- Cynhaliodd y Clwstwr ymarfer hunanfyfyrion ddechrau'r flwyddyn ariannol, lle y myfyriwyd ar lwyddiant prosiectau'r Clwstwr.
- Defnyddiwyd data o brosiectau'r Clwstwr i lywio penderfyniadau comisiynu ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â dadlau dros uwchraddio a chyflwyno mentrau a ddatblygwyd gan y Clwstwr. Mae methodoleg gwella ansawdd 'nawr yn cael ei defnyddio wrth ddylunio a chomisiynu unrhyw brosiectau newydd.

Beth y gellid ei wneud yn wahanol?

Er gwaethaf nifer y Gwasanaethau a phrosiectau arloesol a ariennir gan y Clwstwr sy'n cael eu cynnal a'u cyflawni, oherwydd y diffyg ystadau mae'n aml yn anodd i ni warantu darpariaeth dda o ran diagnosteg yn y gymuned sy'n darparu'n dda ar gyfer pob claf, a hynny oherwydd eu lleoliadau clinigol. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Clwstwr yn bwriadu mynd i'r afael ag ef trwy weithio'n agosach gyda Thîm y Sir a'r Tîm Trawsnewid, yn enwedig yng ngham datblygu prosiectau newydd. Er enghraifft, cafodd lleoliad ein prosiect Ymarferydd Ffisiotherapi llwyddiannus ei addasu sawl gwaith oherwydd diffyg ystadau, sydd wedi golygu bod angen diweddaru'r wybodaeth am y gwasanaeth ar gyfer rheolwyr Practisau a chleifion sawl gwaith; gellid gwella hyn trwy ddatblygu gofod clinigol cynaliadwy cyn ymgymryd ag unrhyw brosiectau newydd.



Bwrdd Iechyd
Prifysgol Hywel
Dda (BIPHD)



De Ceredigion

Arweinydd y Clwstwr

Dr Mohammed Imam
mohammed.imam@wales.nhs.uk

Rheolwr y Gwasanaethau
Gofal Sylfaenol

Jackson Reynolds
jackson.reynolds2@wales.nhs.uk

Arweinwyr ein
Cydweithredfeydd

Cydweithredfa Meddygon
Teulu: Dr Mohammed Imam

Cydweithredfa Fferylliaeth:
Aled Howells

Cydweithredfa Optometreg:
Heledd Hallett

De Ceredigion

Pwy ydym ni?

Ein gweledigaeth yw parhau i ddatblygu iechyd a llesiant y boblogaeth leol yn Ne Ceredigion trwy ddefnyddio'r gwasanaethau presennol, gan hefyd ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gofal yn ein hardal. Nod y Clwstwr yw datblygu'r gwasanaethau iechyd meddwl a chyfleoedd i bobl gynnal eu hiechyd a'u llesiant, a hynny trwy gontractwyr Trydydd Sector, Cymunedol a Gofal Sylfaenol.

Gwrywod: 48.7% Benywod: 51.3%

Mae Ceredigion yn cyfateb i'r Sir Aberteifi hanesyddol, ac fe'i hystyrir yn galon diwylliant Cymreig. Mae'r sir yn wledig yn bennaf, ac mae iddi dros 50 milltir o arfordir a chefnwlad fynyddig. Er bod yna hanes o economi ddiwydiannol yng Ngheredigion yn seiliedig ar echdynnu a morgludo deunyddiau crai, erbyn heddiw mae'r economi'n dibynnu ar amaethyddiaeth a thwristiaeth. Mae trefi Prifysgol Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan yn cael effaith sylweddol ar y boblogaeth o unigolion 20-24 oed yn y sir, gyda 9% o'r boblogaeth yn y grŵp oedran hwn o gymharu â thua 5% yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Mae Clwstwr De Ceredigion, sy'n un o ddau Glwstwr yng Ngheredigion, yn dwyn ynghyd yr holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud â darparu iechyd a gofal ledled yr ardal. Fel yr oedd ym mis Ebrill 2021, roedd yn gwasanaethu poblogaeth o 47,112, a dyma'r ail ardal leiaf o ran poblogaeth yn ardal y Bwrdd Iechyd.

Ein Gwasanaethau

- 5 Practis Meddygon Teulu ynghyd ag 1 Feddygfa Gangen
- 3 Phractis Deintyddol Cyffredinol ac 1 Practis Orthodontig
- 13 o Fferyllfeydd Cymunedol – 3 sy'n darparu Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfeydd (PIPS)
- 6 Phractis Optometreg – 3 sy'n darparu o leiaf un elfen o WGOS4 a 2 sy'n darparu WGOS5
- Ysbyty Cyffredinol Bronglais
- 5 Cartref Nyrsio/Preswyl
- 1 Ganolfan Gofal Integredig

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Blaenoriaethau'r Clwstwr 2024/25

Uwchraddio'r tîm eiddilwch i leihau'r llwyth achosion a galluogi gwell mynediad i'r garfan fawr o gleifion eiddil ledled y Clwstwr.

Parhau â'r Gwasanaeth Seicoleg Iechyd Clinigol i ddarparu gofal a thriniaeth seicolegol ar gyfer cyflyrau cysylltiedig ag iechyd menywod ac iechyd y pelfis.

Datblygu'r broses o integreiddio'r cydweithredfeydd Optometreg a Fferylliaeth i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi ar lefel y Clwstwr.

ASTUDIAETH ACHOS: Y Tîm Eiddilwch

Nod Gwasanaeth Tîm Eiddilwch a Chyflyrau Cronig Clwstwr De Ceredigion yw darparu rheolaeth ragweithiol gan y Tîm Amlddisgyblaethol dros unigolion sy'n byw ag eiddilwch yn y gymuned.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys asesiad eiddilwch cychwynnol cynhwysfawr ac asesiadau dilynol fel y bo'n briodol, gan gynnwys asesiad o anghenion y claf, sy'n golygu adolygiad corfforol, seicolegol, meddygol a chymdeithasol. Mae'r Tîm Eiddilwch yn hyrwyddo gofal rhagweithiol fel y gall cleifion reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain yn unol ag egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, gan atal yr angen i reoli argyfyngau a derbyniadau diangen i'r ysbyty.

Mae hyn yn cynnwys asesiad o'u hiechyd corfforol, eu gwybyddiaeth, ac addasrwydd unrhyw gymhorthion symudedd y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Anogir atgyfeiriadau at y tîm trwy bractisau meddygon teulu, timau amlddisgyblaethol, timau amlasiantaethol, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, y Gwasanaethau Cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill megis ffisiotherapyddion ac Uwch-ymarferwyr Nyrsio.

Mae'r tîm yn cynnwys Nyrsys Eiddilwch a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, ac mae'n gwneud nifer mawr o atgyfeiriadau dilynol at y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS). Cynhelir y sesiynau NERS ledled y Clwstwr mewn amryw o leoliadau i sicrhau y gall cleifion eu cyrchu'n rhwydd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Am ffi fach, gall cleifion fynd i'r dosbarthiadau hyn am gyfnod amhenodol, ac mae rhai cleifion yn symud ymlaen i ddosbarthiadau

cryfder mwy cymhleth wrth i'w hiechyd corfforol wella.

Mae'r tîm hefyd yn cefnogi gofalmwyr lle bo cymorth ychwanegol yn ofynnol, a bydd yn helpu i'w cyfeirio ymlaen at Gysylltwyr Cymunedol (a all helpu gyda materion cymdeithasol a lwfansau gweini), asesiadau golwg gwan gan Optometryddion lleol, a fframweithiau ehangach y gwasanaethau cymdeithasol, yn ôl yr angen.

Mae'r Tîm Eiddilwch yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth cyson a theg, sy'n seiliedig ar y cymhwystra cytunedig ar draws pob practis yn ardal De Ceredigion.

Mae'r gwasanaeth wedi cael 284 o atgyfeiriadau, a derbyniwyd bod 269 o'r rheiny'n addas ar gyfer y gwasanaeth. Mae mwyafrif y cleifion yn y gwasanaeth yn 80+ oed.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

- Cefnogwyd elfen ymgysylltu â'r cyhoedd y broses o ddatblygu Cynllun Strategol y Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol trwy gynnal digwyddiad i arddangos prosiectau'r Clwstwr.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Cafodd staff a rhanddeiliaid y Clwstwr fudd mawr o'r cyfle i rwydweithio a chwrdd wyneb yn wyneb, rhai ohonynt am y tro cyntaf.

Bod angen hyrwyddo'r digwyddiad yn gynharach i roi mwy o amser i bobl ledaenu'r neges yn y gymuned.

Beth nesaf?

Datblygu'r achos dros uwchraddio a chyflwyno nifer o'r prosiectau y mae Clwstwr De Ceredigion wedi'u datblygu a/neu wedi bod yn rhan ohonynt.





Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)

Canol Powys

Gogledd Powys

De Powys



Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board

Elaine Lorton

Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol,
y Gymuned ac Iechyd Meddwl

Mae gan Bowys allu anhygoel a chyfle pellach i ddod â'n timau o bobl at ei gilydd, gan weithio ar draws ffiniau sefydliadol a phroffesiynol i gwmpasu ein poblogaeth er mwyn darparu canlyniadau iechyd a llesiant rhagorol.

Boed hynny yn y Traws-glwstwr, yn y Clystyrau neu yn y Cydweithrediadau, mae'r ffocws hwn yn fodd i nodi'r bylchau, yn ogystal â'r atebion, i gyflawni mewn modd gwahanol a gwell. Rydym wedi adlewyrchu hyn trwy yn ein strategaethau a'n cynlluniau datblygu trwyddynt draw, ac rydym yn optimistaidd ynghylch y ffyrdd y gallwn barhau i dyfu.

Mae Strategaeth Iechyd a Gofal gyffredinol y Bwrdd Iechyd yn gyson â ffocws a deddfwriaeth genedlaethol, gan fynd i'r afael â heriau sylweddol ar bob lefel a rhoi Gofal Sylfaenol wrth wraidd gwasanaethau ar gyfer y gymuned a gyda'r gymuned. Mae ein gweledigaeth ar gyfer Powys iach, Ofalgar yn nodi ein dull gweithredu a'n blaenoriaethau ar gyfer trawsnewid, gan alluogi pobl i ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda. Mae hyn yn ein rhoi ar y trywydd i gyflawni'r dull rhyng-genedlaethol a chynaliadwy hirdymor a nodir yng Nghynllun Llesiant Powys.

Mae daearyddiaeth helaeth Powys yn ffinio â Lloegr a'n holl fyrdau iechyd eraill yng Nghymru ac eithrio un, ac mae ein poblogaeth hefyd yn cael gofal eilaidd ac arbenigol y tu hwnt i'n ffin. Mae'r cysylltiadau economaidd, cymdeithasol a gofal iechyd ledled yr ardaloedd hyn yn ffurfio rhan o gymeriad diamheuol Clystyrau Gogledd Powys, Canol Powys a De Powys.



Rydym yn parhau i adeiladu dull system gyfan o ddarparu iechyd, gofal a llesiant sy'n adlewyrchu Powys wledig, ei phoblogaeth a'i darparwyr. Mae hyn yn cynnwys datblygu modelau gofal sy'n seiliedig ar atal a llesiant gyntaf gyda gofal yn nes at y cartref yn cwmpasu'r unigolyn a'i gymuned, yn hytrach na ffocws sefydliadol.

Gan weithio ar draws ffiniau traddodiadol, mae ein timau gofal amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol cryf yn cynnwys y sectorau addysg a thai, a'r sectorau annibynnol, cymunedol a gwirfoddol.

Mae ein Clystyrau'n cynnal egwyddor strategaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac yn seiliedig ar anghenion, gan ddefnyddio gwasanaethau ac adnoddau lleol i sicrhau'r buddion gorau ar gyfer poblogaeth Powys.

Mabwysiadu dull dynamig o ddatrys problemau, lle mae gweithwyr proffesiynol o feysydd gofal sylfaenol a chymunedol, y trydydd sector a'r awdurdodau lleol yn dod ynghyd i gydweithredu, deall anghenion lleol, a llunio datrysiadau sy'n effeithiol yn y cyd-destun lleol.

Rydym yn ymrwymedig i feithrin arweinyddiaeth glinigol ym maes gofal sylfaenol, ymgysylltu â'r gymuned ehangach wrth gynllunio a darparu iechyd a llesiant, a dylunio modelau gofal arloesol.

Mae cynlluniau ein Clwstwr wedi canolbwyntio ar y canlynol:


- Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth leol
- Gwella ansawdd gwasanaethau gofal (amserol, diogel, effeithiol, unigol, urddasol)
- Cynyddu effeithlonrwydd y gwasanaethau gofal a ddarperir

Gwyddom fod yna gyfle bob amser i ddatblygu ymhellach i alluogi gwell dulliau darparu a chomisiynu trwy Glystyrau a Chydweithredfeydd.

Byddwn yn ymdrechu i weithio gyda'r holl bartneriaid i sicrhau ein bod yn parhau i wneud hyn gyda'n gilydd er budd poblogaeth gyfan Powys.



Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)



Powys

Canol Powys

Gogledd Powys

De Powys

Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr (GCTG) Powys



Cydnabod y trefniadau sefydledig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ledled Powys i gyflawni amcanion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Cymru Iachach. Sefydlwyd y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr ar gyfer Powys, o fewn strwythurau presennol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, fel Gweithrediaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Gan ddwyn ynghyd uwch-arweinwyr o'r GIG, yr Awdurdod Lleol, y Cystyrau a phartneriaid allweddol yn y Trydydd Sector, mae Gweithrediaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu arweinyddiaeth systemau integredig sy'n galluogi partneriaid i gydweithredu er mwyn arwain y broses o ddatblygu cynlluniau integredig ar lefel y sir, gan wneud defnydd doeth o'r cyllid, y gweithlu a'r adnoddau eraill sydd ar gael ac sy'n mynd i'r afael ag anghenion iechyd, gofal a llesiant y boblogaeth leol.

Cynlluniwyd y rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2022, i gynyddu cyflymder y broses o roi Model Gofal Sylfaenol Cymru ar waith a gwella trefniadau cydweithio ledled yr holl bartneriaid, a hynny er mwyn gwella ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y cyhoedd.

A hithau'n sir wledig ac iddi boblogaeth amcangyfrifedig o 134,000, oedran cyfartalog y boblogaeth sy'n cynyddu, a hynny'n uwch na phoblogaeth Cymru a phoblogaeth y DU yn gyffredinol (ONS 2020), a chydau 75% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) ym Mhowys ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (LIC 2019), mae cynllunio a darparu gwasanaethau trwy ddull partneriaeth sefydledig cryf Powys yn ganolog i Weithrediaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys.

Mae Cystyrau Powys yn cynnwys 16 o bractisau Meddygon Teulu: 7 yng Ngogledd y Sir, 5 yn y Canol, a 4 yn y De; gyda 28 o bractisau deintyddol, 23 o fferyllfeydd cymunedol a 15 o bractisau optometreg yn darparu gwasanaethau i'n poblogaeth wledig.

Mae yna wyth ysbyty cymunedol, wedi'u lleoli ledled y Sir, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gwahanol megis cyfleusterau Cleifion Allanol, Unedau Mân Anafiadau, cyfleusterau Pelydr-X, gwasanaethau Therapi, Canolfannau Geni dan arweiniad Bydwagedd, wardiau meddygol cyffredinol ar gyfer Cleifion Mewnol, Dialysis, gwasanaethau Strôc arbenigol, a gwasanaethau adsefydlu a gofal lliniarol.

Mae yna hefyd nifer o Ganolfannau Plant, sy'n darparu amrywiaeth o glinigau cymunedol i blant a phobl ifanc, ynghyd â chyfleusterau Iechyd Meddwl pwrpasol, sy'n darparu ystod o wasanaethau iechyd meddwl cymunedol.

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, yn darparu Gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol, Cysylltydd Cymunedol Canser, gwasanaethau ymgysylltu ar gyfer Iechyd a Llesiant, a gwasanaeth Gwybodaeth am Iechyd Meddwl.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae ein blaenoriaethau ni, Gweithrediaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn adlewyrchu strategaeth iechyd a gofal ehangach Powys, sy'n nodi'n glir y blaenoriaethau ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal hyd at 2027. Y nod yw helpu pobl i 'Ddechrau'n Dda', 'Byw'n Dda' a 'Heneiddio'n Dda' trwy ganolbwyntio ar:

Sicrhau bod pobl yn profi iechyd da, hapusrwydd a ffyniant. Mae hyn yn cynnwys bod ag iechyd meddwl da, bodlonrwydd bywyd uchel, ac ymdeimlad o bwrpas.

Darparu help a chymorth cynnar mewn ffordd integredig i wella llesiant, atal pobl rhag cael clefydau, a galluogi pobl i fyw bywydau cyflawn a rheoli afiechyd yn effeithiol.

Mae canser, clefydau cardiofasgwlaidd, clefydau anadlol, ac anhwylderau iechyd meddwl i gyd yn cyfrannu'n fawr at afiechyd, ac mae'r rhain yn flaenoriaeth.

Gyda disgwyliadau cynyddol a system iechyd gymhleth, mae bod yn hyblyg wrth ymateb i bobl yn ein cefnogi i gydweithio ac uno gwasanaethau gofal.

Yn cefnogi'r ddarpariaeth ac yn sail i'r blaenoriaethau hyn y mae:

Datblygu cynllun gweithlu integredig ar gyfer y dyfodol, mapio gofynion data ledled yr holl bartneriaid i helpu i nodi themâu allweddol a gweithgareddau â blaenoriaeth.

Datblygu amgylcheddau arloesol yn rhan o fodelau gofal newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhowys.

Gwneud gwell defnydd odechnoleg ddigidol i ddarparu gwell gwasanaethau i bobl.

Cydweithio i ddarparu gwasanaethau cydlynol a di-dor.

Wrth wraidd y blaenoriaethau strategol y mae'r ffyrdd canlynol o weithio:

Arweinyddiaeth System Gyfunol a chydweithio – darparu arweinyddiaeth ar y cyd rhwng sefydliadau partner ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector, cystyrau, a phartneriaid eraill, gan gefnogi'r broses o ddatblygu datrysiadau cynaliadwy tymor hwy ar gyfer gwasanaethau'r Clwstwr.

Cynllunio Integredig – cydlynu a chysoni fframweithiau cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a sefydliadol ar draws partneriaid i sicrhau bod gwasanaethau integredig yn cael eu darparu, datblygiadau i wasanaethau, a chyfleoedd wrth ddarparu iechyd a gofal integredig i bob grŵp poblogaeth a nodir yn yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth Powys.


Perfformiad, Gwerthuso a Dysgu Parhaus – goruchwyllo'r gwasanaethau a ddarperir/dulliau arloesol, a gwireddu'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Ardal. Mae hyn yn cynnwys datblygu fframwaith ansawdd a gwerthuso integredig, gan fesur y perfformiad ar draws amryfal ffrydiau ariannu, yn cynnwys cronfeydd y Cystyrau a chronfeydd uniongyrchol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, e.e. RIF. Defnyddio dull dysgu parhaus sy'n ceisio dysgu o brofi ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, a nodi meysydd i'w gwella a'r hyn sy'n gweithio'n dda i helpu i lunio ffyrdd newydd o weithio yn unol â'r bwriad strategol.

Ymgysylltiad Parhaus – datblygu, gweithredu a monitro cynlluniau ar gyfer dull cyson a thargededig o ymgysylltu â dinasyddion, defnyddwyr a gofawyr, a hynny trwy ddull cydgynhyrchiol o lunio a llywio trefniadau cynllunio a chomisiynu.


Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae Gweithrediaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i fod yn drefniant partneriaeth sy'n esblygu a, thrwy ei harweinyddiaeth systemau a'i chydweithrediad, mae wedi helpu i oruchwyllo nifer o brosiectau allweddol sydd wedi cyfrannu at gyflawni ei blaenoriaethau strategol.

Rydym yn gweithio i ddango y dull dysgu parhaus a ddefnyddir gan y prosiectau i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a nodi meysydd i'w gwella a'u newid. Mae'r dull hwn wedi arwain at esblygu a gwella ymyriadau, gan helpu i lunio'r modd y mae'r rhanbarth yn symud tuag at ddull ymyriad cynnar a mwy ataliol, a hynny wrth i fodelau gofal newydd gael eu datblygu a'u gweithredu ledled Powys.



Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
(BIAP)



Powys

Canol Powys

Gogledd Powys

De Powys

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

- Mae sefydlu Gweithrediaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol presennol Powys wedi helpu i gryfhau trefniadau cynllunio a chyflenwi ledled y system, gan sicrhau bod clystyrau'n chwarae rhan wrth lunio newidiadau i systemau.
- Mae rhannu a dysgu ar draws y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Clystyrau wedi bod yn ddefnyddiol oherwydd sawl tebygrwydd, e.e. heriau cyffredin o ran rheoli prosiectau cyllid grant, defnyddio cronfeydd mewn modd strategol i helpu i gyflawni newidiadau i systemau; rheoli perfformiad a dangos effaith; a phrif ffrydio/chynnal gweithgarwch a ariennir gan grantiau, i enwi dim ond rhai.
- Mae sicrhau bod llais Arweinwyr y Clystyrau a chynrychiolaeth o faes Gofal Sylfaenol yn ymgysylltu'n uniongyrchol â strwythurau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar lefel strategol wedi bod yn fuddiol; mae clywed yn uniongyrchol gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl wedi helpu i amlygu meysydd ffocws.
- Mae bod â chynrychiolaeth o'r Clystyrau ac o faes Gofal Sylfaenol mewn partneriaethau strategol – Dechrau, Byw a Heneiddio'n Dda – wedi darparu cyfleoedd pellach i'r Clystyrau ymgysylltu â grwpiau poblogaeth penodol – Plant, Oedolion ag anableddau iechyd meddwl/dysgu, a Phobl Hŷn.
- Mae fframweithiau perfformiad a gwerthuso wedi aros ar wahân ar draws gwahanol ffrydiau ariannu, ac mae yna gyfleoedd i gysoni'r rhain i helpu i ddangos effaith y system, yn ogystal â'r hyn sy'n gweithio'n dda. Mae adroddiadau effaith ar draws ffrydiau cyllido, e.e. RIF, cyllid clystyrau, ac ati, yn cael eu bwydo i mewn i Weithrediaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac felly mae'n dechrau helpu i aeddfedu trafodaethau ynghylch effaith adnoddau ar y cyd, ac amlygu pa arferion arloesol sy'n gwneud gwahaniaeth.
- Mae Fframwaith Gwerthuso, Blaenoriaethu a Sicrwydd wedi cael ei lunio ar raglen y Gronfa Integreiddio Ariannol (RIF), dan arweiniad Gweithrediaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – mae hyn wedi helpu i ddangos lefelau cydymffurfedd da o ran egwyddorion allweddol y rhaglen ariannu, gan amlygu lle y gallai elfennau o'r rhaglen gael eu cryfhau. Rhannwyd yr hyn a ddysgwyd o'r broses â phartneriaid, ac mae hyn yn helpu i gryfhau rhaglenni cyllido eraill.

Beth nesaf?

Cynllun Integredig BIAP 2024-29:
[Strategaethau a Chynlluniau](#)

Strategaeth Iechyd a Gofal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys:
[Ein Strategaeth – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys](#)

Cynllun Ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:
[Powys Iach, Ofalgar](#)

Asesiad o Anghenion Poblogaeth Powys:
[Asesiad o Anghenion y Boblogaeth](#)





Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)



Canol Powys

Arweinydd y Clwstwr

Amanda Walters,
clusterdevelopment.pthb@wales.nhs.uk

Canol Powys

Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr Canol Powys yn cynnwys 5 Practis Meddygon Teulu, wedi'u lleoli yn Llanfair-ym-Muallt; Trefyclo; Llandrindod, Llanandras a Rhaeadr Gwy, 6 practis deintyddol, 7 fferyllfa gymunedol a 3 optegydd, yn darparu gwasanaethau i boblogaeth wledig o tua 29,500 o gleifion.

Mae yna ysbyty cymunedol, wedi'i leoli yn Llandrindod, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gwahanol, gan gynnwys gwasanaethau Cleifion Allanol, Uned Mân Anafiadau, cyfleusterau Pelydr-X, gwasanaethau Therapi, Mân Lawdriniaethau ac Endosgopi, Canolfan Eni dan arweiniad Bydwragedd, ward feddygol gyffredinol ar gyfer cleifion mewnol, Dialysis, a Ward Iechyd Meddwl pobl hŷn.

Mae yna hefyd gyfleuster Iechyd Meddwl Cymunedol, wedi'i leoli yn Llandrindod, a Chanolfan Iechyd a Gofal Integredig, sy'n darparu gwasanaethau ailalluogi arhosiadau byr.

Mae yna amrywiaeth o wasanaethau Trydydd Sector ledled Clwstwr Canol Powys, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, cymorth yn y cartref, a chyfeillio.

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ddarparu Gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol, Cysylltydd Cymunedol Cancer, gwasanaeth ymgysylltu ar gyfer Iechyd a Llesiant, a gwasanaeth Gwybodaeth am Iechyd Meddwl.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae blaenoriaethau strategol Powys wedi'u diffinio'n glir yng Nghynllun Integredig 2024-29, sy'n nodi camau gweithredu uniongyrchol, byrdymor, tymor canolog a hirdymor y Bwrdd Iechyd i gyflawni 'Powys Iach, Ofalgar' a'r nod cenedlaethol, 'Cymru Iachach'.

Cynllun Integredig BIAP 2024-29: [Strategaethau a Chynlluniau](#)

Cynllun Ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol: [Powys Iach, Ofalgar](#)

Asesiad o Anghenion Poblogaeth Powys: [Asesiad o Anghenion y Boblogaeth](#)

Strategaeth Iechyd a Gofal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: [Ein Strategaeth – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys](#)

Crynodeb o Ddemograffeg Poblogaeth Gogledd Powys

A ninnau'n un o dri Chlwstwr ym Mhowys, mae ein blaenoriaethau allweddol yn adlewyrchu strategaeth Iechyd a Gofal Powys; mae blaenoriaethau'r Clwstwr fel a ganlyn:

Iechyd Meddwl – 'Archwilio'r gwasanaethau Iechyd Meddwl a ddarperir ar gyfer pobl ifanc. Parhau ag arfer y Clwstwr o fabwysiadu a hyrwyddo'r 'gwasanaeth 111 pwysu 2' cenedlaethol.

Eiddilwch – 'gwella gofal ledled y clwstwr i'r rheiny sydd fwyaf agored i niwed'.

Gofal Brys – 'modelu ar gyfer y Gaeaf i fodloni'r galw cynyddol ar y system ledled yr holl wasanaethau Sylfaenol a Chymunedol. Gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau a llwybrau gofal ymhlith aelodau'r Clwstwr, a hynny trwy ymgyrchoedd addysg a chyfathrebu.'

Mae croesawu a chefnogi arloesedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Glwstwr y Canol; mae enghreifftiau o hyn i'w gweld trwy rai o'n prosiectau peilot sy'n cael eu cyflawni ledled y Clwstwr ar hyn o bryd, gan gynnwys:

- **Gweithwyr Fferyllol Proffesiynol mewn Meddygfeydd Teulu** – cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau eiddilwch, er mwyn lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a derbyniadau i ysbytai.
- **Rhaglen ymyrryd wedi'i thargedu ledled Powys ar gyfer gordewdra yn ystod plentyndod** – cefnogi plant a phobl ifanc, gan ddarparu cyfres o sesiynau addysg ymarferol ynghylch maeth a bwyta'n iach, yn cynnwys sgiliau coginio a goresgyn rhwystrau sy'n achosi gordewdra, gan gefnogi iechyd a lles.
- **Trwy groesawu cyfleoedd digidol** cyflwynwyd platfform technoleg ddigidol newydd mewn Meddygfeydd Teulu i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd i gleifion, gan ddarparu mynediad at wasanaethau a chyfeirio cleifion atynt mewn modd mwy amserol, gan hefyd gyflwyno ffyrdd newydd o weithio a darparu effeithlonrwydd i swyddogaethau 'swyddfa gefn' Meddygfeydd.
- **Cylltwyr Cymunedol** – cefnogi cleifion a chymunedau sydd ag anghenion gofal neu gymorth i gyflawni'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt trwy iddynt gyrchu gwasanaethau'r trydydd sector a gweithgareddau cymunedol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan PAVO, gan ddarparu 'yr hyn sy'n bwysig' i gleientiaid y mae arnynt angen cymorth, ond hefyd i'r gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol sy'n atgyfeirio cleientiaid at y gwasanaeth.
- **Datblygu sgiliau a modelau recriwtio newydd** – cyflawni cysylltiadau cadarn â'r 'Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol' i hwyluso lleoliadau gwledig ar gyfer myfyrwyr a Fferyllwyr Cyn-gofrestru, cryfhau cysylltiadau â'r Prifysgolion Lleol i ddatblygu modiwlau addysg a lleoliadau Myfyrwyr Nyrsio, cynnal sesiynau meithrin sgiliau â ffocws ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol, a buddsoddi mewn addysg a threfniadau datblygu sgiliau ar gyfer ein gweithlu.

Beth nesaf?

Modelau gofal cymorth cynnar ac atal – gwella mynediad at Ofal Sylfaenol, trwy wasanaethau Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf, darparu gwasanaethau Eiddilwch, Atal Diabetes, a gwasanaethau Dermatoleg Meddygon Teulu.

Gofal Cydgysylltiedig Integredig – darparu gofal yn nes at y cartref, datblygu gwasanaethau Eiddilwch ledled timau'r Clwstwr, dull cymunedol o gydlynw a darparu gofal i gleifion sy'n eiddil iawn.

Dyfodol y Gweithlu – cydweithio â'r Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol i ddarparu addysg a hyfforddiant ac i ddatblygu'r gweithlu, gan alluogi modelau recriwtio amgen a gyrfaedd portffolio, ac ehangu cyfleoedd ar gyfer rhagor o leoliadau gwledig.

Trawsnewid Parhaus mewn partneriaeth – cydweithredu ar draws ffiniau Clystyrau a chydweithredfeydd i gefnogi arloesedd a gwelliant i fodolau gofal, a hynny trwy ddull amlbroffesiynol a sefydliadol o ddarparu gwasanaethau.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae croesawu a chefnogi arloesedd yn flaenoriaeth i'r Clwstwr; ymhlith y cyflawniadau allweddol y mae:

Ymarferydd Gofal Sylfaenol Cyhyrsgerberbydol mewn practisau meddygon teulu – wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith ledled y Clwstwr ym mis Mai 2022. Cefnogi gwell canlyniadau iechyd a llesiant i gleifion trwy ddarparu mynediad mwy amserol at weithwyr Ffisiotherapi proffesiynol, gan hefyd greu mwy o gapasiti a mynediad at wasanaethau eraill, yn cynnwys gwasanaethau diagnostig a delweddu arbenigol, CMATs, a gwasanaethau Ffisiotherapi cyffredinol.

Ar ôl cael ei dreialu'n llwyddiannus am gyfnod o ddwy flynedd, y Clwstwr Canol oedd y Clwstwr cyntaf ledled Powys i fabwysiadu'r gwasanaeth hwn fel datrysiad hirdymor i'r gwasanaeth, sy'n cael ei ariannu'n llawn.

Hwylusydd Iechyd a Llesiant – cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol mewn Cymunedau, a sut i'w cyrchu, gan rannu gwybodaeth am iechyd a llesiant ar draws cymunedau a hyrwyddo help a chymorth cynnar.

Ap digidol pwrpasol i Gleifion – darparu dull arall o gyrchu gwybodaeth am iechyd a llesiant ym maes Gofal Sylfaenol a Chymunedol 24/7, a hynny cyn cyflwyno ap GIG Cymru.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae cydweithio â'r holl bartneriaid yn parhau i fod yn ganolog i ni yn y Clwstwr, gan gydnabod a diwallu anghenion y boblogaeth a chryfhau'r gwasanaethau a ddarperir. Er mwyn ysgogi a dylanwadu ar newid gwirioneddol o ran datblygu a chynllunio gwasanaethau, mae cydweithio ledled Powys â Chlystyrau y Gogledd a'r De i rannu blaenoriaethau, syniadau a gwersi, yn ganolog i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy hirdymor yn y Clwstwr sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth.



Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)



Gogledd Powys

Arweinydd y Clwstwr

Dr Waseem Aslam
waseem.aslam@wales.nhs.uk

Gogledd Powys

Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr Gogledd Powys yn cynnwys 7 practis Meddygon Teulu, sy'n bractisau dosbarthu, wedi'u lleoli yn Llanidloes, Machynlleth, y Drenewydd, Trefaldwyn, y Trallwng, Llanfair Caereinion, a Llanfyllin, 10 practis Deintyddol, 8 Fferyllfa Gymunedol a 6 phractis Optometreg, a rheiny'n darparu gwasanaethau i boblogaeth wledig o tua 64,000 o gleifion.

Mae yna bedwar ysbyty cymunedol, wedi'u lleoli ym Machynlleth, y Drenewydd, Llanidloes a'r Trallwng, sy'n darparu ystod o wasanaethau gwahanol ledled y pedwar safle, megis cyfleusterau Cleifion Allanol, Uned Mân Anafiadau, cyfleusterau Pelydr-X, gwasanaethau Therapi, Canolfan Eni dan arweiniad Bydwagedd, ward feddygol gyffredinol i gleifion mewnol, Dialysis, gwasanaethau Strôc arbenigol, a gwasanaethau adsefydlu a gofal lliniarol.

Mae yna hefyd Ganolfan Plant, sy'n darparu amrywiaeth o glinigau cymunedol i blant a phobl ifanc, ynghyd â chyfleuster Iechyd Meddwl pwrpasol, wedi'i leoli yn y Drenewydd, sy'n darparu ystod o wasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Mae yna amrywiaeth o wasanaethau Trydydd Sector ledled Clwstwr Gogledd Powys, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, cymorth yn y cartref, a chyfeillio.

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ddarparu Gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol, Cysylltydd Cymunedol Canser, gwasanaeth ymgysylltu ar gyfer Iechyd a Llesiant, a gwasanaeth Gwybodaeth am Iechyd Meddwl.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae blaenoriaethau strategol Powys wedi'u diffinio'n glir yng Nghynllun Integredig 2024-29, sy'n nodi camau gweithredu uniongyrchol, byrdymor, tymor canolig a hirdymor y Bwrdd Iechyd i gyflawni 'Powys Iach, Ofalgar' a'r nod cenedlaethol, 'Cymru Iachach'.

Cynllun Integredig BIAP 2024-29: [Strategaethau a Chynlluniau](#)
Cynllun Ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol: [Powys Iach, Ofalgar](#)
Asesiad o Anghenion Poblogaeth Powys: [Asesiad o Anghenion y Boblogaeth](#)
Strategaeth Iechyd a Gofal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: [Ein Strategaeth](#) – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Crynodeb o Ddemograffeg Poblogaeth Gogledd Powys

A ninnau'n un o dri Chlwstwr ym Mhowys, mae ein blaenoriaethau allweddol yn adlewyrchu strategaeth Iechyd a Gofal Powys; mae blaenoriaethau'r Clwstwr fel a ganlyn:

Iechyd Meddwl – 'Archwilio'r gwasanaethau Iechyd Meddwl a ddarperir ar gyfer pobl ifanc. Parhau ag arfer y Clwstwr o fabwysiadu a hyrwyddo'r 'gwasanaeth 111 pwysu 2' cenedlaethol.

Eiddilwch – 'gwella gofal ledled y clwstwr i'r rheiny sydd fwyaf agored i niwed'.

Gofal Brys – 'modelu ar gyfer y Gaeaf i fodloni'r galw cynyddol ar y system ledled yr holl wasanaethau Sylfaenol a Chymunedol. Gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau a llwybrau gofal ymhlith aelodau'r Clwstwr, a hynny trwy ymgyrchoedd addysg a chyfathrebu.'

Mae croesawu a chefnogi arloesedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Glwstwr y Gogledd; mae enghreifftiau o hyn i'w gweld yn rhai o'n prosiectau peilot sy'n cael eu cyflawni ledled y Clwstwr ar hyn o bryd, gan gynnwys:

- **Cynllun Peilot y Gwasanaethau Eiddilwch** – cefnogi'r broses o gydlynw a darparu gofal i'r cleifion hynny y nodir eu bod yn eiddil iawn, a hynny trwy ymarferwyr eiddilwch pwrpasol a thrwy ddatblygu un pwynt mynediad ar gyfer cleifion, eu teuluoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol. A hynny wrth gydweithio â Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ehangach a sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddatblygu gwasanaethau eiddilwch cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth leol.
- **Technoleg Ddigidol** – croesawu'r defnydd o apiau a meddalwedd ddigidol i gefnogi'r broses o ddatblygu mynediad amgen at wasanaethau, cyfathrebu a threfniadau cyfeirio, gan ddarparu arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd.
- **Gordewdra yn ystod plentyndod** – cefnogi rhaglen ymyrryd wedi'i thargedu at ordewdra yn ystod plentyndod ledled Powys i ddarparu cyfres o sesiynau addysg ymarferol ar faeth a bwyta'n iach, sy'n cynnwys sgiliau coginio a goresgyn rhwystrau obesogenig, gan gefnogi iechyd a llesiant.
- **Cysylltwyr Cymunedol** – cefnogi cleifion a chymunedau sydd ag anghenion gofal neu gymorth i gyflawni'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt trwy iddynt gyrchu gwasanaethau'r trydydd sector a gweithgareddau cymunedol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan PAVO, gan ddarparu 'yr hyn sy'n bwysig' i gleientiaid y mae arnynt angen cymorth, ond hefyd i'r gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol sy'n cyfeirio cleientiaid at y gwasanaeth.
- **Datblygu sgiliau a Modelau Recriwtio newydd** – meithrin cysylltiadau cadarn â'r 'Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol' i hwyluso lleoliadau gwledig ar gyfer myfyrwyr a Fferyllwyr Cyn-gofrestru, cryfhau cysylltiadau â'r Prifysgolion lleol i ddatblygu modiwlau addysg a lleoliadau Myfyrwyr Nyrsio, cynnal sesiynau meithrin sgiliau â ffocws ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol, a buddsoddi mewn addysg a threfniadau datblygu sgiliau ar gyfer ein gweithlu.
- **Cofnodion Wardiau Rhithwir** – datblygu gwell dulliau digidol ar gyfer casglu a chofnodi data gweithgarwch, gan gefnogi proses werthuso a datblygiad ehangach o ran gwasanaethau Eiddilwch a Chymunedol.

- **Capasiti ar gyfer Ymchwydd yn nifer yr Apwyntiadau Gaeaf mewn practisau meddygon teulu** – treialu cronfa o adnoddau clinigol ychwanegol (capasiti ymchwydd) i gefnogi practisau meddygon teulu i ddarparu ymateb hyblyg i frigau yn y galw heb ei gynllunio am gyfnod o dri mis dros y gaeaf.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae croesawu a chefnogi arloesedd yn flaenoriaeth i'r Clwstwr; ymhlith y cyflawniadau allweddol y mae:

Ymarferydd Gofal Sylfaenol Cyhyrsgerbydol mewn practisau meddygon teulu – wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith ledled y Clwstwr ym mis Rhagfyr 2022. Cefnogi gwell canlyniadau iechyd a llesiant i gleifion trwy ddarparu mynediad mwy amserol at weithwyr Ffisiotherapi proffesiynol, gan hefyd greu mwy o gapasiti a mynediad at wasanaethau eraill, yn cynnwys gwasanaethau diagnostig a delweddu arbenigol, CMATs, a gwasanaethau Ffisiotherapi cyffredinol. Ar ôl cael ei dreialu'n llwyddiannus mewn un practis yn y Gogledd, mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei fabwysiadu fel datrysiad hirdymor i'r gwasanaeth, sy'n cael ei ariannu'n llawn a'i gyflwyno ar hyn o bryd ledled y chwe phractis arall yn y Clwstwr.

Ap digidol pwrpasol i Gleifion – darparu dull arall o gyrchu gwybodaeth am iechyd a llesiant ym maes Gofal Sylfaenol a Chymunedol 24/7, a hynny cyn cyflwyno ap GIG Cymru.

Hwylusydd Iechyd a Llesiant – cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol mewn Cymunedau, a sut i'w Cyrchu, gan rannu gwybodaeth am iechyd a llesiant ar draws cymunedau a hyrwyddo help a chymorth cynnar. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect hwn yn helpu i lywio gwaith cyfathrebu prosiectau eraill yn y Byrddau Partneriaeth Ranbarthol a'r grwpiau Partneriaeth Dechrau'n Dda, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda.

Gweithio mewn Tim Amlddisgyblaethol – gan goleddu gwaith tîm amlddisgyblaethol, cymerodd fferyllwyr clinigol ran mewn cynllun peilot i weithio yn nhimau'r practisau meddygon teulu, mewn rolau'n ymwneud yn uniongyrchol â chleifion, i gynnig asesiadau a thriniaethau clinigol i gleifion, gan ddefnyddio eu gwybodaeth arbenigol am feddyginiaethau i ychwanegu gwerth at ofal cleifion ac at ganlyniadau cleifion a'u gwella.

Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect hwn yn helpu i lywio modelau gweithio yn y dyfodol ar gyfer ymarfer cyffredinol.



**Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
(BIAP)**



Gogledd Powys

Arweinydd y Clwstwr

Dr Waseem Aslam
waseem.aslam@wales.nhs.uk

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae cydweithio â'r holl bartneriaid yn parhau i fod yn ganolog i ni yn y Clwstwr, gan gydnabod a diwallu anghenion y boblogaeth a chryfhau'r gwasanaethau a ddarperir. Er mwyn ysgogi a dylanwadu ar newid gwirioneddol o ran datblygu a chynllunio gwasanaethau, mae cydweithio ledled Powys i rannu blaenoriaethau, syniadau a gwersi, yn ganolog i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy hirdymor yn y Clwstwr sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth.

Mae gweithio mewn partneriaeth wedi parhau i gryfhau, gyda mwy a mwy o ddatrysiadau i heriau o ran y gwasanaeth yn cael eu datblygu ledled nifer o Gydweithredfeydd.

Rydym yn parhau i weithio ar gryfhau a chasglu canlyniadau a gwerthuso prosiectau gwasanaethau peilot i helpu i lywio dull cynaliadwy hirdymor o ddarparu gwasanaethau yn y Clwstwr ar gyfer poblogaeth Gogledd Powys.

Beth nesaf?

Modelau gofal cymorth cynnar ac atal – gwella mynediad at Ofal Sylfaenol, trwy wasanaethau Ymarferydd Cyswllt Cyntaf, darpariaeth gwasanaethau Eiddilwch, Atal Diabetes, gwasanaethau Dermatoleg Meddygon Teulu, a gwasanaethau Iechyd Meddwl a gofal Brys.

Gofal Cydgysylltiedig Integredig – darparu gofal yn nes at y cartref, datblygu gwasanaethau Eiddilwch ledled timau'r Clwstwr, dull cymunedol o gydlynw a darparu gofal i gleifion sy'n eiddil iawn.

Dyfodol y Gweithlu – cydweithio â'r Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol i ddarparu addysg a hyfforddiant ac i ddatblygu'r gweithlu, gan alluogi modelau recriwtio amgen a gyrfaedd portffolio, ac ehangu cyfleoedd ar gyfer rhagor o leoliadau gwledig.

Trawsnewid Parhaus mewn partneriaeth – cydweithredu ar draws ffiniau Cystyrau a chydweithredfeydd i gefnogi arloesedd a gwelliant i fodelau gofal, a hynny trwy ddull amlbroffesiynol a sefydliadol o ddarparu gwasanaethau.





Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)



De Powys

Arweinydd y Clwstwr

Dr Anthony Morgan
Anthony.morgan2@wales.nhs.uk

De Powys

Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr De Powys yn cynnwys 4 Practis Meddygon Teulu, wedi'u lleoli yn Aberhonddu, Crucywel, Haygarth ac Ystradgynlais, 6 Phractis Deintyddol, 8 Fferyllfa Gymunedol a 6 Phractis Optometreg, sy'n darparu gwasanaethau i boblogaeth wledig o tua 36,000 o gleifion.

Mae yna dri ysbyty cymunedol, wedi'u lleoli yn Aberhonddu, Bronllys ac Ystradgynlais, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gwahanol, gan gynnwys gwasanaethau Cleifion Allanol, Uned Mân Anafiadau, cyfleusterau Pelydr-X, gwasanaethau Therapi, Mân Lawdriniaethau ac Endosgopi, Canolfan Eni dan arweiniad Bydwagedd, ward feddygol gyffredinol ar gyfer cleifion mewnol, Dialysis, Ward Iechyd Meddwl pobl hŷn, a gwasanaethau ysbyty dydd.

Mae yna hefyd Ganolfan Plant, sy'n darparu amrywiaeth o glinigau cymunedol i blant a phobl ifanc, ynghyd â chanolfannau Adnoddau Iechyd Meddwl pwrpasol, wedi'u lleoli yn Aberhonddu ac Ystradgynlais, sy'n darparu ystod o wasanaethau iechyd meddwl cymunedol.

Mae yna amrywiaeth o wasanaethau Trydydd Sector ledled Clwstwr De Powys, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, cymorth gartref a chyfeillio.

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ddarparu Gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol, Cysylltydd Cymunedol Cancer, gwasanaeth ymgysylltu ar gyfer Iechyd a Llesiant, a gwasanaeth Gwybodaeth am Iechyd Meddwl.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae blaenoriaethau strategol Powys wedi'u diffinio'n glir yng Nghynllun Integredig 2024-29, sy'n nodi camau gweithredu uniongyrchol, byrdymor, tymor canolog a hirdymor y Bwrdd Iechyd i gyflawni 'Powys Iach, Ofalgar' a'r nod cenedlaethol, 'Cymru Iachach'.

Cynllun Integredig BIAP 2024-29: [Strategaethau a Chynlluniau](#)
Cynllun Ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol: [Powys Iach, Ofalgar](#)
Asesiad o Anghenion Poblogaeth Powys: [Asesiad o Anghenion y Boblogaeth](#)
Crynodeb o Ddemograffeg Poblogaeth De Powys

A ninnau'n un o dri Chlwstwr ym Mhowys, mae ein blaenoriaethau allweddol yn adlewyrchu strategaeth Iechyd a Gofal Powys; mae blaenoriaethau'r Clwstwr yn dal i fod fel a ganlyn.

Iechyd Meddwl – 'Archwilio'r gwasanaethau Iechyd Meddwl a ddarperir ar gyfer pobl ifanc. Parhau ag arfer y Clwstwr o fabwysiadu a hyrwyddo'r 'gwasanaeth 111 pwyso 2' cenedlaethol.

Eiddilwch – 'gwella gofal ledled y clwstwr i'r rheiny sydd fwyaf agored i niwed'.

Gofal Brys – 'modelu ar gyfer y Gaeaf i fodloni'r galw cynyddol ar y system ledled yr holl wasanaethau Sylfaenol a Chymunedol. Gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau a llwybrau gofal ymhlith aelodau'r Clwstwr, a hynny trwy ymgyrchoedd addysg a chyfathrebu.'

Mae enghreifftiau o brosiectau peilot sy'n cael eu cyflwyno ledled y clwstwr ar hyn o bryd yn cynnwys:

- **Prosiect Peilot y Gwasanaeth Cydlynu Eiddilwch** – cefnogi'r broses o gydlynu a darparu gofal i'r cleifion hynny y nodir eu bod yn gymedrol eiddil ac yn eiddil iawn, a hynny trwy ymarferwyr eiddilwch arbenigol pwrpasol a thrwy ddatblygu un pwynt mynediad ar gyfer y cleifion mwyaf eiddil i atal dirywiad annisgwyl yn eu hiechyd a lleihau derbyniadau diangen i'r ysbyty. Gweithio ar y cyd â sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ehangach i ddatblygu gwasanaethau eiddilwch cynaliadwy yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth leol.
- **Technoleg Ddigidol** – croesawu'r defnydd o apiau a meddalwedd ddigidol i gefnogi'r broses o ddatblygu mynediad amgen at wasanaethau, cyfathrebu a threfniadau cyfeirio at wasanaethau, gan ddarparu arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd.
- **Gofal Cyn-ddiabetes** – cyflwyno prosiect targededig sy'n cynnig cymorth i bobl sy'n wynebu risg uwch o ddatblygu diabetes math 2. Yn rhan o'r prosiect mae gweithwyr cymorth gofal Iechyd ymroddedig, hyfforddedig, dan oruchwyliaeth deietegwyr, yn darparu ymyriad byr i bobl sydd wedi cael prawf gwaed sy'n dangos eu bod yn wynebu risg uwch o gael diabetes math 2.
- **Gordewdra yn ystod plentyndod** – cefnogi rhaglen ymyrryd wedi'i thargedu at ordewdra yn ystod plentyndod ledled Powys i ddarparu cyfres o sesiynau addysg ymarferol ar faeth a bwyta'n iach, sy'n cynnwys sgiliau coginio a goresgyn rhwystrau obesogenig, gan gefnogi Iechyd a Llesiant.
- **Cysylltwyr Cymunedol** – cefnogi cleifion a chymunedau sydd ag anghenion gofal neu gymorth i gyflawni'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt trwy iddynt gyrchu gwasanaethau'r trydydd sector a gweithgareddau cymunedol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan PAVO, gan ddarparu 'yr hyn sy'n bwysig' i gleientiaid y mae arnynt angen cymorth, ond hefyd i'r gweithwyr Iechyd a gofal proffesiynol sy'n cyfeirio cleientiaid at y gwasanaeth.
- **Datblygu sgiliau a Modelau Recriwtio newydd** – meithrin cysylltiadau cadarn â'r 'Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol' i hwyluso lleoliadau gwledig ar gyfer myfyrwyr a Fferyllwyr Cyn-gofrestru, cryfhau cysylltiadau â'r Prifysgolion lleol i ddatblygu modiwlau addysg a lleoliadau Myfyrwyr Nyrsio, cynnal sesiynau meithrin sgiliau â ffocws ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol, a buddsoddi mewn addysg a threfniadau datblygu sgiliau ar gyfer ein gweithlu.
- **Cofnodion Wardiau Rhithwir** – datblygu gwell dulliau digidol ar gyfer casglu a chofnodi data gweithgarwch, gan gefnogi proses werthuso a datblygiad ehangach o ran gwasanaethau Eiddilwch a Chymunedol.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae cefnogi arloesedd wedi bod yn llwyddiant allweddol i'n Clwstwr yn y de, ac mae'r cyflawniadau allweddol wedi cynnwys:

Prosiect Enghreifftiol Bevan – Gweithredu Arferion Seiliedig ar Dystiolaeth ar gyfer Poen Barhaus ym maes Gofal Sylfaenol mewn dau bractis meddygon teulu yn Ne Powys. Yn rhan o'r prosiect, cyflwynwyd rôl ymarferydd poen barhaus, gyda'r prif nodau o wella Iechyd a Llesiant unigolion sy'n dioddef o boen barhaus, dylanwadu ar y diwylliant o bresgripsiynu opioidau/gabapentin, a darparu addysg a chymorth i gleifion a chlinigwyr. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect hwn yn helpu i lywio datblygiadau ehangach y Gwasanaeth Byw'n Dda yn y maes hwn ledled y Bwrdd Iechyd. Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar gael trwy'r ddolen ganlynol: [Gweithredu Arferion Seiliedig ar Dystiolaeth ar gyfer Poen Barhaus mewn Gofal Sylfaenol – Comisiwn Bevan](#).

Ymarferydd Gofal Sylfaenol Cyhyrsgerbydol mewn practisau meddygon teulu – rhoddwyd hyn ar waith ledled Practisau Meddygon Teulu y clwstwr, gan ddarparu mynediad mwy amserol i gleifion at Weithwyr Ffisiotherapi Proffesiynol, rhaglenni adsefydlu, a gwasanaethau diagnostig ac archwilio arbenigol. Mae hwn wedi datblygu i fod yn wasanaeth amhrisiadwy i boblogaeth de Powys, gan gefnogi gwell canlyniadau Iechyd a Llesiant i gleifion.

Cynllun Peilot Profion Pwynt Gofal – Protein C-adweithiol (CRP) wrth wneud diagnosis o Heintiau Anadlol aciwt – Mae'r meddygfeydd teulu wedi treialu'r defnydd o brofion pwynt gofal i'w cefnogi wrth iddynt roi diagnosisu gwahaniaethol o heintiau anadlol aciwt, a hynny er mwyn gwella ansawdd gofal cleifion a stiwardiaeth gwrthfotigau. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect hwn yn helpu i lywio'r gwaith ehangach sy'n mynd rhagddo i ddatblygu profion pwynt gofal.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Llwyddiant ein Clwstwr oedd cydnabod amryfal brofiadau ac aeddfedrwydd cydweithredfeydd a chreu amgylchedd lle y gall pawb gyflwyno syniadau ac arloesi i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth. Annog aelodau i archwilio ac ystyried datrysiadau o feysydd eiddilwch a gofal brys hyd at sgrinio am gyflyrau hirdymor, megis pwysedd gwaed uchel, yn ystod ymweliadau ag Optegwyr.

Rydym ni yn y Clwstwr yn cydnabod gwir werth cydweithio, nid dim ond yn uniongyrchol ymhlith y cydweithredfeydd, ond â'r Bwrdd Iechyd ehangach a Chlystyrau eraill, gan gwrdd yn rheolaidd fel un Clwstwr, ledled Powys, i ddefnyddio'r holl brofiad sydd ar gael i ni, i helpu i hwyluso newid, ac i sicrhau cynaliadwydd gwasanaethau.



Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)



De Powys

Arweinydd y Clwstwr

Dr Anthony Morgan
Anthony.morgan2@
wales.nhs.uk

Beth nesaf?


Trawsnewid Parhaus o ran partneriaethau – cydweithredu ar draws ffiniau'r Clystyrau a'r cydweithredfeydd i gefnogi arloesedd a gwelliant i fodelau gofal, a hynny trwy ddull amlbroffesiynol a sefydliadol o ddarparu gwasanaethau.

Modelau gofal cymorth cynnar ac atal – gwella mynediad at Ofal Sylfaenol, trwy wasanaethau Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf, darparu gwasanaethau Eiddilwch, Atal Diabetes, a gwasanaethau Dermatoleg Meddygon Teulu.

Gofal Cydgysylltiedig Integredig – darparu gofal yn nes at y cartref, datblygu gwasanaethau Eiddilwch ar draws timau'r Clwstwr, dull cymunedol o gydlyn a darparu gofal i gleifion sy'n eiddil iawn.

Dyfodol y Gweithlu – cydweithio â'r Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol i ddarparu addysg a hyfforddiant ac i ddatblygu'r gweithlu, gan alluogi modelau recriwtio amgen a gyrfaedd portffolio, ac ehangu cyfleoedd ar gyfer rhagor o leoliadau gwledig.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)

Afan

Iechyd y Bae

Iechyd y Ddinas

Cwmtawe

Llwchwyr

Castell-nedd

Penderi

Y Cymoedd Uchaf



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board

Craigie Wilson

Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaeth Sylfaenol,
Cymunedol a Therapiau/Dirprwy Brif Swyddog
Gweithredu

Mae'n bleser gennyf gyflwyno gwaith y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr a'r Clystyrau Lleol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae'r blwyddlyfr hwn yn dangos arloesedd ein Clystyrau Lleol o ran gwella gofal a gwasanaethau ar gyfer y boblogaeth a wasanaethir, a hefyd fuddion cydweithio â phartneriaid ar y lefel draws-glwstwr i gyflawni canlyniadau gwell fyth.

Ymhlith y prosiectau mwyaf diweddar sydd ar y gweill ar lefel draws-glwstwr y mae gwaith i gyflwyno model seicoleg gymunedol newydd mewn partneriaeth ag iechyd meddwl, gwaith i ehangu trefniadau cydweithio â'r trydydd sector ledled gofal sylfaenol, a phrosiect i sicrhau presgripsiynu gwrthficrobaidd da mewn practisau meddygon teulu a deintyddol.

Mae'r prosiectau hyn yn ychwanegol at ddatblygiadau blaenorol i wasanaethau megis awdioleg gofal sylfaenol, wardiau rhithwir, presgripsiynu cymdeithasol, a'r cynllun IRISi, a roddwyd ar waith ledled pob clwstwr yn y Bwrdd Iechyd.

Wrth edrych i'r dyfodol, y ddwy brif flaenoriaeth y cytunwyd arnynt ar y lefel draws-glwstwr ar gyfer 2025-26 yw iechyd meddwl emosynol a llesiant, a diwallu anghenion Pobl Hŷn. At hynny, wrth fynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth, mae'r clystyrau lleol wedi cytuno ar 208 o gamau gweithredu allweddol ledled meysydd gofal wedi'i gynllunio, gofal heb ei gynllunio, plant a phobl ifanc, iechyd meddwl ac anableddau dysgu.




Rydym ni, y Bwrdd Iechyd, yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ar lefel y clwstwr, gan gefnogi ac adeiladu'r gwasanaethau hynny am eu bod yn chwarae rôl hanfodol o ran symud y model Dylunio Cymuned yn ei flaen a diweddarau cynllun gwasanaethau clinigol y Bwrdd Iechyd eleni.


Yn yr ymarfer hunanasesu diweddar, nododd bron pob un o'r clystyrau gynnydd da iawn o ran gweithredu'r model gofal sylfaenol a'r amcanion datblygu clwstwr carlam, ac rydym yn bwriadu adeiladu ar hyn yn y dyfodol.

Rwy'n falch iawn o waith y clystyrau, ac edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda nhw wrth i ni geisio ymgorffori a lledaenu eu gwaith rhagorol.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Swansea Bay

I gael rhagor o wybodaeth am y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr yn BIPBA, cysylltwch â:

Dr Iestyn Davies
Iestyn.Davies3@wales.nhs.uk
Sharon Miller
Sharon.Miller@wales.nhs.uk

Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr (GCTG) Bae Abertawe

Rydym yn bartneriaeth amlasiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith yr aelodau canlynol:

- Clystyrau Lleol y Bae, y Ddinas, Llchwyr, Penderi, Castell-nedd, y Cymoedd Uchaf, a Chwmtawe.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg
- Llais
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot

Cadeirydd y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr yw Dr Iestyn Davies, sy'n Ddirprwy Gyfarwyddwr Meddygol y Grŵp ac yn Arweinydd Clinigol ar gyfer pob un o'r wyth Clwstwr. Mae Dr Davies hefyd yn bartner yn un o'r practisau cyffredinol mwyaf yng Nghymru, wedi'i leol yng Nghlwstwr Cwmtawe.

Nodir ein strwythur llywodraethu isod:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIP BA)						Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol		
		Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr						
Cydweithredfeydd y Clystyrau Lleol								
Afan	Y Bae	Y Ddinas	Cwmatawe		Llwchwr	Castell- nedd	Penderi	Y Cymoedd Uchaf
Cydweithredfeydd Proffesiynol								
Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	Deintyddol	Fferyliaeth	Optometreg		Nyrsio	Y 3 ^{dd} Sector	Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd	

Mae aelodaeth y Clystyrau'n cynnwys cynrychiolwyr o blith Meddygon Teulu, Nyrsys, y Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Iechyd Meddwl, Deintyddion, Optegwyr, a'r Sector Gwirfoddol.

Cefnogir y Clystyrau gan 22 o Gydweithredfeydd Proffesiynol, sy'n cynnwys dwy gydweithredfa trydydd sector newydd.

Rydym yn cwmpasu daearyddiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, sydd wedi'i ffurfio o Ddinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae'r grŵp cynllunio traws-glwstwr yn grŵp gweithredol sy'n cynnwys gwaith ymgysylltu da. Mae yna gynrychiolaeth uwch o blith y sefydliadau a'r partneriaethau a restrir uchod. Mae'r grŵp yn goruchwyllo gwaith y Clystyrau ar lefel leol a hefyd yn cychwyn prosiectau Traws-glwstwr.

Ar hyn o bryd, mae gennym nifer o wasanaethau sydd ar gael ym mhob Clwstwr, megis Awdioleg Gofal Sylfaenol, Wardiau Rhithwir, Presgripsiynu Cymdeithasol, a'r prosiect IRISi. Rydym hefyd wedi dechrau prosiectau ar fodel Seicoleg Gymunedol newydd, gwella ansawdd Presgripsiynu Gwrthficrobaidd ym maes Gofal Sylfaenol, a chynyddu nifer y cleifion sy'n cael gwiriad anabledd dysgu.

Cafodd gwaith blaenorol ei wneud i ehangu'r cyfeiriadur gwasanaethau sydd ar gael ar lefel y Clwstwr i bob practis Gofal Sylfaenol, i ddarparu rhaglen o hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia ac awtistiaeth, ac i brynu cyfarpar optometreg arbenigol.

Mae'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau partner a phob un o'r wyth Clwstwr gytuno ar ystod o feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu; mae'r blaenoriaethau hyn yn gyson â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Iechyd a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae clystyrau ar y lefel leol hefyd yn parhau i arloesi a datblygu gwasanaethau mewn ymateb i anghenion lleol, gwasanaethau y gellir eu mabwysiadu i'w cyflwyno.

Mae ein prif flaenoriaethau strategol ar gyfer 2024-25, sydd wedi'u nodi yn ein hail gynllun Traws-glwstwr, fel a ganlyn:

- Anableddau Dysgu
- Gofalwyr
- Cynhwysiant Iechyd
- Pobl Hŷn
- Strategaeth y Gweithlu Gofal Sylfaenol
- Iechyd Meddwl Emosiynol a Llesiant

Gellir dod o hyd i'r gynllun Traws-glwstwr yma:

Crynodeb o'r Cynllun Traws-glwstwr a chynlluniau blynyddol Cydwethredfeydd y Clystyrau Lleol.

Nodir enghraifft o un o brosiectau diweddar y Grŵp Traws-glwstwr isod:

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a phedwar clwstwr lleol i gyflwyno model seicoleg gymunedol newydd. Nod y model yw sicrhau darlun manwl o anghenion poblogaeth a chefnogi'r gwaith o nodi a datblygu ymyriadau seicolegol i wella iechyd emosiynol a llesiant mewn partneriaeth â'r gymuned.

Mae'r meysydd blaenoriaeth cynnar yn cynnwys gweithio gydag ysgolion lleol i gynnig ymgynghoriadau a goruchwyliaeth i ehangu sgiliau a thechnegau'r staff o ran rheoli'r sefyllfa, cefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybr Seicoleg Addysgol cyn ysgol sy'n seiliedig ar dechnegau rheoli synhwyrac ac emosiynau ar gyfer y plentyn a'r rhieni, lansio llawlyfr amenedigol i gefnogi mamau newydd, a gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i gefnogi llesiant ein poblogaeth o fyfyrwyr.


Gall y seicolegwyr cymunedol gynnig cyngor a chymorth i weithwyr cymunedol eraill, a gallant trwy eithriad gynorthwyo gydag achosion cymhleth iawn.

Mae hyfforddai seicoleg glinigol yn helpu i werthuso rhwystrau a chyfleoedd i bobl sy'n ymdopi â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn y rhanbarth. Gan fod hon hefyd yn thema a nodwyd gan y seicolegydd cymunedol sy'n cynnwys llesiant yn y gymuned, bydd y dadansoddiad yn helpu i wella hygyrchedd ac ymgysylltiad.


Mae'r prosiect, sy'n cael ei arwain gan y Pennaeth Seicoleg a'r Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Gofal Sylfaenol, ar y cyd â'r Clystyrau, yn mynd o nerth i nerth. Penodwyd tri seicolegydd cymunedol, ac mae swydd arall bellach yn cael ei hysbysebu gan gwblhau'r cam cychwynnol yn y pedwar clwstwr.

Bydd myfyriwr PhD ym Mhrifysgol Abertawe yn gwerthuso'r prosiect.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Bae Abertawe

I gael rhagor o wybodaeth am y Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr yn BIPBA, cysylltwch â:

Dr Iestyn Davies
Iestyn.Davies3@wales.nhs.uk

Sharon Miller
Sharon.Miller@wales.nhs.uk

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Rydym yn parhau i ddatblygu ein Clwtwr gyda chymorth y Bwrdd Iechyd, sy'n cynnwys cymorth gan yr Academi Gofal Sylfaenol a Swyddog Cyfathrebu pwrpasol. Bu i'r ymarfer hunanasesu diweddar amlygu'r ffaith bod bron pob un o'n clystyrau o'r farn ei fod yn gwneud cynnydd da tuag at y Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru.

Mae sefydlu ystod o gydweithredfeydd proffesiynol i gefnogi'r Clwtwr wedi bod yn ddatblygiad allweddol. Mae hyn yn golygu bod gennym dros 200 o randdeiliaid erbyn hyn, sy'n cyfrannu at y gwaith o ddylunio ac ail-lunio ein gwasanaethau. Rydym yn falch o fod wedi cychwyn dwy gydweithredfa trydydd sector mewn partneriaeth â'r cynghorau gwasanaethau gwirfoddol perthnasol, a gobeithiwn benodi arweinwyr y cydweithredfeydd trydydd sector yn fuan er mwyn cryfhau ymglymiad. Mae'r berthynas rhwng y Clystyrau a'r Trydydd Sector ym Mae Abertawe yn arbennig o gryf.

Rydym yn falch iawn bod un o'n Clystyrau wedi ennill Gwobr y GIG ddwy flynedd yn olynol. Enillodd Clwtwr Cwmtawe yn 2023 am ei waith ar ddiwallu anghenion cleifion cymhleth yn ei ardal. Yn 2024, enillodd eto am ei waith ar ddull system gyfan o fynd i'r afael ag Iechyd Meddwl, gan ennill y categori Datblygu Dull System Gyfan a'r wobr gyffredinol am Gyfraniad Eithriadol at Wella Gofal Iechyd.

Mae Clwtwr Penderi hefyd wedi cael canmoliaeth trwy'r wobr Byw ein Gwerthoedd, a hynny am ei waith ar Lesiant Cymunedol.

Mae Clwtwr y Cymoedd Uchaf wedi arwain y ffordd o ran datblygu cynllun ar gyfer ailgylchu anadlyddion, sef y cynllun cyntaf o'i fath yng Nghymru ac un o'r ychydig gynlluniau yn y DU. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ysgrifennu am y prosiect hwn.

Rydym mor falch o waith yr holl Glystyrau, a dim ond rhai enghreifftiau yw'r rhain. Mae blwyddlyfrau Canlynol y clystyrau yn rhoi rhagor o fanylion.



Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae'r Grŵp Cynllunio Traws-glwtwr yn darparu dull gweithredu cydlynol a llawn ffocws ar gyfer ein gwaith Clwtwr. Mae'n darparu llais cryfach a mwy o welededd ar gyfer ein Clystyrau, ac yn darparu cyfleoedd cryfach ar gyfer prosiectau Traws-glwtwr.

Mae angen rhoi sylw manwl i ddatblygu aelodau'r Clystyrau ac arweinwyr y Cydweithredfeydd nad ydynt wedi bod yn gyfarwydd â gweithio mewn trefniant clwtwr yn flaenorol. Mae hyn wedi golygu cymryd amser a darparu cymorth.

Mae yna hefyd her o ran natur statig cyllidebau'r Clystyrau a chyflwyno gwasanaethau mewn hinsawdd ariannol anodd. Mae costau staffio cynyddol wedi golygu bod yna lai o gyfle i'r Clystyrau arloesi, a bydd sicrhau buddsoddiad ychwanegol yn allweddol i gynnal y momentwm.

Beth nesaf?

Rydym wedi penderfynu defnyddio dull symlach yn 2025-26 fel y gallwn amlygu cynnydd cadarn iawn. Mae ein blaenoriaethau Traws-glwtwr allweddol ar gyfer 2025-26 mewn dau faes:

Iechyd Meddwl Emosiynol a Llesiant

- Ymgorffori'r model Seicoleg Gymunedol
- Adolygu'r Model Iechyd Meddwl ar lefel y Clwtwr, gan gynnwys y defnydd o weithwyr cyswllt Iechyd Meddwl ar gyfer pob Clwtwr.

Pobl Hŷn

- Lleihau Cwmpiadau
- Cynllunio Gofal yn y Dyfodol
- Strategaeth ar gyfer ehangu Model Clinigydd Cymunedol

Yn ogystal â hyn, mae cynlluniau'r wyth Clwtwr lleol yn cynnwys 208 o gamau cyflawni allweddol ledled chwe maes allweddol, camau sy'n gyson â chynllun y Bwrdd Iechyd. Y meysydd hyn yw gofal wedi'i gynllunio, gofal heb ei gynllunio, iechyd meddwl ac anableddau dysgu, plant a phobl ifanc, gofal canser ac atal a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Byddwn hefyd yn ceisio datblygu ein Clystyrau ymhellach yn y flwyddyn i ddod, gan roi llais cryf iddynt wrth adnewyddu cynllun gwasanaethau clinigol y Bwrdd Iechyd a blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Afan Arweinydd y Clwstwr (dros dro)

Andrew Griffiths
Andrew.Griffiths8@wales.nhs.uk

Afan



Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr Afan yn gydweithredfa o gontractwyr gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol y bwrdd iechyd, a'r trydydd sector, sy'n ymrwymedig i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf trwy arloesedd a darpariaeth â ffocws. Ein nod yw gwella canlyniadau iechyd, lleihau anghydraddoldebau, a darparu gwasanaethau gofal iechyd hygrych, integredig i'n cymuned, a arweinir gan angen.

Bu i'n tîm amlddisgyblaethol ehangu ym mis Rhagfyr 2023 i gynnwys Clinigydd Cymunedol (cyfuniad o barafeddyg ac uwch-ymarferydd nyrsio), gan wella gofal ar gyfer cleifion sy'n gaeth i'w cartref a lleihau'r galw ar feddygon teulu. Mae'r Rheolwr Datblygu a Gweithredu Busnes yn llywio prosiectau'r clwstwr ac yn gofalu bod yna ddulliau casglu data cadarn i sicrhau proses cynllunio busnes wybodus.

Mae Clwstwr Afan yn gwasanaethu poblogaeth o tua 45,837 o gleifion cofrestredig ledled ardaloedd trefol a gwledig. **Mae'r clwstwr yn cynnwys 13 o fferyllfeydd, 7 practis deintyddol, a 3 optegydd.**

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Gwella iechyd meddwl a llesiant trwy fynd ati'n barhaus i ddatblygu Model Iechyd Meddwl Afan, gan adolygu Model Iechyd Meddwl Cwmtawe, sydd wedi ennill gwobr y GIG, i nodi elfennau y gellir eu haddasu ar gyfer Clwstwr Afan. Mae'r model presennol yn cynnwys gwasanaeth a ddarperir gan bresgripsiynwyr cymdeithasol a gweithwyr cyswllt iechyd meddwl.

Buddsoddi mewn Cynllun Grantiau Trydydd Sector i ddarparu prosiectau ymyrryd targededig yn y gymuned, gan gynnwys:

Rhaglen **Adferiad – Eich Cydnerthedd** sy'n cefnogi unigolion 14-18 oed, ac sy'n canolbwyntio ar gymunedau dan anfantais, cymunedau gwledig, a chymunedau ethnig leiafrifol. Mae'n gwella llesiant meddyliol trwy gyfrwng gweithdai cydnerthedd, meithrin hyder, sgiliau ymdopi, ac iechyd meddwl hirdymor.

Mae rhaglen **Wellness Warriors – Mind Castell-nedd Port Talbot ac Afan Fitness** yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol a chydnerthedd meddyliol trwy hyfforddiant ffurfiol yn y gampfa, sgysiau anffurfiol, a thrafodaethau wedi'u hwyluso am iechyd meddwl.

Meithrin llythrennedd iechyd a dulliau rhagweithiol o reoli iechyd trwy ein Digwyddiadau Llesiant Cymunedol.

Gwella arferion presgripsiynu i leihau'r defnydd o gyfryngau gwrthficrobaidd a'u heffaith ar yr amgylchedd, gan ganolbwyntio ar stiwardiaeth wrthficrobaidd ac anadlyddion ecogyfeillgar i gefnogi'r agenda werdd.

Cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu brechu a'u himiwneddio gyda chefnogaeth cynlluniau tymhorol ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.

Cryfhau cymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl trwy gynlluniau uwchsgilio cydweithredol a gwella mynediad at adnoddau ar draws contractwyr gofal sylfaenol.

Hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw trwy fentrau Mae Pob Cyswllt yn Cyfrif (MECC) yn achos gwasanaethau nad ydynt yn rhai meddygol cyffredinol, ac integreiddio cymorth Trydydd Sector i mewn i fodolau gofal, gan gynnwys cymell mwy o bobl i gael eu sgrinio.

Gwella rheolaeth ar ddiabetes trwy ymgysylltu â Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan a chynyddu cyfradd cwblhau'r wyth proses ofal allweddol.

Gweithredu modelau presgripsiynu 56 diwrnod i wella effeithlonrwydd a diogelwch meddyginiaeth.

Ehangu'r defnydd o Consultant Connect ar draws grwpiau proffesiynol i symleiddio llwybrau gofal cleifion.

Dolen i Gynlluniau Perthnasol

- Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-26
- Amcanion Strategol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Model Gofal Sylfaenol i Gymru
- Cymru Iachach

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Digwyddiadau llwyddiannus o ran Iechyd a Llesiant y gymuned sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o iechyd ac addysg iechyd. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltiad gan y Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol, Nyrsys Cymunedol, Maetheg a Deieteg, yr Awdurdod Lleol, Partneriaeth Gofalwyr, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Sgrinio Coluddion Cymru, a sefydliadau trydydd sector eraill.

Cydabyddiaeth i'r effaith gadarnhaol y mae'r Cynllun Meddygon Teulu i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yn ei chael ar iechyd corfforol a meddyliol.

Ataliwyd dros 1,200 o dderbyniadau diangen i'r ysbyty gan dîm y Ward Rithwir.

Hyfforddiant manylach i staff ar ymwybyddiaeth o awtistiaeth a dementia.

Crynohoir manylion pellach am bob un o'r llwyddiannau hyn ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe isod:

Aeth Cydweithredfa Clwstwr Lleol Afan ati'n ddiweddar i gynnal digwyddiad iechyd a llesiant rhad ac am ddim yng Nghanolfan St Paul ym Mhort Talbot. Nod y digwyddiad oedd ysbrydoli'r gymuned leol i wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw a gwella llythrennedd iechyd. Roedd yn cynnwys stondinau rhyngweithiol gan sefydliadau megis y Gymdeithas MS, Diabetes UK, Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot, a staff y bwrdd iechyd lleol, yn cynnwys gweithwyr cymorth deieteg a'r Gwasanaeth Parasol Gofal Diwedd Oes.

Bu i'r digwyddiad hwyluso ymgysylltu uniongyrchol rhwng y cyhoedd ac amryw o wasanaethau iechyd a chymunedol, gan hybu ymwybyddiaeth o'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yng Nghlwtwr Afan. Mae Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol yn bwriadu cynnal digwyddiadau tebyg yn y dyfodol, gan



ganolbwyntio ar bynciau y nodwyd eu bod yn bwysig gan y mynychwyr. Mae'r fenter hon yn adlewyrchu ymrwymiad y clwstwr i fynd ati mewn modd rhagweithiol i ymgysylltu ag iechyd y gymuned a chynnig cymorth llesiant holistaidd.

Cynhaliodd Cydweithredfa Clwstwr Lleol Afan ei hail ddigwyddiad llesiant yn ddiweddar, a hynny er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael yn y gymuned.

Roedd y digwyddiad rhad ac am ddim hwn, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Adnoddau Cymunedol Aberafan, yn cynnwys amrywiaeth o grwpiau a gwasanaethau iechyd a chymunedol lleol a allai gynnig cyngor a chymorth ynglŷn â gwneud newidiadau iach.


Ymhlith y rheiny a oedd yn bresennol yn y digwyddiad yr oedd Sgrinio Coluddion Cymru, Age Concern, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, a'r Ganolfan Gofalwyr.

Roedd nifer o dimau o'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gallu darparu gwybodaeth a chynghor, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd meddwl pobl hŷn a'r gwasanaeth therapi galwedigaethol.

Roedd Imbiwlans y Bwrdd Iechyd yn bresennol hefyd, gyda'r staff yn gallu addysgu'r cyhoedd am y brechiadau sydd ar gael iddynt.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>





Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Afan

Arweinydd y Clwstwr (dros dro)

Andrew Griffiths
Andrew.Griffiths8@wales.nhs.uk

Tynnwyd sylw at Gynllun y Meddygon Teulu i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yng Nghwm Afan oherwydd ei effaith gadarnhaol ar iechyd meddyliol a chorfforol, fel ei gilydd. Mae'r fenter hon yn caniatáu i feddygon atgyfeirio cleifion ag amryw o gyflyrau iechyd at hyfforddwyr sy'n rhoi cymorth iddynt wella eu hiechyd a'u llesiant. Bu'r cynllun yn allweddol wrth gynorthwyo cleifion â chyflyrau megis problemau cardiaidd, diabetes, gordewdra, poen yn y cymalau neu'r cefn, a heriau o ran iechyd meddwl.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>



Bu i dîm Ward Rithwir Cydweithredfa Clwstwr Lleol Afan chwarae rôl hanfodol wrth atal dros 1,200 o dderbyniadau diangen i'r ysbyty yn y flwyddyn ddiwethaf, fel y cofnodwyd ar 12/01/2024. Mae'r gwasanaeth arloesol hwn yn caniatáu i gleifion eiddil, hyn ac agored i niwed gael gofal lefel ysbyty yng nghysur eu cartrefi. Mae'r tîm amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys meddygon, nyrsys, fferyllwyr a therapyddion, yn rheoli gofal cleifion trwy gyfrwng asesiadau ac ymyriadau rheolaidd.

Mae un llwyddiant nodedig yn ymwneud â Mary Duggan o Bort Talbot, a lwyddodd i osgoi arhosiad hir yn yr ysbyty diolch i Ward Rithwir Cydweithredfa Clwstwr Lleol Afan. Yn dilyn ymweliad brys, cafodd Mary ei hatgyfeirio at y ward rithwir, lle cafodd ofal amserol, wedi'i bersonoli, yn ei chartref. Roedd y dull hwn nid yn unig wedi lleddfu'r pwysau ar yr ysbyty, ond hefyd wedi rhoi ymdeimlad o ddiogelwch a hyder i Mary, gan amlygu effeithiolrwydd modelau gofal iechyd yn y gymuned.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>



Bu i staff gofal sylfaenol a chymunedol ledled Bae Abertawe, gan gynnwys y rheiny o Gydweithredfa Clwstwr Lleol Afan, gymryd rhan mewn profiadau hyfforddi ymdrochol er mwyn deall realiti byw ag awtistiaeth a dementia yn well. Cynhaliwyd yr hyfforddiant gan

Training 2 care, a hynny ar fysiau wedi'u haddasu'n arbennig, ac roedd y sesiynau'n efelychu heriau synhwyrdd a wynebwr gan unigolion â'r cyflyrau hyn, megis golwg wedi'i aflunio, gormodedd o sŵn, a llai o sensitifrwydd cyffyrddol.

Roedd yr hyfforddiant hwn ar awtistiaeth yn cynnwys y cyfranogwyr yn cyflawni tasgau syml wrth iddynt ymdopi â sefyllfa lle roedd eu synhwyrddau'n cael eu gorlwytho, gan amlygu anawsterau prosesu gwybodaeth dan amodau o'r fath.

Bu i'r profiadau hyn feithrin mwy o empathi a dealltwriaeth ymhlith y staff gofal iechyd er mwyn iddynt allu darparu gofal mwy tosturiol, wedi'i deilwra i gleifion ag awtistiaeth a dementia.

Mae'r fenter hon, a ariennir gan wyth Cydweithredfa Clwstwr Lleol Bae Abertawe, yn adlewyrchu ymrwymiad Clwstwr Afan i ddatblygu hyfforddiant staff a gwella gofal cleifion.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Roedd cydweithrediad amlddisgyblaethol cryf wedi gwella'r gwasanaeth a ddarperir, yn enwedig o ran gofal y ward rithwir.

Bu i Ddigiwyddiadau Iechyd a Llesiant Cymunedol ymgysylltu'n llwyddiannus â'r cyhoedd, gan gynyddu llythrennedd iechyd a meithrin rheolaeth ragweithiol ar iechyd.

Mae cydnabyddiaeth o ran atal diabetes yn amlygu effeithiolrwydd ymyriadau targededig, seiliedig ar dystiolaeth.

Roedd hyfforddiant staff ar awtistiaeth a dementia wedi gwella dulliau gofal seiliedig ar yr unigolyn yn sylweddol.

Gallai mynd ati'n gyflymach i addasu arfer gorau o Fodel Iechyd Meddwl Cwmtawe fod wedi cyflymu'r broses o ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl Afan.


Gallai optimeiddio rôl y Clinigydd Cymunedol yn gynt fod wedi ehangu'r gwasanaethau ar gyfer cleifion sy'n gaeth i'w cartrefi mewn modd mwy effeithiol.

Mae'r clinigydd cymunedol yn cael hyfforddiant pellach ar hyn o bryd mewn perthynas â diabetes math 2 trwy Academi Gofal Sylfaenol BIPBA, a fydd yn caniatáu iddo ddarparu cymorth ychwanegol pellach i gleifion â'r cyflwr hwn sy'n gaeth i'w cartrefi.

Beth nesaf?

Wrth edrych i'r dyfodol, nod pob un o'r wyth clwstwr, sy'n cynnwys Clwstwr Aman, yw cryfhau'r trefniadau cynllunio, monitro a rheolaeth ariannol i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

- Ymdrechion Recriwtio:** Mae ymdrechion recriwtio ar waith i benodi Arweinydd Clwstwr ac Arweinydd Deintyddol newydd cyn gynted â phosibl. Bydd penodi Arweinydd Clwstwr newydd yn darparu cysondeb o ran cyfeiriad strategol ac yn cryfhau arweinyddiaeth Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol.
- Datblygu'r Model Iechyd Meddwl Newydd:** Bydd Clwstwr Afan yn parhau i ddatblygu ei Fodel Iechyd Meddwl trwy adolygu Model Iechyd Meddwl arobryn Cwmtawe. Bydd elfennau allweddol yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion unigryw poblogaeth Afan, gyda ffocws ar gydgynghyrchu â chyd-weithwyr yn yr Awdurdod Lleol a phartneriaid Trydydd Sector.
- Gwasanaeth Seicoleg Gymunedol newydd y Clwstwr:** Nodwyd hyn yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr ar gyfer 2024-25 a 2025-26. Afan yw un o'r pedwar clwstwr cyntaf i gyflwyno'r model seicoleg gymunedol newydd, sy'n cynnwys mapio'r gwasanaethau iechyd meddwl presennol, nodi anghenion, a chefnogi modelau gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi £300,000 yn y rhaglen waith hon wrth recriwtio'r olaf o bedwar Seicolegydd Cymunedol i rôl Afan, gan gwblhau cam presennol y broses weithredu.
- Cryfhau Gofal Integredig:** Gan adeiladu ar llwyddiant y Ward Rithwir, nod Clwstwr Afan yw ehangu llwybrau gofal integredig, gwella cymorth yn y gymuned, a lleihau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi.
- Gwell Cymorth i Ofalwyr Di-dâl:** Bydd ymdrechion parhaus yn canolbwyntio ar adnabod gofalwyr di-dâl yn gynnar, gwella mynediad at adnoddau, a chynnwys mentrau i gefnogi gofalwyr yng ngwasanaethau'r clwstwr.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Iechyd y Bae

Arweinydd y Clwstwr

Dr Nicola Jones
Nicola.Jones13@wales.nhs.uk

Iechyd y Bae



Pwy ydym ni?

Mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol Iechyd y Bae yn dwyn ynghyd Arweinwyr Cydweithredfeydd Iechyd Proffesiynol sy'n arbenigwyr ar y boblogaeth leol yn eu meysydd dynodedig. Mae hyn yn cynnwys Meddygon Teulu, Deintyddion, Fferyllwyr Cymunedol, Optegwyr, Nyrsys Cymunedol, y Proffesiynau Perthynol i Iechyd, y Trydydd Sector, Iechyd Meddwl, Rheoli Meddyginiaethau a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA). Mae'r aelodau arweiniol yn cydweithio i gydrannu adnoddau a rhannu arfer da mewn ymgais i helpu aelodau'r gymuned i gadw'n ffit ac yn iach. Lle bo hynny'n bosibl, bydd Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol yn anelu at gyflawni hyn yng nghalon y gymuned, gan leihau amser teithio i ysbytai neu glinigau canolog.

Mae Clwstwr Iechyd y Bae yn gwasanaethu poblogaeth o tua 75,587 o gleifion cofrestredig. Mae ganddo 8 Practisau Meddygon Teulu, 16 o Fferyllfeydd, 14 o Bractisau Deintyddol, 4 Optegydd ac amrywiaeth o wasanaethau cymunedol, sy'n cynnwys nyrsio a therapïau, sy'n cysylltu â'n cartrefi nyrsio, ein hysgolion, ein llyfrgelloedd a'n prifysgolion. Mae'r Clwstwr yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr i'r gorllewin o Sir Abertawe, sy'n cynnwys nifer o ardaloedd gwledig, ond mae hefyd yn cwmpasu lleoliadau trefol megis y Mwmbwls, Cilâ a Sgeti.

Mae ein clwstwr yn cyflogi fferyllwyr clwstwr a nyrsys Cyflyrau Cronig arbenigol yn rhan o dîm gofal iechyd amlddisgyblaethol.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae strategaeth a chynllun gwaith Cydweithredfa Clwstwr Lleol Iechyd y Bae yn cael eu llywio gan y Cynllun Tymor Canolog Integredig sy'n seiliedig ar anghenion iechyd poblogaeth y Clwstwr. Mae'r Cynllun yn galluogi'r arweinwyr i gefnogi a theilwra ymyriadau i gymunedau neu grwpiau poblogaeth penodol a gwella ansawdd y gofal a'r canlyniadau.

Mae blaenoriaethau Cydweithredfa Clwstwr Lleol Iechyd y Bae fel a ganlyn:

- Iechyd Meddwl a Llesiant ein poblogaeth
- Y Boblogaeth Hŷn a mwy Eiddil
- Cadw Cleifion yn Iach Gartref

Mae yna ddau Fferylllydd Clwstwr a dwy Nyrs Cyflyrau Cronig sy'n gweithio ledled pob un o'r wyth practis meddygon teulu yng Nghlwlstwr Iechyd y Bae.

Mae Fferyllwyr y Clwstwr yn ymdrechu i helpu pobl i reoli eu trefniadau cymhleth ar gyfer cymryd meddyginiaethau a gofalu eu bod yn eu cymryd mewn modd diogel, a hynny i sicrhau bod y rheiny sydd â chlefydau cronig yn cadw'n sefydlog ac yn iach gartref.

Mae rôl Nyrsys Cyflyrau Cronig y Clwstwr yn cynnwys cynnal adolygiadau rheolaidd o bobl â chlefydau cronig, megis clefyd rhwystron cronig yr ysgyfaint (COPD), asthma, diabetes a methiant y galon, a hynny gyda'r nod o atal derbyniadau i'r ysbyty ac oedi cyn cael triniaeth. Mae Nyrsys Cyflyrau Cronig Clwstwr Iechyd y Bae wedi cwblhau'r Modiwl Goruchwyliaeth Glinigol yn llwyddiannus ac yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu goruchwyliaeth glinigol yn y gweithle.



At hynny, y Nyrsys Cyflyrau Cronig yw hyrwyddwr Rheoli Risgiau Trawma y Clwstwr, gan gynnig cymorth arbenigol i'r staff yn dilyn digwyddiad trawmatig yn y gweithle.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>

Yn 2024, penodwyd seicolegydd cymunedol newydd yn rhan o brosiect a ariennir gan y Bwrdd Iechyd i gyflwyno model seicoleg gymunedol mewn pedwar clwstwr. Y nod yw helpu i gryfhau cydnerthedd o ran iechyd meddwl a llesiant yn y gymuned. Cyflwynwyd y model newydd o seicoleg gymunedol i helpu i ddarparu ymyriad cynnar, a hynny er mwyn gwella cydnerthedd cymunedol gyda'r nod o atal yr angen i bobl gyrchu cymorth clinigol. Mae'r model hwn yn llunio darlun manwl o anghenion poblogaeth ac yn cefnogi'r broses o nodi a datblygu ymyriadau seicolegol i wella iechyd emosiynol a llesiant mewn partneriaeth â'r gymuned.

Mae'r meysydd blaenoriaeth cynnar yn cynnwys gweithio gydag ysgolion lleol i gynnig ymgynghoriadau a goruchwyliaeth i ehangu sgiliau a thechnegau'r staff o ran rheoli sefyllfaoedd, cynorthwyo i lansio llawlyfr amenedigol i gefnogi mamau newydd, a gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i gynnal llesiant ein poblogaeth o fyfyrwyr.

Gall y seicolegydd cymunedol ddarparu cyngor a chymorth i weithwyr cymunedol eraill a gall yn ôl eithriad gynorthwyo ag achosion cymhleth iawn.

Mae Arweinwyr Iechyd y Bae wedi chwarae rhan weithredol wrth gefnogi'r Prosiect Ffisiotherapi Diwedd Oes. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaeth Ffisiotherapi ymatebol i gleifion Diwedd Oes yng Nghlwlstwr Iechyd y Bae. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys rheoli symptomau, lleoli, rheoli symptomau anadlol, adsefydlu, cyflawni nodau diwedd oes, a chymorth ymarferol i ofalwyr.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion ag anghenion ffisiotherapi gofal lliniarol arbenigol yn cael eu gweld mewn modd amserol, gan ganolbwyntio ar osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, lleihau hyd arosiadau yn yr ysbyty, a chefnogi cleifion i aros gartref yn wythnosau olaf eu bywyd.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol Iechyd y Bae wedi cefnogi'r gwasanaeth Poen Barhaus i dreialu ei newid i fodel y gwasanaeth, a fu'n llwyddiannus iawn. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl i reoli eu poen hirdymor mewn modd holistaidd, ac wedi llwyddo i leihau'r amseroedd aros yn sylweddol trwy gynnig model gwahanol o reoli poen sy'n cwmpasu therapïau corfforol, meddyliol a seicolegol. O ran hunanreoli, bu yna ostyngiad yn yr amseroedd aros ôl-COVID o 70 wythnos i 10 wythnos, ac ar gyfer pigladau o 48 wythnos i 12 wythnos.


DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>



Bu i Glwstwr Iechyd y Bae gefnogi trawsnewidiad mawr yng ngwasanaethau Awdioleg Gofal Sylfaenol Bae Abertawe ar gyfer cleifion â phroblemau clyw, tinitws, neu gwyr problematig. Bellach, gall y cleifion hyn ffonio system brysennu dros y ffôn eu meddygfa a threfnu'n uniongyrchol i weld un o'r timau Awdioleg Gofal Sylfaenol mewn clinigau dynodedig. Mae'n disodli'r system flaenorol a oedd yn cynnwys apwyntiad i weld meddyg teulu neu nyrs practis yn y feddygfa, a fyddai wedyn yn atgyfeirio'r claf at y tîm awdioleg. Mae'r dull hwn wedi bod yn un cyflymach, mwy effeithlon, sydd hefyd yn rhyddhau amser meddygon i weld cleifion eraill. Mewn un chwarter yn unig (Hydref-Rhagfyr 2024), cyflawnodd y gwasanaeth 627 o apwyntiadau.



DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>



Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Iechyd y Bae

Arweinydd y Clwstwr

Dr Nicola Jones
Nicola.Jones13@wales.nhs.uk

Cafodd Clwstwr Iechyd y Bae hyfforddiant ar IRISi, sef rhaglen hyfforddiant, cymorth ac atgyfeirio arbenigol ar drais a chamdriniaeth ddomestig ar gyfer Practisau Cyffredinol. Cafodd y rhaglen werthusiad cadarnhaol mewn hapdreial rheoledig. Erbyn hyn, mae gan bob practis meddygon teulu yn y Clwstwr o leiaf un aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant IRIS llawn, sy'n golygu bod yna fynediad at lwybr atgyfeirio uwch i wasanaethau trais domestig arbenigol ar gyfer cleifion sydd â phrofiad o drais a chamdriniaeth ddomestig. Mae IRIS yn gwella ymateb practisau cyffredinol i drais a chamdriniaeth ddomestig ac, yn hanfodol, yn gwella diogelwch, ansawdd bywyd a llesiant y rheiny sydd wedi goroesi trais a chamdriniaeth ddomestig.

Mae Clwstwr Iechyd y Bae wedi creu Model Llesiant sydd â'r nod o fodloni ystod o flaenoriaethau ym mhoblogaeth y Clwstwr. Mae'r model yn cynnwys Sefydliad Jac Lewis, sy'n darparu gwasanaeth cwnsela un i un hygyrch ar gyfer plant a phobl ifanc, yn ogystal â nifer o weithdai llesiant ar gyfer grwpiau, a hefyd Canolfan Llesiant Abertawe, sy'n darparu ystod amrywiol o weithdai ymyriadau lefel isel, megis 'Darganfod eich cydnerthedd cynhenid', grwpiau Profedigaeth, a Llesiant Synhwyraidd.

Cefnogir y model ymhellach gan rôl Presgripsiynydd Cymdeithasol Cydlynol, sy'n darparu cysylltiad rhwng y meddyg teulu, y claf, prosiectau cymunedol a sefydliadau trydydd sector. Mae presgripsiynu cymdeithasol yn ategu at y gwasanaeth meddygon teulu o ran mabwysiadu agwedd holistaidd at iechyd a llesiant y claf trwy gefnogi pobl i ail-ymgysylltu â'u cymuned.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

I ddatblygu Clwstwr Iechyd y Bae ymhellach ac addasu i'r newid cyson yng ngofynion iechyd poblogaeth y gymuned, mae'n bwysig deall a dadansoddi effaith seiliedig ar dystiolaeth y gwasanaethau a gomisiynir.

Yn y flwyddyn i ddod, bydd Clwstwr Iechyd y Bae yn mynd ati i weithio gyda'r tîm aml-ddisgyblaethol a gyflogir gan y Clwstwr i gipio a mapio'r sgiliau a'r ystod o wasanaethau a gynigir gan y tîm a'r modd y mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar Ofal Sylfaenol a'r system ehangach.

Byddwn yn ceisio dadansoddi'r model Llesiant i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r galw a'r capasiti yn y gymuned. Mae'r model wedi esblygu a threialu amrywiaeth o wasanaethau darparu iechyd meddwl gwahanol, gan amlygu y gallai ymyriadau lefel isel a gweithdai grŵp fod wedi bod yn opsiwn cynaliadwy mwy effeithiol na chwnsela un i un. Felly, wrth symud ymlaen, bydd mwy o ffocws yn cael ei roi ar ddull addasedig wedi'i deilwra.


Beth nesaf?

Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig Clwstwr Iechyd y Bae ar gyfer 2025-26 yn amlygu'r meysydd ychwanegol yr ydym yn canolbwyntio arnynt, gan gynnwys ffocws ar y bobl hynny sy'n cyrraedd diwedd eu hoes. Rydym yn parhau i gefnogi prosiect ffisiotherapi arloesol a all helpu pobl ar ddiwedd eu hoes i anadlu'n fwy cyfforddus a chyflawni nodau pwysig megis mynd allan i'r ardd neu'r parc am y tro olaf. Mae Ward Rithwir y Bae yn dal i weithio'n galed i helpu ein cleifion oedrannus i aros yn eu cartrefi eu hunain, ac mae fferyllwyr ein clwstwr yn cynnal adolygiadau manwl o feddyginiaethau ein cleifion sydd mewn cartrefi gofal i sicrhau eu bod yn cymryd y feddyginiaeth iawn.

Mae ein Nyrsys Cyflyrau Cronig yn mynd ati'n barhaus i ddatblygu eu sgiliau trwy ddefnyddio'r holl adnoddau addysgol sydd ar gael iddynt, ac yn gweithio ochr yn ochr â nyrsys arbenigol eraill ar y Ward Rithwir. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar lesiant ein poblogaeth o bob oed, yn cynnwys ein poblogaeth fawr o fyfyrwyr a, gyda help ein seicolegydd cymunedol, byddwn yn anelu at weithio'n agosach fyth gyda'r gwasanaeth llesiant myfyrwyr. Rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn newydd iachach a hapusach ar gyfer poblogaeth gyfan y clwstwr.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn canolbwyntio ar wella gofal cleifion a chryfhau ymdrechion cydweithredol ledled y system ofal. Byddwn yn parhau i esblygu'r model llesiant, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addasadwy ac yn gynhwysfawr, gan weithio'n agos gyda'r Presgripsiynydd Cymdeithasol i gyflawni hyn. Bydd ein Seicolegydd Cymunedol yn gweithio'n agos gyda'r tîm i nodi anghenion penodol cleifion, gan ddarparu gofal wedi'i deilwra.

Bydd optimeiddio meddyginiaethau yn parhau i fod yn ffocws allweddol, yn enwedig ar gyfer cleifion â salwch cronig, a hynny er mwyn gwella eu canlyniadau iechyd cyffredinol. At hynny, byddwn yn parhau i ddarparu adolygiadau holistaidd ar gyfer cleifion â chyflyrau cronig sy'n gaeth i'w cartref, gan sicrhau eu bod yn cael y sbectrwm llawn o ofal y mae arnynt ei angen. Bydd cryfhau perthnasoedd â phartneriaid ledled y Clwstwr hefyd yn flaenoriaeth, a hynny am fod y cydweithredu hwn yn hanfodol ar gyfer darparu datrysiadau gofal iechyd integredig ac effeithiol.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Iechyd y Ddinas

Arweinydd y Clwstwr

Rhys Jenkins
Rhys.Jenkins@wales.nhs.uk

Iechyd y Ddinas



CLWSTWR IECHYD Y DDINAS
CITY HEALTH CLUSTER

Pwy ydym ni?

Mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol Iechyd y Ddinas yn dwyn ynghyd yr holl Gontractwyr Gofal Sylfaenol, Nyrsio Cymunedol, y Proffesiynau Perthynol i Iechyd a'r Trydydd Sector gyda'r nod o wella iechyd a llesiant y bobl sy'n byw yn ei hardal. Nod y Clwstwr yw cyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer unigolion a chymunedau trwy ffocysu ar atal, ymyriad cynnar, a darparu gofal wedi'i bersonoli sy'n gydlynol ac o ansawdd uchel.

Mae Clwstwr Iechyd y Ddinas yn seiliedig ar nifer o Gydweithredfeydd Proffesiynol yn cydweithio i asesu a nodi anghenion y boblogaeth o breswylwyr. Mae Cydweithredfeydd Proffesiynol yn cynnwys Deintyddiaeth, Optometreg, Fferyllfeydd Cymunedol, Practisau Cyffredinol, y Proffesiynau Perthynol i Iechyd a'r Gwyddorau Iechyd, Nyrsion y Trydydd Sector, Rheoli Meddyginiaethau, Iechyd Meddwl, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA). Mae Arweinydd enwebedig o bob un o'r Cydweithredfeydd yn ffurfio aelodaeth graidd Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol mewn swyddogaeth oruchwylio.

Mae Clwstwr Iechyd y Ddinas wedi datblygu Tim Amlddisgyblaethol effeithiol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth clinigol a rheolaethol. Mae'r tim amlddisgyblaethol yn cynnwys Fferylllydd Clinigol, Parafeddyg, a Rheolwr Gweithredu Datblygiad Busnes y Clwstwr.

Mae Clwstwr Iechyd y Ddinas yn gwasanaethu poblogaeth o tua 55,509 o gleifion cofrestredig yn ardaloedd trefol de-ddwyrain a chanol Dinas Abertawe, ac mae'n cynnwys 8 Practis Meddygon Teulu, 14 o Fferyllfeydd, 6 Optegydd a 4 Practis Deintyddol. Mae yna hefyd nifer o gartrefi nyrsio ac ysgolion yn ardal y Clwstwr.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae strategaeth weithredol a chynllun gwaith cysylltiedig y Clwstwr yn parhau i gael eu llywio gan ei Gynllun Tymor Canolig Integredig, sy'n cael ei lunio'n flynyddol ac yn cynnwys mewnbwn gan bob Cydweithredfa Broffesiynol. Yn rhan o'r broses gynllunio, anogir pob Cydweithredfa i ddyfeisio cynigion sy'n helpu i gyflawni'r amcanion a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ymhellach gysylltiadau a pherthnasoedd gweithio adeiladol â grwpiau cymunedol, y trydydd sector ac ysgolion lleol. Ar hyn o bryd, mae'r Clwstwr yn ariannu prosiect sy'n darparu gweithdai mewn ysgolion lleol i wella sgiliau coginio. Mae'r cwrs yn rhoi sgiliau ymarferol i blant a'u teuluoedd, ac yn ceisio addysgu'r cyfranogwyr ynghylch manteision mabwysiadu ffyrdd iach o fyw.

Mae'r Clwstwr wedi gweithio'n agos gyda Sefydliad yr Elyrch i helpu i hyrwyddo a chyflawni dwy raglen 'Fit Jacks' ar gyfer 120 o gleifion cymwys. Mae'r fenter gadarnhaol hon ar ffurf rhaglen iechyd a llesiant rad ac am ddim, 12 wythnos o hyd sy'n cyfuno gwybodaeth am ddewisiadau iach o ran ffordd o fyw â sesiynau ffitrwydd wythnosol dan oruchwyliaeth.



Beth yw'r prif gyflawniadau?

Mae cyflawniadau allweddol y Clwstwr yn ystod y 12 mis diwethaf yn cynnwys:

Diagnosteg Fasgwlaidd – Darparu gwasanaeth asesu a diagnosis fasgwlaidd holistaidd ledled y Clwstwr, dan arweiniad Podiatreg, a hynny wedi'i anelu at atal clefyd cardiofasgwlaidd ac sy'n gyson â'r Llwybr Gofal Risg i'r Coesau a'r Breichiau. Dechreuodd y prosiect peilot yn ddiweddar, ac mae ganddo'r gallu i dderbyn 600 o atgyfeiriadau.

Prosiect Meddyginiaeth Ffordd o Fyw – Cynnig i dreialu ymgynghoriadau addysg a ffordd o fyw ledled pob Practis Meddygon Teulu yn y Clwstwr ar gyfer pobl sydd wedi cael diagnosis o glefyd brasterog yr afu nad yw'n ymwneud ag alcohol. Hyd yma, cyflawnwyd saith clinig un i un, ac mae 14 yn rhagor wedi'u cynllunio, gan graau capasiti ar gyfer adolygu 105 o gleifion. Bydd y prosiect peilot yn cynnal naw sesiwn addysg (8 ym mhRACTISAU'r clwstwr ac 1 ar gyfer addysg clinigwyr).

Profion Pwynt Gofal (POCT) – Profi am ddiabetes ymhlith grwpiau ethnig leiafrifol anodd eu cyrraedd. Mae'r prosiect yn cynnwys staff o Bractis Meddygon Teulu yn ymweld â Mosgiau Lleol i sgrinio iechyd unigolion a allai fod â diabetes heb ei ddiagnosis; bydd cyfanswm o 200 o gleifion yn cael eu sgrinio mewn pedwar clinig ar wahân.

Hyd yma, mae'r ddau glinig cyntaf wedi cael eu cynnal – roedd 100 o bobl yn bresennol, a chafodd tri ddiagnosis o Ddiabetes Math 2, a nodwyd bod 13 yn gyn-ddiabetig. Mae'r prosiect peilot POCT wedi bod yn gam mawr ymlaen tuag at wella mynediad teg at ofal iechyd ledled ardal Clwstwr Iechyd y Ddinas.

Hunanladdiad/Hunan-niweidio – Prosiect peilot i ddarparu gwasanaeth dan arweiniad nyrsys i fynd ar drywydd cleifion y Clwstwr yn dilyn digwyddiadau hunan-niweidio bwriadol ac ymgeisiau i gyflawni hunanladdiad. Roedd y prosiect hwn yn ffurfio rhan o waith parhaus y Clwstwr gyda chleifion ag Anghenion Llusoog sy'n Gorgyffwrdd ac Nas Diwallwyd (MOUN).

Mae rôl y trydydd sector o ran helpu i hwyluso a chyflawni mentrau a ariennir gan y Clwstwr yn parhau i ddatblygu yn rhan o'r rhaglen waith barhaus. Defnyddiwyd Cynllun Grant y Trydydd Sector yn llwyddiannus i gyflwyno Gwasanaeth Cwnsela Iechyd Meddwl a Llesiant sy'n cael ei redeg gan Sefydliad Jac Lewis.

Mae'r gwasanaeth yn darparu mynediad rhwydd a chyflym at wasanaethau cwnsela a llesiant a anelir at wella iechyd meddwl a llesiant cleifion dros 18 oed.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?


Gellir ystyried bod y deuddeg mis diwethaf wedi bod yn gadarnhaol iawn i'r Clwstwr, yn arbennig o ran datblygu cysylltiadau â grwpiau sy'n draddodiadol yn anodd eu cyrraedd, a hwyluso prosiectau sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant y boblogaeth. Mae amgylchedd gweithredu y Clwstwr yn parhau i fod yn heriol wrth i'r galw a'r pwysau ar y gwasanaethau a'r adnoddau barhau i gynyddu.

Mae'n debygol bod pwysau o ran llwyth gwaith wedi bod yn ffactor cyfrannol wrth recriwtio arweinwyr ar gyfer rhai Cydweithredfeydd Proffesiynol, ac mae hyn, i ryw raddau, wedi llesteirio'r broses ymgysylltu. Mae pob un o brosiectau'r Clwstwr wedi cael ei dargedu at anghenion a nodwyd; y camau nesaf yw sicrhau bod cerrig milltir clir bob amser yn cael eu pennu ar y cychwyn ar gyfer pob cam o'r prosiect er mwyn galluogi cyflymder dysgu a chyflawni cyflymach.

Beth nesaf?

Mae 2025-26 yn argoeli i fod yn flwyddyn heriol arall. Bwriad Cydweithredfa Clwstwr Lleol Iechyd y Ddinas yw datblygu dulliau o wella ymgysylltiad â chleifion a chynnal dadansoddiad o'r gweithlu ar gyfer staff amlddisgyblaethol y Clwstwr. Byddwn hefyd yn mynd ati'n bendant iawn i gryfhau cysylltiadau ag asiantaethau partner ymhellach, a hynny mewn perthynas ag amrywiaeth o fentrau a anelir at wella iechyd a llesiant poblogaeth y Clwstwr.

Y cyfrwng a fydd yn sail i'r newid fydd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Clwstwr, ynghyd ag ymgysylltiad parhaus Cydweithredfeydd Proffesiynol ac asiantaethau partner. Bydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn parhau i fod yn gyson ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd ac, ar gyfer 2025-26, bydd yn cynnwys nifer cynyddol o amcanion, yn cynnwys trefniadau parhaus i gysoni â'r Cynllun Traws-glwstwr.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Cwmtawe

Arweinydd y Clwstwr

Mike Garner
Mike.Garner@wales.nhs.uk

Cwmtawe



Pwy ydym ni?

Mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol Cwmtawe wedi'i ffurfio o amrywiaeth o bartneriaid, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Fferyllfeydd Cymunedol, Optometryddion, Deintyddion Cymunedol, y Proffesiynau Perthynol i Iechyd a'r Gwyddorau Iechyd, Nyrsio Cymunedol, Rheoli Meddyginiaethau, y Trydydd Sector, Iechyd Meddwl, a'r Bwrdd Iechyd.

Rydym yn cynnwys 3 phractis meddygol cyffredinol, 8 practis deintyddol, 10 fferyllfa, 4 optegydd, ac amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol yr ydym yn gweithio'n agos gyda nhw; llyfrgelloedd, y sector gwirfoddol, y gwasanaethau cymdeithasol a thlodi ac atal, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ehangach.

Caiff y Clwstwr ei gefnogi gan Reolwr Datblygu Comisiynu y Clwstwr sy'n goruchwyllo Hwb Iechyd Meddwl Cwmtawe a staff y clwstwr, sef chwe unigolyn.

- Ymarferwyr Llesiant 2 x 0.5wte
- Gwasanaeth Anghenion Cymhleth
- Gwaedwyr 2 x 0.5wte
- Rheolwr Datblygu a Gweithredu Busnes

Mae'r rolau hyn yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac wedi chwarae rhan sylfaenol wrth symud agenda'r clwstwr yn ei blaen.

Mae Clwstwr Cwmtawe yn gwasanaethu poblogaeth o tua 43,149 o gleifion cofrestredig sy'n byw mewn ardaloedd lled-drefol.

Ar beth yr ydym yn gweithio?


Prif flaenoriaethau strategol:

- Iechyd Meddwl – darparu model clwstwr o wasanaethau cymorth iechyd meddwl a llesiant emosiynol gofal sylfaenol sy'n cefnogi'r nodau y manylir arnynt yn 'Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl'.
- Datblygu dull system gyfan o ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol ochr yn ochr â chartrefi preswyl a nyrsio yng Nghlwlstwr Cwmtawe, yn ogystal ag yn y cartrefi hynny. Nodwyd bod hyn yn angen gan weithwyr proffesiynol a chan y cartrefi gofal, ac mae'n adlewyrchu nodau ataliol y Gweinidog sy'n rhan o'r 10 Egwyddor Dylunio ar gyfer Cymru Iachach.

Astudiaeth achos/enghraifft o waith:

Roedd y Clwstwr am ddatblygu model iechyd meddwl gofal sylfaenol lefel y gymuned mewn ymateb i broblemau y tynnwyd sylw atynt gan weithwyr proffesiynol a chleifion, fel ei gilydd. Gan ffocysu ar ymyriad cynnar ac atal problemau iechyd meddwl ac emosiynol rydym yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ar draws ffiniau sefydliadol.

Mae'r model yn darparu model hwb arloesol o gymorth iechyd meddwl a llesiant emosiynol gofal sylfaenol, gan ddarparu cymorth cofleidiol a sicrhau



bod cleifion yn gweld yr unigolyn iawn ar yr adeg iawn yn y man iawn. Mae'r model wedi dangos gostyngiad o 60% yn nifer yr apwyntiadau perthynol gyda meddygon teulu o fewn tair blynedd, ymhlith y cleifion sy'n defnyddio'r Hwb.

Gwasanaethau'r Clwstwr:	Gwasanaethau Eraill:	Cynnig Llesiant Cymunedol Cwmtawe:	Swyddogaethau sy'n Cefnogi'r Model:
Gwasanaeth Anghenion Cymhleth	Canolfan Gofalwyr Abertawe	One Heart Drummers	Cymorth Diogelu Cymheiriaid
Gwasanaeth Cwnsela Pob Oed	Cydgysylltydd Ardal Lleol	SoFit	Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru – Tim Amlddisgyblaethol Defnyddwyr Mynych y Gwasanaeth
Ymarferwyr Llesiant y Clwstwr	Cymorth IRIS ar gyfer Trais Domestig	Happy Headwork	
Ward Rithwir Iechyd Meddwl	Prosiect Hunangymorth i Blant a Phobl Ifanc a gefnogir gan MIND	Cymorth blaenorol ar gyfer Siediau Dynion, Gardd Gymunedol	
Seicolegydd y Clwstwr (swydd newydd)	LPMHSS: Asesydd	Caffi Dementia Teimlo'n Dda	
Presgripsiynu Cymdeithasol			

Gan adeiladu ar Therapiau Seicolegol a'r gwasanaeth Presgripsiynu Cymdeithasol, aethom ati i gyflwyno rolau newydd ac arloesol: Cymorth Anghenion Cymhleth ac Ymarferwyr Llesiant. Elfen allweddol o'r model yw ein Ward Rithwir ar gyfer Iechyd Meddwl, sy'n sicrhau parhad gofal ar gyfer cleifion mwy cymhleth. Mae'r hwb hefyd yn cynnwys grŵp cymorth gan gyfoedion ar gyfer Diogelu, ac mae wedi cymryd rhan mewn Cyfarfodydd ynghylch Ymwelwyr Mynych â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys i fynd i'r afael â'r problemau sylfaenol sy'n ymwneud ag unigolion sy'n ymweld â'r adran dro ar ôl tro.

Mae cyd-weithwyr sy'n gweithio yn Hwb Llesiant/Iechyd Meddwl Clwstwr Cwmtawe yn gwneud atgyfeiriadau rheolaidd at gyrsiau a arweinir gan y gymuned. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen darparu cymorth llesiant lleol, rhad ac am ddim



gan gyd-weithwyr sy'n gweithio yn yr Hwb iechyd meddwl/llesiant, lle gellid atgyfeirio cleifion ato'n lleol.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>




Mae ein Seicolegydd Cymunedol wedi cynnal dadansoddiad dwfn i ddeall anghenion lleol, ac mae'n helpu i fireinio a datblygu ein model ymhellach, gan nodi angen i gynyddu cymorth ar gyfer perthnasoedd rhwng rhieni a phlant, ac unigrwydd ymhlith pobl hŷn oherwydd diffyg trafnidiaeth. Bydd y bylchau hyn a nodwyd yn flaenoriaethau i'r Cynnig Llesiant a ariennir gan y Clwstwr yn y flwyddyn i ddod, ac maent yn adlewyrchu'r anghenion a nodir yn Asesiad o Anghenion Ardal Gorllewin Morgannwg 2022-27.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>

Mewn meysydd gwaith eraill, mae'r Clwstwr wedi cydgynhyrchu adroddiad ar reoli pwysau a ffordd o fyw, ac mae'n bwriadu rhoi gwasanaeth ffordd o fyw ar waith pan fydd cyllid ar gael. Mae'r Clwstwr wedi gweithio'n agos gyda Sefydliad yr Elyrch i helpu i hyrwyddo a chyflawni dwy raglen 'Fit Jacks' ar gyfer 120 o gleifion cymwys. Mae'r fenter gadarnhaol hon ar ffurf rhaglen iechyd a llesiant rad ac am ddim, 12 wythnos o hyd sy'n cyfuno gwybodaeth am ddewisiadau iach o ran ffordd o fyw â sesiynau ffitrwydd wythnosol dan oruchwyliaeth.

Mae'r amgylchedd yn faes sydd o ddiddordeb cynyddol i'r Clwstwr, ac mae wedi prynu nifer o unedau batri ailwefradwy yn ddiweddar i'w defnyddio yn y practisau meddygon teulu. Rydym yn edrych ymlaen at weld hyd a lled yr arbedion ariannol ac amgylcheddol, fel ei gilydd, a ddaw yn sgil hyn.

Mae'r Clwstwr hefyd yn darparu cymorth yn y gymuned ar gyfer cleifion sy'n chwilio am help a chynghor ar faterion yn ymwneud â ffrwythlondeb. Lleihau rhestrau aros ym maes gofal eilaidd a chynnig cynghor wedi'i deilwra ar ffordd o fyw i gefnogi anghenion.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Cwmtawe

Arweinydd y Clwstwr

Mike Garner
Mike.Garner@wales.nhs.uk

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Enillydd tair gwobr GIG Cymru

- 2023 Gofal seiliedig ar yr unigolyn – Gweithiwr Anghenion Cymhleth
- 2024 Dull System Gyfan – Hwb Iechyd Meddwl
- 2024 Cyfraniad Eithriadol at Wella Gofal Iechyd – Hwb Iechyd Meddwl

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>



Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Mae'r Clwstwr wedi datblygu'r hwb iechyd meddwl dros nifer o flynyddoedd, gan fireinio ei weithrediad wrth i ni fynd ymlaen, ac er i ni wynebu heriau, yr hyn sydd wedi gwneud i'r model iechyd meddwl weithio cystal yw'r ffocws cyson ar anghenion y claf a sicrhau ei fod yn cael y cymorth gofynnol a'r profiad gorau posibl. Gan fod yr Hwb Iechyd Meddwl wedi bod yn brif ffocws ar gyfer datblygiad y Clwstwr, mae'r dysgu wedi bod yn helaeth ac felly dyma'r ffocws ar gyfer yr adran hon.

Beth a aeth yn dda?

Cafodd anghenion unigol y cleifion eu hadnabod a'u cefnogi'n effeithiol ac yna'u diwallu mewn modd holistaidd.

Mae angen i atgyfeiriadau a threfniadau rhannu data ar draws sefydliadau gael eu symleiddio/eu rhoi ar lwybr carlam i arbed oedi wrth gyrchu gwasanaethau.

Mae system gadarn yn hanfodol ar gyfer gwella arferion diogelu.

Mae gweithio mewn modd di-dor ar draws ffiniau sefydliadol yn sicrhau nad yw cleifion yn disgyn trwy'r bylchau.

Bu'r adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn eithriadol ... 'wedi newid fy mywyd' ... 'Amhrisiadwy' ... mae wedi 'fy achub'.

Gellir cyflawni arbedion ariannol sylweddol trwy gyflawni'r model – yn arbennig o ran y Gweithiwr Anghenion Cymhleth.

Mae dull 'stepen drws' amlasiantaethol wedi arwain at wella mynediad at y cymorth iawn mewn modd amserol – gan leihau nifer yr apwyntiadau gyda meddygon teulu.

Gwerth ychwanegol – Trwy fod â hwb iechyd meddwl yn y Clwstwr, mae wedi denu nifer o wasanaethau eraill sy'n dymuno cael eu lleoli ynddo, er enghraifft mae gan Ganolfan Gofalwyr Abertawe bresenoldeb parhaol yn yr Hwb Iechyd Meddwl a Llesiant bob wythnos. Mae hefyd yn cyfrannu at y Ward Rithwir ar gyfer Iechyd Meddwl.

Gwella diagnosis cynnar o gyflyrau trwy gynyddu mynediad at y gwasanaethau fflebotomi gan helpu i leihau gofal heb ei gynllunio trwy gyflogi gwaedwyr y Clwstwr. Maent wedi gweld dros 12,000 o gleifion yn ystod y 12 mis diwethaf, gydag amseroedd aros o ddim mwy na phythefnos.

Beth y gellid ei wneud yn wahanol?


Ymgorfforodd tîm y Prosiect ddull Cynllunio, Gwneud, Astudio, Gweithredu (PDSA) o gyflawni holl agweddau gwahanol y model Iechyd Meddwl, felly cafodd unrhyw beth yr oedd angen ei wneud yn wahanol o safbwynt gweithredu ei gywiro ar y pryd.

Byddai trefniadau cydgynhyrchu ychwanegol yn gynharach yn y broses i nodi meysydd cymorth penodol gan y trydydd sector wedi helpu i ddarparu dull â mwy o ffocws o gomisiynu gwasanaethau cymorth ychwanegol.

Beth nesaf?

Mae Clwstwr Cwmtawe'n defnyddio cylch cynllunio tair blynedd fel mater o drefn, ac mae ar wahanol gamau o ran y blaenoriaethau a restrir isod:

- Datblygu pecyn cymorth i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r Hwb Iechyd Meddwl ac uwchraddio ledled y clystyrau eraill yn BIPBA.
- Cartrefi Gofal – Datblygu cynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd gan y cleifion, eu teuluoedd, darparwyr cartrefi gofal, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw, a'i roi ar waith i wella'r gofal a'r gwasanaethau a geir yng Nghlwtwr Cwmtawe.
- Archwilio'r effaith y mae darparu hyfforddiant ar fethiant y galon mewn cartrefi gofal yn ei chael ar apwyntiadau gofal sylfaenol a derbyniadau gofal eilaidd.
- Nodi cyfleoedd cyllido i gydgyhyrchu a chefnogi dull ledled Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol cyfan o fynd i'r afael â bwyta'n iach a rheoli pwysau, gan ddefnyddio technegau meddyginiaeth ffordd o fyw.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Llwchwr

Arweinydd y Clwstwr (dros dro)

Dr Sowndarya Shivaraj
Sowndarya.Shivaraj@wales.nhs.uk

Llwchwr



CLWSTWR LLŴCHWR
LLŴCHWR CLUSTER

Pwy ydym ni?

Mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol Llŷchwr wedi'i ffurfio o ystod o bartneriaid, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Fferyllfeydd Cymunedol, Optometryddion, Deintyddion Cymunedol, y Proffesiynau Perthynol i Iechyd a'r Gwyddorau Iechyd, Rheoli Meddyginiaethau, y Trydydd Sector, Iechyd Meddwl a'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Clwstwr yn darparu mecanwaith strwythuredig ar gyfer trefnu a chyflawni nifer o wasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol, gan weithio ar draws ffiniau sefydliadol, cyfuno adnoddau a rhannu arfer gorau mewn ymgais i wella'r ffordd y gofelir am gleifion.

Ar hyn o bryd, mae'r Clwstwr yn cyflogi'r rolau canlynol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig:

- Rheolwr Datblygu a Gweithredu Busnes
- Presgripsiynydd Cymdeithasol
- Hyfforddwyr Ffordd o Fyw
- Fferylllydd y Clwstwr

Mae Clwstwr Llŷchwr yn gwasanaethu poblogaeth o tua 49,636 o gleifion cofrestredig sy'n byw mewn ardaloedd trefol a lled-wledig, ac mae yna orgyffwrdd sylweddol o gleifion cofrestredig sy'n byw mewn ardaloedd cyfagos yn Sir Gaerfyrddin.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Prif flaenoriaethau strategol, gweithredu ar sail system gyfan i fynd i'r afael ag iechyd a llesiant ataliol yn ardal Llŷchwr:

Gwasanaeth Hyfforddwr Ffordd o Fyw

Mae dros 62% o'r oedolion yng Nghymru dros bwysau ac mae 25% yn byw â gordewdra (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022), a byw â gordewdra yw'r prif ffactor risg ar gyfer clefyd cronig (adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018 – Yr achos dros weithredu ar ordewdra yng Nghymru), ac yn ardal Bae Abertawe mae yna fwch yn y ddarpariaeth o ran cymorth newid ffordd o fyw integredig yn y gymuned ar gyfer cleifion sy'n byw â gordewdra. Yn flaenorol, mae'r Clwstwr wedi treialu cynllun peilot bach ar golli pwysau gan ddangos canlyniadau cadarnhaol.

Gyda hyn mewn golwg, mae'r Clwstwr wedi penderfynu gweithredu gwasanaeth Hyfforddwr Ffordd o Fyw i wella ffyrdd cleifion o fyw, gan roi iddynt yr wybodaeth a'r sgiliau i wneud newidiadau cadarnhaol parhaus i'w ffyrdd o fyw, a chan atal, lleihau neu wrthdroi'r symptomau a achosir gan gyflyrau meddygol cronig; yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i ddiabetes, pwysedd gwaed a cholesterol uchel, bod dros bwysau neu fod â llid cronig, a blinder, a hynny er mwyn gwella canlyniadau iechyd mewn modd holistaidd.

Mae'r cynllun hefyd yn cynnig tri chwrs i'w cyrchu – cwrs coginio a maetheg; cwrs iechyd a llesiant; a chwrs Bwyd a Maeth Cymunedol Lefel 1 achrededig, gyda sesiwn ddewisol ar gyfer pobl sydd efallai am roi'r gorau i smygu neu leihau eu cymeriant alcohol. Gall pob unigolyn ddilyn unrhyw un neu bob un o'r cyrsiau sydd ar gael yn rhan o'r prosiect. Mae'r prosiect yn y camau gweithredu cynnar (dechreuodd ym mis Ionawr 2025); fodd bynnag, mae eisoes wedi cael dros 70 o atgyfeiriadau (Chwefror 2025).

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>

Prosiect atal Clefyd Cardiofasgwlaidd

Ystyriwyd bod effeithiau clefyd cardiofasgwlaidd yn agwedd allweddol wrth gyflawni dull meddyginiaeth ffordd o fyw ataliol. Mae clefyd cardiofasgwlaidd yn arwain at 28% o'r holl farwolaethau yng Nghymru, sef tua 8,800 o farwolaethau bob blwyddyn, sy'n cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth iechyd a chymdeithas yn gyffredinol, o dderbyniadau brys, i wariant ar broblemau cylchrediad y gwaed a chost marwolaethau cyn amser ac anabledd.

At hynny, yn unol ag agenda ataliol y Cabinet a amlinellir yn amcanion 2024 ar gyfer Cymru Iachach, ariannwyd practisau meddygon teulu i ddarparu gwasanaeth ymyriad cynnar i nodi clefyd cardiofasgwlaidd, gan ddarparu ymyriadau byr a chefnogi unigolion i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw er mwyn gostwng neu reoli eu risg o iechyd gwael a marwolaeth cyn amser.

Mae practisau'r Clwstwr bellach yn cyflawni mwy o weithgarwch adnabod rhagweithiol yn rhan o waith yr Hwb Ffordd o Fyw, a hynny trwy ddefnyddio peiriannau gwirio iechyd yn yr ystafelloedd aros, sy'n bwydo data cleifion yn uniongyrchol i mewn i'w cofnodion ac yn tynnu sylw at y rheiny sy'n wynebu risg o glefyd cardiofasgwlaidd.

Yna, mae'r Gwasanaeth Gwirio Iechyd yn cysylltu â'r cleifion sy'n wynebu risg i roi cyngor, cymorth a chyfeiriad i'r rheiny y nodir eu bod yn wynebu risg uwch. Caiff y rôl hon ei chyflawni gan weithiwr cymorth gofal iechyd yn y practis. Yn bennaf, byddai'n gwneud y canlynol:

- Nodi cleifion addas o blith nifer o ffynonellau, yn cynnwys adroddiadau Podiau Monitro Iechyd Cleifion, sydd ar gael yn y pedwar practis meddygon teulu yn Llŷchwr. Chwilio systemau am gleifion nad ydynt wedi cael prawf pwysedd gwaed yn ddiweddar.
- Asesu risg y cleifion o gael clefyd cardiofasgwlaidd trwy offeryn risg gardiofasgwlaidd dilys, megis QRisk2 (sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth ledled y GIG ac yn cael ei argymhell gan NICE).
- Darparu apwyntiadau 'Ymyriad Cyflym' dros y

Beth nesaf?

Parhau i ddatblygu ac ymgorffori model yr Hwb Ffordd o Fyw fydd blaenoriaeth y Clwstwr yn y byrdymor, ond disgwylir y bydd anghenion/bylchau ychwanegol yn cael eu nodi wrth i hyn ddatblygu, felly disgwylir i'r gwasanaethau yn yr hwb ehangu. Mae gwerthuso a deall y cynllun yn allweddol.

Ar hyn o bryd, mae'r Clwstwr, gyda'i bartner, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe, yn cydgynhyrchu'r gwaith o bennu hyd a lled anghenion iechyd meddwl yr ardal. Mae'n ceisio nodi'r gwasanaethau y mae ar y cleifion eu hangen ond, yn fwy pwysig, mae'n ceisio ymgysylltu â nhw i adnabod y gwasanaethau yr hoffent eu gweld yn lleol. Pan fydd yr ymarfer cwmpasu wedi'i gwblhau ac adroddiadau wedi cael eu cyflwyno i Gydweithredfa'r Clwstwr Lleol, bydd gwaith yn dechrau ar ddatblygu strategaeth iechyd meddwl ar gyfer yr ardal sydd â'r nod o wella rheolaeth a gofal yn achos cleifion iechyd meddwl yn Llŷchwr.

ffôn ac apwyntiadau dilynol ar gyfer y rheiny y mae arnynt angen cymorth ychwanegol.

- Hwyluso'r broses o ddosbarthu ffurflenni gwaed i wirio HbA1C a cholesterol lle nodir hynny (trwy brotocol ac os nad oes yna ganlyniad diweddar ar y system).
- Helpu i leihau gorddibyniaeth ar feddyginiaeth, gan gynorthwyo timau fferyllfa y practisau gyda'r gwaith presgripsiynu, lle bo hynny'n briodol.
- Cyfeirio cleifion at ffynonellau cymorth ychwanegol ar gyfer ymddygiadau nad ydynt yn iach, yn cynnwys y gwasanaeth Ffordd o Fyw.

Mae'r prosiect yn dechrau cael ei roi ar waith (dechreuodd ym mis Ionawr 2025). Disgwylir y bydd 40 o gleifion yr wythnos ledled y clwstwr yn cael yr ymyriad hwn.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Llwyddiannau Allweddol: Mae'r Clwstwr wedi canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu partneriaeth gref â'r Trydydd Sector ymhellach, ac wedi cytuno ar weledigaeth strategol i fod yn arweinydd o ran darparu Meddyginiaeth Ffordd o Fyw yng nghyd-destun gofal sylfaenol.

Mae'r Clwstwr wedi canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu partneriaeth gref â'r Trydydd Sector ymhellach, ac wedi cytuno ar weledigaeth strategol i fod yn arweinydd o ran darparu Meddyginiaeth Ffordd o Fyw yng nghyd-destun gofal sylfaenol.


Yr hyn a oedd wedi gweithio'n dda

Mae meddu ar weledigaeth glir ar gyfer ffocws model darparu y Clwstwr yn allweddol er mwyn i ymdrechion yr holl bartïon ddwyn ffrwyth.

Mae angen symleiddio'r trefniadau atgyfeirio a rhannu data traws-sefydliadol i atal oedi neu ddryswch o ran cyrchu gwasanaethau.

Beth y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol?

Byddai cydgynhyrchu'n gynharach yn y broses i nodi meysydd angen penodol wedi helpu i ddarparu ffocws cynharach ar y gwasanaethau comisiynu.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Castell-nedd

Arweinydd y Clwstwr (dros dro)

Deborah Burge-Jones
Deborah.Burge-Jones@wales.nhs.uk

Castell-nedd

Pwy ydym ni?

Nod Clwstwr Castell-nedd yw meithrin cysylltiadau yn ein cymuned a fydd yn galluogi gofal amserol a phriodol ar gyfer y rheiny y mae arnynt angen ein gwasanaethau, gan gydweithio i sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n gynaliadwy ac o'r ansawdd uchaf posibl ac yn cael eu darparu yn y gymuned lle bo hynny'n bosibl.

Mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol Castell-nedd yn seiliedig ar nifer o Gydweithredfeydd Proffesiynol sy'n gydweithio i asesu a nodi anghenion y boblogaeth breswyl. Mae'r Cydweithredfeydd Proffesiynol yn cynnwys Deintyddiaeth Gymunedol, Optometreg, Fferyllfeydd Cymunedol, Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, y Proffesiynau Perthynol i Iechyd a'r Gwyddorau Iechyd, Nyrsio, y Trydydd Sector a hefyd gynrychiolaeth o blith timau Rheoli Meddyginiaethau ac Iechyd Meddwl Cymunedol y Bwrdd Iechyd. Mae Arweinydd enwebedig o bob un o'r Cydweithredfeydd yn ffurfio aelodaeth graidd Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol.

Mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol Castell-nedd yn gwasanaethu poblogaeth o tua 45,837 o gleifion cofrestredig sy'n byw mewn ardaloedd trefol a lled-wledig, a'r rheiny'n ardaloedd o amddifadedd isel ac uchel, fel ei gilydd. Mae'r Clwstwr yn cynnwys 7 practis meddygon teulu, 6 phractis deintyddol, 5 practis optometreg, a 10 fferyllfa gymunedol.

Mae Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol wedi datblygu Tîm Amlddisgyblaethol effeithiol iawn sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth clinigol a rheolaethol i gyflawni blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys dau Fferyllfeydd Clinigol; Technegydd Fferyllol; Clinigydd Cymunedol a Phresgripsiynwyr Cymdeithasol, yn ogystal â mynediad at wasanaethau awdioleg.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae cyfeiriad cynllun gwaith Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol wedi'i nodi yn y cynllun blynyddol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan bennu blaenoriaethau ac amcanion allweddol i'w cyflawni. Mae proses gynllunio a threfniadau gwneud penderfyniadau y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael eu cyflawni trwy ymgysylltu â'r cydweithredfeydd proffesiynol ac yn gyson â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod y nodau a bennir yn rhai gwybodus a arweinir gan angen.

Prif amcanion Cydweithredfa Clwstwr Lleol Castell-nedd yw gwella iechyd y boblogaeth o gleifion trwy ganolbwyntio ar fesurau ataliol a rhaglenni hunanreoli. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflogi dau Fferyllfeydd i sicrhau defnydd costeffeithiol a diogel o feddyginiaethau. Mae'r arbenigwyr amhrisiadwy hyn yn cyflawni llawer iawn o dasgau sy'n ymwneud â meddyginiaethau, gan ryddhau meddygon teulu i ganolbwyntio ar waith clinigol arall. Gan weithio'n agos gydag un o Dechnegwyr Fferyllfa y Clwstwr a staff y practisau meddygon teulu, maent yn cynnal clinigau cyflyrau cronig, yn adolygu meddyginiaethau, yn mynd i'r afael ag ymholiadau a cheisiadau, yn ymdrin â chrynodebau o drefniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty, ac yn blaenoriaethu diogelwch cleifion.
- Cyflogi clinigydd cymunedol i sicrhau'r gofal iawn ac effeithiol yn nes at y cartref ar gyfer cleifion sy'n gaeth i'w cartref, gan eto ryddhau meddygon teulu i ymgymryd â gwaith clinigol arall ond gan hefyd helpu i osgoi derbyniadau i'r ysbyty.



- Cynllun fflw cydweithredol lle mae pob aelod yn helpu i feithrin ymwybyddiaeth o argaeledd brechiadau rhag y fflw, yn ogystal â rhaglen i helpu gyda'r gwaith o frechu cleifion sy'n gaeth i'w cartref.

Mae Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol yn gweithio'n agos gyda chydweithredfa'r Trydydd Sector i helpu i hwyluso a chyflawni mentrau a ariennir gan y clwstwr. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys:

- Cyflogi presgripsiynwyr cymdeithasol. Mae'r Presgripsiynydd Cymdeithasol yn swydd broffesiynol yn y gymuned sy'n mynd ati i geisio cynorthwyo poblogaeth y clwstwr trwy ddarparu ymyriad amserol i gleifion. Mae'r Presgripsiynydd Cymdeithasol yn brysbennu atgyfeiriadau ac yn darparu cyngor ac arweiniad ar ystod eang o wasanaethau priodol sydd ar gael ac sy'n benodol i ofynion y claf. Mae'r gwasanaeth hwn yn canolbwyntio ar lesiant a gofal seiliedig ar y claf, gan wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chymunedol a meithrin ymwybyddiaeth o'u hargaeledd.
- Cynllun grantiau'r trydydd sector – cyllid ar gyfer prosiectau yn y gymuned mewn perthynas ag ystod amrywiol o fentrau allweddol lle mae'r angen mwyaf.
- Cydweithredfa'r trydydd sector – mae'r Gydweithredfa hon yn dwyn ynghyd wybodaeth ac arbenigedd yr aelodau o ystod eang o gefndiroedd ar gyfer cynulleidfya benodol, gan greu persbectif allweddol i Gydweithredfeydd y Cystyrau Lleol.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Wardiau Rhithwir – mae'r ward rithwir wreiddiol yn gyfarfod tîm cydweithredol eang sy'n trafod anghenion y cleifion y tu allan i leoliad yr ysbyty, a hynny er mwyn cefnogi'r claf ar yr adeg iawn ac yn y man iawn, a allai olygu cartref y claf. Roedd y clwstwr wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r wardiau rhithwir, ac mae'r llwyddiant wrth gasglu data i brofi'r cysyniad wedi golygu bod y dull wedi cael ei gyflwyno i'r cystyrau eraill ac wedi cae ei fabwysiadu gan gyd-weithwyr ym maes Gofal Eilaidd hefyd.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>




Grantiau Llesiant y Trydydd Sector – nod y grantiau yw datblygu rhaglenni yn y gymuned ymhellach lle mae gwelliant yn ofynnol. Eleni, rydym wedi cefnogi'r canlynol:

- Fit Jacks, sy'n cynnig rhaglen ffordd o fyw/newid ymddygiad 12 wythnos o hyd yn rhan o raglen rheoli pwysau ar gyfer oedolion.
- Bydd yr Hafan yn cynnig Sesiynau Llesiant Pêl-droed i oedolion sy'n cyrchu gwasanaethau iechyd meddwl, ac sy'n wynebu caethiwed i sylweddau a digartrefedd. Bydd y cwrs yn ceisio gwella lefelau ffitrwydd, lefelau iechyd meddwl, bwyta'n iach, ynysigrwydd a hyder.
- Mae Goalsetters yn cynnig cwrs 12 wythnos o'r enw 'Grymuso eich meddyliau – Gweledigaeth ar gyfer Llesiant' ar gyfer 20-24 o ddisgyblion 8-11 oed. Bydd y cwrs yn archwilio pynciau bwyta'n iach, i gynnwys maeth cytbwys, a phwysigrwydd gweithgarwch corfforol a sgiliau ymarferol sy'n meithrin hyder a hunan-barch.


Ymgysylltu â Chleifion – mae'r clwstwr yn ystyried ymgysylltu â chleifion yn weithgarwch hanfodol o ran ein ffordd o weithio. Rydym wedi mynd ati i roi cyhoeddusrwydd i ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd ledled yr holl endidau trwy wneud i bob cyswllt gyfrif, yn ogystal â threfnu digwyddiadau llesiant cleifion. Mae'r digwyddiadau hyn yn darparu gwybodaeth glir am amrywiaeth eang o bynciau i'r cyhoedd eu harchwilio.

System presgripsiynau rheolaidd – mae rhoi system ar waith yn llwyddiannus wedi arwain at leihau nifer y sgriptiau a gollir a hefyd wedi dileu ymholiadau gan gleifion a lleihau gwastraff fferyllol. Bu hyn yn fenter enfawr, ond roedd y canlyniadau'n arbennig.





**Bwrdd Iechyd
Prifysgol Bae
Abertawe (BIPBA)**



Castell-nedd

**Arweinydd y Clwstwr
(dros dro)**

Deborah Burge-Jones
Deborah.Burge-Jones@
wales.nhs.uk

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Yn arwyddocaol, rydym wedi dysgu ei bod yn hanfodol neilltuo digon o amser a chymorth i gamau cynllunio cychwynnol prosiect, gan ganiatáu i sgysiau gael eu cynnal â'r rhanddeiliaid cywir, a bod pennu nodau CAMPUS yn cynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant. I gydnabod hyn, datblygwyd offeryn newydd yn ddiweddar a fydd yn symleiddio'r sgysiau cynnar hyn gyda ffocws ar amcanion allweddol a chynllun prosiect clir i greu gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd i'w gyflawni ac i nodi'r marcwyr cynnar ar gyfer llwyddiant neu fel arall.

At hynny, mae'n hanfodol ein bod yn neilltuo amser i rannu a phwysleisio ein cyflawniadau, yn ogystal â myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd. Mae lledaenu gwybodaeth gadarnhaol i'n clwstwr ac i'n cynulleidfaoedd ehangach, fel ei gilydd, yn cynyddu ein heffaith yn sylweddol ac yn cynyddu proffil y clwstwr wedi hynny. O ystyried natur gydweithredol gweithrediadau clystyrau, mae gennym gyfle i gyrraedd ystod amrywiol o gynulleidfaoedd i gyflawni hyn.

Beth nesaf?

Mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol Castell-nedd yn anelu at ehangu a gwella ei ddull cydweithredol cadarnhaol o weithio yn y dyfodol, gyda'r nod o wella iechyd y boblogaeth. Mae Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol yn awyddus i archwilio'r posibiliadau sydd o'i blaen, er bod pwysau a chyfyngiadau ariannol yn ystod adegau o gyni yn gyffredin ym maes Gofal Sylfaenol ac yn parhau i beri pryder i'r Gydweithredfa am eu bod yn herio'r hyblygrwydd i fod yn arloesol.

Mae gan Gydweithredfa'r Clwstwr Lleol fodel tîm amlddisgyblaethol gwych sy'n galluogi gofal i gael ei ddarparu mewn modd amserol yn nes at y cartref; fodd bynnag, mae cyllideb y Gydweithredfa wedi teimlo effaith y cynnydd diweddar mewn cyflogau cenedlaethol, sy'n gam cadarnhaol a groesewir er mwyn cynnal gweithlu cynaliadwy, ond nad yw'n cael ei adlewyrchu yng nghyllid blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer clystyrau.


Hyd yn oed wrth dynhau llinynnau'r pwrs, mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol Castell-nedd yn parhau i gynllunio ei blaenoriaethau yn seiliedig ar fylchau a nodwyd yn ein Hasesiadau Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth a'r blaenoriaethau a ddaw o'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr.

Bydd gwaith diweddar a wnaed yn y clwstwr yn dwyn ffrwyth yn y dyfodol agos, gan gynnwys:

- Grantiau llesiant y trydydd sector – fel y crybwyllwyd uchod.
- Prosiect Gofalu am y Baban Nesaf – cefnogi teuluoedd sydd wedi colli plentyn i ofalu am eu plentyn nesaf. Gwneir hyn trwy fynediad at fonitorau a osodir ar y plentyn wrth iddo gysgu, sydd â larwm yn canu os bydd una unrhyw broblem, gan gynnig rhywfaint o dawelwch meddwl.
- Ap Minuteful IO – ap gofal clwyfau sy'n rhoi gwybodaeth arbenigol pan fydd llun o'r clwyf yn cael ei lanlwytho. Mae hyn yn caniatáu i feddygon teulu a nyrsys asesu cleifion mewn practisau meddygon teulu neu gartref.

Byddwn yn parhau i gydweithredu ag aelodau Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol, gan ddefnyddio eu gwybodaeth leol a'u medrusrwydd proffesiynol i ddeall anghenion y boblogaeth o gleifion ymhellach i lywio'r gofal gorau posibl.





Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Penderi

Arweinydd y Clwstwr

Dr Sowndarya Shivaraj
Sowndarya.Shivaraj@wales.nhs.uk

Penderi



Pwy ydym ni?

Mae Clwstwr Penderi yn gwasanaethu poblogaeth o tua 37,775 o gleifion sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn bennaf. Yn ei ardal ddaearyddol mae gan y Clwstwr 5 practis meddygon teulu, 7 practis deintyddol, 3 optegydd a 9 fferyllfa. Mae ei boblogaeth hefyd yn cael ei gwasanaethu gan ystod o wasanaethau cymunedol, sy'n cynnwys nyrsio a therapïau, cartrefi nyrsio/preswyl, ysgolion a llyfrgelloedd.

Mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol Penderi yn seiliedig ar Gydweithredfeydd Proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd i fynd ati mewn modd strategol i gynllunio a darparu gwasanaethau yn y gymuned yn seiliedig ar anghenion cleifion a nodwyd. Mae'r rhain yn cynnwys Deintyddiaeth Gymunedol, Optometreg, Fferylliaeth, y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, y Proffesiynau Perthynol i Iechyd a'r Gwyddorau Iechyd, Nyrsio Cymunedol a'r Trydydd Sector.

Mae Arweinydd enwebedig o bob un o'r Cydweithredfeydd Proffesiynol a chynrychiolaeth o blith y timau Rheoli Meddyginiaethau, Iechyd Meddwl Cymunedol a Datblygu'r Clwstwr yn ffurfio aelodaeth graidd Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol.

I gefnogi'r broses o gyflawni ei blaenoriaethau, mae Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol yn buddsoddi'n ariannol mewn fferyllfydd, gwasanaethau a gomisiynir gan y trydydd sector, gwasanaethau cymorth iechyd meddwl, digwyddiadau iechyd a llesiant, gwefan, a rheolwr datblygu a gweithredu busnes. Mae gan boblogaeth y clwstwr hefyd fynediad at Gydgylltwyr Ardal Lleol a Phresgripsiynwyr Cymdeithasol.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Amlinellir cyfeiriad cynllun gwaith Cydweithredfa Clwstwr Lleol Penderi yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig blynyddol, sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion allweddol ar gyfer y flwyddyn. Datblygir y nodau hyn trwy ymgysylltu â chydweithredfeydd proffesiynol, ac maent yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Trwy sicrhau bod y nodau hyn yn cael eu harwain gan angen, rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r problemau iechyd mwyaf enbyd yn y gymuned a chyflawni canlyniadau ystyrlon.

Ar gyfer eleni, mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol Penderi wedi ymrwymo i hyrwyddo llythrennedd iechyd ac atal a llesiant, gyda phwyslais ar atal ac ymyriad cynnar. Trwy gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion iechyd, ein nod yw creu poblogaeth fwy iach a chydnerth, gan leihau dibyniaeth ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ymhlith cenedlaethau'r dyfodol.

Un fenter allweddol eleni yw cydweithredu ag ysgolion lleol i gynyddu llythrennedd iechyd ymhlith plant a'u teuluoedd. Yn ogystal â hyn, bydd Cydweithredfa Clwstwr Lleol Penderi yn parhau i gynnal sgysiau llesiant, digwyddiadau ymwybyddiaeth o iechyd a sesiynau galw heibio ledled yr ardal leol. Rydym hefyd yn cynnal gwefan weithredol a phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio cynllun cyfryngau cymdeithasol strwythuredig i sicrhau diweddariadau rheolaidd ar amrywiaeth eang o bynciau iechyd, sy'n cynnwys rhaglenni sgrinio a mentrau iechyd pwysig eraill.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>



Mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol Penderi yn parhau i ddarparu cymorth i gleifion sy'n wynebu risg o ddatblygu diabetes, a hynny trwy'r **Gwasanaeth Cyn-ddiabetes**. Mae ymdrechion ar droed i gryfhau'r tîm a sicrhau gofal parhaus, gan wneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch ac ymatebol i anghenion cleifion.

I wella nifer y bobl sy'n ymgymryd â chymorth rhoi'r gorau i smygu, mae **Helpa Fi i Stopio** wedi cyflwyno clinigau mewn dau bractis meddygon teulu a lleoliad cymunedol lleol. Trwy gynyddu faint o gymorth wyneb yn wyneb sydd ar gael yn y lleoliadau hygyrch hyn, nod y gwasanaeth yw annog rhagor o gleifion i gymryd rhan mewn rhaglenni rhoi'r gorau i smygu a gwella eu canlyniadau iechyd hirdymor.

Mae Clwstwr Penderi yn parhau i fynd ati i hyrwyddo'r Cynllun **Mân Anhwylderau** trwy ein cyfryngau cymdeithasol, ein gwefan, a digwyddiadau llesiant, gan sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r cyngor a'r triniaethau rhad ac am ddim sydd ar gael mewn fferyllfydd cymunedol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (SCVS) i hyfforddi gwirfoddolwyr i fod yn Hyrwyddwyr Iechyd, gan roi gwybodaeth iddynt am y gwasanaethau sydd ar gael mewn fferyllfydd lleol, sy'n cynnwys y Cynllun Mân Anhwylderau. Bydd y fenter hon yn grymuso gwirfoddolwyr i gefnogi mynychwyr mewn digwyddiadau llesiant a'u cyfeirio at wasanaethau perthnasol.

Mae'r **Gwasanaeth Llesiant Pobl Ifanc** yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi pobl ifanc sy'n profi amrywiaeth o heriau emosiynol ac iechyd meddwl. Eleni, bydd y broses atgyfeirio yn cael ei hehangu i gynnwys **ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol a staff ysgolion lleol**, gan sicrhau y gall rhagor o bobl ifanc gyrchu'r gwasanaeth. Nod y datblygiad hwn yw cynyddu hygyrchedd a gwella cyrhaeddiad y gwasanaeth, gan ein galluogi i ddarparu cymorth amserol i'r rheiny sydd mewn angen.

Mae'r **Gwasanaeth Cwnsela** yn parhau i ddarparu cymorth iechyd meddwl hanfodol i blant ac oedolion, fel ei gilydd. Mae'r Clwstwr yn parhau

i ffocysu ar ymdrechion i wella'r gwasanaeth er mwyn lleihau amseroedd aros, symleiddio prosesau atgyfeirio, a sicrhau bod cymorth amserol ar gael ar gyfer y rheiny sy'n ceisio help.

Mae Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi'r **Gwasanaeth Lloches i Fenywod**, sy'n darparu cymorth hanfodol i fenywod agored i niwed a'u pant sy'n byw mewn lloches leol. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn cael gofal iechyd, cymorth emosiynol, a mynediad at adnoddau cymunedol i gynorthwyo eu hadferiad a'u hannibyniaeth.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>



Beth yw'r prif gyflawniadau?

1. Digwyddiadau Iechyd a Llesiant yn y Gymuned


Cynhaliodd y Clwstwr nifer o ddigwyddiadau cymunedol llwyddiannus a gynlluniwyd i wella **llythrennedd iechyd** a hyrwyddo iechyd a llesiant.

Eleni, aethom ati i ddefnyddio dull cydweithredol trwy bartneru â **Chlwb Pêl-droed Dinas Abertawe** ac ysgol gynradd leol i gynnal digwyddiadau a ddenodd niferoedd da, a chafwyd adborth rhagorol gan y boblogaeth leol a rhanddeiliaid, fel ei gilydd.

O ganlyniad i'r fenter hon, cawsom y fraint o gael ein henwebu ar gyfer y wobwr 'Gweithio gyda'n Gilydd', a chawsom gydnabyddiaeth **Canmoliaeth Uchel yng Ngwobrau'r Bae BIPBA 2024**.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>





Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Penderi

Arweinydd y Clwstwr

Dr Sowndarya Shivaraj
Sowndarya.Shivaraj@wales.nhs.uk

2. Gweithio mewn Partneriaeth a Chydweithredu

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Clwstwr wedi meithrin amrywiaeth o bartneriaethau cadarnhaol sydd wedi darparu gwerth ychwanegol i'r gymuned leol, a hynny mewn modd niwtral o ran cost. Rydym wedi gweithio gyda **Sefydliad yr Elyrch**, a ddarparodd y rhaglen Fit Jacks, sef menter ffitrwydd a llesiant 12 wythnos o hyd a gynhaliwyd mewn lleoliadau cymunedol lleol yn y Clwstwr. At hynny, hwylusodd **Cynllun Dysgu Cymunedol Prifysgol Abertawe gwrs Cysgu'n Dda** mewn lleoliadau cymunedol a nodwyd gan Reolwr Datblygu Clwstwr Penderi.

Cyflawniad allweddol arall fu'r bartneriaeth â phrosiect peilot arloesol y Bwrdd Iechyd sydd â'r nod o wella nifer yr unigolion sy'n cael **asesiadau iechyd ar gyfer cleifion ag anableddau dysgu**. Gwelodd y cydweithrediad hwn **ddau bractis meddygon teulu** yn ymgymryd yn rhagweithiol â'r prosiect, gan weithio i wella'r wybodaeth a'r cymorth a ddarperir i gleifion ag anableddau dysgu yn yr ardal.

Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

1. Ymgysylltu â'r Gymuned

Trwy'r digwyddiadau llesiant, mae'r Clwstwr wedi gweld effaith gadarnhaol o ran ymgysylltu â'r gymuned a chynyddu ymwybyddiaeth o bynciau iechyd allweddol. Bu partneru ag ysgolion lleol ar gyfer mentrau llythrennedd iechyd yn ddatblygiad arbennig o lewyrchus, gan ein galluogi i gyrraedd teuluoedd a phobl ifanc a all elwa o addysg iechyd a llesiant gynnar. Bu'r dull hwn, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, yn effeithiol o ran meithrin cysylltiadau cryfach a darparu gwybodaeth ddefnyddiol i helpu o ran gwaith cynllunio y Clwstwr.

2. Cydweithrediad a Phartneriaeth

Bu'r cydweithrediad parhaus rhwng aelodau Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol a sefydliadau ehangach yn enghraifft wych o'r modd y gall gweithio mewn partneriaeth wella'r gwasanaethau a ddarperir. Mae dwyn gweithwyr proffesiynol a grwpiau cymunedol ynghyd wedi dangos gwerth integreiddio adnoddau ac arbenigedd lleol i mewn i ymdrechion y Clwstwr i wella canlyniadau iechyd ar gyfer y gymuned.

3. Mynediad at Ddata Cyfredol ynghylch Sgrinio Iechyd

Her sylweddol a wynebwyd eleni oedd anhawster cyrchu data cyfredol a chynhwysfawr ar nifer yr unigolion sy'n manteisio ar y gwasanaeth sgrinio iechyd. Mae'r diffyg data cyfredol hwn yn ei gwneud yn anodd adolygu effaith ymyriadau iechyd ac asesu anghenion y boblogaeth yn gywir.

4. Mynediad at Safleoedd ar gyfer Gwasanaethau

Bu sicrhau mynediad at safleoedd priodol i ddarparu gwasanaethau yn rhwystr sylweddol i'r Clwstwr eleni. Un enghraifft nodedig yw'r Gwasanaeth Awdioleg, y bu'n rhaid ei adleoli y tu allan i'r Clwstwr oherwydd prinder lle. Mae hyn wedi arwain at lai o hygyrchedd i'r cleifion, gan effeithio ar eu gallu i gyrchu'r gwasanaeth yn rhwydd. Bydd dod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy ar gyfer safleoedd i ddarparu gwasanaethau yn ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn i ddod.

5. Cyfyngiadau o ran y Gyllideb ac Archwilio Cyfleoedd Cyllido Ychwanegol


Mae'r gyllideb ar gyfer y Clwstwr yn gymharol fach, sydd wedi arwain at heriau wrth ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau arloesol i'r boblogaeth. Rydym yn cydnabod yr angen i symleiddio gwariant y Clwstwr ac adolygu'r modd y gellir prif-ffrydio'r gwasanaethau. Rydym yn archwilio cyfleoedd cyllido ehangach a datrysiadau costeffeithiol gyda'r nod o ehangu ystod ac ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael i boblogaeth Clwstwr Penderi.

Beth nesaf?

Yn rhan o gynllun tymor hwy i wella llythrennedd iechyd ledled Penderi, bydd y Clwstwr yn parhau i ddyrannu cyllid i gynnal Digwyddiadau Llesiant Cymunedol a datblygu mentrau, gan gynnwys prosiectau garddio cymunedol er iechyd a rôl wirfoddol yr hyrwyddwr iechyd.

Mae prosiectau pellach a gynigir yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025-26 yn cynnwys:

- Darparu gwasanaethau a gomisiynir gan y trydydd sector i ddarparu cymorth emosiynol ac iechyd meddwl i oedolion, plant a phobl ifanc, a datblygu llwybr presgripsiynu cymdeithasol i gynnwys mynediad gan aelodau eraill Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol.
- Cynnig hyfforddiant Lefel 3 i Fferyllwyr i gynorthwyo'r gwasanaethau Helpa Fi i Stopio lefel 3 yn ein Clwstwr.
- Canolbwyntio ar gynyddu nifer y plant 2-3 oed sy'n cael eu brechu rhag y ffliw, ac archwilio pa un a all fferyllfeydd cymunedol roi'r Fluenz trwy drefniant cyfarwyddyd grŵp cleifion (PGD) preifat ai peidio.
- Datblygu model hwb pwysau iach a llesiant trwy gydweithredu â gwasanaethau lleol, Cyngor Abertawe a'r trydydd sector.
- Gweithio gyda phob cydweithredfa broffesiynol i wella'r broses o adnabod gofalwyr di-dâl yn gynnar, eu cefnogi a'u cyfeirio.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)




Y Cymoedd Uchaf

Arweinydd y Clwstwr

Niki Watts
Niki.Watts@wales.nhs.uk

Y Cymoedd Uchaf

Pwy ydym ni?



Ein gweledigaeth yw gweithio ar y cyd â phartneriaid a chleifion i gynnal a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau lleol. A hynny er mwyn darparu gofal hygyrch da o ansawdd diogel, yn y gymuned, yn nes at ein cleifion.

Mae Cydweithredfa Clwstwr Lleol y Cymoedd Uchaf yn seiliedig ar nifer o Gydweithredfeydd Proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd i asesu a nodi anghenion y boblogaeth breswyl. Mae'r Cydweithredfeydd Proffesiynol yn cynnwys Deintyddiaeth Gymunedol, Optometreg, Fferyllfeydd Cymunedol, Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, y Proffesiynau Perthynol i Iechyd a'r Gwyddorau Iechyd, Nyrsio, y Trydydd Sector a hefyd gynrychiolaeth o blith timau Rheoli Meddyginiaethau ac Iechyd Meddwl Cymunedol y Bwrdd Iechyd. Mae Arweinydd enwebedig o bob un o'r Cydweithredfeydd yn ffurfio aelodaeth graidd Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol.

Mae Clwstwr y Cymoedd Uchaf yn gwasanaethu poblogaeth o 32,297 o gleifion cofrestredig sy'n byw'n bennaf mewn ardaloedd gwledig ac ynddynt ardaloedd o amddifadedd uchel. Mae'r Clwstwr yn cynnwys 4 practis meddygon teulu, 4 practis deintyddol, 2 bractis optometreg, a 10 fferyllfa gymunedol.

Mae ardal y clwstwr yn cwmpasu tri chwm: Abertawe, Dulais, a Chastell-nedd, ac mae'n ffinio ag awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Powys, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Mae hyn yn aml yn golygu heriau trawsffiniol gan fod rhai o'n cleifion yn byw y tu allan i ffin Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

Mae Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol wedi datblygu tîm amlddisgyblaethol effeithiol iawn sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth clinigol a rheolaethol i gyflawni blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys Ffisiotherapydd Cyswllt Cyntaf; Therapydd Galwedigaethol; Presgripsiynwyr Cymdeithasol, yn ogystal â mynediad at wasanaethau awdioleg a chwnsela.

Ar beth yr ydym yn gweithio?

Mae cyfeiriad cynllun gwaith Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol wedi'i nodi yn y cynllun blynyddol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan bennu blaenoriaethau ac amcanion allweddol i'w cyflawni. Mae proses gynllunio a threfniadau gwneud penderfyniadau y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael eu cyflawni trwy ymgysylltu â'r cydweithredfeydd proffesiynol ac yn gyson â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod y nodau a bennir yn rhai gwybodus a arweinir gan angen.

Prif amcanion Cydweithredfa Clwstwr Lleol y Cymoedd Uchaf yw gwella iechyd y boblogaeth o gleifion trwy ffocysu ar feysydd allweddol, gyda'r nod o ddarparu gofal yn nes at y cartref. Gwneir hyn trwy rolau allweddol a phrosiectau a amlinellir isod:

- **Therapydd galwedigaethol** – mae'r rôl yn ceisio helpu cleifion i lywio eu bywydau bob dydd, rheoli cyflyrau cronig, a chynnal cysylltiadau cymdeithasol. Roedd y gofal personol hwn yn hanfodol i wella annibyniaeth ac ansawdd bywyd y cleifion.
- **Cwnsela MIND** – ar gyfer cleifion ag angen ysgafn i gymedrol. Mae'n gweithio ochr yn ochr â phresgripsiynu cymdeithasol ac iechyd meddwl sylfaenol wedi'u lleoli yn Ysbyty Tonnau. Cynigir sesiynau wyneb yn wyneb, trwy alwad fideo WhatsApp, neu dros y ffôn; gellir hefyd gynnig cyfuniad o'r tri dull yn ôl yr hyn sydd fwyaf addas i'r claf.

- **Y defnydd o Consultant Connect** – gwasanaeth telefeddygaeth lle y gall meddygon teulu a deintyddion drafod achosion cleifion a rhannu lluniau a dogfennau, yn ôl y gofyn. Mae hyn yn galluogi gwell gofal cleifion, ynghyd â diagnosis a chynllun triniaeth cyflymach heb orfod mynd i'r ysbyty.

- **Prosiect pwysedd gwaed uchel** – prosiect a anelir at gleifion sydd newydd gael diagnosis i'w helpu i hunanfonitro, ac at gleifion sy'n bod yn barod i'w helpu i reoli'r cyflwr ymhellach, gan optimeiddio meddyginiaethau a ffactorau ffordd o fyw.

Mae Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol yn gweithio'n agos gyda chydweithredfa'r Trydydd Sector i helpu i hwyluso a chyflawni mentrau a ariennir gan y clwstwr. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys:

- **Cyflogi presgripsiynwyr cymdeithasol.** Mae'r Presgripsiynydd Cymdeithasol yn swydd broffesiynol yn y gymuned sy'n mynd ati i geisio cynorthwyo poblogaeth y clwstwr trwy ddarparu ymyriad amserol i gleifion. Mae'r Presgripsiynydd Cymdeithasol yn brysbennu atgyfeiriadau ac yn darparu cyngor ac arweiniad ar ystod eang o wasanaethau priodol sydd ar gael ac sy'n benodol i ofynion y claf. Mae'r gwasanaeth hwn yn canolbwyntio ar lesiant a gofal seiliedig ar y claf, gan wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chymunedol a meithrin ymwybyddiaeth o'u hargaeledd.
- **Cynllun grantiau'r trydydd sector** – cyllid ar gyfer prosiectau yn y gymuned mewn perthynas ag ystod amrywiol o fentrau allweddol lle mae'r angen mwyaf.
- **Cydweithredfa'r trydydd sector** – mae'r Gydweithredfa hon yn dwyn ynghyd wybodaeth ac arbenigedd yr aelodau o ystod eang o gefndiroedd ar gyfer cynulleidfa benodol, gan greu persbectif allweddol i Gydweithredfeydd y Clystyrau Lleol.

Beth yw'r prif gyflawniadau?

Cynllun ailgylchu anadlyddion

Mae cynllun peilot 'y cyntaf o'i fath' yn y DU wedi dod i ben, cynllun a dreialwyd yn lleol yn y Cymoedd Uchaf. Mae'r cynllun peilot, sy'n hyrwyddo trefniant dychwelyd ac ailgylchu anadlyddion mewn practisau fferyllol, wedi mynd o nerth i nerth, gyda chyfanswm o 8,427 o anadlyddion wedi'u casglu mewn cyfnod o 7.5 mis.

Mae swm yr anadlyddion a ddychwelwyd yn hafal i rhwng 23% a 28% o'r holl anadlyddion a bresgripsiynwyd yn yr un cyfnod. Mae'r broses ailgylchu wedi costio £6,911, gan ddarparu 93.2 kg o fetel, 23.8 kg o nwy a 59 kg o blastig, sydd wedi cael eu defnyddio at ddibenion eraill.




Cyflawnwyd llwyddiant y prosiect hwn trwy feithrin ymwybyddiaeth o'r problemau, ymgysylltu â chydweithwyr a chleifion, a chyhoeddi llwyddiannau'r rhaglen yn lleol. Mae'r prosiect hwn nid yn unig wedi helpu i gynyddu'r broses ddatgarboneiddio, ond mae hefyd wedi helpu i hyrwyddo newid mewn ffordd o feddwl, lle mae arferion presgripsiynu'n dangos ôl troed carbon llai wrth ddarparu'r un gwasanaeth.

DOLEN I'R ERTHYGL GYFATHREBU >>>

Mae gan Glwstwr y Cymoedd Uchaf dîm amlddisgyblaethol dynamig ac amrywiol iawn sy'n cynnwys Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd Cyswllt Cyntaf, Presgripsiynwyr Cymdeithasol, a Gweithiwr Cyswllt Iechyd Meddwl. Ychwanegiad newydd fydd Seicolegydd cymunedol, a hynny'n rhan o brosiect y Bwrdd Iechyd i weithredu model seicoleg gymunedol mewn pedwar clwstwr.

Mae gan Glwstwr y Cymoedd Uchaf ddaearyddiaeth unigryw, gyda'r ardal wedi'i ffurfio o dri phrif gwm – cymoedd Dulais, Nedd a Thawe. Mae yna ymadrodd a gysylltir yn aml ag ôl troed y Clwstwr sy'n nodi mai "dyma'r man lle rydych yn dysgu mynd lan a lawr ond nid o ochr i ochr", sy'n golygu nifer o heriau o ran darparu gwasanaethau.

Er enghraifft, mae yna nifer o rwystrau i'w goresgyn os yw claf am deithio i leoliad gofal eilaidd i gael ffisiotherapi neu ofal iechyd meddwl, megis diffyg trafnidiaeth gyhoeddus briodol. Mae model y tîm amlddisgyblaethol yn caniatáu i'r Clwstwr gysoni ag anghenion mynediad y boblogaeth trwy ddarparu gofal yn nes at y cartref.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)



Y Cymoedd Uchaf

Arweinydd y Clwstwr

Niki Watts
Niki.Watts@wales.nhs.uk

Ymgysylltu â Chleifion

Fel yn achos unrhyw gwm, mae yna ymdeimlad cryf o gymuned, ac mae'r Clwstwr yn meithrin hyn ymhellach trwy gefnogi grantiau llesiant y trydydd sector a digwyddiadau llesiant addysgol.

Cymeradwywyd grantiau'r trydydd sector yn ddiweddar, a chânt eu dyrannu'n fuan. Mae'r Cymoedd Uchaf wedi penderfynu cefnogi:

- Fit Jacks, sy'n cynnig rhaglen ffordd o fyw/newid ymddygiad 12 wythnos o hyd yn rhan o raglen rheoli pwysau ar gyfer oedolion.
- Ysgol Goedwig Abertawe Castell-nedd Port Talbot, sef rhaglen a anelir at blant dan 5 oed, lle gallant fwynhau amser yn yr amgylchedd naturiol yn dysgu am anifeiliaid a phlanhigion, ond hefyd yn dysgu sgiliau cymdeithasol a pharch.
- Gweithdy Dove, sy'n cynnig dull hyblyg o wella ynysigrwydd ac unigrwydd a materion llesiant eraill.

Rydym yn edrych ymlaen at y dyfodol i gael deall yr effaith y mae'r rhaglenni hyn wedi'i chael yn yr ardal hon. Rydym yn gobeithio ailadrodd y grantiau hyn y flwyddyn nesaf. Mae ein digwyddiadau llesiant yn cynnig cyfle i gleifion ddod i leoliad ac archwilio amrywiaeth eang o stondinau i ddysgu rhagor am y gwasanaethau a'r sefydliadau sydd ar gael yn yr ardal hon. Yn ogystal â stondinau maeth a ffordd o fyw, bydd yna hefyd stondinau dannedd iach, ymwybyddiaeth ofalgar, a grwpiau megis crwydro cyfeillgar a chlybiau rhedeg sy'n gweithredu yn yr ardal ac sy'n gallu annog aelodaeth i fwynhau ffordd iach o fyw a gwneud ffrindiau newydd. Mae yna rywbeth ar gyfer pob oedran a diddordeb.



Beth yr ydym wedi'i ddysgu?

Fel y crybwyllir uchod, mae Cydweithredfa'r Clwstwr Lleol yn creu Cynllun Tymor Canolig Integredig blynyddol gyda'r nod o bennu blaenoriaethau allweddol. Wedi i'r blaenoriaethau hyn gael eu pennu, cynhelir trafodaethau am y prosiectau/gweithgareddau a fydd yn helpu'r Clwstwr i gyflawni ei nodau.

Mae gwaith gwych yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd wrth gynllunio'r prosiectau/gweithgareddau hyn i gynyddu cyfraddau llwyddo a chyfathrebu, cydweithredu a meddwl arloesol. Yn ei dro, bydd y ffordd newydd hon o feddwl yn meithrin syniadau newydd a chyffrous gyda'r nod o ddiwallu anghenion y boblogaeth yn well ar draws pob cydweithredfa broffesiynol.

Mae hefyd yn galluogi sgysiau cynharach i ddeall a oes angen diwygio prosiect/gweithgaredd i sicrhau y bydd yn llwyddo, neu a ddylid rhoi'r gorau i brosiect gan nad yw'n gweithio fel y gellir symud yr ymdrechion i faes ffocws arall.

Beth nesaf?

Fel yn achos pob clwstwr, mae'r Clwstwr yn teimlo cyfyngiadau'r sefyllfa ariannol bresennol. Er gwaethaf yr her hon, mae'n mynd ati i chwilio am ffyrdd o wella iechyd y boblogaeth ymhellach.

Un ffordd o'r fath yw trwy fynd ati i ailwampio a gwella'r model iechyd meddwl presennol ar gyfer yr ardal. Ar hyn o bryd, mae'r model yn canolbwyntio ar faterion iechyd meddwl ysgafn i gymedrol yn unig yn achos grwpiau poblogaeth penodol. Yn seiliedig ar lwyddiant diweddar Model Clwstwr Cwmtawe, mae Clwstwr y Cymoedd Uchaf yn bwriadu adeiladu ar hyn ac ail-lunio'r model i ffitio anghenion y boblogaeth trwy ddod â'r holl bartion gweithredol at ei gilydd i gefnogi'r anghenion yn well ac i ddarparu rhagor o ymyriadau wedi'u targedu.

Newid arall a fwriedir ar gyfer y dyfodol ac a fydd o help mawr i gleifion ac aelodau fydd cyflwyno presgripsiynu electronig. Mae'r system yn golygu na fydd angen i bresgripsiynau gael eu hargraffu mwyach, ac y byddant yn cael eu hanfon yn electronig at fferyllfa ddewisol y claf. Bydd hyn yn cyflymu mynediad cleifion at feddyginiaethau gan na fydd yn ofynnol iddynt fynd i bractis meddygon teulu mwyach i gasglu'r presgripsiwn, ac yna fynd i fferyllfa. Bydd y prosiect yn sicrhau mwy o gyfathrebu rhwng practisau a fferyllfeydd, a bydd yn dileu unrhyw wallau neu sgriptiau coll, gan wneud y system gyffredinol yn fwy effeithlon a chynnig gwell profiad i'r claf.

Rydym ni yn y Clwstwr yn llawn cyffro o weld beth a ddaw yn y dyfodol ar gyfer y rhan brydferth hon o'r sir.

Y Defnydd o Gronfeydd y Cystyrau



Y Defnydd o Gronfeydd y Cystyrau 2023/24

Mae dadansoddiad o'r defnydd o gronfeydd yn dangos themâu cyffredin sy'n rhoi arwydd clir o'r meysydd yn y system yr oedd angen eu cryfhau i ddiwallu anghenion y boblogaeth ac i sicrhau sefydlogrwydd a chynaliadwydd y gwasanaethau.

Mae yna dystiolaeth gref y bydd darparu'r sgiliau a'r capasiti priodol yn y gwasanaethau gofal sylfaenol yn gwella canlyniadau a phrofiad y cleifion a'r gweithwyr proffesiynol, gan leihau'r galw ar systemau gofal brys ac atgyfeiriadau at ofal eilaidd, gan leihau'r costau cyffredinol¹.

Roedd y meysydd arwyddocaol y buddsoddwyr ynddynt yn cynnwys y canlynol:

1. Fferyllwyr clinigol

Mae arbenigedd fferyllwyr sydd wedi'u lleoli mewn practisau yn cefnogi'r broses o drin y nifer enfawr o bresgripsiynau a reolir ym maes gofal sylfaenol. Mae dull cymysgedd sgiliau hefyd wedi'i archwilio trwy benodi technegwyr fferyllfa mewn rhai ardaloedd. Nid yw'r dosbarthiad yn gyffredinol, ac mae nodau ac amcanion pob rôl yn cael eu pennu'n lleol.

Roedd yr amcanion a nodwyd yn aml yn cynnwys y canlynol:

- Mynediad gwell at gyngor ar feddyginiaethau
- Creu systemau/prosesau diogel ac effeithiol
- Gwella ansawdd a diogelwch presgripsiynu
- Technegwyr fferyllfa yn cefnogi'r cymysgedd sgiliau mewn timau
- Rheoli llwythi achosion gan gynnwys poen gronig

2. Gwasanaethau Iechyd Meddwl (darpariaeth Haen 0 a Haen 1)

Mae amrywiaeth o ddulliau wedi'u profi, gan gynnwys y canlynol:

- 'Monitro gweithredol'
- Therapi Galwedigaethol
- Cymorth mewn argyfwng
- Seicotherapi, Gofal sy'n ystyriol o drawma
- Hyfforddiant ar atal hunanladdiad
- Gwasanaethau llesiant teuluol
- Prosiect anhwylderau bwyta ar gyfer pobl ifanc
- Cwnsela
- Seicoleg er lles iechyd Menywod
- Ymarferwyr Iechyd Seicolegol
- Gweithiwr llesiant a brysbennu y clwstw

3. Ehangu timau amlbroffesiynol

Un o amcanion allweddol y Model Gofal Sylfaenol i Gymru yw ehangu capasiti timau gofal sylfaenol a chymunedol a chynyddu'r ystod o sgiliau ac arbenigedd sydd ar gael. Lle bo hynny'n briodol, bydd hyn yn cynyddu mynediad uniongyrchol at wasanaethau, gan leihau'r angen i feddygon teulu gyfeirio cleifion at eu cyd-weithwyr proffesiynol lle nad yw'r cysylltiadau hynny'n ychwanegu gwerth.

Rhaid integreiddio rolau newydd â gwasanaethau presennol, ac mae'r Cystyrau wedi cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant, goruchwyliaeth, llywio gofal, a chymorth i gydgyssylltu'r gofal.

Defnyddiwyd cronfeydd i gefnogi'r canlynol:

- Hyfforddiant ar gyfer Uwch-ymarferwyr Nyrsio a Chymdeithion Meddygol
- Uwch-ymarferwyr parafeddygol
- Therapi galwedigaethol mewn gofal sylfaenol
- Ffisiotherapyddion
- Nyrsys eiddilwch
- Gweithwyr cymorth gofal iechyd
- Gwasanaethau awdioleg
- Datblygu gwasanaethau optometreg

Mae pob thema'n ymwneud â chyflawni'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru a'i gyfraniad at gyflawni'r strategaeth genedlaethol, Cymru Iachach.

4. Rheoli Cyflyrau Cronig

Mae llawer o brosiectau'r Cystyrau wedi mynd i'r afael ag atal diabetes a gofal diabetes, gofal cardiaidd ac anadlol. Mae mentrau nyrsio wedi'u datblygu ar gyfer gofalu am glwyfau, eiddilwch, a threal heb gathetr.

Mae'n bwysig bod y llwybrau clinigol yn dwyn ynghyd yr adnoddau yn eu cyfanrwydd ar gyfer pob poblogaeth er mwyn cael yr effaith fwyaf. Mae canolfannau cyflyrau hirdymor yn cael eu profi ac mae ganddynt y potensial i gefnogi'r dull hwnnw, gan ymgorffori addysg cleifion (rhaglenni addysgu cleifion), cydgysylltu gofal, a chymorth seicolegol yn y ddarpariaeth gwasanaethau craidd.

5. Hybu iechyd/leihau anghydraddoldeb

Mae prosiectau'r cystyrau yn ymestyn gwasanaethau i bobl sy'n gaeth i'r cartref ac yn annog grwpiau na fyddent fel arall yn chwilio am gymorth i ddefnyddio'r gwasanaethau.

Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Hyrwyddo bwydo ar y fron
- IRISi — cydnabod trais yn y cartref a chynnig cymorth
- Cynhwysiant digidol
- Mynediad at wasanaethau dermatoleg ar gyfer achosion brys lle'r amheuir canser
- Cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
- Cysylltwyr cymunedol, pwyntiau mynediad sengl a phresgripsiynu cymdeithasol
- Rôl y gweithiwr ceiswyr lloches a phrosiect digartrefedd anghenion cymhleth y clwstw

¹ Contribution of Primary Care to Health Systems and Health
Milbank Q 2005 Sep;83(3):457-502
Barbara Starfield ¹, Leiyu Shi ¹, James Macinko ¹



Buddsoddiad Ychwanegol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (GPPI)¹

Crynodeb

Dechreuodd y **Buddsoddiad Ychwanegol o £5 miliwn mewn GPPI** ym mis Ebrill 2023 i greu swyddi Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd gofal sylfaenol cofrestredig a gweithwyr cymorth.

Mae'r cyllid i gynyddu nifer y Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd fel rhan annatod o dimau a gwasanaethau cymunedol, a thrwy hynny gynyddu mynediad at ofal cymunedol i helpu pobl i aros yn egniol ac yn annibynnol. Bydd y swyddi hyn yn galluogi Rhanbarthau Byrddau Iechyd i sicrhau gwydnwch a chynaliadwyedd hirdymor darpariaeth GPPI cymunedol, a chryfhau'r system.

Yn unol â threfniadau **Datblygiad Clwstwr Carlam**, o dan oruchwyliaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd a Chyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, gwnaed argymhellion ar y ffordd orau o ddefnyddio'r £5 miliwn hwn gan grwpiau cynllunio traws glwstwr (GCTC), yn seiliedig ar gynlluniau clwstwr a GCTC, gyda chymeradwyaeth drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbartho

Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (RhSaGS) yn darparu arweiniad proffesiynol GPPI ac yn cyflenwi proses oruchwyllo ac adrodd effeithiol i Lywodraeth Cymru. Mae'n darparu adroddiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn sy'n dangos gwerth ac effaith systemau'r GPPI ychwanegol yn erbyn set ddata Cymru Gyfan y cytunwyd arni.

Cliciwch ar y cyswllt isod i gael y manylion y tu ôl i'r penawdau; adroddiadau canol blwyddyn a diwedd y flwyddyn:

Additional Allied Health Professions Investment - Primary Care One

Buddsoddiad Ychwanegol mewn Proffesiynau Perthynol i Iechyd - Gofal Sylfaenol Un

Prif fuddiannau

Mae'r buddsoddiad hwn wedi arwain at **102.6 o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Cyfwerth ag Amser Llawn (WTE)** ychwanegol, gan alluogi trawsnewidiad sylweddol hirdymor o wasanaethau AHP gan gynnwys:

- Symudiad i'r sector cynradd a'r gymuned; darparu mynediad ac amseroedd ymateb amserol i set sgiliau ac arbenigedd AHP
- Adeiladu Gallu Cymunedol; osgoi derbyniadau diangen a hwyluso dychweliad diogel ac amserol i unigolion adref o'r ysbyty
- Gweithio clwstwr; datblygu a chyflawni cynlluniau i ddiwallu anghenion iechyd y boblogaeth a chanolbwyntio ar atal



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Kerrie Phipps

Arweinydd Cenedlaethol Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, Perfformiad a Gwella GIG Cymru
sppc@wales.nhs.uk

¹ Proffesiynau Iechyd Cysylltiedig: therapyddion celf, therapyddion drama, therapyddion cerdd, cyniferwyr, dietegwyr, therapyddion galwedigaethol, orthoptyddion, prosthetwyr ac orthotyddion, parafeddygon, ffisiotherapyddion, therapyddion lleferydd ac iaith, seicolegwyr.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Perfformiad
a Gwellu
Performance
and Improvement